

Astudiaeth o amrywio ieithyddol
yng nghyd-destun adfywio ieithyddol
yng Nghymraeg Caerdydd

Traethawd a gyflwynir i fodloni'n rhannol ofynion gradd
Doethuriaeth Prifysgol Caerdydd

Ionawr 2022

Ianto Wyn Gruffydd

Ysgol y Gymraeg



Tabl Cynnwys

Rhestr Tablau	vi
Rhestr Ffigurau	vii
Rhestr Enghreifftiau	ix
Cydnabyddiaeth	x
Crynodeb	xii
1 Cyflwyniad	1
1.1 Cyflwyno'r ymchwil.....	1
1.2 Y Gymraeg yng Nghaerdydd	3
1.3 Y nodweddion ieithyddol dan sylw	4
1.4 Cwestiynau ymchwil	5
1.5 Trefn y traethawd	5
2 Astudiaethau o amrywio a newid ieithyddol mewn cyd-destunau dwyieithog	9
2.1 Amrywio a newid ieithyddol: pobl ifanc.....	9
2.2 Amrywio a newid ieithyddol: cymunedau dwyieithog	13
2.2.1 Caffael ail iaith.....	13
2.2.2 Addysg drochi.....	15
2.2.3 Cymunedau ymfudwyr	15
2.2.4 Ethnigrwydd	17
2.3 Amrywio ieithyddol yng nghyd-destun adfywio ieithyddol	21
2.4 Ymchwil ar amrywio a newid ieithyddol y Gymraeg	24
2.5 Cyffyrddiad ieithyddol.....	30
2.6 Cyffyrddiad tafodieithol	32
2.7 Cyd-gyfeirio a dargyfeirio tafodieithol	33
2.8 Ffuriant tafodiaith newydd	36
2.9 Crynodeb.....	40
3 Methodoleg	43
3.1 Trosolwg o'r fethodoleg	43
3.2 Y gymuned.....	44
3.2.1 Darlun sosio-economaidd Caerdydd.....	45
3.3 Ysgol Uwchradd Gymraeg Caerdydd (YUGC)	47
3.4 Dylunio'r sampl a'r newidynnau cymdeithasol dan sylw.....	47
3.4.1 Rhywedd.....	48
3.4.2 Iaith yr aelwyd	49
3.4.3 Y newidynnau a reolir.....	52
3.4.4 Newidynnau nas ystyrir	52
3.5 Moeseg ymchwil	53
3.6 Recriwtio cyfranogwyr	54
3.7 Natur y sampl	56
3.8 Casglu'r data.....	60
3.8.1 Arsylwi ethnograffegol	60
3.8.2 Y gêm amlen.....	64
3.8.3 Holiaduron cefndirol	66
3.8.4 Y cyfweliad sosioieithyddol	68

3.8.5	Ansawdd y llafariaid caeedig cefn	75
3.8.6	Amrywio yn achos y newidyn (ai) yn y sillaf olaf ddiacen	77
3.9	Dadansoddi'r data	78
3.10	Crynodeb.....	78
4	Arsylwi ethnograffegol.....	79
4.1	Cyflwyno'r ethnograffeg.....	79
4.2	Profiadau adfyriol o arsylwi yn YUGC.....	80
4.2.1	Y gwersi	80
4.2.2	Cymunedau arfer.....	82
4.2.3	Safleoldeb.....	84
4.2.4	Ymagweddau ieithyddol y disgyblion.....	86
4.3	Dadansoddi'r cymunedau arfer	88
4.3.1	Y Sbartheiniaid	88
4.3.2	Y Bechgyn Meme Chat	92
4.3.3	Y Merched Poblogaidd	95
4.3.4	Y Merched Chwaraeon.....	100
4.3.5	Merched Normal	102
4.3.6	Geeks.....	103
4.3.7	Merched Rhun.....	104
4.3.8	Cassie.....	107
4.3.9	Merched Cymraeg.....	109
4.4	Clystyrau arfer	112
4.5	Crynodeb.....	114
5	Amrywio ansoddol y llafariaid caeedig cefn /u(:)/ ac /ʊ/.	115
5.1	Cyflwyniad.....	115
5.2	Cyflwyniad i'r llafariaid caeedig cefn.....	116
5.3	Ymchwil blaenorol i ansawdd llafariaid caeedig cefn y Saesneg	117
5.3.1	Ymchwil blaenorol i ansawdd y llafariaid Saesneg <i>GOOSE</i>	117
5.3.2	Ymchwil blaenorol i ansawdd y llafariaid Saesneg <i>FOOT</i>	118
5.4	Y llafariaid caeedig cefn /u(:)/ ac /ʊ/ yng Nghymru.....	119
5.4.1	Cyfyngiadau ffonotactegol ar y Gymraeg.....	120
5.4.2	Y llafariaid caeedig cefn yn y Gymraeg	122
5.4.3	Y llafariaid caeedig cefn yn Saesneg Cymru	123
5.5	Ffactorau sy'n effeithio ar lafariaid caeedig cefn mewn ymchwil blaenorol.....	125
5.5.1	Ffactorau ieithyddol	125
5.5.2	Ffactorau cymdeithasol.....	130
5.6	Methodoleg.....	132
5.6.1	Codio'r data.....	132
5.6.2	Capio tocynnau.....	134
5.6.3	Dadansoddiad acwstig	135
5.6.4	Normaleiddio.....	135
5.6.5	Setiau llafarog	136
5.6.6	Dadansoddiad ystadegol	137
5.7	Canlyniadau.....	139
5.7.1	Dadansoddiad y setiau llafarog.....	139
5.7.2	Dadansoddiad /l/ yn y coda	141
5.8	Dadansoddiad archwiliadol	144
5.8.1	Ffactorau cymdeithasol.....	144
5.8.2	Ffactorau ieithyddol	159
5.9	Dadansoddiadau modelau effeithiau cymysg.....	171

5.9.1	Model F1 /u(:)/	172
5.9.2	Model F2 /u(:)/	173
5.9.3	Model F1 /ʊ/	174
5.9.4	Model F2 /ʊ/	175
5.10	Trafodaeth	176
5.10.1	I ba raddau y ceir amrywio yn ansawdd y llafariaid caeedig cefn?	176
5.10.2	I ba raddau y mae ffactorau cymdeithasol ac ieithyddol yn effeithio ar ansawdd y llafariaid caeedig cefn yng Nghymraeg Caerdydd?	179
5.11	Crynodeb	185
6	Amrywio ffonolegol (ai) yn y sillaf olaf ddiacen	186
6.1	Cyflwyniad	186
6.2	Ymchwil blaenorol	189
6.2.1	Mari C Jones (1998) – <i>Language Obsolescence and Revitalization</i>	189
6.2.2	Ball, Griffiths a Jones (1988) – ‘Broadcast Welsh’	192
6.2.3	Morgan (1995) – <i>Iaith Newyddion BBC Cymru</i>	193
6.2.4	Jones (2006) – ‘ <i>Datblygiad y Gymraeg fel cyfrwng i gyflwyno ac i drafod y newyddion</i> ’ 194	
6.2.5	R.O. Jones (1988) – ‘Language variation and social stratification: Linguistic change in progress’	195
6.2.6	Awbery (2012) – ‘Welsh language wills and inventories: exploring dialect variation in the past’	196
6.2.7	Thomas (1984) – ‘Linguistic and non-linguistic boundaries in north-east Wales’	197
6.2.8	Casgliadau o’r ymchwil blaenorol a’u perthnasedd i’r ymchwil hwn	198
6.3	Methodoleg	200
6.3.1	Codio	200
6.3.2	Capio tocynnau.....	201
6.3.3	Dadansoddi’r data	202
6.4	Canlyniadau	202
6.5	Dadansoddiad archwiliadol	204
6.5.1	Ffactorau ieithyddol	204
6.5.2	Ffactorau cymdeithasol.....	211
6.6	Dadansoddiad effeithiau cymysg	216
6.7	Trafodaeth	218
6.7.1	Pa amrywiolion y mae’r disgyblion yn eu cynhyrchu ar gyfer (ai)?.....	218
6.7.2	Sut y mae ffactorau cymdeithasol ac ieithyddol yn effeithio ar amrywio (ai)?	222
6.8	Crynodeb	229
7	Trafodaeth	231
7.1	Cyflwyniad	231
7.2	I ba raddau y mae ffactorau cymdeithasol sydd wedi cael sylw mewn ymchwil blaenorol yn effeithio ar Gymraeg disgyblion YUGC?	235
7.3	I ba raddau y mae strwythurau cymdeithasol yn dylanwadu ar amrywio ieithyddol disgyblion YUGC?	241
7.4	I ba raddau mae’r canlyniadau yn gallu taflu goleuni ar oblygiadau a) effaith cyffyrddiad ieithyddol, a b) effaith cyffyrddiad tafodieithol yn datblygu yng nghyd-destun adfywio ieithyddol yng Nghaerdydd?	244
7.4.1	Effaith cyffyrddiad ieithyddol a’r llafariaid caeedig cefn	244
7.4.2	Effaith cyffyrddiad tafodieithol ar (ai) yn y sillaf olaf ddiacen	246
7.5	Ymchwil pellach	251
8	Casgliad	254

Llyfryddiaeth	257
Atodiad A: Ffurflen gwybodaeth am ymchwil i rieni	288
Atodiad B: Ffurflen cydsynio disgyblion	291
Atodiad C: Holiadur cefndirol.....	294
Atodiad Ch: Modiwlau a chwestiynau cyfweiliad	296
Atodiad D: Rhestr o eiriau.....	302

Rhestr Tablau

Tabl 1 – Nifer a chanran siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd 1951–2011 (addaswyd o Thomas 2020, tt. 157–158).....	2
Tabl 2 – Lleoliad disgyblion YUGC ar y raddfa MALIC	47
Tabl 3 – Iaith aelwydydd disgyblion YUGC.....	51
Tabl 4 – Y sampl	56
Tabl 5 – Lleoliad magwraeth rhieni disgyblion o aelwydydd Cymraeg (gyda lleoliad y rhieni a siaradai Gymraeg gyda'r disgybl wedi eu tanlinellu)	57
Tabl 6 – Lleoliad magwraeth rhieni disgyblion o aelwydydd di-Gymraeg.....	58
Tabl 7 – Hunaniaethau cenedlaethol disgyblion o aelwydydd Cymraeg.....	59
Tabl 8 – Hunaniaethau cenedlaethol disgyblion o aelwydydd di-Gymraeg	59
Tabl 9. Gwybodaeth gefndirol am gymuned arfer y 'Sbartheiniaid'.	922
Tabl 10. Gwybodaeth gefndirol am gymuned arfer y 'Bechgyn Meme Chat'	933
Tabl 11. Gwybodaeth gefndirol am gymuned arfer y 'Merched Poblogaidd'	977
Tabl 12. Gwybodaeth gefndirol am gymuned arfer y 'Merched Chwaraeon'	1000
Tabl 13. Gwybodaeth gefndirol am gymuned arfer y 'Merched Normal'.	1022
Tabl 14. Gwybodaeth gefndirol am gymuned arfer y 'Geeks'	1033
Tabl 15. Gwybodaeth gefndirol am gymuned arfer y 'Merched Rhun'.....	1077
Tabl 16. Gwybodaeth gefndirol am gymuned arfer 'Cassie'.	10909
Tabl 17. Gwybodaeth gefndirol am gymuned arfer y 'Merched Cymraeg'	1122
Tabl 18 – Cymunedau a chlystyrau arfer y dosbarth	1144
Tabl 19 – Hyd llafariad mewn geiriau unsillafog ac yn y goben ddiacen yn ne Cymru, wedi'i addasu o Awbery (1984, t.69).....	1200
Tabl 20 – Gwahaniaethau rhwng hyd llafariad y gogledd a'r de mewn geiriau unsillafog, wedi'i addasu o Awbery (1984, t.72)	1211
Tabl 21 – Gwahaniaethau hyd llafariad rhwng y gogledd a'r de mewn gwahanol gyd-destunau sillafog, wedi'i addasu o Awbery (1984, t.74).....	1211
Tabl 22 – Setiau llafarog y llafariad /ʊ/.....	1377
Tabl 23 – Setiau llafarog y llafariad /u(:)/	1377
Tabl 24 – Model effeithiau cymysg F1 /u(:)/	1722
Tabl 25 – Model effeithiau cymysg F2 /u(:)/	1733
Tabl 26 – Model effeithiau cymysg F1 /ʊ/.....	1744
Tabl 27 – Model effeithiau cymysg F2 /ʊ/.....	1755
Tabl 28 – Defnydd o ôl-ddodiaid lluosog fesul oedran yng Nghwm Rhymni yn ôl Jones (1998, t. 96).	1900
Tabl 29 – Defnydd o ôl-ddodiaid lluosog fesul oedran yn Rhosllannerchrugog yn ôl Jones (1998, t. 193).....	1911
Tabl 30 – Nifer a chanran tocynnau amrywiolion (ai) yn y sillaf olaf ddiacen.....	2033
Tabl 31 – Dadansoddiad effeithiau cymysg (ai) yn y sillaf olaf ddiacen	2177

Rhestr Ffigurau

Ffigur 1 – Map o wardiau etholiadol Caerdydd (Teale 2008)	44
Ffigur 2 – Map o wardiau etholiadol Caerdydd ar y raddfa MALIC (Llywodraeth Cymru 2019)	46
Ffigur 3 – Ciplun o grid-destun PRAAT cyfweiliad disgybl YUGC	1333
Ffigur 4 – Ciplun o grid-destun PRAAT cyfweiliad disgybl YUGC	1333
Ffigur 5 – Mesuriadau F1 wedi eu normaleiddio ar gyfer y setiau llafarog.....	1400
Ffigur 6 – Mesuriadau F2 wedi eu normaleiddio ar gyfer y setiau llafarog.....	1411
Ffigur 7 – Mesuriadau F1 wedi eu normaleiddio MEDDWL a RHESWM	1422
Ffigur 8 – Mesuriadau F2 wedi eu normaleiddio MEDDWL a RHESWM	1433
Ffigur 9 – Mesuriadau F1 wedi eu normaleiddio fesul rhywedd ar gyfer /u(:)/	1444
Ffigur 10 – Mesuriadau F2 wedi eu normaleiddio fesul rhywedd ar gyfer /u(:)/	1455
Ffigur 11 – Mesuriadau F1 wedi eu normaleiddio fesul rhywedd ar gyfer /ɔ/	1466
Ffigur 12 – Mesuriadau F2 wedi eu normaleiddio fesul rhywedd ar gyfer /ɔ/	1466
Ffigur 13 – Mesuriadau F1 wedi eu normaleiddio fesul clwstwr arfer ar gyfer /u(:)/	14848
Ffigur 14 – Mesuriadau F2 wedi eu normaleiddio fesul clwstwr arfer ar gyfer /u(:)/	14949
Ffigur 15 – Mesuriadau F1 wedi eu normaleiddio fesul clwstwr arfer ar gyfer /ɔ/	1500
Ffigur 16 – Mesuriadau F2 wedi eu normaleiddio fesul clwstwr arfer ar gyfer /ɔ/	1511
Ffigur 17 – Mesuriadau F1 wedi eu normaleiddio fesul iaith yr aelwyd ar gyfer /u(:)/	1522
Ffigur 18 – Mesuriadau F2 wedi eu normaleiddio fesul iaith yr aelwyd ar gyfer /u(:)/	1533
Ffigur 19 – Mesuriadau F1 wedi eu normaleiddio fesul iaith yr aelwyd ar gyfer /ɔ/.....	1544
Ffigur 20 – Mesuriadau F2 wedi eu normaleiddio fesul iaith yr aelwyd ar gyfer /ɔ/.....	1555
Ffigur 21 – Mesuriadau F1 wedi eu normaleiddio fesul tasg ar gyfer /u(:)/	1566
Ffigur 22 – Mesuriadau F2 wedi eu normaleiddio fesul tasg ar gyfer /u(:)/	1577
Ffigur 23 – Mesuriadau F1 wedi eu normaleiddio fesul tasg ar gyfer /ɔ/.....	15858
Ffigur 24 – Mesuriadau F2 wedi eu normaleiddio fesul tasg ar gyfer /ɔ/.....	15858
Ffigur 25 – Mesuriadau F1 wedi eu normaleiddio fesul cyd-destun rhagflaenol ar gyfer /u(:)/	16060
Ffigur 26 – Mesuriadau F2 wedi eu normaleiddio fesul cyd-destun rhagflaenol ar gyfer /u(:)/	1611
Ffigur 27 – Mesuriadau F1 wedi eu normaleiddio fesul cyd-destun rhagflaenol ar gyfer /ɔ/	1622
Ffigur 28 – Mesuriadau F2 wedi eu normaleiddio fesul cyd-destun rhagflaenol ar gyfer /ɔ/	1633
Ffigur 29 – Mesuriadau F1 wedi eu normaleiddio fesul cyd-destun olynol ar gyfer /u(:)/ ..	1644
Ffigur 30 – Mesuriadau F2 wedi eu normaleiddio fesul cyd-destun olynol ar gyfer /u(:)/ ..	1655
Ffigur 31 – Mesuriadau F1 wedi eu normaleiddio fesul cyd-destun olynol ar gyfer /ɔ/.....	1666
Ffigur 32 – Mesuriadau F2 wedi eu normaleiddio fesul cyd-destun olynol ar gyfer /ɔ/.....	1677
Ffigur 33 – Mesuriadau F1 wedi eu normaleiddio fesul math o air ar gyfer /u(:)/	16868
Ffigur 34 – Mesuriadau F2 wedi eu normaleiddio fesul math o air ar gyfer /u(:)/	16969
Ffigur 35 – Mesuriadau F1 wedi eu normaleiddio fesul math o air ar gyfer /ɔ/.....	16969
Ffigur 36 – Mesuriadau F2 wedi eu normaleiddio fesul math o air ar gyfer /ɔ/.....	1700
Ffigur 37 – Tiriogaeth -a (o'i chymharu ag -e) yn y sillaf olaf ddiacen yn y Gymraeg yng Nghymru (Thomas a Thomas 1989, t.41)	1877

Ffigur 38 – Ciplun o drawsgrifiad ELAN wedi'i godio ar gyfer dadansoddi nodwedd (ai) disgybl o YUGC	2011
Ffigur 39 – Canran amrywiolion (ai) fesul orgraffyn	2055
Ffigur 40 – Canran amrywiolion (ai) fesul math o air	2066
Ffigur 41 – Canran amrywiolion (ai) fesul nifer sillafoedd.....	2077
Ffigur 42 – Canran amrywiolion (ai) fesul cyd-destun rhagflaenol	20808
Ffigur 43 – Canran amrywiolion (ai) fesul cyd-destun olynol	2100
Ffigur 44 – Canran amrywiolion (ai) fesul rhywedd.....	2111
Ffigur 45 – Canran amrywiolion (ai) fesul iaith yr aelwyd	2122
Ffigur 46 – Canran amrywiolion (ai) fesul tasg	2144
Ffigur 47 – Canran amrywiolion (ai) fesul clwstwr arfer	2155

Rhestr Enghreifftiau

Enghraifft 1 – Trey.....	888
Enghraifft 2 – Robbie	89
Enghraifft 3 – Robbie	89
Enghraifft 4 – Dafydd	900
Enghraifft 5 – Robbie	900
Enghraifft 6 – Angharad	900
Enghraifft 7 – Endaf	911
Enghraifft 8 – Trey.....	911
Enghraifft 9 – Ioan.....	944
Enghraifft 10 – Angharad	955
Enghraifft 11 – Trey.....	966
Enghraifft 12 – Leia	966
Enghraifft 13 – Maya.....	977
Enghraifft 14 – Mair	988
Enghraifft 15 – Mair	988
Enghraifft 16 – Camilla	99
Enghraifft 17 – Mair	99
Enghraifft 18 – Llinos	1000
Enghraifft 19 – Llinos	1011
Enghraifft 20 – Gwen	1033
Enghraifft 21 – Sadia	1055
Enghraifft 22 – Sadia	1066
Enghraifft 23 – Cassie.....	1077
Enghraifft 24 – Cassie.....	1088
Enghraifft 25 – Cassie.....	1088
Enghraifft 26 – Leia	1100
Enghraifft 27 – Ibrahim	21919
Enghraifft 28 – Maya.....	2210
Enghraifft 29 – Endaf	23939
Enghraifft 30 – Iwan.....	23939

Cydnabyddiaeth

Cafodd y traethawd hwn ei oruchwylio gan Dr Jonathan Morris a Dr Iwan Wyn Rees o Brifysgol Caerdydd. Hoffwn ddiolch iddynt am eu cefnogaeth, eu cymorth, eu hyfforddiant a'u hamynedd dros y blynyddoedd diwethaf. Rhoddodd y ddau yr anogaeth imi yn y lle cyntaf i geisio am ddoethuriaeth, a meithrinwyd fy niddordeb ym maes sosioieithyddiaeth a thafodieitheg gan y ddau ers fy nyddiau fel myfyriwr israddedig. Hoffwn ddiolch ymhellach i Jon fel cyfarwyddwr astudiaethau ymchwil ôl-raddedig hefyd am gynnal sesiynau hyfforddi yn yr Ysgol a sicrhodd fod gennyf sylfaen o sgiliau er mwyn dadansoddi ymchwil sosioieithyddol cyfoes.

Hoffwn ymestyn fy niolchiadau i Ysgol y Gymraeg yn ehangach am fy nghroesawu fel myfyriwr israddedig hyd at ddiwedd y cyfnod ymchwil hwn. Yn benodol hoffwn ddiolch i'r Athro Diarmait Mac Giolla Chríost, Dr Rhiannon Marks, Dr Dylan Foster Evans, Dr Siwan Rosser, Dr Llion Pryderi Roberts, Dr Angharad Naylor a Dr Jeremy Evas am eu cymorth amrywiol dros gyfnod y PhD. Hoffwn ddiolch hefyd i Cadi Thomas a chriw'r swyddfa am fy helpu dros y blynyddoedd diwethaf ac am fod yn griw croesawgar a chyfeillgar iawn a oedd wastad yn barod i fy helpu.

Yn Ysgol y Gymraeg hefyd treuliais lawer dydd gyda fy nghyd-fyfyrwyr yn swyddfa'r ôl-raddedigion dros y blynyddoedd diwethaf. Hoffwn ddiolch yn benodol i Katharine, Jack, Dewi, Sara, Kaisa, Nia a mwy am eu cyngor a'u cyfeillgarwch dros y blynyddoedd diwethaf. Crëwyd cymuned ymchwil hyfryd i fod yn rhan ohoni, a mwynheais dros ben yn eu cwmni. Mae diolch arbennig yn mynd i Katharine hefyd am brawf-ddarllen gwahanol benodau o'r traethawd hwn – rwy'n edrych ymlaen at yr adeg pan fydd modd talu'r pwyth yn ôl. Hoffwn ddiolch hefyd i aelodau o Ysgol ENCAP am fy nghroesawu o'r tu allan i'w hysgol i rwydweithio gyda sosioieithyddion eraill trwy grwpiau darllen a sesiynau amrywiol, yn benodol hoffwn ddiolch i Dr Mercedes Durham am drafod agweddau o'r traethawd gyda mi, ac i Rowan Campbell am ei chymorth gyda dadansoddiadau ystadegol ac acwstig, yn ogystal a chymorth cyffredinol ac ymarferol gyda'r ymchwil.

Mae fy ffrindiau a fy nheulu wedi bod gyda fi dros bob cam o'r ffordd hefyd. Hoffwn ddiolch felly i Nannon, Dad, Mam, Elin, Nain a Taid Llangefni a Nain a Taid Borth am eu cefnogaeth. Diolch pellach i Nannon yn benodol am wneud bob dim o gwmpas y tŷ wrth imi geisio dod i ben â'r traethawd ac yn fwy cyffredinol am ei chefnogaeth a'i hamynedd dros y pedair blynedd ddiwethaf a mwy. Diolch enfawr i Dad am brawfddarllen rhai o'r penodau ac am ei adborth manwl dros ben. Diolch hefyd i Brengain, Aron a'r teulu am eu cymorth wrth geisio canfod lleoliad i'r ymchwil, i gyfathrebu gydag unigolion o'r ysgol, ac am y cymorth wrth berthnasu'r offerynnau ymchwil i ddisgyblion 'Ysgol Uwchradd Gymraeg Caerdydd'. Hoffwn hefyd ddiolch i'm ffrindiau, rhai ohonynt a oedd yn gyd-breswylwyr, sydd wedi fy nioddef yn ceisio esbonio beth yw blaenu-GOOSE iddynt gan gwaith drosodd.

Cafodd yr ymchwil hwn ei ariannu'n rhannol gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Hoffwn ddiolch iddynt am yr ysgoloriaeth a alluogodd imi gynnal yr ymchwil hwn, yn ogystal â'r hyfforddiant gwych a ddarparwyd ganddynt, a'r cyfle i rwydweithio gyda chyd-fyfyrywyr ymchwil eraill trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn olaf, hoffwn ddiolch i Ysgol Uwchradd Gymraeg Caerdydd, y prifathro, pennaeth blwyddyn 10, yr athrawes Gymraeg, yr athrawes BAC a'r disgyblion oll a gafodd eu harsylwi a'u cyfweld. Diolch iddynt am roi'r cyfle imi bortreadu Cymraeg Caerdydd am y tro cyntaf erioed. Ni fyddai'r ymchwil hwn wedi bodoli hebddynt ac rwy'n ddiolchgar iawn i bob un ohonynt am chwarae eu rhan.

Crynodeb

Mae'r traethawd hwn yn dadansoddi amrywio ieithyddol ymysg siaradwyr Cymraeg dwyieithog mewn ysgol uwchradd Gymraeg yng Nghaerdydd. Lleolir yr ymchwiliad yng nghydestun adfywio ieithyddol yng Nghaerdydd lle nad oes tafodiaith draddodiadol yn bodoli bellach wedi dirywiad y Wenhwyseg. Mae cyffyrddiad tafodieithol gydag amrywiadau tafodieithol traddodiadol oherwydd adfywio ieithyddol ac ymfudo siaradwyr yn ogystal â chyffyrddiad ieithyddol gyda'r Saesneg felly ar waith yma. Mae'r ymchwiliad hwn yn cyfrannu at gorff o ymchwiliad blaenorol ar y Gymraeg trwy ddefnyddio dulliau ethnograffegol y drydedd don er mwyn archwilio effaith strwythurau cymdeithasol ar Gymraeg Caerdydd.

Nod cyntaf yr astudiaeth hon yw dadansoddi effaith ystod o ffactorau ieithyddol a chymdeithasol ar iaith disgyblion Ysgol Uwchradd Gymraeg Caerdydd. Mae canfod effaith ystod o ffactorau cymdeithasol yn gyffredin mewn ymchwiliad sosioieithyddol ac mae ymchwiliad blaenorol wedi canfod bod ffactorau megis iaith yr aelwyd a rhywedd yn gallu effeithio ar amrywio yn y Gymraeg (Morris 2013, 2017, 2021). Mae astudiaethau eraill wedi canfod nad oes gwahaniaethau rhwng disgyblion o wahanol gefndiroedd ieithyddol neu strwythurau cymdeithasol (Mayr et al. 2017, Mennen et al. 2020). Oherwydd hynny, ail nod yr astudiaeth hon yw archwilio effaith rhwydweithiau cymdeithasol ar amrywio ieithyddol y disgyblion trwy ddefnyddio'r cysyniad o gymunedau a chlystyrau arfer (Lave a Wenger 1991; Wenger 1998). Mae cymunedau a chlystyrau arfer yn nodweddiadol mewn ymchwiliad ethnograffegol sy'n nodweddiadol o waith sosioieithyddol trydedd don (Eckert 2012).

Bodola Cymraeg Caerdydd yng nghydestun adfywio ieithyddol, felly bydd yr ymchwiliad hwn yn cyfrannu at gorff o waith ar amrywio ieithyddol mewn cyd-destun adfywio ieithyddol yn ogystal (e.e. Nance 2013; Kasstan 2017; Mooney 2019). O ystyried hynny, nod olaf yr astudiaeth hon yw canfod effeithiau posibl cyd-destun o adfywio ieithyddol yn berthnasol i gyffyrddiad ieithyddol a chyffyrddiad tafodieithol. Mae cyffyrddiad ieithyddol yng nghydestun adfywio ieithyddol yn aml yn arwain at drosglwyddo o'r iaith fwyafrifol i'r iaith leiafrifol (Jones 1998; King et al. 2009; Nance 2013). Yn berthnasol i gyd-destun

Caerdydd, bydd cyffyrddiad tafodieithol ag amrywiadau'r tafodieithoedd traddodiadol yn ogystal â safoni posibl (Thomas 1991, Jones 1998) o ddiddordeb i'r ymchwil hwn yn ogystal.

Cafodd y data ei gasglu trwy gyfweiliadau sosioieithyddol a thasg rhestr geiriau gan 24 o ddisgyblion uwchradd Cymraeg 14–15 oed. Fe gasglwyd gwybodaeth ddemograffegol ar y disgyblion cyn rhannu'r sampl yn gyfartal ar sail iaith aelwyd a rhywedd. Cafodd y disgyblion eu harsylwi trwy ddulliau ethnograffegol yn ogystal.

Dengys yr ymchwil fod llafariaid caeedig cefn Cymraeg Caerdydd yn blaenu. Gellid dweud bod /u(:)/ yn blaenu i safle eithaf blaen, a /ʊ/ i safle ganol, fel y gwelir mewn amrywiadau o dde Lloegr (Ferragne a Pellegrino 2010, t. 28). O safbwynt uchder y llafariaid, trwy gymharu â data blaenorol (Ferragne a Pellegrino 2010, t. 28; Mayr a Davies 2011; Mayr et al. 2017) gellid dweud bod ansawdd mwy agored gan llafariaid caeedig cefn disgyblion Ysgol Uwchradd Gymraeg Caerdydd, na mewn amrywiadau Saesneg yng Nghymru ac amrywiadau Cymraeg mwy traddodiadol. Cafwyd amrywio ar sail arddull trwy'r dadansoddiad tasg, a ddengys ansoddau amrywiol mewn cyd-destunau a oedd yn amrywio mewn ffurfioldeb. Nid oedd iaith yr aelwyd yn effeithio ar amrywio yn y dadansoddiadau effeithiau cymysg, sy'n cyd-fynd ag ymchwil diweddar ar y Gymraeg lle nad yw'r Gymraeg yn iaith gymunedol gref (Mayr et al. 2017).

O safbwynt yr ail nodwedd, gwelir mai'r /ai/ safonol yw'r amrywiolyn mwyaf cyffredin gan ddisgyblion Ysgol Uwchradd Gymraeg Caerdydd. Mae'r canlyniad hwn yn cyd-fynd â chanlyniadau Jones (1998) yn Rhosllannerchrugog a Rhymni lle'r oedd defnydd o'r amrywiolyn safonol ar gynnydd ymysg pobl ifanc yno hefyd. Gwelir yn nadansoddiad y ffactor arwyddocaol tasg fod cyfradd uwch o'r amrywiolyn tafodieithol traddodiadol /ɛ/ mewn sgwrs ddigymell na'r amrywiolyn safonol /ai/. Felly ceir amrywio ffonolegol ar sail arddull yn iaith disgyblion YUGC, a olyga fod disgyblion YUGC yn berchen ar wahanol arddulliau a chyweiriau yn y Gymraeg.

Nid oedd clwstwr arfer na rhywedd yn effeithio ar y naill nodwedd dan sylw yn yr ymchwil hwn. Golyga hyn nad oedd y ddwy ffactor a welir mewn ymchwil blaenorol sy'n ymwneud â rhwydweithiau cymdeithasol yn ffactorau arwyddocaol yn yr ymchwil hwn.

Roedd effaith iaith yr aelwyd yn amrywio. Roedd yn arwyddocaol ar gyfer newidyn (ai) yn y sillaf olaf ddiacen, ond nid oedd yn arwyddocaol ar gyfer y llafariaid caeedig cefn. Yn olaf, gwelir gwahanol oblygiadau ar gyfer damcaniaeth ffurfiant tafodiaith newydd yng nghydestun adfywio ieithyddol yn yr ymchwil hwn. Nid ymddengys bod amrywiad Cymraeg Caerdydd yn ffocysu ac mae'n debygol bod hynny oherwydd y cyd-destun o adfywio ieithyddol.

1 Cyflwyniad

1.1 Cyflwyno'r ymchwil

Mae'r traethawd hwn yn dadansoddi amrywio ieithyddol ymysg siaradwyr Cymraeg dwyieithog mewn ysgol uwchradd Gymraeg yng Nghaerdydd (YUGC o hyn allan). Yn benodol, mae'r ymchwil yn ymwneud ag amrywio seinegol a ffonolegol yng nghyd-destun adfywio ieithyddol, sy'n sefyllfa unigryw o gyffyrddiad ieithyddol a chyffyrddiad tafodieithol. Dadansoddwyd yr amrywio hwn gyda dulliau meintiol ystadegol er mwyn archwilio effaith gwahanol ffactorau ieithyddol a chymdeithasol.

Bydd yr ymchwil hwn yn cynnig dadansoddiad trylwyr o effaith gwahanol ffactorau ieithyddol a chymdeithasol ar amrywio ieithyddol yng Nghymraeg Caerdydd. Mae'r ddwy agwedd hon o ymchwil sosioieithyddol yn hanfodol er mwyn cynnal astudiaeth gyfredol, gyfoes ar amrywio ieithyddol, ond yn ddwy agwedd nad ydynt wedi eu defnyddio mewn ymchwil ar dafodieithoedd Cymraeg i'r un graddau ac y maent mewn ymchwil ar dafodieithoedd Saesneg. Yn yr un modd, bydd yr ymchwil hwn yn defnyddio fframwaith sosioieithyddol trydedd don wrth archwilio effaith rhwydweithiau cymdeithasol ar amrywio ieithyddol disgyblion YUGC trwy ddefnyddio'r cysyniad o gymunedau a chlystyrau arfer (Lave a Wenger 1991; Wenger 1998).

Gan y bydd yr ymchwil hwn yn cael ei gynnal yng nghyd-destun adfywio ieithyddol, bydd yn cyfrannu at y corff o waith ar amrywio ieithyddol yng nghyd-destun adfywio ieithyddol mewn nifer o ieithoedd (e.e. Nance 2013; Kasstan 2017; Mooney 2019). Diffinnir adfywio ieithyddol fel creu neu ail-greu swyddogaethau i iaith sydd dan fygythiad, gyda'r nod o gynyddu defnydd neu nifer siaradwyr yr iaith honno (King 2001, t. 23). Yng nghyd-destun adfywio ieithyddol mae cyffyrddiad ieithyddol a throsglwyddo o'r iaith fwyafrifol yn berthnasol (Jones 1998; King, Watson, Keegan et al. 2009; Nance 2013). Yn ogystal, gan ystyried cyd-destun o adfywio ieithyddol penodol yng Nghaerdydd, a chyfraniad siaradwyr tafodieithoedd traddodiadol y Gymraeg yn ymfudo i Gaerdydd, bydd cyffyrddiad tafodieithol hefyd o ddiddordeb i'r ymchwil hwn.

Un o brif ddibenion yr ymchwil hwn yw archwilio Cymraeg Caerdydd fel amrywiad tafodieithol o'r Gymraeg mewn ymchwil sosioieithyddol am y tro cyntaf. Yn ôl ystadegau'r cyfrifiad (Llywodraeth Cymru, 2011), lleihaodd nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru o 582,000 (20.5%) i 562,000 (19%). Mewn cyferbyniad â hyn, tyfodd nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd o 32,504 (11.1%) i 54,504 (15.7%) (Thomas 2020, t. 158) fel y gwelir isod yn Tabl 1. O ganlyniad, Caerdydd yw un o'r unig ardaloedd yng Nghymru lle mae'r Gymraeg yn cynyddu o safbwynt nifer y siaradwyr a sydd felly'n sefyllfa ieithyddol gymharol sefydlog.

Tabl 1 – Nifer a chanran siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd 1951–2011 (addaswyd o Thomas 2020, tt. 157–158)

BLWYDDYN	NIFER Y BOBLOGAETH	NIFER Y SIARADWYR CYMRAEG	CANRAN Y SIARADWYR CYMRAEG
1951	243,632	9,623	3.95
1961	256,270	11,545	4.51
1971	290,557	12,930	4.45
1981	269,459	14,245	5.29
1991	272,557	18,071	6.63
2001	292,150	32,504	11.13
2011	346,090	54,504	15.7

Lleolir yr ymchwil yn YUGC, sy'n un o dair ysgol uwchradd Gymraeg yng Nghaerdydd. Cynhaliwyd y gwaith maes rhwng mis Hydref 2018 a mis Chwefror 2019. Yn gyntaf cynhaliwyd cyfnod o arsylwi ethnograffegol chwe wythnos o hyd, a chasglwyd y data trwy gynnal cyfweiliadau sosioieithyddol. Cynhaliwyd cyfnod o arsylwi ethnograffegol er mwyn dadansoddi amrywio ar sail dehongliad o rwydweithiau cymdeithasol y dosbarth. Lluniwyd y cyfweiliadau sosioieithyddol gyda thasg cyfweiliad a thasg rhestr geiriau er mwyn ennyn arddulliau sy'n amrywio mewn ffurfioldeb gan y disgyblion. Roedd y disgyblion oll rhwng 14 a 15 oed ym mlwyddyn 10 yn YUGC ac roeddent oll wedi mynychu ysgolion cynradd

Cymraeg felly wedi caffael y Gymraeg yn ifanc. Er hynny, dosbarthwyd y disgyblion yn rhai o aelwydydd Cymraeg a rhai o aelwydydd di-Gymraeg.

1.2 Y Gymraeg yng Nghaerdydd

Cafodd Caerdydd ei hysgol gynradd Gymraeg gyntaf yn 1949 pan sefydlwyd Ysgol Gymraeg Caerdydd ar gyfer pedwar ar bymtheg o ddisgyblion yn Ninian Park Road. Symudodd yr ysgol i Landaf ym 1954 a newid ei henw i Ysgol Bryntaf. Sefydlwyd yr ysgol uwchradd Gymraeg gyntaf yng Nghaerdydd, Ysgol Glantaf, ym 1978 oherwydd galw mawr am Ysgol Uwchradd Gymraeg yn y ddinas gyda rhieni cyn hynny yn gorfod gyrru eu plant i Ysgolion Rhydfelen, Pontypridd (nawr Ysgol Gyfun Garth Olwg) a Llanhari, ger Pont-y-clun (Jones 2020, t. 150; Aitchison a Carter 2000, tt. 80–81).

Yn 2007 fe agorwyd ysgolion cynradd Tan yr Eos, Y Dderwen (nawr Pen y Pîl), Cefn Coed (nawr Nant Caerau) a Phenygroes yng Nghaerdydd oherwydd pwysau cyson gan fudiadau rhieni megis Rhieni ar gyfer Addysg Gymraeg (RhAG) (Thomas 2013, t. 113). Yn ogystal, yn 2013, agorwyd trydedd ysgol uwchradd Gymraeg yng Nghaerdydd oherwydd cydweithio rhwng RhAG a Chyngor Caerdydd (Thomas 2013, t. 87). Erbyn 2018/19 roedd 5487 o ddisgyblion mewn addysg gynradd cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd, a 3006 mewn addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd sef, cyfanswm o 8493 (Thomas 2020, t. 165).

Mae mewnfudo o rannau eraill o Gymru yn rheswm arall dros dwf y Gymraeg yng Nghaerdydd ar droad yr 21ain ganrif. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer yr ymfudwyr o gefn gwlad Cymru yn cael eu denu at fywyd yn y brifddinas (Aitchison a Carter 1987, t. 492; Arsyllfa Wledig Cymru, tt. 79–80). Gyda'r mudo daeth amrywiaeth o bobl o ardaloedd ar hyd a lled Cymru, lle yn aml iawn, Cymraeg oedd eu prif iaith. Sonia Aitchison a Carter (1987, t. 492) am 'a quiet middle class revolution' a ddechreuodd wedi dyfodiad S4C, BBC a HTV yng Nghaerdydd a roddodd broffil uwch i'r Gymraeg yno (Aitchison a Carter 1987, t. 490). Dywedir i dwf yr iaith Gymraeg gychwyn wrth sefydlu'r dosbarth canol Cymraeg yn y ddinas ar ddechrau'r 1970au (Aitchison a Carter 2000, t. 80). Amlinellir ganddynt gysylltiad rhwng ardaloedd lle y siaredir y mwyaf o Gymraeg yn y cyfnod hwnnw a'r ardaloedd o statws

cymdeithasol uwch megis Pen-y-lan, Rhiwbeina a Llandaf. Erbyn hyn, mae'r carfanau dosbarth canol Cymraeg hyn yn dal i fodoli ac wedi tyfu i wahanol rannau o'r ddinas.

Er pwysigrwydd ymfudo ac addysg Gymraeg i dwf y Gymraeg yng Nghaerdydd, mae'n bwysig cydnabod bod y Gymraeg wedi bodoli yng Nghaerdydd cyn y 1970au. Cyfrifiad 1891 oedd y cyfrifiad cyntaf i ofyn cwestiwn er mwyn canfod nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, ac ynddo roedd 12 492 (11%) o boblogaeth dinas Caerdydd wedi dweud eu bod yn medru'r iaith. Roedd y ganran hefyd yn llawer uwch ym mhlwyfi presennol Caerdydd y tu allan i ganol y ddinas – gyda 34.47% o boblogaeth y plwyfi ymylol yn medru'r Gymraeg (Thomas 2020, t. 143). Yn benodol roedd 77.02% yn medru'r Gymraeg ym mhlwyf Pentyrch a 64.98% ym mhlwyf Llys-faen (Thomas 2020, t. 143). O ganlyniad felly roedd y Gymraeg yn fyw ym mhlwyfi Caerdydd yn ystod yr 20fed ganrif.

Mae'n debygol y byddai'r trigolion hynny wedi siarad tafodiaith y Wenhwyseg, tafodiaith draddodiadol y de-ddwyrain, nad yw'n gyffredin ymysg siaradwyr y de-ddwyrain erbyn hyn. Roedd y Wenhwyseg yn dafodiaith a siaredid yn eang ar draws de-ddwyrain Cymru, gyda bri cymdeithasol a llenyddol ynghlwm iddi (Jones 1998, t. 46). Er hynny, nid oedd cyfranogwyr iau yn Jones (1998) yng Nghwm Rhymini yn defnyddio'r Wenhwyseg fel y gwnâi'r cyfranogwyr hyn yno. Mae tystiolaeth o'r Wenhwyseg yng Nghaerdydd mor ddiweddar â'r 1950au (Foster Evans 2018). Erbyn heddiw nid oes llawer yn medru'r Wenhwyseg draddodiadol bellach, ac nid oes cysylltiad rhyngddi a thafodiaith newydd Caerdydd.

1.3 Y nodweddion ieithyddol dan sylw

Mae dwy nodwedd ieithyddol yn cael eu dadansoddi yn yr ymchwil hwn. Y nodwedd gyntaf dan sylw yw ansawdd y llafariaid caeedig cefn /u(:)/ ac /ʊ/ yng Nghymraeg disgyblion YUGC. Bydd ansawdd y llafariaid yn cael ei ddadansoddi trwy ddefnyddio dulliau acwstig. Yr ail nodwedd dan sylw yw amrywio (ai) yn y sillaf olaf ddiacen. Bydd amrywio'r nodwedd hwn yn cael ei ddadansoddi'n glybodol.

Mae'r llafariaid caeedig cefn o ddi-ddordeb gan fod cyfle yma i ddadansoddi blaenu'r llafariaid caeedig cefn /u(:)/ ac /ʊ/ yn y Gymraeg am y tro cyntaf. Mae blaenu'r llafariaid

caeedig cefn, yn benodol, blaenu'r llafariad *GOOSE* yn y Saesneg, yn rhywbeth sy'n gyffredin mewn ansawdd llafariad caeedig cefn yn y Saesneg ar draws y byd (e.e Labov 1994, Hay et al. 2008; Holmes-Elliott 2015). Bydd yr astudiaeth hon yn dadansoddi ansawdd y llafariad caeedig cefn yn gyffredinol, felly bydd pa mor agored neu gaeedig yw ansawdd y llafariad yn cael ei fesur, yn ogystal â pha mor flaen neu gefn yw ansawdd y llafariad.

Yn ail, dadansoddir amrywio yn achos y newidyn (ai) yn y sillaf olaf ddiacen. Mae tri orgraffyn <ae>, <ai> ac <au> yn cynrychioli (ai) yn y sillaf olaf ddiacen, gydag amrywiolion /ai/ /ε/ ac /a/ yn bosibl ar gyfer pob un (Jones 1998). Dewiswyd y nodwedd hon er mwyn mesur effaith cymysgu tafodieithol a safoni ar Gymraeg YUGC. Byddai defnydd o amrywiolyn /ai/ yn awgrymu bod safoni ar waith, gan nad yw'n ffurf lafar draddodiadol yn y Gymraeg. Byddai defnydd /ε/ ac /a/ yn awgrymu bod effaith tafodieithoedd traddodiadol y Gymraeg a chyffyrddiad tafodieithol posibl ar waith.

1.4 Cwestiynau ymchwil

Gan ystyried y dibenion sydd wedi eu cyflwyno uchod ar gyfer yr ymchwil hwn, cyflwynir y cwestiynau ymchwil dan sylw yn y traethawd hwn fel a ganlyn:

1. I ba raddau y mae ffactorau ieithyddol a chymdeithasol yn effeithio ar ansawdd llafariad caeedig cefn /u(:)/ ac /ʊ/ ac amrywio (ai) yn y sillaf olaf ddiacen yn lleferydd disgyblion YUGC?
2. I ba raddau y mae strwythurau cymdeithasol yn gallu taflu goleuni ar batrymau amrywio ieithyddol disgyblion YUGC?
3. O ystyried cyd-destun o adfywio ieithyddol yng Nghaerdydd, i ba raddau y gellir trafod y canlyniadau mewn perthynas ag a) effaith cyffyrddiad ieithyddol, a b) effaith cyffyrddiad tafodieithol yn datblygu yng nghyd-destun adfywio ieithyddol yng Nghaerdydd?

1.5 Trefn y traethawd

Bydd y traethawd yn dilyn y drefn ganlynol felly. Ym mhennod 2, adolygir gwahanol ymchwil

blaenorol ar bynciau sy'n cwmpasu'r astudiaeth hon: amrywio a newid ieithyddol ar bobl ifanc (2.1), siaradwyr a chymunedau dwyieithog (2.2), cyd-destunau adfywio ieithyddol (2.3), ymchwil blaenorol ar amrywio a newid ieithyddol y Gymraeg (2.4), cyffyrddiad ieithyddol (2.5), cyffyrddiad tafodieithol (2.6), cyd-gyfeirio a dargyfeirio tafodieithol (2.7) a ffurfiant tafodiaith newydd (2.8). Bydd yr adolygiad hwn felly'n cynnig amlinelliad o gefndir damcaniaethol y traethawd, yn ogystal â gosod cyd-destun ymchwil i'r ymchwil hwn.

Ym mhennod 3, cyflwynir y fethodoleg dan sylw yn yr ymchwil hwn. Yn gyntaf, tynnir sylw at leoliad yr ymchwil hwn sef Caerdydd (3.2), yn ogystal â'r ysgol dan sylw yn yr ymchwil hwn (3.3). Rhoddir sylw i'r cyfranogwyr hefyd (3.6) cyn manylu ar y dulliau casglu data yn ehangach (0) gyda sylw i'r gwahanol offerynnau ymchwil: yr arsylwi ethnograffegol, y gêm amlen (Matthews 2005), yr holiadur cefndirol a'r cyfweiliad sosioieithyddol. Ym mhennod 4, ceir sylw pellach i'r arsylwi ethnograffegol a gyflwynwyd ym mhennod 3, gan gynnwys mwy o fanylion adfyfyriol ar y cyfnod arsylwi (4.2). Ceir dadansoddiad o bob cymuned arfer a ffurfiodd y sampl cyfweld yn y bennod hon (4.3), yn ogystal â'r clystyrau arfer a gafodd eu dethol ar gyfer y dadansoddiadau ystadegol (4.4).

Penodau 5 a 6 yw'r penodau dadansoddol. Yn y penodau hynny, cyflwynir yn y lle cyntaf ymchwil blaenorol ar y nodweddion dan sylw yn y Gymraeg a'r Saesneg gan gynnwys gwaith penodol ar unrhyw ffactorau ieithyddol a chymdeithasol wedi eu hymchwilio mewn astudiaethau blaenorol. Yn ail, cyflwynir y fethodoleg gan gynnwys manylion ar godio, y dadansoddiadau acwstig, a'r dadansoddiadau ystadegol. Yn olaf cyflwynir y canlyniadau a cheir trafodaeth ar ganlyniadau'r dadansoddiadau hyn.

Yn benodol, ym mhennod 5 dadansoddir y llafariaid caeedig cefn /u(:)/ ac /ʊ/ a gofynnir yr is-gwestiynau ymchwil canlynol:

1. I ba raddau y ceir amrywio yn ansawdd y llafariaid caeedig cefn?
2. I ba raddau y mae ffactorau cymdeithasol ac ieithyddol yn effeithio ar ansawdd y llafariaid caeedig cefn?

Ceir amrywio ansoddol rhwng y ddwy lafariad gaeedig gefn yng Nghymraeg YUGC. Mae'r ddwy lafariad yn blaenu a gellid dweud bod /u(:)/ yn blaenu i safle eithaf blaen, a /ʊ/ i safle ganol, fel y gwelir mewn amrywiadau o dde'r Deyrnas Gyfunol (Ferragne a Pellegrino 2010, t. 28). O safbwynt uchder y llafariad, gellid dweud bod ansawdd mwy agored gan lafariad caeedig cefn disgyblion YUGC, nag sydd wedi ei gofnodi mewn amrywiadau Saesneg eraill ac amrywiadau Cymraeg mwy traddodiadol. Gwelir hefyd fod gwahanol ffactorau cymdeithasol ac ieithyddol yn effeithio ar ansawdd llafariad caeedig cefn disgyblion YUGC. Roedd amrywio arddulliadol ar waith trwy'r dadansoddiad tasg, gyda disgyblion yn tueddu i gynhyrchu fformantau uwch, ac felly ansawdd llafariad caeedig cefn blaenach ac mwy agored mewn cyd-destun mwy anffurfiol. Gwelir cyfyngiadau ieithyddol hefyd ar sail dadansoddiad setiau llafarog. Nid oedd iaith yr aelwyd yn effeithio ar amrywio yn y dadansoddiadau effeithiau cymysg, sy'n cyd-fynd ag ymchwil diweddar ar y Gymraeg (Morris 2013, 2017; Mayr et al. 2017).

Ym mhennod 6, dadansoddir yr amrywio a geir yn achos y newidyn (ai) yn y sillaf olaf ddiacen, a gofynnir yr is-gwestiynau ymchwil canlynol:

1. Pa amrywiolion y mae disgyblion YUGC yn eu cynhyrchu ar gyfer (ai) yn y sillaf olaf ddiacen?
2. Sut y mae ffactorau ieithyddol a chymdeithasol yn effeithio ar amrywio (ai) yn y sillaf olaf ddiacen?

Gwelir amrywio yn achos (ai) y sillaf olaf ddiacen yn bresennol gan ddisgyblion YUGC. Gwelir mai'r /ai/ safonol yw'r amrywiolyn mwyaf cyffredin gan ddisgyblion YUGC. Er hynny, dengys dadansoddiad tasg fod amrywio arddulliadol ar waith un waith eto, gyda disgyblion yn cynhyrchu cyfraddau /ɛ/ uwch ac /ai/ is mewn cyd-destunau anffurfiol, o'i gymharu â chyd-destunau ffurfiol. Yn ogystal, mae lefelau isel o /a/ yn bresennol hefyd, sy'n dangos tystiolaeth o gyffyrddiad tafodieithol gydag amrywiadau Cymraeg gogledd-orllewinol ymysg iaith disgyblion YUGC, er nad yw eu dylanwad yn sylweddol iawn. Yn gyferbyniol i'r llafariad caeedig cefn, mae iaith yr aelwyd hefyd yn arwyddocaol, fel sy'n gyffredin mewn ymchwil ar amrywio mewn ieithoedd lleiafrifol rhyngwladol eraill (Paradis 2001; Fowler et al. 2008; Simonet 2010).

Ym mhennod 7 ceir trafodaeth o ganfyddiadau'r penodau dadansoddol ac eir ati i ateb prif gwestiynau ymchwil y traethawd. Atebir y cwestiwn ymchwil cyntaf trwy gymharu ffactorau cymdeithasol sy'n arwyddocaol mewn ymchwil blaenorol ag effaith y ffactorau hynny yn yr ymchwil hwn. Yn ail, ymdrechwn i daflu goleuni ar effaith y strwythurau cymdeithasol ar amrywio ieithyddol y disgyblion, gan drafod y canlyniadau sy'n berthnasol i gyd-destun yr iaith Gymraeg, y cyd-destun o adfywio ieithyddol, a'r cyd-destun ethnograffegol y mae'r ymchwil yn perthyn iddynt. Yn olaf trafodwn effaith cyffyrddiad ieithyddol a chyffyrddiad tafodieithol yng nghyd-destun adfywio ieithyddol yng Nghaerdydd. Mae effaith cyffyrddiad ieithyddol yn ymwneud ag ansawdd y llafariaid caeedig cefn, a byddwn yn dadlau mai trosglwyddo ieithyddol o'r Saesneg i'r Gymraeg sydd fwyaf tebygol o fod wrth wraidd ansawdd llafariaid caeedig cefn Cymraeg Caerdydd. Fel arall, mae effaith cyffyrddiad tafodieithol yn ymwneud ag amrywio ffonolegol (ai) yn y sillaf olaf, a lle mae Cymraeg Caerdydd felly yn ymddangos yn berthnasol i ddamcaniaeth ffurfiant tafodiaith newydd yng nghyd-destun adfywio ieithyddol. Byddwn yn dadlau nad yw sefyllfa o adfywio ieithyddol yng Nghymraeg Caerdydd yn creu cyd-destun o ffurfiant tafodiaith newydd fel sy'n gyffredin yn y llenyddiaeth. Ceir hefyd fanylion ynglŷn a chyfeiriadau posibl ar gyfer ymchwil pellach, ac yn olaf ym mhennod 8, ceir casgliad o ganfyddiadau'r ymchwil.

2 Astudiaethau o amrywio a newid ieithyddol mewn cyd-destunau dwyieithog

Bydd y bennod hon yn cyflwyno ymchwil blaenorol ar amrywio a newid ieithyddol mewn cyd-destunau dwyieithog. Mae'r astudiaeth hon ar amrywio ieithyddol yng Nghymraeg Caerdydd yn adeiladu ar yr ymchwil blaenorol hwn.

Yn gyntaf, ceir is-adran 2.1 ar amrywio a newid ieithyddol ymysg pobl ifanc. Yn amlwg, trafodir hyn gan mai pobl ifanc yw cyfranogwyr yr ymchwil hwn, ond yn ogystal, pobl ifanc sydd yn aml o ddiddordeb wrth ymchwilio i amrywio a newid ieithyddol. Yn dilyn hynny, edrychir ar amrywio mewn gwahanol gyd-destunau dwyieithog: caffael ail iaith (2.2.1), addysg drochi (2.2.2), cymunedau ymfudwyr (2.2.3) ac ethnigrwydd (2.2.4). Yn dilyn hynny, edrychir ar astudiaethau ar amrywio ieithyddol yng nghyd-destun adfywio ieithyddol (2.3) cyn symud ymlaen i drafod ymchwil ar amrywio ieithyddol ar y Gymraeg (2.4). Trafodir cyffyrddiad ieithyddol (2.5) a chyffyrddiad tafodieithol (2.6) nesaf, cyn trafod prosesau cydgyfeirio a dargyfeirio tafodieithol (2.7) a ffurfiant tafodiaith newydd (2.8) sy'n brosesau sy'n ymwneud â chyffyrddiad. Yn olaf ceir crynodeb o'r bennod yn 2.9.

2.1 Amrywio a newid ieithyddol: pobl ifanc

Mae pobl ifanc yn aml yn ganolog i astudiaethau o amrywio a newid ieithyddol gan mai hwy sydd yn effeithio ar amrywio a newid ieithyddol fwyaf (e.e. Chambers 1992; Eckert 1988; Williams a Kerswill 1999; Kerswill a Williams 2005). Dadleua Labov mai '[it is] the youngest stratum of speakers that will give us evidence on the state and direction of a linguistic change in progress' (1994, t. 47). Mae diddordeb gan y sosioieithydd ynglŷn â pha rôl y mae pobl ifanc yn ei chwarae ym mhrosesau amrywio a newid ieithyddol, o'u bywyd fel plant a dylanwad eu rhieni ar eu lleferydd, hyd at fywyd yn eu harddegau o dan ddylanwad iaith eu cyfoedion.

Mae Labov (1981, t. 138) yn nodi mai wrth ddechrau yn yr ysgol uwchradd y mae plant yn dechrau caffael eu harferion sosioieithyddol eu hunain, ac yn ymbellhau o rai eu rhieni, sydd wedi dylanwadu ar eu harferion cyn hynny. Mewn astudiaethau o amrywio a

newid ieithyddol, mae'r cenedlaethau iau felly yn datblygu arferion cymdeithasol cyffredin ynghylch iaith neu dafodiaith: 'successive cohorts and generations of children advance the change beyond the level of their caretakers and role models, and in the same direction over many generations' (Labov 2007, t. 3). Yn yr un modd dywed Milroy (1987, t. 27) 'the closest approximation to the vernacular is apparently found most consistently in adolescents up to the age of about sixteen'. Felly credir bod pobl ifanc yn eu harddegau o dan ddylanwad eu cyfoedion yn fwyfwy, sydd yn fwy dyfeisgar yn ieithyddol (Labov 1981). O ganlyniad i'r dyfeisgarwch hwn mae'r sosioieithydd yn aml yn gosod pobl ifanc yn erbyn grwpiau oedran eraill ar gyfer cyfleu'r newid hwn.

Trwy gymharu gwahanol grwpiau oedran gellir arddangos newid, sef cynnydd neu leihad amrywiolyn penodol rhwng gwahanol genedlaethau. Gelwir y math hwn o astudiaeth yn astudiaeth amser ymddangosiadol (*'apparent time'*). Ceir llawer o enghreifftiau o astudiaethau amser ymddangosiadol (e.e. Chambers 1990; Tagliamonte 1998; Turton 2021). Gellir hefyd arddangos newid mewn amser go iawn (*'real time'*) trwy gymharu yr un unigolion mewn gwahanol adegau o'u bywyd. Ceir llawer o enghreifftiau o astudiaethau amser go iawn yn ogystal (e.e. Rickford a McNair-Knox 1994; Gordon et al. 2004; Moelders 2021).

Gall amrywiolyn newydd ymddangos fel amrywiolyn cymdeithasol cyffredin mewn cymuned benodol, fel y dyfynnydd *be like* yng ngwaith Tagliamonte a D'arcy (2009). Mae'r dyfynnydd *be like* yn deillio o Saesneg America. Erbyn hyn mae'n ffurf uwchleol sy'n cael ei defnyddio o amgylch y byd, gan fod gwahanol amrywiolion o wahanol rannau o'r byd yn medru gwasgaru heb gyfathrebu wyneb-yn-wyneb (Bogetic 2014) – ceir sylw pellach ar hyn yn is-adran 2.7. Mae cynnydd mawr yn nefnydd y dyfynnydd *be like* yn y grwpiau oedran iau o'u cymharu â'r grwpiau oedran hŷn gyda thros 60% o ferched a 50% o fechgyn yn ei ddefnyddio. Dengys hyn ei bod yn ffurf gyfoes, sy'n gyffredin iawn yn sgwrs siaradwyr iau, o'i chymharu â thua 10% sy'n ei ddefnyddio yn y grŵp oedran 50–59 (Tagliamonte a D'arcy 2009 t. 82).

Mae newid ieithyddol yn medru bod yn newid nad yw'r siaradwyr yn ymwybodol ohono, sef newid islaw lefel ymwybyddiaeth (*change from below*), neu yn newid y mae'r

siaradwyr yn ymwybodol ohono, sef newid uwchlaw lefel ymwybyddiaeth ‘*change from above*’. Mewn newid islaw lefel ymwybyddiaeth, mae’r newid yn digwydd o ganlyniad i ffactorau nad yw siaradwyr yn ymwybodol ohonynt (Labov 1966, gw. Labov 2007, t. 3).

Mae rhwydweithiau a chymunedau yn allweddol i gyfeiriad unrhyw newid, gan ystyried bod plant a phobl ifanc yn dilyn dylanwad cyfoedion yn fwyfwy wrth fynd yn hŷn. Mae cysyniad y rhwydwaith cymdeithasol yn deillio o waith Blom a Gumperz (1972) yn Hemnes, Norwy. Dengys yr astudiaeth fod y defnydd mwyaf o nodweddion traddodiadol gan siaradwyr a oedd yn is eu statws cymdeithasol, ac oedd yn rhan o rwydweithiau clòs. O safbwynt amrywio a newid ieithyddol, mae newid yn ffafrio rhwydweithiau eang, ac i’r gwrthwyneb, mae’n cael ei gyfyngu gan rwydweithiau clòs (Milroy 1987). Felly wrth i rwydweithiau cymdeithasol y bobl ifanc ehangu, felly hefyd eu *repertoire* ieithyddol. Yn debyg i’r rhwydwaith cymdeithasol, mae’r gymuned arfer yn ffordd o ddadansoddi amrywio rhwng strwythurau cymdeithasol (Lave a Wenger 1998, Wenger 1998). Wrth i bobl ifanc ehangu eu rhwydweithiau cymdeithasol, y mae eu hiaith yn newid ac yn gallu arwain at newid o fewn y gymuned benodol honno.

Mae gwaith Eckert yn Detroit (1988, 2000) yn dangos pwysigrwydd cymunedau arfer mewn astudiaethau sosioieithyddol cyfoes, trydedd don. Crynhoa Eckert (2006, t. 2) gymuned arfer fel a ganlyn:

The construct community of practice is a way of locating language use ethnographically so as to create an accountable link between local practice and membership in extra-local and broad categories.

Mae sosioieithyddiaeth y drydedd don yn canolbwyntio ar arddull yn hytrach nag ar amrywiolion o safbwynt hunaniaeth y siaradwr (Eckert 2012). Trwy wneud hyn mae diddordeb y sosioieithydd yn symud oddi wrth edrych ar nodweddion traddodiadol, tuag at edrych ar arddull siaradwyr a sut mae siaradwyr yn defnyddio amrywiolion gwahanol i adeiladu hunaniaeth (Eckert 2012, tt. 97–98) – ceir mwy o sylw i hunaniaeth y siaradwr ym mhennod 4. Mae hyn yn wahanol iawn i waith academyddion cynharach ar amrywio a newid ieithyddol megis Labov (1966), Trudgill (1974) a Milroy (1987) a oedd yn

canolbwyntio ar y gymuned iaith (*'speech community'*) a'r categorïau cymdeithasol sy'n deillio ohoni, megis dosbarth cymdeithasol, oedran neu rywedd.

Mewn astudiaeth o iaith pobl ifanc mewn ysgol yn Detroit, edrychodd Eckert (2000) ar ddwy wahanol gymuned arfer sef y *jocks* a'r *burnouts* a'u haelodaeth o wahanol rannau o'r gymuned. Roedd y *jocks* yn fwy llwyddiannus yn yr ysgol, mewn cwmni mwy breintiedig, ac yn treulio'u hamser y tu hwnt i'r ddinas, tra bo'r *burnouts* yn perthyn yn agosach at ddinas Detroit, yn dlotach, ac yn fwy arbrofol. O ganlyniad i wahaniaethau diwylliannol y ddwy gymuned arfer, roedd gwahaniaethau yn eu hiaith. Er enghraifft, roedd y *burnouts* yn fwy tebygol o ddefnyddio amrywiolion mwy eithafol megis [ɔ] sydd wedi ei gefnu ymhellach na'r [ʌ] canolradd ar gyfer (uh) (Eckert 1988, tt. 200–201). Mae defnydd y bobl ifanc o amrywiolyn dyfeisgar megis [ɔ] yn debygol o gyfleu eu haelodaeth o ddsbarth sosioeconomaidd is.

Mae Eckert (2000, 2012) felly yn cysylltu pwysigrwydd pobl ifanc â haeniad ac arferion cymdeithasol wrth ystyried amrywio a newid ieithyddol, ac yn gwneud hynny trwy ddadansoddi'r gymuned arfer. Mae ei gwaith wedi dylanwadu ar gorff o astudiaethau sy'n defnyddio cymunedau arfer er mwyn cyfleu amrywio ieithyddol rhwng gwahanol strwythurau cymdeithasol megis Zhang (2001, 2005, 2008), Hall-Lew (2009, 2010) a Kirkham (2013).

Felly, mae ymchwil blaenorol wedi amlygu bod pobl ifanc yn arwain newid ieithyddol o fewn cymuned. Trwy edrych ar bobl ifanc mewn cymuned gellir tracio a dehongli newid ieithyddol. Er hynny, dengys gwahanol astudiaethau y gall fod gwahanol batrymau o amrywio rhwng pobl ifanc. Mewn cymunedau amrywiol gall ffactorau cymdeithasol megis rhwydweithiau neu strwythurau cymdeithasol ddylanwadu ar iaith y bobl ifanc hyn, sy'n pwysleisio pwysigrwydd hunaniaeth gymdeithasol yng nghyd-destun amrywio a newid ieithyddol. Mae ymchwil trydedd don sosioieithyddol wedi defnyddio cymunedau arfer fel ffactor gymdeithasol er mwyn mesur amrywio ieithyddol rhwng gwahanol rwydweithiau cymdeithasol. Bydd yr ymchwil hwn yn gofyn a yw pobl ifanc Caerdydd yn defnyddio amrywio ieithyddol fel cyfwng ar gyfer cyfleu hunaniaeth a'r rhwydweithiau y maent yn perthyn iddynt.

Yn yr is-adran nesaf bydd sylw ar amrywio a newid ieithyddol mewn cymunedau dwyieithog. Bydd amryw o astudiaethau ar siaradwyr dwyieithog yn cael eu crybwyll, gan gynnwys sefyllfaoedd o gaffael ail iaith, ac amrywiadau ieithyddol sy'n ymwneud ag ethnigrwydd.

2.2 Amrywio a newid ieithyddol: cymunedau dwyieithog

2.2.1 Caffael ail iaith

Yn gyntaf, edrychwn ar ymchwil blaenorol ar gaffael ail iaith. Yr effaith fwyaf ar gaffael ail iaith yw oedran y caffaelwr (Flege 2007). Yn ôl Lenneberg (1967) mae siaradwyr ail iaith sy'n caffael yr ail iaith honno'n ifanc iawn (er enghraifft, yn yr ysgol gynradd) yn medru cynhyrchu lleferydd brodorol. Yn ôl y dehongliad hwnnw, ceir lleihad yng ngallu siaradwr ail iaith i greu lleferydd fel siaradwr cynhenid erbyn y cyfnod allweddol (*critical period*) (Lenneberg 1967; Johnson a Newport 1989). Felly, unwaith mae oed y siaradwr yn pasio'r cyfnod allweddol, mae'n sylweddol anos i gaffael ail iaith a chynhyrchu lleferydd fel siaradwyr iaith gyntaf. Er hynny, dadleuai eraill yn erbyn pwysigrwydd y cyfnod allweddol ar gyfer caffael iaith yn llwyddiannus, a'i bod hi'n bosibl caffael ail iaith ar ôl y cyfnod allweddol (Birdsong 1999; Flege 2008).

Mewn sefyllfaoedd caffael ail iaith mae posibilrwydd y ceir dylanwad un iaith ar y llall trwy drosglwyddiad o iaith gyntaf siaradwr i'w ail iaith. Trosglwyddo ieithyddol yw '[the] incorporation of a grammatical property into one language from the other' (Paradis a Genesee 1996, t. 3). Mae posibilrwydd y bydd trosglwyddo ieithyddol ar waith yng Nghymraeg Caerdydd gan iddo fod yn sefyllfa o gyffyrddiad ieithyddol sy'n cynnwys siaradwyr o aelwydydd di-Gymraeg.

Yn Blondeau a Nagy (2008), sy'n adeiladu ar ymchwil Sankoff a Thibault (1993), ceir dadansoddiad o drosglwyddo ymhlith siaradwyr Montréal, Canada. Edrycha Blondeau a Nagy (2008) ar siaradwyr Ffrangeg a Saesneg o wahanol gefndiroedd ieithyddol ym Montréal ac yn benodol eu defnydd o '*that*' neu '*que*'. Yn y Saesneg mae pobl yn dueddol

o'u hepgor, er enghraifft, '*I think I'll go*' nid '*I think that I'll go*', ond ni hepgorir y rhagenw perthynol yn y Ffrangeg. Yn eu Ffrangeg defnyddia'r siaradwyr angloffon y rhagenw 77% o'r amser, ond gwelir defnydd y rhagenw Saesneg gan y siaradwyr angloffon mewn 22% o achosion yn unig (Blondeau a Nagy 2008, t. 9). Dengys hyn, er eu bod yn angloffon, nad oedd y duedd o hepgor y rhagenw yn y Saesneg yn golygu eu bod yn ei wneud yn y Ffrangeg, gan fod y ddwy yn ramadeg ar wahân gan y siaradwyr (Blondeau a Nagy 2008, tt. 14–15).

Sefydla'r frawddeg uchod felly fod dwy ramadeg neilltuol yn perthyn i'r siaradwyr, a'r ddwy yn meddu ar reolau gwahanol yn y ddwy iaith. Yn yr un modd ag y mae iaith yr aelwyd yn effeithio ar amrywio ieithyddol, mae'n debygol bod defnydd ieithyddol yn effeithio ar amrywio, yn benodol ar drosglwyddo ieithyddol. Gwelir patrymau Saesneg yn effeithio ar Ffrangeg siaradwyr angloffon Montréal wrth ddefnyddio ffurf ddyfynnol '*like*' neu '*comme*' na fyddai fel arfer yn cael eu defnyddio gan siaradwyr Ffrangeg iaith gyntaf (Blondeau a Nagy 2008, tt. 22–29). Dengys Sankoff et al. (1997, t. 208) tra bo siaradwyr Ffrangeg Angloffon Montréal yn defnyddio'r ffurf ddyfynnol 18% o'r amser, nad yw siaradwyr Ffrancoffon Montréal yn ei ddefnyddio o gwbl. Ymhellach, dim ond un siaradwr Angloffon a arddangosodd ddefnydd o '*comme*' fel siaradwr iaith gyntaf. Dengys hyn felly fod defnydd is o'r Ffrangeg yn arwain at drosglwyddo ffurfiau Saesneg (iaith gyntaf) i'r Ffrangeg (ail iaith).

Noda Blondeau a Nagy (2008, t. 29) fod y ffurf hon bellach yn ymsefydlu yn Ffrangeg siaradwyr iaith gyntaf yn ogystal, a gall hyn fod ag arwyddocâd mawr wrth i siaradwyr gyfleu hunaniaeth mewn sefyllfa o gyffyrddiad iaith yn y dyfodol (Blondeau a Nagy 2008, t. 26) – ceir mwy o sylw i gyffyrddiad ieithyddol yn is-adran 2.5. Dengys gwaith cynharach gan Nagy et al. (2003) y gall siaradwyr angloffon yng Nghnada beidio â chaffael amrywiolion fel siaradwyr iaith gyntaf er mwyn atgyfnerthu eu hunaniaeth angloffon leiafrifol ym Montréal, yn debyg i fewnfudwyr Pwylaidd ym Manceinion yng ngwaith Drummond (2012) yn 2.2.3 isod.

2.2.2 Addysg drochi

Mae corff o waith rhyngwladol ar gaffael ail iaith mewn addysg drochi yn dadansoddi effaith ffactorau all-ieithyddol mewn perthynas â amrywio ieithyddol. Mae Mougeon et al. (2004) yn cyfeirio at amrywio teip 1 (T1) a theip 2 (T2) er mwyn diffinio gwahanol fathau o amrywio yn yr ail iaith.

Mae amrywio teip 1 yn canolbwyntio ar natur amrywiol iaith caffaelwyr ail iaith. Yn ôl Tarone (1985, t. 373) 'as second language learners attempt to communicate in the target language, their language production will show systematic variability.' Tynnir sylw yn benodol tuag at amrywio yn iaith caffaelwyr o safbwynt agweddau gramadegol, morffolegol a seinegol. Mae llawer o waith Tarone yn canolbwyntio ar y cysyniad o ryngiaith (*interlanguage*), sef term a fathwyd gan Selinker (1969, 1972) i ddynodi y math o iaith sydd ym meddiant siaradwyr ail iaith. Felly mae astudiaethau o amrywio teip 1 yn ystyried i ba raddau mae caffaelwyr ail iaith yn caffael amrywiolion siaradwyr iaith gyntaf, a siaradwyr ail iaith wedi llwyddo i gaffael ail iaith pan fydd yn peidio ag amrywio (Mougeon et al. 2004, tt 408–409).

Mae amrywio teip 2 yn cydnabod bod siaradwyr iaith gyntaf hefyd yn amrywio. Felly mae amrywio teip 2 yn mesur amllder amrywio siaradwyr ail iaith o'u cymharu â siaradwyr iaith gyntaf, yn ogystal â defnydd siaradwyr ail iaith o gyfyngiadau ieithyddol ac all-ieithyddol ar yr amrywio (Mougeon et al. 2004, t. 409). Nid yw astudiaeth amrywio teip 2 felly yn canolbwyntio ar natur amrywiolion siaradwyr ail iaith ac iaith gyntaf, yn hytrach mae'r math hwn o astudiaeth yn dadansoddi i ba raddau mae siaradwyr ail iaith yn caffael patrymau amrywio siaradwr iaith gyntaf (Drummond 2012, t. 107).

2.2.3 Cymunedau ymfudwyr

Mae corff o ymchwil ar amrywio a newid ieithyddol mewn cymunedau o ymfudwyr. Mae'r ymchwil hwn wedi talu sylw arbennig i'r gymuned Bwyleg yn y Deyrnas Unedig (Schleef, Meyerhoff a Clark 2011; Drummond 2011, 2012, 2013; Meyerhoff a Schleef 2012, 2013; Daleszynska-Slater a Meyerhoff 2020) a'r ymchwil hynny fydd ffocws yr is-adran hon. Mae'r

gymuned o ymfudwyr Pwylaidd wedi bod yn gymuned arwyddocaol ym Mhrydain yn yr 21ain Ganrif, ac mae'r ymchwil blaenorol hwn yn archwilio caffaeliad ymfudwyr Pwylaidd o batrymau ieithyddol Saesneg mewn dinasoedd yn y Deyrnas Unedig.

Mae Drummond (2012) yn edrych ar gaffaeliad ac amrywio gan ymfudwyr Pwylaidd ail iaith Saesneg ym Manceinion. Mae'n ystyried effaith hunaniaeth ar gaffael amrywiolion a phatrymau siaradwyr iaith gyntaf ymhlith yr ymfudwyr Pwylaidd. Dengys canlyniadau Drummond (2012, tt. 116–117) ar amrywio '-ing' fod yr ymfudwyr Pwyleg yn dueddol o gaffael yr amrywiolion brodorol. Dywed fod hyfedredd uwch yn y Saesneg yn arwain at debygolrwydd uwch yr amrywiolyn [in] yn cael ei ddefnyddio. I'r gwrthwyneb, roedd dyhead i ddychwelyd i Wlad Pwyl yn rhwystro defnydd o'r amrywiolyn [in] ac yn ffafrio'r amrywiolyn [iŋk] dan ddylanwad Pwylaidd. Dengys hyn bwysigrwydd ffactorau cymdeithasol ar amrywio ieithyddol mewn cymunedau o ymfudwyr sy'n caffael amrywiadau yn eu hail iaith.

Yn ogystal, mae Drummond (2011, 2013) yn ystyried dylanwad cyffyrddiad iaith a throsglwyddiad o'r iaith gyntaf i'r ail iaith wrth i ymfudwyr gaffael amrywiadau lleol megis glotaleiddio /t/ ac ansawdd llafariad *STRUT*. Mae'n bosibl bydd yr ymfudwyr yn efelychu siaradwyr iaith gyntaf, neu yn groes i hyn, gallant gyflwyno cyfyngiadau newydd nad ydynt yn frodorol i'r iaith gyntaf, gelwir hyn yn 'transformation under transfer' (Meyerhoff 2003; 2009, t. 313). Cynigia Meyerhoff fod mudwyr sy'n ceisio caffael amrywiadau lleol yn ailddosbarthu cyfyngiadau ieithyddol o'u hiaith gyntaf i'r iaith darged, ac o ganlyniad nid yw'r cyfyngiadau hyn o'u iaith gyntaf yn ymddangos fel cyfyngiadau brodorol yn yr iaith darged.

Yn ôl Drummond (2013, tt. 87–89) nid oedd cyfnod y mewnfudwyr yn y DU o angenrheidrwydd wedi arwain at fwy o amrywio'r llafariad *STRUT*. Roedd un siaradwr wedi byw ym Manceinion am 59 mis, ac er ei chyfnod hir yn y ddinas, nid oedd hi'n arddangos llafariad *STRUT* fel rhywun o Ogledd Lloegr, a hynny am fod ganddi'r sgôr agwedd isaf (agwedd waethaf tuag at y diwylliant lleol ac ati) o'r holl ymfudwyr (Drummond 2013, t. 87). Mae Drummond (2013, t. 90) yn cynnig damcaniaeth sef po fwyaf llwyddiannus yw caffaeliad mudwr o gyfyngiadau ieithyddol a chymdeithasol, y mwyaf llwyddiannus yw'r mudwr wrth gofleidio'r diwylliant targed fel rhan o'i hunaniaeth.

2.2.4 Ethnigrwydd

Mae astudiaethau eraill ar ymfudwyr yn crybwyll iaith o safbwynt ethnigrwydd yr ymfudwyr hyn. Mae'r math hwn o astudiaeth o ddiddordeb i'r ymchwil hwn gan fod ethnigrwydd yn aml yn arwain at ddefnydd siaradwyr o wahanol amrywiolion o ganlyniad i'w gwerth i hunaniaeth y siaradwr (Le Page a Tabouret-Keller 1985). Tynnir sylw gan Fought (2004, t. 448) at bŵer ethnigrwydd fel ffordd o gyfleu aelodaeth o grwpiau neu hunaniaethau gwahanol: 'studies of variation illuminate how speakers might choose to highlight their membership in a minority ethnic community as well as in the local, mainstream community'. Gall siaradwr ddefnyddio iaith, er enghraifft, trwy gyfnewid côd mewn gwahanol gyd-destunau, ar gyfer cyfleu hunaniaeth ethnig fel mae siaradwyr Puerto-Ricaidd Americanaidd yn eu gwneud (Zentella 1997).

Mae hynny'n enghraifft o ymchwil ar ethnigrwydd yng nghyd-destun amrywio ieithyddol, nid newid ieithyddol (Fought 2004, t. 445). Mae newid ieithyddol ac ethnigrwydd yn bwnc sydd wedi canolbwyntio ar amrywiolion lleol mewn cymunedau fel y gymuned Americanaidd-Affricanaidd, tafodieithoedd Ewropeaidd-Americanaidd yn ieithoedd lleiafrifoedd ethnig, ac amrywio rhwng amrywiadau safonol ac ansafonol (Fought 2004, tt. 456–465).

Mewn cyd-destunau eraill, weithiau nid oes iaith ynghlwm ag ethnigrwydd lleiafrifol. Tynna Fought (2004, tt. 448–449) sylw at heriau unigolion o leiafrifoedd ethnig heb iaith ychwanegol yn nodi eu haelodaeth o hunaniaeth benodol, oherwydd bod yr hunaniaeth leol yn aml yn un wyn. Er nad yw'r fath siaradwr wastad yn ddwyieithog, mae'n bosibl fod effaith iaith arall ar ei iaith neu ei dafodiaith. Mae Saesneg Amlddiwylliannol Llundain (SALI) yn enghraifft ddiweddar o amlethnolect (*multiethnolect*) lle mae effaith ieithoedd creol Caribïaidd, ieithoedd Affricanaidd neu ieithoedd Asiaidd yn amlwg, er mai ynghlwm ag ethnigrwydd ac amlddiwylliannedd, nid dwyieithrwydd, y mae'r astudiaethau hyn.

Ceir corff gweddol eang o ymchwil ar amrywiad Saesneg amlddiwylliannol Llundain (SALI). Dadansoddir SALI gan Cheshire et al. (2011) o fewn fframwaith Labovaidd – yn cyfweld â siaradwyr mewn cyd-destunau sy'n amrywio mewn ffurfioldeb – er mwyn cyflwyno darlun o'r amlethnolect yng nghyd-destun amlddiwylliannedd Llundain. Trafoda Kerswill (2014) agweddau negyddol y cyfryngau tuag at SALI, a dywed bod y cyfryngau wedi ei weld fel bygythiad i acen draddodiadol cocni'r ardal. Mae Kerswill (2013) yn cymharu SALI mewn dwy ardal yn Llundain: Hackney (yng nghanol Llundain) a Haverling (yn Essex). Mae'n dadansoddi iaith ac ymagweddau pobl o gefndiroedd ethnig amrywiol tuag at amrywio ieithyddol a hunaniaeth Lundeinig.

Tynna Kerswill (2013, t. 17) sylw at ddefnydd gwahanol amrywiolion fel '*mandem*' (i olygu grŵp o fechgyn) – morffem creolaidd gyda'i wreiddiau yn y Caribî – gan ddadansoddi eu defnydd. Dywed fod amrywiadau fel '*mandem*' yn amrywiadau lleiafrifol iawn yn wreiddiol, ond bellach maent wedi eu hail-ddosbarthu fel amrywiadau dosbarth gweithiol, ethnig (Kerswill 2013, t. 18). Dengys dadansoddiad Kerswill (2013) o amrywiolion o'r fath nad yw eu defnydd chwaith yn neilltuol ar gyfer pobl o gefndiroedd ethnig. Yn hytrach, mae'n cael ei gysylltu â hunaniaeth ddosbarth gweithiol ifanc ac amlethnig Lundeinig (Kerswill 2013, t. 23). Crynhoa Kerswill agwedd y siaradwyr fel a ganlyn, 'we are concerned to mark differences between ourselves and Cockneys by alluding to dress, language (words and pronunciations) and social practices'. Felly, mae siaradwyr SALI yn cyfleu eu hunaniaeth er mwyn gwahaniaethu neu ymbellhau oddi wrth cocnis.

Er mai SALI sydd wedi cael y sylw mwyaf gan sosioieithyddion, ceir enghreifftiau eraill o ymchwil ar amlethnolectau tebyg yn ninasoedd mwyaf amlddiwylliannol Ewrop megis *Rinkebysvenska* yn Stockholm (Kotsinas 1988) a *Straattal* yn Amsterdam (Cornips et al. 2015). Mae gwaith Wiese (2009) a Freywald et al. (2011) yn edrych ar *Kiezdeutsch* yn Berlin yn ogystal, a cheir paralelau amlwg rhwng *Kiezdeutsch* a SALI. Sefydlwyd *Kiezdeutsch* fel iaith pobl ifanc mewn ardaloedd dinesig amlethnig yn Berlin, ond nid yw'n gyfyngedig i bobl o leiafrifoedd ethnig yn unig (Freywald et al. 2011, tt. 18–19), fel y nodir uchod am SALI. Mae'n ddibynol ar ardal neu gymdogaeth yr unigolyn a thynnir sylw at '*multiethno*' fel rhywbeth sy'n cynrychioli cefndiroedd a hunaniaethau gwahanol, gan gynnwys un Almaenig (Freywald et al. 2011, t. 21).

Felly er bod SALL yn unigryw mewn cyd-destun dwyieithog, nid SALL yw'r unig amlethnolect yn Ewrop heddiw. Gellir ei chymharu ag amrywiad *Kiezdeutsch* a sylwi ar nodweddion sy'n gyffredin. Mae'r ymchwilwyr hyn yn pwysleisio pwysigrwydd astudiaethau ar amlethnolectau gan fod lleoedd o'r math hwn yn mynd yn fwyfwy amlddiwylliannol. Mae astudiaethau ar amlethnolectau wedi dod yn gyffredin oherwydd bod ymfudo ar gynydd a globaleiddio yn ffactor mor amlwg mewn bywydau dinesig o'r fath.

Mae ymchwil Sharma (2011; Sharma a Sankaran 2011) yn ymdrin â Saesneg Asiaidd Prydain, ac mae'r astudiaethau'n dadansoddi amrywio tafodieithol mewn sefyllfa o gyffyrddiad ieithyddol gan unigolion o wahanol genedlaethau. Mae Sharma (2011, t. 485) yn dadlau bod *repertoires* amrywiol yn gysylltiedig â rhwydweithiau ehangach fel yn Le Page a Tabouret-Keller (1985). Mae Sharma (2011, t. 485) yn nodi:

The description of the older generation above reflects gender roles typical of Lower Middle Class (LMC) traditional societies, with women more insulated within the community and men mediating the interfaces [...] The pattern described for the younger generation is typical of Western working-class and LMC societies, with men more insulated within the community and women mediating the interfaces.

Dengys hyn mai merched ifanc a dynion hŷn sy'n arddangos *repertoire* ieithyddol mwy cymysg gan amlaf, a hynny'n nodweddiadol o'r math o gymunedau mae'r cenedlaethau hŷn ac iau yn rhan ohonynt. Yn ôl Sharma a Sankaran (2011, t. 424) 'the new dialect will appear as a stable, crystallised variety' (Trudgill et al. 2002, t. 307). Felly mae amrywiadau Saesneg Asiaidd ym Mhrydain yn ffocysu yn yr ail genhedlaeth o siaradwyr, fel yng ngwaith Trudgill et al. (2002). Ceir sylw pellach ar ffurfio tafodiaith newydd yn is-adran 2.8.

Felly, wedi edrych ar iaith lleiafrifoedd ethnig Llundain a dinasoedd amlddiwylliannol eraill yn Ewrop, byddwn nawr yn troi at ieithoedd o'r math hwn yn UDA a Chanada. Roedd Labov (1994) o'r farn nad effeithid ar leferydd cymunedau lleiafrifol fel y rhai a drafodir uchod gan y gymuned fwyafrifol, a dywed Labov nad yw siaradwyr o leiafrifoedd ethnig yn 'orientated to the local vernacular development at all, but are instead orientated to a national pattern of koiné formation within the nonwhite groups' (Labov 1994, t. 157).

Yn ymchwil Poplack (1978) yn Philadelphia, edrychwyd ar leferydd plant o dras Puerto Ricaidd dan ddylanwad Saesneg Philadelphia, a'u tueddiad i lefaru rhai llafariaid fel siaradwyr cynhenid o Philadelphia. Mae gwaith Fought (1999) yn atgyfnerthu canfyddiadau Poplack (1978). Dangosodd Fought (1999) fod blaenu /u/ yn ymddangos yn Saesneg aelodau o gang Mecsicanaidd yn Los Angeles, newid mwyafrifol yn Saesneg Califfornia ar y pryd. Mae canfyddiadau fel y rhai uchod yn cael eu harddangos hefyd mewn gwaith diweddarach gan Hall-Lew (2009, 2010) ar ymfudwyr o leiafrifoedd ethnig o wahanol gefndiroedd yn San Fransisco sy'n cymryd rhan mewn newid ieithyddol mwyafrifol. Dengys hyn felly nad yw honiad Labov uchod yn dal dŵr bellach gan fod lleiafrifoedd ethnig yn gysylltiedig â datblygiad y ffurfiau lleol ac yn arddangos amrywiolion lleol poblogaidd.

Mae ethnigrwydd Cymreig hefyd o ddiddordeb i'r is-adran hon. Rhannodd Balsom (1985) Gymru'n dair rhan ar sail hunaniaeth ethnoieithyddol: Y Fro Gymraeg, Y Gymru Gymreig a'r Gymru Brydeinig. Mae'r Fro Gymraeg yn cynnwys siroedd gorllewin Cymru, o Fôn i Sir Gaerfyrddin. Mae cysylltiad amlwg â siarad Cymraeg yma, ond wrth edrych ar yr ail ran, y Gymru Gymreig – o Lanelli yn y Gorllewin hyd at Dorfaen yn y Dwyrain, gwelwn nad yw siarad Cymraeg yn angenrheidiol i feddu ar hunaniaeth Gymreig. Mae'r drydedd ran, Y Gymru Brydeinig, yn cynnwys de Sir Benfro yn y gorllewin, ac ardaloedd arfordirol y de-ddwyrain, hyd at Benrhyn Gŵyr gan gynnwys Bro Morgannwg, Caerdydd a Chasnewydd, ac yn ymestyn i'r gogledd ar hyd Clawdd Offa.

Codwyd amheuaeth ynglŷn â'r model hwn yn y 21ain ganrif (Coupland et al. 2006; Evans 2014), gan godi cwestiynau megis a yw'r Fro Gymraeg wir yn berthnasol erbyn hyn, gydag ond dwy sir (Gwynedd a Môn) gyda dros 50% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg (Llywodraeth Cymru 2011). Yn yr un modd, mae Caerdydd yn sir yn y Gymru Brydeinig, ond fel y nodwyd yn 1.2, Caerdydd yw un o'r unig ardaloedd yng Nghymru lle mae cynnydd yn y niferoedd sy'n siarad Cymraeg. Felly, er bod y model yn ystyried ethnigrwydd Cymru, mae'r gwaith yn berthnasol i dirlun ieithyddol a chymdeithasol yr 1980au, ac o ganlyniad yn broblemataidd.

Felly, mae'r is-adran hon wedi trafod amrywio a newid ieithyddol mewn gwahanol gymunedau dwyieithog. Ymdriniwyd ag astudiaethau sosioieithyddol sy'n gysylltiedig ag

ymfudwyr, yn ogystal ag astudiaethau sy'n dehongli'r berthynas rhwng iaith ac ethnigrwydd. Mae ethnigrwydd yn enwedig yn ninasoedd y DU, Gogledd Ewrop a'r UDA yn bwysig wrth i hunaniaethau newydd gael eu llunio o fewn amrywiadau ieithoedd cyfoes. Yn olaf, rhoddwyd sylw i ethnigrwydd Cymreig a pha mor gywir yw'r portread o'r gwahanol hunaniaethau Cymreig erbyn hyn. Mae bwlch yn yr ymchwil o safbwynt yr hunaniaeth Gymreig a'i pherthynas gyda'r siaradwr Cymraeg, yn enwedig mewn dinas amlddiwylliannol sy'n debycach i ddinasoedd eraill yr amlethnolectau sydd o dan sylw yn yr is-adran hon. Yn yr is-adran nesaf troir at astudiaethau o amrywio a newid ieithyddol mewn cyd-destun o adfywio ieithyddol

2.3 Amrywio ieithyddol yng nghyd-destun adfywio ieithyddol

Yn yr is-adran hon, ceir cyflwyniad i ymchwil blaenorol ar amrywio ieithyddol yng nghyd-destun adfywio ieithyddol. Mae'r astudiaethau hyn yn benodol yn edrych ar effaith ymdrechion i adfer iaith a chreu siaradwyr newydd sef, 'individuals with little or no home or community exposure to a minority language but who instead acquire it through immersion or bilingual educational programs, revitalization projects or as adult language learners' (O'Rourke et al. 2015, t. 1). Bydd yr adran hon yn crybwyll ymchwil ar ieithoedd lleiafrifol brodorol yn Ewrop, sef Gaeleg yr Alban, Francoprovençal ac Ocsitaneg.

Dadansodda Nance (2013, 2015a, 2015b; Nance et al. 2016) siaradwyr ifanc Gaeleg yr Alban, a'u cymharu â siaradwyr hŷn er mwyn gweld a oes gwahaniaethau rhwng amrywiadau'r bobl ifainc mewn ardal lle nad yw'r Aeleg yn iaith gymunedol gref. Trwy wneud hyn mae hi'n darganfod beth yw effeithiau adfywio iaith lleiafrifol a chreu siaradwyr newydd ar batrymau Gaeleg Yr Alban, yn enwedig wrth ystyried cyffyrddiad ieithyddol â'r Saesneg, a goblygiadau ieithyddol hynny.

Cymherir siaradwyr newydd Glasgow, siaradwyr ifanc Lewis, a siaradwyr hŷn Lewis. Mae gwahaniaethau seinegol rhwng gwahanol siaradwyr yn medru esbonio newid sefyllfa gyd-destunol Gaeleg yr Alban. Er enghraifft, gwelir bod cytseiniaid ochrol, gorfannol a thaflodol siaradwyr hen ac ifainc Lewis yn sgorio'n uwch ar raddfa F2–F1 na siaradwyr ifanc Glasgow. Awgryma hynny fod ansawdd cytseiniaid Gaeleg ochrol Glasgow yn dywyllach na

rhai Gaeleg Lewis (Nance 2015b, t. 565). Felly, mae amrywio rhwng seineg siaradwyr Gaeleg o wahanol ardaloedd o'r Alban, a gwahanol oedrannau.

Edrycha Kasstan (2010, 2015, 2017; Kasstan a Nagy 2018) ar effaith adfywio ieithyddol a chreu siaradwyr newydd ar iaith lleiafrifol Francoprovençal yn Ffrainc, Yr Eidal a'r Swistir. Yng ngwaith Kasstan a Nagy (2018) mae'r canolbwynt ar hunaniaeth Francoprovençal, neu yn hytrach, y diffyg hunaniaeth gyffredin ar draws yr amrywiadau gwahanol o Francoprovençal. Nid yw siaradwyr Francoprovençal yn adnabod eu hiaith fel 'Francoprovençal' ond fel *patois* neu fath o amrywiad ansafonol gyda phob un *patois* yn wahanol, ac mae hynny a'r diffyg hunaniaeth unedig yn ei gwneud hi'n anodd cynnal iaith fel hon (Kasstan a Nagy 2018, t. 5). Er hynny, mae siaradwyr newydd yn cynnig cyfle i'w chynnal.

Edrychir ar rwydweithiau cymdeithasol siaradwyr Francoprovençal gan Kasstan (2015, 2017) er mwyn dadansoddi'r siaradwyr newydd. Sylwir nad yw rhwydweithiau'r siaradwyr newydd a'r siaradwyr brodorol yn tueddu i orgyffwrdd, felly mae amheuaeth ynglŷn ag effaith y siaradwyr brodorol ar Francoprovençal y siaradwyr newydd oherwydd gwahanol normau cymdeithasol y ddau fath o siaradwr (Kasstan 2017, tt. 5–10). Ceir tebygrwydd yma gyda egwyddorion amrywio teip 3 Nance et al. (2016). Tynnir sylw gan Kasstan (2017, t. 11) at 'sentiments of social and linguistic incompatibility between new speakers and native speakers' a phwysleisir pwysigrwydd datrys y broblem hon ar gyfer manteisio ar siaradwyr newydd ar gyfer cynnal ieithoedd lleiafrifol a'u defnydd o'r iaith lleiafrifol benodol.

Mae Ocsitaneg yn iaith Ewropeaidd arall sydd wedi cael sylw mewn ymchwil sosioieithyddol o ganlyniad i siaradwyr newydd (Mooney 2016, 2019). Yn Mooney (2016) edrychir ar amrywiadau yn llafariaid Ffrangeg de-orllewin Ffrainc sydd bellach yn ymddangos yn lleferydd Ocsitaneg siaradwyr dwyieithog Ocsitaneg-Ffrangeg trwy gyffyrddiad ieithyddol. Dadansoddir gan Mooney (2019) ffonemau a gyfetyb i'w gilydd yn y Ffrangeg a'r Ocsitaneg a chymhwyso hynny at gaffael amrywiadau ail iaith yn gyffredinol. Yn ôl canfyddiadau Mooney (2019, t. 72) 'these findings provide evidence that early bilinguals, who began to learn their second language at the age of five or six years, do not acquire the

socially and geographically dominant forms of the L2, instead exhibiting L1 transfer'. Er hynny, mae'r siaradwyr dwyieithog ifanc hyn yn medru gwahaniaethu'n seinegol rhwng y ddwy iaith, felly er y ceir trosglwyddo ffonolegol, ni cheir trosglwyddo seinegol yn yr achos hwn (Mooney 2019, t. 75).

Dengys ymchwil Flege (1988, 1990, 1991) ar y *speech learning model* (SLM) fod dwy iaith mewn cyd-destun o gyffyrddiad ieithyddol yn medru effeithio ar ei gilydd trwy drosglwyddo ieithyddol. Mae hyn yn wir yng nghyd-destun adfywio ieithyddol hefyd, a gellid dweud yn aml fod patrymau'r iaith fwyafrifol yn cael eu hail-gynhyrchu yn yr iaith leiafrifol (King et al. 2009, t. 94). Yn ôl damcaniaeth SLM, gall trosglwyddo ffonolegol neu seinegol arwain at ddsbarthiad cywerthedd ('*equivalence classification*') (Flege 1987), sef ail-gynhyrchu categorïau seinegol cyfatebol o'r iaith gyntaf yn yr ail iaith, ac felly diffyg cyferbyniad rhwng ffonoleg neu seineg gyfatebol yn iaith gyntaf ac ail iaith siaradwr. Gwelir hynny yn Simonet (2011), Nance (2013; Nance et al. 2016) a Mooney (2019) mewn cyd-destun o adfywio ieithyddol.

Mae gwaith unigolion megis Lenneberg (1967) a Flege (2007) yn datgan bod gallu siaradwyr i gynhyrchu ffurfiau fel siaradwr cynhenid yn eu hail iaith yn llawer llai wrth gyrraedd diwedd eu harddegau. Dengys ymchwil diweddar bod profiad siaradwr gydag iaith yn bwysig wrth ystyried unrhyw drosglwyddo ieithyddol rhwng iaith gyntaf ac ail iaith siaradwr (Simonet 2010), ond y gall ffactorau cymdeithasol yn ymwneud â hunaniaeth oddiweddyd unrhyw ganlyniad ieithyddol tebygol yn sgil dinoethiad neu brofiad ieithyddol (Mooney 2019; Nance et al. 2016).

Felly, mae'r ymchwil hwn ar amrywio ieithyddol yng nghyd-destun adfywio ieithyddol yn canolbwyntio ar gymharu agweddau ieithyddol a chymdeithasol siaradwyr newydd sydd wedi dod i fodolaeth o ganlyniad i ymdrechion adfer iaith, â'r siaradwyr mwy traddodiadol sy'n bodoli (i wahanol raddau) yn y cymunedau hyn. Dengys ymchwil blaenorol bod trosglwyddo ieithyddol yn debygol yn sgil cyffyrddiad â'r iaith fwyafrifol yng nghyd-destun adfywio ieithyddol. Ceir paralelau rhwng yr astudiaethau gwahanol, ac mae gan bob iaith dan sylw heriau siaradwyr newydd, boed hynny'n ddiffyg hunaniaeth i'r iaith, neu ddiffyg undod rhwng siaradwyr newydd a siaradwyr traddodiadol, ynghyd ag oblygiadau

ieithyddol cyffyrddiad ieithyddol a throsglwyddiad ieithyddol. O'i chymharu â'r ieithoedd hyn, mae'r Gymraeg yn perthyn i beuoedd ehangach o ran niferoedd, a'i safle o fewn y gymuned yn ogystal ag o fewn cyd-destunau swyddogol yn gryfach. Bydd yr is-adran nesaf yn trafod y Gymraeg, a'r ymchwil sosioieithyddol sydd ynghlwm â hi ac o ddiddordeb i'm gwaith.

2.4 Ymchwil ar amrywio a newid ieithyddol y Gymraeg

Roedd astudiaethau sosioieithyddol cynharaf ar y Gymraeg yn cyd-fynd â sosioieithyddiaeth y don gyntaf, wedi'u dylanwadu gan waith Labov yn yr UDA. Edrycha R. O. Jones (1973–4) ar amrywio geirfaol yng Nghymraeg Patagonia, yn ystod ei gyfnod cyntaf ym Mhatagonia. Bwriad Jones (1973–74) oedd dadansoddi iaith Patagonia a gweld sut yr oedd y dafodiaith hon wedi ffurfio, hynny yw, o ba rannau o Gymru mae amrywiadau trigolion Patagonia yn deillio ohonynt ar gyfer darganfod y prif ddylanwad arni. Troir at yr hanesyddol a'r cymdeithasol, ond mewn gwirionedd eglura mai iaith yr ysgol ac iaith y capel a ddylanwadodd ar amrywiadau Cymraeg Patagonia yn bennaf: 'y patrwm fynychaf yw iaith addysg, pregethu a siarad cyhoeddus a'r rhieni yn eu tro yn sylfaenedig ar yr iaith ysgrifenedig' (Jones 1973–74, t. 296). Trwy lefelu, sef, 'the reduction or attrition of marked variants' (Trudgill 1986, t. 98) mae'r amrywiolion sy'n gysylltiedig ag iaith addysg wedi goroesi a goruchafu am eu bod yn ffurfiau cyffredin i siaradwyr o wahanol rannau o Gymru.

Mewn ymchwil diweddarach, pwysleisia R. O. Jones (1976, tt. 51–54) bwysigrwydd ffactorau cymdeithasol gan wahaniaethu ar sail oed a rhywedd a gosod gwahanol siaradwyr mewn dosbarthiadau gwahanol ar sail defnydd iaith. Gan ddilyn dull Labovaid, dengys Jones (1976, tt. 62–63) fod mwyafrif trigolion y Gaiman yn amrywio'n ieithyddol yn ôl ffurfioldeb. Roeddent yn ffurfioli wrth ddarllen rhestrau o eiriau, ond yn llai ffurfiol mewn sgwrs gyda'r teulu, ac yn gwahaniaethu'n bendant rhwng iaith lafar ac iaith ysgrifenedig, felly dengys Jones (1976) amrywio ar sail arddull yn lleferydd siaradwyr Cymraeg y Gaiman.

Gwahaniaethwyd rhwng siaradwyr ar sail oed, rhywedd, addysg, crefydd, gogwydd diwylliannol a chyflwr economaidd (Jones 1976, t. 57). Casgla Jones (1976, t. 64) fod oed a rhywedd yn effeithio ar amrywio ieithyddol pobl y Gaiman. Gwelir bod cynhyrchiad [x]

wahaniaethu ar sail oed ymysg siaradwyr Cymraeg y Gaiman. Cynhyrchir [x] mewn geiriau Cymraeg gan y ddau ddsbarth hŷn, a chynhyrchir [x̥] ymysg y ddau ddsbarth ieuengaf. Mae'r dosbarthiadau ieuengaf yn defnyddio llai o'r Gymraeg a mwy o'r Sbaeneg ac o ganlyniad mae dylanwad yr [x̥] Sbaeneg ar eu Cymraeg. Dengys y gwahaniaeth hwn rhwng y to hŷn a'r to iau'r shifft ieithyddol ym Mhatagonia a effeithiodd amrywiadau'r Gymraeg yno.

Mae gwaith Thomas (1981, 1984, 1989, 1990) yn enghraifft o waith sosioieithyddol ail don yn y Gymraeg. Yn ôl Eckert (2012) mae'r ail don yn pellhau o edrych ar oblygiadau macrogymdeithasol a macroddaearyddol wrth wraidd newid ieithyddol, ac yn ystyried dynameg amrywio ieithyddol. Dadansoddwyd rhwydweithiau cymdeithasol y siaradwyr trwy fabwysiadu dulliau ac egwyddorion ethnograffaid a theori gymdeithasol yn fwyfwy. Mae'r ail don yn ymgeisio i egluro ymhellach yr ystyr cymdeithasol tu ôl i amrywio sosioieithyddol, tu hwnt i gategoriâu mwy haniaethol y don gyntaf sosioieithyddol.

Mewn ymchwil sosioieithyddol, mae merched wedi cael eu gweld fel y prif ddyfeiswyr (Thomas 1990, t. 60; gw. Labov 2001), ond, ym Mhont-rhyd-y-fen mae merched yn arddangos amrywiadau mwy ceidwadol. Adlewyrchir hyn wrth archwilio defnydd yr amrywiolyn [ɛ:] yno. Defnyddir [ɛ:] yn lle'r orgraffyn <a> neu'r ddeugraff <ae> mewn geiriau unsill neu yn y sillaf olaf acennog, megis "tad" yn [tɛ:d] yn lle [ta:d] a "Cymraeg" yn [kəm'ɾɛ:g] yn lle [kəm'ra:g] (Thomas 1990, t. 42). Dadansodda Thomas (1990) amrywio ieithyddol rhwng merched o wahanol gapeli. Dim ond gan ferched o'r Capel Methodistiaidd mae'r amrywiolyn yn cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun mwy ffurfiol. Ni welir hyn yn achos merched o Gapel y Bedyddwyr. Y rheswm am hynny yw bod merched Capel y Bedyddwyr wedi arfer siarad Cymraeg mewn cyd-destunau mwy ffurfiol yn eu rhwydweithiau cymdeithasol, o'u cymharu â merched y Capel Methodistiaidd. O ganlyniad mae merched Capel y Bedyddwyr wedi arfer safoni wrth siarad Cymraeg, ac yn meddu ar arddull fwy ffurfiol wrth siarad gyda'r cyfwelydd (Thomas 1990, tt. 45–46).

Edrycha M. C. Jones (1994, 1998) ar wahaniaeth ar sail oed mewn dwy ardal yng Nghymru sydd â chyd-destunau ieithyddol tra gwahanol o safbwynt y Gymraeg. Mae dwy dref o dan sylw: un ardal lle mae hanes cryf o ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol, sef Rhosllannerchrugog, ac un lle nad yw'r Gymraeg wedi cael ei siarad mewn cyd-destun fel

hynny ers cryn amser, ond lle mae'n cael ei hadfywio o ganlyniad i addysg cyfrwng Cymraeg, sef Cwm Rhymini. Felly mae Jones (1994, 1998) yn ymchwilio i newid ieithyddol gyda phwyslais ar ddarfodiad ac adfywio ieithyddol y Gymraeg yn y ddwy ardal dan sylw.

Mae ymchwil Jones (1994) yn astudiaeth amser ymddangosiadol sy'n dangos newid ieithyddol o ganlyniad i safoni. I Jones (1994, t. 245) llinyn mesur 'safoni' o safbwynt ynganiad yw dilyn yr orgraff Gymraeg yn hytrach na defnyddio ffurfiau llafar traddodiadol yr ardal, e.e. [pɛθai] yn hytrach na [pɛθɛ] ar gyfer "pethau". Adlewyrcha canlyniadau Jones (1994, tt. 248–258) 'safoni' yn y ddwy ardal dan sylw. Gwelir hyn yng nghynnydd amrywiolion orgraffyddol fel /ai/ dros y ffurfiau llafar cyffredin /a/ ac /e/. Ystyrir hyn yn safonol, ond gall fod yn arwydd o leihad yn y defnydd o'r Gymraeg yn gymdeithasol, wrth i siaradwyr ffafrio ffurfiau safonol a ddysgir yn yr ysgol. Yn debyg, gwelir lleihad yn y defnydd o ffurfiau traddodiadol yn nhafodiaith Rhosllannerchrugog, er enghraifft, [mam] yn fwy cyffredin na [mham]. Mae'n debygol bod hyn yn digwydd am nad yw'r math hwn o dreigladau llaes yn cael ei dysgu mewn cyd-destun addysg, eto, gall hyn ddangos diffyg defnydd o Gymraeg cymdeithasol gan y bobl ifanc (Jones 1994, t. 252).

Mae Jones (1998) yn ystyried dwy agwedd wrth ddadansoddi iaith pobl ifanc yn ysgolion yr ardal, sef effaith adfywio ieithyddol ar y dafodiaith, ac i ba raddau mae'r iaith yn ddarfodedig. Noda Jones (1998, t. 355) bod addysg mewn rhannau o Gymru lle nad yw'r Gymraeg bellach yn iaith gymunedol flaenllaw – fel yn Rhosllannerchrugog a Chwm Rhymini – wedi arwain at golli amrywiadau lleol a safoni. O ganlyniad i'r safoni hwn, mae Jones (1994 t. 292; 1998 t. 333) yn gofyn a yw amrywiadau newydd o'r Llydaweg, sef Neo-Lydaweg, a'r Wyddeleg, sef *Nua Ghaeilge*, yn awgrym o sut bydd y Gymraeg yn edrych yn y dyfodol. Hynny yw, a fydd y Gymraeg yn parhau i leihau o ran siaradwyr a defnydd, ac yn ymddangos fel amrywiad wedi ei safoni, yn dra gwahanol i'r amrywiadau tafodieithol traddodiadol?

Er bod y siaradwyr uchod yn defnyddio ffurfiau ffonolegol y gellir eu hystyried yn safonol am eu bod yn cyfateb i normau'r orgraff safonol, nid yw hynny'n cyfateb i iaith lafar fel iaith ysgrifenedig berffaith. Drwy gynnal prawf ar gyfer 60 o blant 12 oed ar gyfer mesur eu gallu i redeg ffurfiau arddodiadol yn y Gymraeg, mae Thomas (1991, t. 46) yn cwestiynu ai arloeswyr ieithyddol ynteu caffaelwyr anghyflawn yw'r plant hyn mewn Ysgolion Cymraeg

yn y de-ddwyrain. Mae Thomas (1991) yn tynnu sylw at y ffurfiau arddodiadol – sy'n gyffredinol mewn Cymraeg llafar a safonol – nad ydynt yn cael eu rhedeg gan y plant iaith gyntaf 4% o'r amser na chan blant ail iaith 12% o'r amser. Mae'n amlwg felly nad yw'n arfer cyffredin yng Nghymraeg y bobl ifanc, ond dywed Thomas (1991, t. 50)

[the fact] that the south-eastern [L1] children produced uninflected forms at all, suggests that, at least as far as this feature is concerned, their linguistic competence is not on a par with that of the typical traditional native speaker.

Mae beirniadaethau o'r fath yn gyffredin wrth ystyried amrywiadau Cymraeg cyfoes, ac efallai'n hallt ar sail canran mor isel o amrywiolyn ansafonol. Mae'r beirniadaethau hyn hefyd yn ymdebygu i'r math o feirniadaeth o SALL a gydnabuwyd gan Kerswill (2014).

Mae Robert (2009) yn ymdrin ag ymagweddau tuag at amrywiadau siaradwyr (ail iaith a rhai iaith gyntaf) mewn ysgolion Cymraeg, ac yn dosbarthu siaradwyr yn bedwar math gwahanol sef, 'iaith gyntaf uchel, iaith gyntaf isel, ail iaith uchel, ail iaith isel' ar sail canfyddiadau siaradwyr eraill ohonynt (2009, t. 112). Canfu Robert fod pa mor gymdeithasol ddeniadol neu ffafriol yw amrywiad Cymraeg yn seiliedig ar gymhwysedd ieithyddol siaradwr yn hytrach nag ar iaith gyntaf y siaradwr. Hynny yw, nid yw pob siaradwr iaith gyntaf yn defnyddio amrywiadau Cymraeg safonol; mae hynny'n ddibynnol ar eu cymhwysedd ieithyddol nid ar eu cefndir ieithyddol neu iaith eu haelwyd.

Cadarnha data Robert (2009, tt. 107–108) fod beirniadaethau o iaith wallus ymysg iaith plant ail iaith yn bodoli, fel y gwelir uchod yn Thomas (1991), gyda siaradwyr yn galw'r amrywiad yn 'hanner Cymraeg hanner Saesneg' a 'bratiaith'. Dywed Thomas (1991, t. 108) fod y fath sylwadau yn cefnogi honiadau bod 'the view among the Welsh-speaking community that the use of English in Welsh speech is a symptom of lacking competence in Welsh'. Felly ystyrir cyfnewid-côd neu fratiaith fel diffyg cymhwysedd ieithyddol yn y Gymraeg. Dengys hyn fod amrywiadau o'r fath, sydd wedi eu datblygu trwy addysg Gymraeg gan fwyaf, yn warthnodedig gan siaradwyr iaith gyntaf. Gall hyn gynnig rheswm posibl dros unrhyw ddiffyg integreiddio yn achos siaradwyr newydd ieithoedd lleiafrifol eraill megis Francoprovençal yng ngwaith Kasstan (2017) yn isadran 2.3.

Dadansodda Davies (2016) amrywio o fewn iaith lafar siaradwyr iaith gyntaf Cymraeg. Ymdrinia Davies (2016, t. 32) â pha mor agos at gwblhau newid ieithyddol mae amrywiolion gwahanol trwy edrych ar eu defnydd ymhlith gwahanol grwpiau oedran. Bwriad Davies (2016) yw arddangos newid ieithyddol trwy ddadansoddi hepgor berfau cynorthwyol, er enghraifft, 'os (wyt) ti'n meddwl'. Yn ei ymchwil, mae Davies (2016, t. 39) yn canfod bod dileu'r ferf gynorthwyol yn gyffredin iawn yn sgwrs y bobl ifanc, gyda 93.3% o'r grŵp 10–19 yn ei ddileu, tra bo'r ffigwr yn 84% yn y grŵp 50–70. Mae Davies (2016, t. 56) yn casglu bod ei ddata'n cyfleu enghraifft o newid sy'n agosáu at gael ei gwblhau, gan fod dileu 'wyt' yn cynyddu mewn amledd wrth i oedran y siaradwyr leihau.

Edrycha Prys (2017) ar amrywio cyd-destunol yn y Gymraeg ac arddull siaradwyr ifanc. Mae'n dadansoddi iaith gwahanol raglenni a gwahanol gyflwynwyr ar BBC Radio Cymru. Mae'n ymchwilio i ffactorau gwahanol megis oed a rhyw ac yn dadansoddi effaith y ffactorau hyn ar ddefnydd gwahanol gyflwynwyr radio o wahanol amrywiolion. Mae Prys (2017, tt. 378–382) yn canfod bod gwahanol gyflwynwyr yn cydgyfeirio at arferion eu grwpiau oedran wrth ystyried eu defnydd o wahanol amrywiolion, megis defnydd o'r rhagenwau blaen 'fy' neu 'ei'. Mae Prys (2017, t. 392) yn canfod mai oed yw'r ffactor gymdeithasol bwysicaf sy'n effeithio ar arddull siaradwr Cymraeg yn ei astudiaeth:

it is the factor that seems to most consistently differentiate the speech styles of speakers, and because discourse on Welsh often seems to be suffused with concerns surrounding the increasing adoption of elements of English transfer into Welsh speech, which also involves a perception of progressive linguistic decline in each subsequent age group.

Ystyria Prys y defnydd hwn o eiriau Saesneg a chyfnewid cod fel enghraifft o amrywio arddull siaradwr Cymraeg ifanc.

Mae enghreifftiau megis gwaith Mayr et al. (2017), Morris (2013, 2021) a Morris et al. (2016) yn dadansoddi amrywio a newid ieithyddol ar y Gymraeg gan bobl ifanc. Mae'r holl astudiaethau hyn yn canolbwyntio ar ddwyieithrwydd yng nghyd-destun cyffyrddiad ieithyddol rhwng y Gymraeg a'r Saesneg. Edrycha Mayr et al. (2017) ar effaith cefndir ieithyddol pobl ifanc ddwyieithog Rhydaman, ar amrywio seingol yn eu llafariad, ac yn eu

cymharu â phobl ifanc uniaith Saesneg yr ardal. Yn wahanol i ganfyddiadau eraill ar effaith cefndir ieithyddol, nid oedd cefndir y bobl ifanc yn effeithio ar y llafariaid a gynhyrchwyd yn y ddwy iaith. Golyga hyn bod ‘the effects of linguistic experience can be overridden under certain circumstances’ (Mayr et al. 2017, t. 261). Dengys gwaith ar gefndiroedd ieithyddol siaradwyr dwyieithog ac unieithog (Paradis 2001, Fowler et al. 2008) a rhwng gwahanol siaradwyr dwyieithog (Simonet 2010, 2014; Simonet ac Amengual 2020) bod iaith yr aelwyd yn effeithio ar amrywio mewn cyd-destunau o ddwyieithrwydd cymdeithasol hir dymor.

Yng Nghaernarfon, lle mae’r Gymraeg yn iaith gymunedol gref, mae iaith aelwyd yn ffactor sy’n effeithio ar amrywio siaradwyr ifanc fel yn yr astudiaethau ar gymunedau dwyieithog ryngwladol uchod (Morris 2013). Roedd rhwydweithiau cymdeithasol y bobl ifanc a oedd yn siarad Cymraeg gyda’u ffrindiau yng Nghaernarfon yn defnyddio amrywiolyn coda /r/. Hynny yw, nid oedd y bobl ifanc a siaradai Saesneg yn defnyddio’r amrywiolyn felly roedd yn ffordd o ddangos hunaniaeth eu grŵp (Morris 2013, tt. 227–241). Yn Morris et al. (2016) edrychir ar sut y mae cyffyrddiad ieithyddol yn arwain at drosglwyddiad ffonolegol a seinegol yn iaith pobl ifanc ddwyieithog Rhydaman a’r Wyddgrug. Mae casgliadau Morris et al. (2016, tt. 264–265) o ddiddordeb gan ei fod yn nodi bod llawer o debygrwydd yn sain llafariaid tebyg o ganlyniad i gyffyrddiad hir dymor rhwng y ddwy iaith, ond bod goruchafiaeth y Saesneg yn gymdeithasol erbyn hyn yn golygu nad oes trosglwyddiadau o’r iaith leiafrifol i’r iaith fwyafrifol. Yn Morris (2021) gwelir bod trosglwyddiad ffonolegol yn digwydd i’r naill gyfeiriad a’r llall ar gyfer amrywio /r/.

Mewn gwaith sosioieithyddol ar y Gymraeg sydd wedi ei gyflwyno yn yr adran hon, sylwir nad oes un o’r astudiaethau uchod wedi eu cynnal ar y Gymraeg yng Nghaerdydd¹. Ceir enghreifftiau o waith sosioieithyddol o’r don gyntaf gan R. O. Jones (1973–74; 1976), ac o’r ail don gan B. Thomas (1981, 1984, 1989, 1990), ond bydd yr ymchwil hwn yn enghraifft o waith sosioieithyddol o’r drydedd don. Mae llawer o ymchwil blaenorol ar y Gymraeg, megis gwaith M.C. Jones (1994, 1998) a P. W. Thomas (1991) wedi tueddu i ganolbwyntio ar leihad yn y defnydd o nodweddion tafodieithol traddodiadol mewn ardaloedd penodol, a

¹ Eithriad yw’r garfan o siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf ym mhrosiect peilot P. W. Thomas (1991).

chyfleu hynny fel diffyg cymhwysedd siaradwyr Cymraeg cyfoes mewn addysg Gymraeg. Er hynny mae ymchwil diweddarach gan Morris (2013, 2021; Morris et al. 2016), Davies (2016) Mayr et al. (2017) a Prys (2019) yn cyfleu amrywio a newid ieithyddol heb ymdrin ag unrhyw amrywio neu newid fel dangosydd o ddiffyg cymhwysedd ieithyddol siaradwyr Cymraeg cyfoes o achos i addysg Gymraeg. Er fod yr ymchwil hwn yn archwilio sefyllfa o adfywio ieithyddol, ni fydd unrhyw amrywio yn cael ei ystyried fel dangosydd o ddirywiad cymhwysedd sosioieithyddol siaradwyr YUGC.

Nesaf, cyflwynir ymchwil blaenorol ar gyffyrddiad ieithyddol.

2.5 Cyffyrddiad ieithyddol

Diffinia Thomason (2001, t. 1) gyffyrddiad ieithyddol fel 'the use of more than one language in the same place, at the same time'. Yn ôl Thomason (2001, t. 89) 'the point of talking about convergence is to emphasize the fact that the interference is mutual, not unidirectional, and the fact that the resulting convergent structures have no single source'. Felly mae astudio cyffyrddiad ieithyddol yn gallu canfod rheswm wrth wraidd unrhyw newid ieithyddol mewn sefyllfa o gyffyrddiad ieithyddol. Mae rhai wedi defnyddio cymysgu ieithyddol er mwyn esbonio cyffyrddiad ieithyddol. Ceisia Mühlhäusler (1982, t. 4) amlinellu'r gwahaniaeth rhwng cyffyrddiad ieithyddol a chymysgedd ieithyddol trwy ystyried cyffyrddiad ieithyddol fel ffenomen sy'n trafod prosesau cymdeithasol megis amlieithrwydd a chaffael ail iaith, a chymysgu ieithyddol fel canlyniad ieithyddol posibl sy'n deillio o'r prosesau cymdeithasol hynny (Siegel 1985, t. 357).

Mae cyffyrddiad ieithyddol yn gyffredin iawn mewn cymunedau dwyieithog ac amlieithog. Mae rhai o'r enghreifftiau mwyaf amlwg o gyffyrddiad ieithyddol yn arwain at ffurfio ieithoedd creol (Siegel 1985). Yn aml iawn, mae'r ieithoedd creol hyn yn esblygu o fath arall o iaith sef, ieithoedd pidgin. Mae modd gwahaniaethu rhwng y ddau fath hyn o iaith sy'n cael eu cynhyrchu o ganlyniad i gyffyrddiad, gan fod gan ieithoedd creol siaradwyr cynhenid. Hynny yw, mae cymunedau yn siarad yr iaith fel iaith gyntaf, ond nid yw hynny'n wir am ieithoedd pidgin, sydd yn fath o iaith dros dro ar gyfer cyfathrebu dros dro (Siegel 1985). Ceir enghreifftiau byd eang o ieithoedd creol yn ffurfio o ieithoedd pidgin, megis Tok

Pisin yn Papua New Guinea o ganlyniad i'w defnydd fel iaith pidgin ddiwydiannol, cyn ehangu a brodoroli fel un o ieithoedd cenedlaethol Papua New Guinea (Thomason 2001, t. 462).

Mewn dinas amlddiwylliannol fel Caerdydd, mae'n anochel y bydd cyffyrddiad ieithyddol rhwng ieithoedd gwahanol mewn cymunedau amlieithog. Mae ystyried cyffyrddiad ieithyddol rhwng y Gymraeg a'r Saesneg yng Nghaerdydd yn berthnasol i'r astudiaeth hon, a pha effaith y caiff hyn ar amrywiadau Cymraeg pobl ifanc. Tynna Thomason (2001, t. 11) sylw at enghreifftiau o ieithoedd mewn cyffyrddiad â'i gilydd yn trosglwyddo cyfadrannau ieithyddol o'r naill iaith i'r llall: 'it is easy to find transfer in all areas of language structure [...] there are no discernible linguistic limits to the possibilities for transferring any linguistic feature from one language to another'. Felly, disgwylir bod trosglwyddo gwahanol gyfadrannau ieithyddol, yn ganlyniad ieithyddol posibl mewn sefyllfa o gyffyrddiad ieithyddol.

Dywed Thomason (2011, tt. 53–54) fod cyfnewid-côd hefyd yn ganlyniad ieithyddol posibl yn dilyn cyffyrddiad ieithyddol, a thynnir sylw tuag at blant Puerto-Ricaidd yn Efrog Newydd yn cyfnewid-côd. Ceir enghreifftiau tebyg eraill hefyd o gyfnewid-côd gan siaradwyr Sbaeneg yn America, gelwir hyn yn Spanglish sy'n nodwedidadol mewn Saesneg Chicano (Fought 1999; Mendoza-Denton 2008). Nodwyd eisoes yn is-adran 2.4 ynglŷn â beirniadaeth siaradwyr Cymraeg o siaradwyr Cymraeg eraill yn cyfnewid-cod a defnyddio Saesneg wrth siarad Cymraeg fel 'progressive linguistic decline' (Prys 2017, t. 392). Yn gyferbyniol, nid yw cyfnewid-cod yn ddangosydd o ddysgu amherffaith gan unigolyn dwyieithog. I'r gwrthwyneb, mae'n ddangosydd cymhwysedd dwyieithog unigolyn dwyieithog, ac yn dangos eu bod yn ymwybodol o reolau cymhleth cyfnewid-cod o ganlyniad i gyffyrddiad ieithyddol (Albrini a Chakrani 2017; Nassif 2021).

Felly, diffiniwyd cyffyrddiad ieithyddol yn yr is-adran hon, ffenomen sydd o ddiddordeb amlwg i'r ymchwil hwn, gan ystyried bod disgyblion YUGC yn meddu ar ddwy iaith, sef Cymraeg a Saesneg. Trafodwyd canlyniadau ieithyddol posibl yn sgil sefyllfa o gyffyrddiad ieithyddol, sef trosglwyddo ieithyddol lle mae agweddau o gyfadrannau o'r naill iaith yn cael eu trosglwyddo i'r llall; a chyfnewid-côd lle mae siaradwyr yn defnyddio dwy

iaith yn yr un disgwrs (Orwig 2015). Nesaf, edrychir ar elfen arall o gyffyrddiad, sef cyffyrddiad tafodieithol.

2.6 Cyffyrddiad tafodieithol

Mae cyffyrddiad tafodieithol yn ffenomen o gyffyrddiad sy'n ystyried tafodieithoedd yn hytrach nag ieithoedd. Diffinia Trudgill (1986, t. 1) gyffyrddiad tafodieithol fel 'contact between varieties of language that are mutually intelligible to at least some degree'. Yn yr adran hon bydd dau wahanol fath o gyffyrddiad tafodieithol yn cael eu crybwyll. Byddwn yn edrych ar sefyllfaoedd *tabula rasa*², sef sefyllfaoedd o gyffyrddiad ieithyddol lle nad oes poblogaeth eisoes yn bodoli sy'n siarad yr iaith dan sylw. Fel arfer mae'r tafodieithoedd hyn mewn cyffyrddiad o ganlyniad i fudo helaeth o siaradwyr i ardal benodol lle nad yw'r iaith honno'n cael ei siarad e.e. Saesneg Seland Newydd, Cymraeg Patagonia. Cyn hynny, byddwn yn taro golwg ar enghraifft o gyffyrddiad tafodieithol o ganlyniad i adfer tir a chynyddu cysylltiad â hygyrchedd ardal, sydd yn ei dro yn gwneud cyffyrddiad tafodieithol yn bosibl yn yr ardal dan sylw.

Edrycha Britain (2010) ar gyffyrddiad tafodieithol yn ardal y Fenlands yn Nwyrain Lloegr. Cyn dechrau'r 20fed ganrif, nid oedd ardal y Fenlands yn hygyrch i bobl o'r tu allan oherwydd y tiroedd corsiog a amgylchynai'r ardal, ond wedi i'r tiroedd gael eu traenu, roedd mynediad i bobl o ardaloedd tu hwnt i'r Fenlands (Britain 2010, t. 233). O ganlyniad i'r cyffyrddiad isel rhwng siaradwyr o'r Fens a siaradwyr o'r tu allan i'r Fenlands cyn y traenu, roedd tafodiaith y Fenlands yn cael ei hystyried fel amrywiad unigryw, ceidwadol. Wedi'r traenu daeth cyffyrddiad rhwng siaradwyr y Fenlands a siaradwyr o'r tu allan. O ganlyniad i'r cyffyrddiad hwn, esblygodd a newidiodd tafodiaith y Fenlands wrth i amrywiadau o ardaloedd eraill effeithio ar y dafodiaith.

Mae'r rhan helaethaf o'r gwaith ar gyffyrddiad tafodieithol wedi canolbwyntio ar Saesneg trefedigaethol a ffurfiwyd o ganlyniad i gyffyrddiad rhwng siaradwyr o

² Adwaenir sefyllfaoedd *tabula rasa* fel sefyllfaoedd o ffurfiant tafodieithol gan amlaf a cheir sylw pellach ar hynny yn is-adran 2.8, ond yma ystyrir y ffenomen o gyffyrddiad tafodieithol mewn sefyllfa *tabula rasa*.

dafodieithoedd eraill. Mae'r math hwn o gyffyrddiad tafodieithol yn wahanol i'r sefyllfa uchod o gyffyrddiad o ganlyniad i adfer tir. Mae cyffyrddiad mewn cyd-destun *tabula rasa* llawer yn fwy cyffredin, a cheir sawl enghraifft ohono er enghraifft, Saesneg De Affrica (Branford 1994, t. 487); Saesneg Awstralia; (Turner 1994, t. 278); a Saesneg Seland Newydd (Trudgill et al. 2002; Trudgill 2004). Mae Saesneg De Affrica, Awstralia a Seland Newydd yn eu hanfod yn debyg iawn gan iddynt ddod i fodolaeth oherwydd cyffyrddiad tafodieithol rhwng ymfudwyr o'r DU ac Iwerddon. Gweler Trudgill (2004, tt. 11–13) am fanylion pellach.

Mae'n hollbwysig nodi mai sefyllfaoedd o gyffyrddiad tafodieithol yw'r man cychwyn mewn gwahanol brosesau ieithyddol a sosioieithyddol damcaniaethol. Bydd y prosesau hynny yn derbyn sylw pellach yn yr is-adrannau nesaf, gan ddechrau gyda chyd-gyfeirio a dargyfeirio o ganlyniad i gyffyrddiad tafodieithol.

2.7 Cyd-gyfeirio a dargyfeirio tafodieithol

Gelwir y broses o ymdebygu â thafodiaith siaradwyr eraill fel cyd-gyfeirio ('*accent convergence*') a phellhau o dafodiaith siaradwyr eraill fel dargyfeirio ('*accent divergence*') gan y sosioseicolegydd Howard Giles (1973) yn ei waith arloesol ar y '*Speech (Communication) Accomodation Theory*'. Trafoda Giles (1973) gyd-gyfeirio a dargyfeirio tymor byr, a diffinia gyd-gyfeirio tymor byr fel a ganlyn:

If the sender in a dyadic situation wishes to gain the receiver's approval, then he may adapt his accent patterns towards that of this person, i.e. reduce pronunciation dissimilarities (1973, t. 90)

Gellir dweud ei fod mewn cyd-destun tymor byr gan ei fod yn sôn am berson yn ymgymhwyso yn ei sgwrs. Golyga hyn fod y siaradwr yn peri i'w sgwrs ymdebygu i sgwrs y cyd-siaradwr. Mewn sgwrs rhwng dau berson, gall fod yn gymdeithasol ddeniadol i ymgymhwyso at sgwrs y cyd-siaradwr ar gyfer budd y sgwrs yn gyffredinol. Hynny yw, y mae'n haws i'r siaradwr gyfathrebu â'r cyd-siaradwr os ydyw'n ymdebygu i'w gyd-siaradwr o safbwynt ei leferydd, neu'n lleihau ei amrywiadau idiosyncrataidd ei hun.

Diffinia Giles ac Ogay y broses wrthwynebol, sef dargyfeirio, fel a ganlyn (2007, t. 296):

Given that communication features [...] are often core dimensions of what it is to be a member of a group [...], divergence can be regarded as a very important tactic of displaying a valued distinctiveness from other.

Dengys hyn fod siaradwr yn dargyfeirio yn y tymor byr er mwyn ymbellhau oddi wrth ei gyd-siaradwr am resymau cymdeithasol. Gallai'r siaradwr bwysleisio'r gwahaniaethau rhwng lleferydd y siaradwr a'r cyd-siaradwr er mwyn ymbellhau yn gymdeithasol oddi wrth ei gyd-siaradwr.

Yn ôl Trudgill (1986) ymgymhwyso yw'r fecanwaith sosioseicolegol sy'n achosi i siaradwyr neu i leferydd gyd-gyfeirio. Yn yr un modd, y penderfyniad i beidio ag ymgymhwyso sy'n arwain at siaradwyr neu leferydd i ddargyfeirio. Adnabuwyd dau wahanol fath o ymgymhwyso gan Trudgill sef: ymgymhwyso tymor byr, sy'n ymdrin â chyfathrebu wyneb-yn-wyneb; ac ymgymhwyso tymor hir, sy'n ystyried effaith ymgymhwyso parhaus ar leferydd siaradwr (Trudgill 1986, tt. 39–40). Ceir sylw pellach ar ymgymhwyso tymor hir isod. Yn wreiddiol roedd ymgymhwyso yn ystyried perfformiad siaradwyr a chyd-siaradwyr trwy gyfathrebu wyneb-yn-wyneb (Trudgill 1986, t. 39; Tuten 2003, t. 30), ond oherwydd twf hygyrchedd byd eang, er enghraifft, trwy globaleiddio a'r cyfryngau cymdeithasol, mae cyffyrddiad ieithyddol â ffurfiau byd eang wedi ei hwyluso.

Er ei bwysigrwydd diamheuol ym maes sosioieithyddiaeth, mae gan ymchwil Trudgill (1986) ei feirniaid. Un amheuaeth sy'n codi ar waith Trudgill yw ei ymdriniaeth o hunaniaeth mewn perthynas ag ymgymhwyso. Disgrifia Trudgill yr hyn a elwir yn *accent divergence* gan Giles (1973) a sylwir nad oes sôn ynghylch hunaniaeth gan Trudgill yn ei enghraifft: 'accent divergence, may take place instead if, for example, [when] speakers wish to dissociate themselves from or show disapproval of others' (1986, t. 2). Honna Schneider (2008, tt. 264–266) fod Trudgill yn ymdrin â hunaniaeth fel rhywbeth sy'n deillio o ganlyniad i ymgymhwyso, lle y dylid ei ystyried fel grym y tu ôl i gyd-gyfeirio neu ddargyfeirio tymor byr. Mae ymchwil gan eraill hefyd yn ystyried hunaniaeth fel y prif gymhellant ar gyfer

dargyfeirio (Giles ac Olgay 2007, t. 296) ac ymddygiad ieithyddol unigolion yn gyffredinol (Le Page a Tabouret-Keller 1985, t. 2).

Mae cyd-gyfeirio a dargyfeirio tymor hir yng nghyd-destun cyffyrddiad a dwyieithrwydd o ddiddordeb i'r ymchwil hwn. Mae Bullock a Toribio (2004) yn cyfleu cyd-gyfeirio tymor hir fel nodwedd yn lleferydd siaradwyr dwyieithog. Diffinia Bullock a Toribio (2004, t. 91) gyd-gyfeirio tymor hir fel 'the enhancement of inherent structural similarities found between two linguistic systems' ac ymhellach fe'i hystyrir ganddynt fel canlyniad o newid trwy gyffyrddiad ieithyddol. I'r gwrthwyneb mae Backus (2004, t. 180) yn ei weld fel un o brosesau posibl a all arwain at newid trwy gyffyrddiad ieithyddol. Er hyn, mae Backus (2004, t. 189) yn cynnig diffiniad tebyg: 'a type of language change that is contact-induced and results in greater similarity between two languages that are in contact'. Gwelir felly berthnasedd cyd-gyfeirio a dargyfeirio tymor hir trwy ymgymhwysio yng nghyd-destun cyffyrddiad tafodieithol Cymraeg Caerdydd.

Yn ei *Functional Convergence Hypothesis*, dadansodda Sanchez (2003, 2004) pa rannau o systemau gramadegol unigolion dwyieithog Quechua-Sbaeneg sydd fwyaf tebygol o gael eu dylanwadu trwy gyffyrddiad, gan edrych yn benodol ar amser y ferf. Yn ôl Sanchez (2003) mae cyd-gyfeirio tymor hir yn digwydd pan fo nodweddion gweithredol mewn un iaith yn cael ei chynhyrchu mewn iaith arall, lle nad yw'r nodweddion penodol yn weithredol fel arfer. Gwelir hynny yn Sanchez (2004, t. 161) gydag amrywiolion marciedig yn Quechua yn ymddangos yn Sbaeneg y siaradwyr.

Yn ei fersiwn diweddarach o'r hypothesis, noda Sanchez (2004, t. 148) mai'r rhannau sydd fwyaf agored i ddylanwadau allanol yw'r rhai sy'n cynnwys nodwedd gyffredin yn y ddwy iaith, heb fod y nodweddion hyn yn union yr un peth. Mae Loudon a Page (2005) yn eu hymchwil ar siaradwyr dwyieithog Saesneg ac Almaeneg Pennsylvania hefyd yn ymdrin â pha rannau o ramadeg siaradwyr dwyieithog sydd fwyaf agored i gael eu heffeithio trwy gyd-gyfeirio tymor hir. Mae Loudon a Page (2005, t. 1391) yn canfod bod geirfa Almaeneg y siaradwyr fwyaf agored i gyd-gyfeirio, tra bod ffonoleg y geiriau ei hun yn medru gwrthwynebu cydgyfeiriad. Dywed hyn, gan fod siaradwyr hyn sy'n cyfnewid-cod yn defnyddio geiriau'r Saesneg, ond yn cynnal acen Almaeneg-Pennsylvania wrth ynganu.

Felly, pan fydd siaradwyr yn dod i gysylltiad â'i gilydd, maent yn cyd-gyfeirio neu'n dargyfeirio tuag at neu oddi wrth leferydd eu cyd-siaradwr yn y tymor byr (Giles 1973). Wrth gyd-gyfeirio mae'r siaradwr yn defnyddio'r mecanwaith sosioseicolegol o ymgymhwyso ar gyfer ymdebygu i'r cyd-siaradwr trwy leihau gwahaniaethau rhyngddynt. Yn gyferbyniol, wrth ddargyfeirio mae'r siaradwr yn ymbellhau o'r siaradwr am resymau cymdeithasol megis hunaniaeth. Yn y tymor hir, mae posibilrwydd i'r broses ieithyddol hon arwain at newid ieithyddol parhaol mewn lleferydd unigolion o fewn cymuned o siaradwyr (Trudgill 1986) sy'n berthnasol i gyd-destun Cymraeg Caerdydd. Dengys yr is-adran hon bwysigrwydd ystyried hunaniaeth wrth gyd-gyfeirio neu ddargyfeirio (Le Page a Tabouret-Keller 1985; Giles a Holgay 2007; Schneider 2008) er nad yw Trudgill (1986) yn ei ystyried. Ystyriwn yn yr is-adran hon yn ogystal gyd-destun cyffyrddiad ieithyddol a sut y gall cyd-gyfeirio a dargyfeirio ieithyddol ddigwydd o un iaith i iaith arall, a pha rannau a chyfadranau o'r ieithoedd hynny all gael eu heffeithio (Sanchez 2003, 2004). Nesaf, symudwn at ffenomen ffurfiant tafodiaith newydd.

2.8 Ffurfiant tafodiaith newydd

Mewn sefyllfaoedd o gyffyrddiad tafodieithol a chyd-gyfeirio dros amser mae amrywiadau newydd yn gallu ymsefydlu. Gelwir y broses hon yn ffurfiant tafodiaith newydd, neu *koiné*-eiddio. Yn ôl Mesthrie (2001, t. 486) "*koiné* refers to a language variety that has arisen from contact between dialects of the same language", felly proses sy'n ymwneud â chyffyrddiad tafodieithol yw ffurfiant tafodiaith newydd neu *koiné*-eiddio. Wedi cyffyrddiad tafodieithol, mae'r amrywiolion mwyaf amlwg, derbyniol a deniadol yn gymdeithasol ar gyfer yn goroesi, ac yn y pen draw, bydd y dafodiaith *koiné* newydd yn ffurfio (Kerswill 2013).

Yn ôl Britain (2010, t. 231) mae sawl cam i ffurfiant tafodiaith newydd (*Koiné*-eiddio). Yn gyntaf ceir cymysgu, sy'n deillio o gyffyrddiad rhwng siaradwyr a thafodieithoedd. Yn ail ceir lefelu, lle mae gwahaniaethau yn cael eu lleihau ac felly geiriau marciedig neu ffurfiau gwarthnodedig yn cael eu colli o'r gymysgedd dafodieithol. Yn olaf ceir symleiddio, sy'n aml yn golygu bod y ffurfiau mwyaf syml yn goroesi ar ôl lefelu. Pan fo dau amrywiolyn yn goroesi, yn aml caiff yr amrywiolion eu hail-ddosbarthu, er enghraifft, weithiau gall un

amrywiolyn fod yn nodweddiadol o'r dosbarth sosioeconomaidd is, defnyddio /ɜ:/ ac /u:/ yn nodweddiadol o'r dosbarth sosioeconomaidd uwch (Britain a Trudgill 2005, t. 186).

Ceir tri chyfnod tebyg i broses ffurfiant tafodiaith newydd yn ôl Trudgill (2004) yn ogystal. Yn gyntaf, ceir lefelu elfennol rhwng siaradwyr trwy gyffyrddiad wyneb-yn-wyneb sy'n arwain at siaradwyr yn ymgymhwyso eu sgwrs tuag at ei gilydd. Yn ail, cyfnod sydd wedi'i rannu'n ddwy, sef amrywio eithafol a lefelu pellach. Mae'r cyfnod hwn yn berthnasol i'r ail genhedlaeth o siaradwyr ifanc, sydd fel arfer yn dueddol o ymdebygu i'w cyfoedion, ond yn hytrach maent yn amrywio'n sylweddol gan nad oes amrywiad yn bodoli iddynt ymdebygu iddo. Yn yr ail ran o'r cyfnod hwn, mae lefelu ar waith lle mae amrywiolion lleiafrifol yn cael eu hepgor o'r gymysgedd dafodieithol. Yn olaf mae'r amrywiad yn ffocysu, ac mae un amrywiolyn yn goruchafu ar gyfer nodwedd neu ffurf benodol, wedi i'r amrywiolion eraill gael eu hepgor. Ceir hefyd ailddosbarthu posibl yn niffiniad Trudgill (2004) o ffurfiant tafodiaith newydd.

Mewn rhai enghreifftiau o gyffyrddiad tafodieithol a newid ieithyddol, ceir sefyllfaoedd *tabula rasa*, 'those in which there is no prior-existing population speaking the language in question' (Trudgill 2004, t. 26) fel y nodwyd yn 2.6. Gall hyn fod o ganlyniad i ymfudo neu adfywio ieithyddol, ac mae'n gysylltiedig gydag ieithoedd trefedigaethol. Pan fo hynny'n digwydd, mae tafodiaith newydd yn ffurfio o ganlyniad i'r cyffyrddiad tafodieithol, a'r gymysgedd o amrywiadau sy'n bodoli yn yr ardal benodol honno. Mae tafodiaith newydd yn ffurfio naill ai yn yr ardal y mae'r dafodiaith honno'n deillio ohoni, sef *Koiné* rhanbarthol, neu mewn ardal lle mae'r dafodiaith honno wedi mudo iddi, sef *Koiné* mewnfudwr (Siegel 1985).

Yn hanesyddol mae sosioieithyddion wedi tueddu i ganolbwyntio ar lefelu fel proses o golli amrywiadau, ond mae'n bendant fod *koiné*-eiddio'r un mor bwysig wrth ystyried creu ffurfiau newydd, nad oeddent yn bodoli yn y tafodieithoedd gwreiddiol. Gelwir y broses hon yn greadigaeth ryng-dafodieithol sef, amrywiolion gwreiddiol yn cael eu creu nad oeddent yn bodoli yn y tafodieithoedd gwreiddiol (Britain 2010, t. 231). Disgrifir ef gan Croft (2000, t. 73) mewn cyd-destun *tabula rasa* fel creu 'novel variants that did not already exist in the lineage'. Dywed Trudgill (2004, t. 158) fod rhyngdafodiaith yn datblygu ochr-yn-ochr â'r

ymfudwyr wrth iddynt ymgymhwyso a chyd-gyfeirio eu sgysiau. Disgrifia Trudgill y broses fel ymgymhwysiad rhannol (Trudgill 2004, t. 158) â thri math posibl o ddatblygiad rhyng-dafodieithol sef, ffurfiau sy'n deillio o symleiddio; ffurfiau canolradd, a ffurfiau sy'n ganlyniad i or-addasu, er enghraifft siaradwyr yn defnyddio ffurfiau statws uwch yn anghywir (Trudgill 2004, t. 86).

Mae ymchwil Kerswill a Williams (2000, 2005; Williams a Kerswill 1999) yn edrych ar ffurfio tafodiaith newydd mewn tref newydd, ac yn dadansoddi effaith mudo helaeth o ardaloedd diwylliannol eraill megis Llundain a Bryste ar dafodiaith Milton Keynes. Yn Kerswill a Williams (1999) dangosir effaith ymfudo mewn tref newydd trwy gymharu mannau geni pobl ifanc ym Milton Keynes, â rhai o Hull a Reading. O'r wyth bachgen, dim ond dau ohonynt sydd wedi'u geni ym Milton Keynes, o'u cymharu â 7 yn Reading ac 8 yn Hull. O ganlyniad i'r mudo helaeth, mae gwaith Kerswill a Williams (2000, 2005) yn dadansoddi gwahanol lafariaid, a'u perthnasedd yng nghyd-destun ffurfiant tafodiaith newydd. Mae'r dafodiaith yno'n ffurfio, a ffurfiau'n cael eu lefelu – mae llawer o'r hen ffurfiau yn cael eu colli a rhai newydd yn cymryd eu lle – o ganlyniad i'r ddemograffeg gymysg. Ceir enghraifft o hyn yn llafariad *PRICE*, gyda'r bobl ifanc yn symud tuag at darged o [ai] - sydd rhyw fath o gymysgedd rhwng y ffurf RP a'r ffurf Lundeinig. Cyn y ffurf ganolradd newydd hon, roedd pobl MK cyn iddi droi'n dref newydd yn defnyddio ffurfiau [ɔi] a [Ai] (Kerswill a Williams 2000, tt. 1036–1037).

Yr enghraifft fwyaf nodedig o ffurfiant tafodiaith newydd (*tabula rasa*) yw Saesneg Seland Newydd. Edrycha Trudgill et al. (2002) ar y *koiné* mewnfudwr hwn trwy ddadansoddi data hanesyddol er mwyn ceisio datrys sut y mae amrywiadau gwahanol o Saesneg Prydain a Saesneg Iwerddon wedi datblygu i ffurfio tafodiaith newydd. Yn ôl Trudgill et al. (2002, t. 299) dengys yr ymchwil fod 'dialect mixture and new dialect formation are not haphazard processes'. Trwy ddadansoddi pedwar cam ffurfiant tafodiaith newydd a'u hystyried yng nghyd-destun y mewnfudwyr a'r cyfraddau gwahanol o fewnfudwyr (49% o Loegr, 22% o'r Alban, 20% o Iwerddon, 7% o Awstralia, 1% o Gymru a 1% o Ogledd America) dadleua Trudgill et al. (2002, tt. 309–310) fod modd gwneud rhagdybiaethau ynglŷn â sut mae'r amrywiadau sydd wedi ffocysu yn Saesneg Seland Newydd wedi eu ffurfio.

Mae llafariad *KIT* Saesneg Seland Newydd wedi'i ganoli yn /3/, fel y mae siaradwyr o'r Alban yn ei hynganu (Trudgill et al. 2002, t. 307). Gan nad oedd yr amrywiolyn yn warthnodedig, mae'n debygol iddo fod yn amrywiolyn cyffredinol, ac felly'n debygol o oroesi'r lefelu elfennol a nodwyd uchod am fod 22% o ymfudwyr o'r Alban. I'r gwrthwyneb, mae'n debygol bod rhai amrywiolion eraill nad ydynt yn bresennol yn Saesneg Seland Newydd wedi cael eu defnyddio gan fewnfudwyr o Dde Lloegr neu Yr Alban, ac mae'n debygol iddynt gael eu colli yng nghyfnod y lefelu pellach. Mae'r astudiaeth hon gan Trudgill et al. (2002), fel y rhan fwyaf o astudiaethau ar ffurfiant tafodieithoedd newydd, yn astudiaeth sy'n arsylwi newidiadau hanesyddol ar yr amrywiad presennol gyda data'r gorffennol.

Wrth edrych ar sefyllfa hanesyddol Saesneg Seland Newydd, ceir paralelau amlwg gyda Chymraeg Patagonia yn Jones (1973–74; 1976). Mae'r ddau amrywiad newydd yn enghreifftiau o amrywiadau *koiné* mewnfudwyr mewn sefyllfaoedd *tabula rasa*. Roedd teithiau llong misoedd o hyd yn lleoliad ar gyfer y cyffyrddiad tafodieithol cynnar. Mae'n debygol nad oedd y dafodiaith newydd yn Seland Newydd a'i hamrywiolion wedi'i sefydlu tan 1840, dros hanner canrif ar ôl i'r mudwyr cyntaf gyrraedd y wlad (Trudgill et al. 2002, t. 300). Gwelir mewn astudiaethau eraill hefyd bod amrywiadau yn ffocysu ar ôl cyfnod o oddeutu 50 mlynedd (Sharma a Sankaran 2011). Nid yw ymchwil Jones (1973, 1976, 1984) ar Gymraeg Patagonia yn cyfleu yr amrywiad fel un sydd wedi'i ffocysu, nac yn dadansoddi'r amrywiad â golwg ar ffurfiant tafodiaith newydd.

Er bod y rhan fwyaf o fewnfudwyr i Seland Newydd wedi cyd-gyfeirio dros amser, gan arwain at ffocysu a ffurfio'r dafodiaith newydd yn llawn, ceir eithriadau. Cyfeiria Trudgill et al. (2002, t. 305) at fewnfudwr o'r enw Malcolm Ritchie, a ddefnyddiodd amrywiadau o wahanol rannau o Brydain gan gynnwys rhai o Dde-orllewin Lloegr, er nad oedd ef na'i deulu erioed wedi byw yno. Y rheswm am hyn oedd ei leoliad yn Seland Newydd. Roedd Ritchie'n byw yn Cromwell, Otago, a elwid yn Cornishtown gan y bobl leol. Gelwir yr ardal yn Cornishtown oherwydd y gyfradd uchel o ymfudwyr o Gernyw a ddaeth yno, gan aros gyda'i gilydd a ffurfio rhwydweithiau clòs (Milroy 1987, Trudgill 1996, t. 12). O ganlyniad i'r rhwydweithiau clòs, roedd y broses o Ffurfiant Tafodiaith Newydd yn digwydd yn llawer

arafach mewn ardaloedd tebyg, o'u cymharu ag ardaloedd mwy cymysg eu demograffeg oherwydd bod rhwydweithiau clòs yn atal newid (Milroy 1987, tt. 202–203). Gall hyn fod o ddiddordeb i amrywiad newydd fel Cymraeg Caerdydd, gan fod siaradwyr iaith gyntaf ieithoedd lleiafrifol yn debygol o gynnal eu rhwydweithiau cymdeithasol clòs (Thomas 1989, Milroy 1987).

Mae ffurfiant tafodiaith newydd, neu *koiné*-eiddio yn broses sy'n ymwneud â chyffyrddiad tafodieithol. Adnabuwyd camau ffurfiant tafodiaith newydd gan Britain (2010) a Trudgill (2004) fel rhai a oedd yn ymwneud â chyffyrddiad, lefelu, symleiddio, ffocysu ac ail-ddosbarthu. Archwiliwyd gwahanol fathau o ffurfiant tafodiaith newydd; yn gyntaf, sefyllfaoedd *tabula rasa* lle nad oes poblogaeth o siaradwyr yr iaith yn bodoli yn ardal ffurfiant y tafodiaith newydd; yn ail, sefyllfaoedd trefi newydd, lle mae mudo helaeth i ardaloedd diwydiannol yn arwain at ffurfiant tafodiaith newydd yno. Cyfeiriwyd hefyd at sefyllfa o ffurfiant tafodiaith newydd Cymraeg Patagonia, ond ni edrychwyd ar yr amrywiad hwn o fewn fframwaith ffurfiant tafodiaith newydd mewn ymchwil blaenorol.

2.9 Crynodeb

Felly, i grynhoi, trafodir yn y bennod hon bwysigrwydd pobl ifanc wrth ymchwilio i amrywio a newid ieithyddol gan eu bod yn arloeswyr mewn ymchwil blaenorol. Pwysleisir pwysigrwydd strwythurau a hunaniaeth gymdeithasol yng nghyd-destun amrywio a newid ieithyddol gan bobl ifanc, ac yn benodol defnyddio cymunedau arfer fel ffactor cymdeithasol er mwyn mesur effaith strwythurau a hunaniaethau cymdeithasol. Mae defnydd o gymunedau arfer fel ffordd o fesur effaith strwythurau cymdeithasol fel ffactor cymdeithasol yn nodweddiadol o ymchwil sosioieithyddol y drydedd don fel y mae'r ymchwil hwn.

Cyflwynwyd ymchwil ar amrywio mewn gwahanol fathau o gymunedau dwyieithog yn 2.2. Cychwynnir trwy edrych ar ymchwil blaenorol ar gaffael ail iaith ac effaith trosglwyddo ieithyddol o naill iaith i'r llall mewn astudiaethau o'r fath yn 2.2.1. Yn dilyn hynny ceir is-adran ar addysg drochi ac astudiaethau o amrywio teip 1 a theip 2 yn 2.2.2. Yn yr is-adrannau nesaf (2.2.3 a 2.2.4) edrychir yno ar ymchwil ar iaith ymfudwyr, yn ogystal â

chymunedau o siaradwyr o leiafrifoedd ethnig yn y DU a'r UDA. Mae agweddau cyffredin yn perthyn i'r astudiaethau ymchwil sy'n ymchwilio i siaradwyr mewn carfanau lleiafrifol dinesig â'r ymchwil hwn ar siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd.

Yn is-adran 2.3 cyflwynwyd ymchwil ar amrywio yng nghyd-destun adfywio ieithyddol. Mae'r ieithoedd dan sylw oll yn ieithoedd sydd â safle llawer llai o fewn y gymuned ac o fewn cyd-destun swyddogol na'r Gymraeg. Dengys yr ymchwil effaith debygol trosglwyddo ieithyddol o'r iaith fwyafrifol i'r iaith leiafrifol yn sgil cyffyrddiad yng nghyd-destun adfywio ieithyddol. Gwelir bod amrywio teip 3 (Nance et al. 2016) yn cynnig fframwaith caffael ail iaith sy'n fwy perthnasol ar gyfer cyd-destunau o adfywio ieithyddol, am nad yw siaradwyr ail iaith yn dewis cynhyrchu patrymau siaradwyr iaith gyntaf am nad ydynt wastad yn berthnasol iddynt. Edrychir ar wahanol astudiaethau o siaradwyr newydd yng nghyd-destunau adfywio ieithyddol yn ogystal, a nodwyd bod tebygrwydd a gwahaniaethau rhwng y ieithoedd hynny a'r Gymraeg.

Edrychir yn 2.4 ar ymchwil blaenorol ar amrywio a newid ieithyddol y Gymraeg. Yr hyn sydd o ddiddordeb penodol i'r astudiaeth hon yw data ar bobl ifanc mewn ysgolion Cymraeg a'r ddamcaniaeth bod yr amrywiad yn gynnyrch yr ystafell ddosbarth (Thomas 1991; Jones 1994, 1998). Edrycha ymchwil diweddar ar amrywiadau'r Gymraeg o safbwynt agwedd amrywio ieithyddol, yn hytrach nag yn nhermau dirywiad a darfodiad ieithyddol (Morris 2013, 2021; Morris et al. 2016; Davies 2016; Mayr et al. 2017; Prys 2019). Gwelir gwahaniaethau rhwng effaith iaith yr aelwyd ar y Gymraeg o'i gymharu â ieithoedd lleiafrifol eraill. Yn benodol, nid yw iaith aelwydydd siaradwyr ifanc yn ffactor arwyddocaol mewn cymunedau lle nad yw'r Gymraeg yn iaith gymunedol gref. Mae hyn yn cyferbynnu â chanfyddiadau o astudiaethau ar gymunedau dwyieithog rhyngwladol eraill (Paradis 2001, Fowler et al. 2008; Simonet 2010). Er hynny, yng Nghaernarfon, lle mae'r Gymraeg yn iaith gymunedol gref, mae iaith aelwyd yn ffactor sy'n effeithio ar amrywio siaradwyr ifanc (Morris 2013).

Edrychir yn benodol ar gyffyrddiad ieithyddol yn is-adran 2.5, a gwelir bod trosglwyddo ieithyddol sef elfennau o'r naill iaith yn trosglwyddo i'r iaith arall mewn

cymuned ddwyieithog, yn ogystal â chyfnewid-cod, yn nodweddiadol mewn sefyllfaoedd o gyffyrddiad ieithyddol. Edrychir hefyd ar gyffyrddiad tafodieithol, a'r ffenomenau sy'n codi o ganlyniad i broses cyffyrddiad tafodieithol. Mae cyffyrddiad tafodieithol yn medru arwain yn y pen draw at ffurfiant tafodiaith newydd. Rhennir yr ymchwil blaenorol ar ffurfiant tafodiaith newydd yn dair math sef, sefyllfaoedd adfer tir (Britain 2010), sefyllfaoedd *tabula rasa* (Trudgill et al. 2002; Trudgill 2004) a sefyllfaoedd tref newydd (Kerswill a Williams 2000, 2005; Williams a Kerswill 1999) Mae'r Gymraeg yn iaith gymharol newydd (yng nghydestun yr hanner canrif ddiwethaf) yn ninas Caerdydd, a hynny o ganlyniad i dwf addysg Gymraeg ac ymfudo helaeth o wahanol rannau o Gymru yn dangos tebygrwydd i sefyllfaoedd *tabula rasa* a thref newydd. Mae posibilrwydd o dafodiaith newydd yng Nghymraeg Caerdydd gan nad oes tafodiaith draddodiadol yn bodoli yno erbyn hyn.

3 Methodoleg

3.1 Trosolwg o'r fethodoleg

Er mwyn casglu data gan y disgyblion, fe gynhaliwyd 24 o gyfweiliadau sosioieithyddol ar sail fframwaith Labovaid (Labov 1984). Roedd rhestr o eiriau wedi ei chynnwys ar ddiwedd y cyfweiliad ar gyfer canfod enghreifftiau o sgwrs fwy gofalus er mwyn canfod arddulliau mwy ffurfiol gan y disgyblion. Fe ymgorfforwyd agweddau'r drydedd don (gw. isadran 3.8.1) trwy ddefnyddio dulliau ethnograffegol mewn cyfnod o arsylwi ar y disgyblion (Eckert 1989). Cynhaliwyd gêm amlen (Matthews 2005) gyda'r disgyblion er mwyn canfod gwybodaeth gan y disgyblion ei hunain am rwydweithiau cymdeithasol y dosbarth. Yn ogystal, dosbarthais holiaduron cyd-destunol ar gyfer darganfod mwy am ddemograffeg y disgyblion, gan gynnwys gwybodaeth am eu rhieni, man geni, lleoliad eu magwraeth, iaith yr aelwyd ac amllder defnydd iaith. Bwriad yr holiadur oedd canfod gwybodaeth na allwn ei chanfod gan bob disgybl trwy gyfweiliad ac er mwyn llunio'r sampl cyfweld. Casglwyd y data yn YUGC, ac mae'r ysgol yn un o dair ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd ac yn cynnwys oddeutu 35% o blant o aelwydydd Cymraeg (Estyn 2005, t. 5). Felly, Caerdydd yw'r cyfanfyd (*sample universe*) (Tagliamonte 2006, t. 21) yn yr ymchwil hwn.

Yn 3.2 tynnir sylw at Gaerdydd fel ardal trwy edrych ar hanes y ddinas, perthynas y ddinas â'r Gymraeg ac addysg Gymraeg a gwybodaeth am gefndir Caerdydd. Yn dilyn hynny, yn 3.3 edrychir ar yr ysgol uwchradd dan sylw yn yr ymchwil hwn, YUGC. Wedi hynny bydd adran 3.4 yn edrych ar gyfranogwyr yr ymchwil a pha newidynnau oedd dan sylw wrth ddylunio'r sampl. Yna byddaf yn manylu ar y broses o samplo a sut aethpwyd ati i recriwtio myfyrwyr a cheir sôn yn yr adran honno ynghylch y profiadau a wynebais wrth recriwtio a pharatoi at gasglu data (3.4). Bydd y casglu data wedyn yn derbyn sylw ehangach yn 0, gan gynnwys is-adran i bob un o'r offerynnau ymchwil a thrafodaeth ynglŷn â fy mhrofiadau wrth gynnal y gwaith maes ei hun. Yn olaf, yn 1.3 rhoddir sylw i'r nodweddion ieithyddol dan sylw yn yr ymchwil hwn a pha waith blaenorol a wnaethpwyd arnynt, yn ogystal â manylu ar y dadansoddi ystadegol.

Mae'r gwahaniaeth rhwng Caerdydd ac ardaloedd eraill yng Nghymru yn amlwg o safbwynt tirlun ieithyddol Caerdydd yn ogystal. O safbwynt y Gymraeg, cynyddodd nifer siaradwyr Cymraeg Caerdydd o 18,071 (6.6%) i 32,504 (11.0%) (Llywodraeth Cymru 2001) rhwng 1991 a 2001. Erbyn canlyniad cyfrifiad 2011, arafodd twf niferoedd y Gymraeg yng Nghaerdydd o 32,504 i 36,735 o siaradwyr gyda'r twf yn cynrychioli 0.1% o'r boblogaeth gyfan yn unig (Llywodraeth Cymru 2011). Felly bu'r Gymraeg ar gynydd o fewn awdurdod unedol mwyaf amlddiwylliannol Cymru, a hynny ochr-yn-ochr ag amryw helaeth o ieithoedd eraill. Addysg yw un o'r prif resymau dros dwf y Gymraeg yng Nghaerdydd, ac erbyn hyn mae tair ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg, a phedair ar hugain o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn y ddinas yn cynrychioli 8 493 o ddisgyblion sy'n eu mynychu (Thomas 2020, t. 165). Nesaf byddwn yn manylu ar ddarlun sosioeconomaidd Caerdydd.

3.2.1 Darlun sosioeconomaidd Caerdydd

Defnyddir Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) ar gyfer canfod gwybodaeth ynglŷn â darlun sosioeconomaidd ardaloedd Caerdydd. Gall data'r MALIC daflu goleuni ar amrywio sosioeconomaidd yng Nghaerdydd. Mae'r MALIC wedi ei seilio ar incwm, cyflogaeth, iechyd, addysg, mynediad at wasanaethau, diogelwch cymunedol, amgylchedd ffisegol a thai (Llywodraeth Cymru 2019). Mae sgôr MALIC ward etholiadol lleol yn cael ei gyfrif trwy'r categorïau hynny, ac yn lleoli awdurdodau lleol Cymru ar raddfa genedlaethol. Yn ogystal, mae'n tynnu sylw at ba ganran o boblogaeth awdurdod lleol sydd ymysg y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru gyfan. Mae 19.2% o boblogaeth Caerdydd yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sydd 9.2% yn uwch na chyfartaledd Cymru o 10% (Llywodraeth Cymru 2019). Mae'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghaerdydd yn cynnwys: Sblot, Trelái a Chaerau, Trowbridge a Llanrhymni, Tre-biwt, a Phentwyn.

raddfa'r MALIC, o fewn cyd-destunau grwpiau'r dosbarth yn 4.3. Nesaf, cyflwynir yr ysgol lle y cynhaliwyd yr ymchwil.

Tabl 2 – Lleoliad disgyblion YUGC ar y raddfa MALIC

	50% UCHAF	50–30%	30–20%	20–10%	10% ISAF
NIFER Y DISGYBLION	16	4	1	1	2

3.3 Ysgol Uwchradd Gymraeg Caerdydd (YUGC)

Cynhaliwyd yr ymchwil hwn yn Ysgol Uwchradd Gymraeg Caerdydd (YUGC). Mae 36% o ddisgyblion yr ysgol yn dod o aelwydydd lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad (Estyn 2017, t. 1), ac mae 17.9% o ddisgyblion yn byw mewn ardaloedd sydd ymhlith yr 20% mwyaf difreintiedig yng Nghymru (Estyn 2017, t. 1). Er hynny, nid yw YUGC yn un o ysgolion â'r ganran uchaf o ddisgyblion o ardaloedd mwyaf difreintiedig Caerdydd, ymhlith y 30%-50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru (Llywodraeth Cymru 2014). Trown nesaf at gyfranogwyr yr ymchwil, gan ddechrau gyda dylunio'r sampl a pha newidynnau cymdeithasol sydd dan sylw yn yr ymchwil hwn.

3.4 Dylunio'r sampl a'r newidynnau cymdeithasol dan sylw

Ar gyfer samplo, defnyddiais ddull hapsamplo haenedig (Tagliamonte 2006). Diffinia Tagliamonte (2006, t. 23) y dull fel a ganlyn: 'the researcher (1) identifies in advance the types of speakers to be studied; and (2) seeks out a quota of speakers who fit the specified categories'. Felly, dewisais siaradwyr Cymraeg ar gyfer bodloni'r sampl, mae pob disgybl yn YUGC yn dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf (Estyn 2017, t. 1) o safbwynt cyfrwng iaith yr ysgol. Penderfynais wahaniaethu rhwng siaradwyr o aelwydydd Cymraeg ac aelwydydd di-Gymraeg gan ei bod hi'n debyg y byddai gwahaniaeth yn eu profiadau a'u defnydd o'r Gymraeg. Cafodd y disgyblion eu gwahaniaethu o ran rhywedd hefyd, felly cafodd y sampl ei rannu'n ferched a bechgyn o aelwydydd Cymraeg a di-Gymraeg. Mae'r isadrannau nesaf yn cyflwyno rhywedd (3.4.1) iaith ar yr aelwyd (3.4.2), y newidynnau a reolir (3.4.3) a'r newidynnau nas ystyrir (3.4.4).

3.4.1 Rhywedd

Yn hanesyddol, mae gwaith tafodieithol wedi canolbwyntio ar NORMs (Chambers a Trudgill 1998, t. 29) sef '*non-mobile older rural males*', ac felly nid oedd rhywedd yn cael llawer o sylw fel newidyn annibynnol mewn ymchwil cynnar. Mewn gwaith sosioieithyddol mwy cyfoes, mae'r arfer hwn yn cael ei osgoi, gyda chanolbwynt ar greu sampl cynrychioliadol o siaradwyr. Mewn ymchwil sosioieithyddol yn ogystal, mae casgliadau yn tueddu i ddangos fod merched yn arwain newid ieithyddol (Labov 2001, tt. 279–289). Er hynny, camgymeriad fyddai honni bod merched yn fwy neu'n llai dyfeisgar na dynion (Eckert 1989, t. 248). Yn ôl Labov (2001, t. 291) '*both conservative and innovative behaviour reflect women's superior sensitivity to the social evaluation of language*'. Mewn sefyllfaoedd lle mae tafodiaith yn sefydlog, mae merched yn dueddol o fod yn geidwadol gyda'u hamrywiolion, ond mewn sefyllfaoedd o newid tafodieithol mae merched yn dueddol o ddefnyddio amrywiolion newydd yn gynt na dynion (Labov 2001, t. 274). Adwaenir hyn fel y paradocs rhywedd.

Mae Trudgill (1974) a Labov (2001) wedi pwysleisio mai bri ieithyddol (*linguistic prestige*) yw'r rheswm mwyaf tu ôl i newid mewn iaith merched. Mae bri ieithyddol yn ymwneud â gwerth cymdeithasol sy'n gysylltiedig ag amrywiadau penodol (Labov, 1966). Gall bri olygu mwy nag un peth. Mae normau byd eang, fel ffurfiau safonol yn enghraifft o fri agored (*overt prestige*) (Labov 1990; Eckert 1989, t. 250). Gellid hefyd wrthwynebu'r normau hyn trwy ddefnyddio amrywiadau sy'n perthyn i grwpiau llai o fewn y gymdeithas, er enghraifft pobl ifanc. Gelwir hyn yn fri cuddiedig (*covert prestige*) (Labov 1990; Eckert 1989, t. 250). Tynna Eckert (1989, t. 250) sylw hefyd at fri lleol (*local prestige*), lle mae'r siaradwr yn ffurfio ffurfiau lleol.

Felly mae'r bri ieithyddol a chymdeithasol yn esbonio'r paradocs rhywedd uchod. Er efallai bod defnydd ceidwadol a defnydd dyfeisgar yn ymddangos yn gyferbyniol i'w gilydd, yr un cymhelliant sydd wrth wraidd y ddau sef bri. Defnyddiwyd iaith sy'n arddangos bri ieithyddol sydd yn ei dro yn arwain at fri cymdeithasol mewn cymunedau neu grwpiau penodol. Mae bri cymdeithasol yn arbennig o berthnasol yng nghyd-destun merched oherwydd eu safle gwan, yn hanesyddol, o fewn cymdeithas (Trudgill 1974, t. 94). Oherwydd hynny, dywed Eckert (1989, t. 249) fod merched yn ymateb i'w 'powerlessness by

developing linguistic strategies for upward mobility'. Mae safle merched fel arweinwyr ieithyddol yn ymateb i statws cymdeithasol hanesyddol dynion fel arweinwyr cymdeithasol. Mae sosioieithyddion eraill wedi cefnogi honiadau Eckert (1989), gyda Wolfram a Schilling-Estes (2015) yn honni bod merched yn dibynnu ar bŵer symbolaidd trwy fri ieithyddol o ganlyniad i'w diffyg pŵer economaidd o fewn y gymdeithas.

Bydd yr ymchwil hwn yn ystyried rhywedd fel cysyniad cymdeithasol, yn ôl dehongliad Eckert (1989, t. 253). Yn y dehongliad hwn, mae nodweddion a swyddogaethau priodol yn perthyn i bob rhywedd wedi'i lunio gan y gymdeithas. Golyga hyn fod siaradwyr yn gallu perfformio eu rhywedd (neu beidio). Sylwa Bucholtz (1999) fod cymuned arfer y '*nerd girls*' yn dewis peidio â pherfformio swyddogaethau mwy nodweddiadol o ferched eu hoed yn yr ysgol ac o ganlyniad, roedd eu cysyniad nhw o fod yn ferch yn yr ysgol yn diffinio eu hunaniaeth nhw. Er hynny, dadleua Eckert (1989, t. 255) fod merched yn ymdrin â statws cymdeithasol o safbwynt merched eraill ac nid o safbwynt dynion. Felly mae amrywiolion sy'n ymwneud â rhywedd yn unigryw gan fod merched a dynion yn byw ochr-yn-ochr, yn wahanol i amrywiolion sy'n ymwneud â hil, er enghraifft, sy'n cael eu defnyddio ar gyfer cynnal gwahaniaethau rhwng unigolion o bob hil. Mae'r *nerd girls* (Eckert 1989), er enghraifft, yn llunio eu hunaniaeth o fewn cyd-destun benywaidd, heb ystyried bechgyn.

Felly, bydd yr ymchwil hwn yn ymdrin â rhywedd fel ffactor deuaidd wrth ddadansoddi. Bydd y dosbarthiad hwn o rywedd y disgyblion yn seiliedig ar sut y diffiniwyd y siaradwyr eu hunain yn yr holiadur. Bydd agweddau'r drydedd don yn berthnasol i'r ymchwil hwn ar gyfer cymharu gwahanol grwpiau cymdeithasol yn yr ysgol ar gyfer canfod a yw rhywedd yn ffactor cymdeithasol sy'n effeithio ar amrywio ieithyddol disgyblion YUGC. Bydd dadansoddi perthynas iaith â rhywedd hefyd yn bwysig wrth ddadansoddi'r data, ac mae'r sampl yn cael ei rannu ar sail rhywedd y disgyblion. Nesaf, trown at iaith ar yr aelwyd, newidyn cymdeithasol arall yn yr ymchwil hwn.

3.4.2 Iaith yr aelwyd

Dewiswyd iaith yr aelwyd fel newidyn annibynnol ar gyfer sefydlu a oes gwahaniaeth rhwng amrywiadau ieithyddol disgyblion o aelwydydd Cymraeg ac aelwydydd di-Gymraeg. Yn ôl

Gathercole a Thomas (2009, t. 214), 'growing evidence indicates that children with greater exposure to each language have the early advantage in the acquisition of that language'. Mae iaith aelwyd y plentyn felly yn golygu fod ganddynt fwy o brofiadau gyda'r iaith honno, ac o ganlyniad bod mantais ganddynt yn yr iaith honno o'u cymharu â phlant nad ydynt yn ei siarad ar yr aelwyd.

Er hynny, mae canfyddiadau mewn ymchwil sosioieithyddol blaenorol ar y Gymraeg yn awgrymu nad yw gwahaniaethau ar sail iaith aelwyd yn effeithio ar amrywio ieithyddol yn y Gymraeg ar y cyfan (Morris 2013, 2017, 2021; Mayr et al. 2017; Mennen et al. 2020). Mae Mayr et al. (2017) yn awgrymu bod amrywio yn hytrach oherwydd strwythurau neu grwpiau cymdeithasol y bobl ifanc hyn. Mae amrywio ar sail iaith aelwyd i'w weld yng Nghaernarfon (Morris 2013) lle mae'r Gymraeg yn iaith gymunedol gref, felly roedd iaith aelwyd disgyblion yn dylanwadu ar strwythurau cymdeithasol yng Nghaernarfon. Mae ymchwil rhyngwladol ar gymunedau dwyieithog megis Simonet (2010, 2014) a Simonet ac Amengual (2020) yn canfod bod cefndir ieithyddol yn effeithio ar amrywio ieithyddol siaradwyr dwyieithog.

Mae'r term 'iaith yr aelwyd' yn cael ei ddefnyddio er mwyn osgoi unrhyw gymhlethdodau a all godi wrth ofyn beth yw 'iaith gyntaf' y disgyblion³. Gofynnwyd cyfres o gwestiynau holiadur ar ddefnydd ac amllder defnydd iaith i'r disgyblion. Trwy gyfrwng y cwestiynau hynny a fy mhrofiad personol o arsylwi'r disgyblion, canfuwyd beth oedd iaith aelwyd disgyblion yn well na thrwy ofyn am eu hiaith gyntaf yn unig. Dylid nodi iddi fod yn amhosibl dweud yn sicr beth yw gwir ddefnydd y disgyblion o'u Cymraeg ar yr aelwyd a thu hwnt i'r ystafell ddosbarth, heb arsylwi ymhellach. Mae cyfres o gwestiynau holiadur yn ogystal â fy mhrofiadau yn dod i adnabod y disgyblion yn ystod y cyfnod arsylwi yn fy ngalluogi i ddod yn agosach at bortread cywir o'r iaith y mae disgybl yn ei siarad ar yr aelwyd a thu hwnt.

³ Gall y disgyblion ddehongli iaith gyntaf fel yr iaith gyntaf a ddysgasant, yr iaith y maent y mwyaf cyfforddus ynddi, neu hyd yn oed yr iaith maent yn ei siarad fwyaf aml (Davies 2003).

Ymhellach, mewn teuluoedd lle y mae dwy iaith yn cael eu siarad gyda’r plentyn, mae’n anodd iawn profi pa iaith yw’r brif iaith allan o’r ddwy iaith, ac felly mae’n anodd canfod gwir ‘iaith yr aelwyd’. Yn ôl Morris (2013, tt. 118–119) mae iaith yr aelwyd yn dynodi ‘age of acquisition of Welsh, and distinguishes between those who acquired Welsh from their primary caregivers and those who acquired solely through primarily Welsh-medium education’. Felly yn unol â dyfyniad Morris, gellid ystyried aelwyd fel un Gymraeg hyd yn oed os oes aelwyd gymysg, gan fod y plentyn wedi caffael y Gymraeg gan un o’i rieni. O ganlyniad ystyrir aelwyd Gymraeg fel unrhyw aelwyd lle y mae un riant (neu warcheidwad) neu fwy yn siarad Cymraeg gyda’r disgybl, ac ‘aelwyd ddi-Gymraeg’ fel unrhyw aelwyd lle mae dau riant (neu warcheidwad) yn siarad Saesneg neu unrhyw iaith heblaw Cymraeg gyda’r disgybl.

Dengys Tabl 3 iaith aelwydydd disgyblion y sampl cyfweld yn YUGC. Pum disgybl sy’n siarad Cymraeg yn unig ar yr aelwyd, mae’r pum disgybl yn cynnwys o leiaf un riant o ogledd a gorllewin Cymru, ardaloedd tafodieithoedd traddodiadol y Gymraeg. Yn ogystal, roedd tri allan o’r pump a oedd o deuluoedd cymysg Cymraeg a Saesneg â riant o ogledd neu orllewin Cymru. Roedd dau ddisgybl yn siarad Ffrangeg ac Arabeg yn ogystal â Saesneg ar yr aelwyd, gyda’r ddau ag un riant a oedd yn medru’r Gymraeg. Ymhellach, o’r disgyblion a oedd yn siarad Saesneg yn unig ar yr aelwyd, roedd pedwar disgybl gydag unai riant yn medru’r Gymraeg neu’n arfer siarad Cymraeg gyda nhw, neu nain neu daid y maent yn siarad Cymraeg â hwyr, neu’n arfer siarad Cymraeg â hwy.

Tabl 3 – Iaith aelwydydd disgyblion YUGC

	SAESNEG YN UNIG	CYMRAEG YN UNIG	CYMYSG SAESNEG A CHYMRAEG	CYMYSG SAESNEG AC ARALL
NIFER Y DISGYBLION	12	5	5	2

Mae astudiaethau eraill wedi peidio â chynnwys disgyblion sy’n blant o aelwydydd cymysg am ei fod yn broblematig (Gathercole a Thomas 2008; Morris 2013). Bydd yr ymchwil hwn yn cynnwys plant o deuluoedd cymysg am ddau reswm. Yn gyntaf, ni fyddai’n ymarferol bosibl eithrio disgyblion o deuluoedd cymysg, oherwydd byddai diffyg plant o aelwydydd Cymraeg. Yn ail, byddai eithrio’r plant hyn yn golygu peidio â chynnwys

demograffeg amlwg iawn mewn ysgolion ar hyd a lled Cymru. Bydd iaith ar yr aelwyd yn cael sylw pellach yn isadran 3.6 gan iddo fod yn ystyriaeth bwysig wrth recriwtio a dylunio'r sampl. Cyn hynny, trown at y newidynnau a gafodd eu rheoli.

3.4.3 Y newidynnau a reolir

Yr unig newidyn a reolir yn yr astudiaeth hon yw oed y disgyblion, gan fod holl ddisgyblion y dosbarth dan sylw yn YUGC rhwng 15 a 16 oed. Mae gosod oed fel newidyn sydd dan reolaeth yn creu cysondeb i'r ymchwil, ac yn benodol i'r cyd-destun hwn, mae'n adlewyrchu bod yr ymchwil yn ymwneud ag amrywio ieithyddol o fewn dosbarth o ddisgyblion. Golyga hyn fod cyfranogwyr yr ymchwil hwn yn rhannu llawer o nodweddion oherwydd eu hoedran, gan eu bod yn yr un cyfnod yn eu bywydau. Penderfynwyd ar ddisgyblion 15–16 oherwydd perthnasedd hyn i'r cyfnod ieithyddol allweddol lle mae iaith pobl ifanc o dan ddylanwad eu cyfoedion yn hytrach na'u rhieni. Yn ogystal, dewiswyd oedran 15–16, sef blwyddyn 10 YUGC, oherwydd hwylustod – nid oes arholiadau TGAU ym mlwyddyn 10 o gwmpas mis Ionawr bellach, felly roedd athrawon yn hapus iawn imi gynnal yr ymchwil gyda'r disgyblion hyn heb amharu ar eu haddysg.

3.4.4 Newidynnau nas ystyrir

Ymddengys eu bod yn debygol bod disgyblion sydd o gefndiroedd sosioeconomaidd is yn llai tebygol o fynd ymlaen i'r chweched dosbarth gan fod cefndir sosioeconomaidd yn cael effaith ar fynychiad y chweched dosbarth (Banerjee 2016; Thomson 2018). Trwy astudio grŵp o ddisgyblion blwyddyn 10, cefais gymysgedd o gefndiroedd sosioeconomaidd, ethnig ac ieithyddol. O ganlyniad, mae'n bosibl honni bod sampl gan ddisgyblion blwyddyn 10, sy'n mynychu addysg orfodol, yn fwy tebygol o gynrychioli iaith yr ysgol gyfan, na disgyblion sydd wedi penderfynu parhau mewn addysg bellach. Mae ymchwil ar y Saesneg wedi defnyddio statws sosioeconomaidd (neu statws cymdeithasol) fel newidyn annibynnol (Labov 1966, 1972, 2001; Trudgill 1974, Feagin 1979; Horvath 1985; Haeri 1997) ond nid oes tystiolaeth bod cysylltiad arwyddocaol rhwng statws sosioeconomaidd ac amrywio a newid ieithyddol mewn astudiaethau ar y Gymraeg (Coupland a Ball 1989, t. 34). Felly roedd statws sosioeconomaidd yn newidyn nas ystyriwyd yn yr ymchwil hwn oherwydd hynny a'r ffaith

bod ymchwilio i statws sosioeconomaidd ymysg pobl ifanc yn broblematig (Ash 2004, t. 415).

Mae ymchwil sosioieithyddol wedi tueddu i ddiffinio statws sosioeconomaidd pobl ifanc fel statws sosioeconomaidd eu rhieni. Cafodd swydd rhieni sylw yn yr holiadur ar gyfer ceisio ategu fy ngwybodaeth o'r MALIC, ond penderfynwyd yn erbyn defnyddio statws sosioeconomaidd fel newidyn annibynnol yn yr ymchwil hwn. Os cymerir bod plant hŷn yn tueddu i ddefnyddio amrywiadau eu cyfoedion wedi'r cyfnod allweddol (Eckert 1988), gellid dweud y byddai defnyddio statws sosioeconomaidd rhiant yn gwrthdweud hynny. Yn ôl Eckert (2001, t. 92), er bod perthynas rhwng newid ieithyddol ag addysg rhiant, mae perthynas gryfach rhwng newid ieithyddol ac aelodaeth categori cymdeithasol yr unigolyn, yn hytrach na dosbarth cymdeithasol rhieni. Dengys hyn fod patrymau amrywio ieithyddol yn ffynonellau ar gyfer llunio hunaniaeth gan bobl ifanc. Penderfynwyd felly y byddai'r astudiaeth hon yn canolbwyntio ar rwydweithiau cymdeithasol y disgyblion, yn hytrach na cheisio llunio statws sosioeconomaidd y disgyblion.

3.5 Moeseg ymchwil

Lluniais gais moeseg ymchwil, a chefais ganiatâd gan bwyllgor moeseg ymchwil Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd ar gyfer cynnal yr ymchwil. Gan fy mod yn cynnal ymchwil gyda disgyblion ysgol a oedd o dan ddeunaw, roedd angen cynnwys manylion ar sut yr oeddwn i'n mynd i sicrhau diogelwch y disgyblion ac roedd rhaid gwneud cais am ffurflen GDG (*DBS*). Cynlluniais daflenni gwybodaeth i rieni allu dysgu mwy am yr astudiaeth a chan sôn am defnyddio system *optio*-allan yn gofyn i ddisgyblion a'u rhieni lofnodi'r ffurflen wybodaeth ar gyfer tynnu allan o'r ymchwil (Atodiad A: Ffurflen gwybodaeth am ymchwil i rieni). Roedd hawl gan y disgyblion a'u rhieni i dynnu allan o'r ymchwil ar unrhyw adeg. Cyn cyfweld, roedd gofyn i'r disgyblion arwyddo ffurflen gydsynio Prifysgol Caerdydd, a oedd yn cynnwys manylion y prosiect er mwyn cytuno i gymryd rhan mewn cyfweiliad (Atodiad B: Ffurflen cydsynio disgybli). Mae'r sampl cyfweld yn anhysbys a chafodd y disgyblion ffugenwau er mwyn sicrhau nad oedd rhai o fanylion personol y disgyblion er enghraifft, swyddi rhieni, yn hysbys.

3.6 Recriwtio cyfranogwyr

Fel y nodwyd uchod, cafodd y disgyblion eu rhannu ar sail rhywedd ac iaith yr aelwyd. Cymerodd y data ddeng wythnos i'w gasglu – chwe wythnos yn arsylwi, a phedair yn cynnal cyfweiliadau. Cyn hyn, trefnais gyfarfod gyda phennaeth blwyddyn deg YUGC, a gyrrais gopi o'r holl ddogfennau a oedd ynghlwm â'r ymchwil gan gynnwys ffurflenni cydsynio, ffurflenni gwybodaeth ymchwil i rieni, athrawon a disgyblion, er mwyn iddi allu deall mwy amdano. Roedd gennyf gynllun ar gyfer pennaeth blwyddyn 10 yn amlinellu'r drefn ddelfrydol ar gyfer casglu'r data, ond roedd hi'n bwysig fy mod yn hyblyg wrth gynllunio trefn y casglu data, yn enwedig gan fy mod i'n bwriadu amharu ar oriau dysgu'r plant trwy arsylwi a thynnu rhai disgyblion o'u gwersi er mwyn cael eu cyfweld. Mae ysgolion yn lleoedd prysur iawn, ac mae casglu data mewn ysgolion yn aml yn golygu addasu methodolegau ar gyfer gofynion yr athrawon a'r ysgol.

Treuliais amser yn e-bostio a chyfarfod wyneb yn wyneb â phennaeth blwyddyn 10, a chefais lawer o gymorth er mwyn llunio trefn a chynllun clir ar gyfer yr ymchwil. Rhybuddiodd pennaeth blwyddyn 10 efallai na fyddai rhai athrawon yn or-hoff o gael rhywun yn arsylwi yn eu gwersi hyd at dair gwaith yr wythnos am chwe wythnos. Cymerais amser i gyfarfod â'r athrawon a oedd yn dysgu'r gwersi y byddwn i'n eu harsylwi, er mwyn esbonio natur yr ymchwil mewn manylder a rhoi ffurflen wybodaeth yr un iddynt i'w darllen a'u hannog i gysylltu os oedd ganddynt unrhyw bryderon neu gwestiynau. Cefais wybod o fewn yr wythnos y byddai'r athrawon yn hapus imi arsylwi yn eu gwersi, ac yn ystod eu gwersi roeddent yn barod iawn i fy helpu.

Gan ystyried natur y sampl (gw. 3.4) fe ddewiswyd dosbarth, gyda chymorth pennaeth blwyddyn deg YUGC, gyda digon o blant a fuasai'n bodloni gofynion y sampl. Dewisais arsylwi dwy wers set tri gyda digon o ferched a bechgyn a oedd o aelwydydd Cymraeg a di-Gymraeg ar gyfer dylunio sampl gytbwys. Edrychwyd ar restr o'r dosbarthiadau gwahanol ym mlwyddyn 10 gyda'r pennaeth blwyddyn ac roedd y rhestrau'n cynnwys rhywedd, lleoliad presennol ac iaith aelwydydd y disgyblion. Roedd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol ar gyfer fy sampl gan ei bod yn cynnwys gwybodaeth elfennol ynghylch rhywedd ac iaith aelwydydd disgyblion o wahanol ddosbarthiadau. Trwy ddefnyddio'r

rhestrau gwybodaeth hyn, roeddwn i'n medru gweld pa ddsbarthiadau a fyddai'n addas ar gyfer cymryd rhan yn yr ymchwil hwn.

Er hynny, roedd amheuaeth ynghylch dilysrwydd gwybodaeth iaith aelwydydd disgyblion. Dywedodd pennaeth blwyddyn deg YUGC ei bod hi'n amau'n gryf bod cymaint yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd. Pan dderbyniais yr holiaduron oll yn ôl ar gyfer y cyfweliadau, sylweddolais nad oedd rhai aelwydydd a ddynodwyd yn rhai Cymraeg gan yr ysgol, yn rhai Cymraeg mewn gwirionedd. O ganlyniad, galluogodd yr holiadur cefndirol imi ganfod data a oedd yn fwy cywir na'r data a gefais gan yr ysgol. Roedd yr holiadur yn cynnwys cyfres o gwestiynau ynglŷn â defnydd ac amllder iaith ac iaith aelwyd y disgyblion. Gweler diffiniadau aelwyd Gymraeg ac aelwyd ddi-Gymraeg yn isadran 3.4.2 uchod.

Gan fod y disgyblion ym mlwyddyn 10, roeddent wedi eu setio, ac felly'r brif her oedd canfod gwersi a oedd yn weddol gyson o ran disgyblion. Llwyddasom i ganfod dwy set wahanol o ddisgyblion mewn dosbarthiadau Cymraeg (dair gwaith yr wythnos) a'r Fagloriaeth Gymreig (dair gwaith yr wythnos) a oedd yn cynnwys dros ugain o'r un disgyblion, gydag ambell un ohonynt yn amrywio rhwng y pynciau gwahanol. Penderfynais ar y set isaf o'r ddau grŵp o ddisgyblion (dosbarth 4 allan o 8 – yr ail set dau) gan fod cyfuniad da a digonol ohonynt o aelwydydd Cymraeg ac aelwydydd Saesneg. Roedd dewis set canolig o ran gallu yn bwysig er mwyn sicrhau nad oedd y sampl yn cynnwys plant a oedd yn cael eu clodfori gan athrawon yr ysgol yn unig (Morris 2013, t. 122). Nesaf roedd angen creu sampl o'r ddau ddsbarth a oedd yn mynychu'r gwersi Cymraeg a Bagloriaeth Gymreig.

3.7 Natur y sampl

Dengys Tabl 4 nifer y sampl a ddyluniais, gyda nifer y cyfranogwyr ar sail y newidynnau annibynnol rhywedd ac iaith yr aelwyd. Nid yw'r sampl yn hollol gytbwys o ran rhywedd ac iaith yr aelwyd oherwydd natur y dosbarth. Fy mwriad oedd cael pedwar bachgen o aelwyd Gymraeg a phum bachgen o aelwyd ddi-Gymraeg a chydbwysu hynny gydag wyth o ferched o aelwyd Gymraeg a saith o aelwyd ddi-Gymraeg. Yn anffodus, tynnodd un ferch o aelwyd Gymraeg allan o'r ymchwil cyn ei chyfweliad, ac roedd rhaid cael merch o aelwyd ddi-Gymraeg yn ei lle. Roedd data'r ysgol wedi cofnodi'r ferch fel un o Aelwyd Gymraeg ond dywedodd yn yr holiadur nad oedd hi'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd.

Tabl 4 – Y sampl

	AELWYD GYMRAEG	AELWYD DDI-GYMRAEG
BECHGYN	4	8
MERCHED	6	6

Manylir yn Tabl 5 a Tabl 6 ymhle y magwyd rhieni y disgyblion hyn o aelwydydd Cymraeg ac aelwydydd di-Gymraeg. Yn gyntaf, mae'n rhaid nodi eto mai ffugenwau sydd wedi eu defnyddio ar gyfer y plant er mwyn cadw'r data'n anhysbys. Dengys Tabl 5 leoliad magwraeth rhieni disgyblion o aelwydydd Cymraeg. Soniais yn 3.4.2 am rieni o ardaloedd tafodieithoedd traddodiadol y Gymraeg, ac yn benodol ynglŷn â theuluoedd cymysg. Gwelir yma fod wyth allan o ddeg o'r disgyblion yn dod o aelwydydd Cymraeg yn wreiddiol a'r rheiny o ardaloedd tafodieithoedd traddodiadol y Gymraeg fel Môn, Gwynedd, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion⁴. Rhieni sydd wedi mudo i Gaerdydd sy'n cyfrannu at 80% o'r aelwydydd Cymraeg yn y sampl hon. Er fod posibilrwydd o gael tair cenhedlaeth o deuluoedd sydd wedi mynychu addysg Gymraeg yng Nghaerdydd, dim ond dau riant a oedd yn wreiddiol o Gaerdydd, a thri pellach o'r de-ddwyrain.

⁴ Nid yw ardaloedd y tafodieithoedd traddodiadol yn gyfyngedig i'r Fro Gymraeg, ac mae ardaloedd megis Dyffryn Clwyd, Cwm Tawe ac ati wedi eu cynnwys yn y diffiniad hwn.

Tabl 5 – Lleoliad magwraeth rhieni disgyblion o aelwydydd Cymraeg (gyda lleoliad y rhieni a siaradai Gymraeg gyda’r disgybl wedi eu tanlinellu)

DISGYBL AELWYD GYMRAEG	LLEOLIAD MAGWRAETH TAD	LLEOLIAD MAGWRAETH MAM
ELEN	<u>Caergybi</u>	Rhondda
MAIR	<u>Y Bala</u>	<u>Caerdydd</u>
AWEL	Bargoed	<u>Aberteifi</u>
LLINOS	Llandudoch	<u>Caerfyrddin</u>
LEIA	<u>Ffestiniog</u>	Llundain
GWEN	Llundain	<u>Caerdydd</u>
ENDAF	<u>Llanrwst</u>	<u>Y Bala</u>
IOAN	<u>Amlwch</u>	<u>Amlwch</u>
MATH	Glasgow	<u>Aberhonddu</u>
CARWYN	<u>Caerfyrddin</u>	<u>Caerfyrddin</u>

Dengys Tabl 6 leoliadau magwraeth rhieni disgyblion o aelwydydd di-Gymraeg. Gwelir bod saith pâr o rieni lle mae’r ddau riant wedi eu magu yng Nghaerdydd, yn ogystal â dau o ddisgyblion sydd ag un riant a fagwyd yng Nghaerdydd. Cyferbynna hyn â’r data yn Tabl 5 lle mai dim ond dau o’r rhieni a fagwyd yng Nghaerdydd. Yn ychwanegol, nid oes un riant yma’n dod o ardaloedd tafodieithoedd traddodiadol y Gymraeg fel mae’r mwyafrif yn y sampl aelwydydd Cymraeg. Mae pum riant pellach yn dod o dde-ddwyrain Cymru. Mae pedwar riant wedi eu magu yn Lloegr, un yn llai na’r sampl o ddisgyblion o aelwydydd Cymraeg. Mae dau riant yn ogystal wedi eu magu dramor, un o’r Aifft ac un o Ffrainc.

Tabl 6 – Lleoliad magwraeth rhieni disgyblion o aelwydydd di-Gymraeg

DISGYBL AELWYD DDI-GYMRAEG	LLEOLIAD MAGWRAETH TAD	LLE MAGWRAETH MAM
MAYA	Caerdydd	Caerdydd
CAMILLA	Caerdydd	Caerdydd
FFAITH	Caerdydd	Caerdydd
CASSIE	Y Barri	Llundain
ASHLEY	Caerdydd	Caerdydd
SADIA	Caerdydd	Yr Aifft
ROBBIE	Tonyrefail	Treorci
TREY	Caerdydd	Caerdydd
IBRAHIM	Basingstoke	Preston
TIRION	Caerfyrddin	Caerdydd
SION	Caerdydd	Caerdydd
PIERRE	Lloegr	Ffrainc
SIMON	Caerdydd	Caerdydd
DAFYDD	Pen-y-bont	Ton-teg

Yn yr holiadur, holais y disgyblion am eu hunaniaeth genedlaethol. Gadewais y cwestiwn yn agored i ddehongliad y disgybl o’u hunaniaeth eu hunain, heb gyfyngu’r disgybl i system gategoreiddio nodedig. Dengys Tabl 7 a Tabl 8 hunaniaethau cenedlaethol disgyblion o aelwydydd Cymraeg a di-Gymraeg. Mae saith (allan o 10) o’r disgyblion o aelwydydd Cymraeg yn ystyried eu hunain fel Cymreig. Mae Leia yn ystyried ei hun yn Gymreig ac Asiaidd oherwydd cefndir Asiaidd ei theulu a Pierre yn ystyried ei hun fel Cymreig a Ffrengig oherwydd cefndir Ffrengig ei deulu. Mae Maya yn ystyried ei hun fel Affro-Caribîaidd oherwydd cefndir ei theulu. Mae un o’r disgyblion o aelwydydd Cymraeg yn ystyried ei hun yn Brydeinig, o’i gymharu â thri o ddisgyblion o aelwydydd di-Gymraeg. Mae un o’r disgyblion o aelwydydd Cymraeg yn ystyried ei hun yn Gymreig a Phrydeinig, o’i gymharu â phedwar o ddisgyblion o aelwydydd di-Gymraeg yn cyfri eu hunain yn Gymreig a Phrydeinig. Bydd y wybodaeth hon ynglŷn a hunaniaethau cenedlaethol y disgyblion yn cael ei hystyried yn 4.3.

Roedd yr holiadur yn holi ynglŷn â hunaniaeth genedlaethol, ond nid oedd cwestiwn ynglŷn ag ethnigrwydd. O safbwynt hil roedd y rhan fwyaf yn wyn, ond fel sy’n gyffredin mewn ysgolion yng Nghaerdydd oherwydd amlddiwylliannedd y ddinas, mae cynrychioledd *BAME* yn yr ysgol.

Tabl 7 – Hunaniaethau cenedlaethol disgyblion o aelwydydd Cymraeg

DISGYBL AELWYD GYMRAEG	HUNANIAETH GENEDLAETHOL
ELEN	Cymreig
MAIR	Cymreig
AWEL	Cymreig
LLINOS	Cymreig
LEIA	Cymreig ac Asiaidd
GWEN	Prydeinig
ENDAF	Cymreig
IOAN	Cymreig
MATH	Cymreig a Phrydeinig
CARWYN	Cymreig

Tabl 8 – Hunaniaethau cenedlaethol disgyblion o aelwydydd di-Gymraeg

DISGYBL AELWYD DDI-GYMRAEG	HUNANIAETH GENEDLAETHOL
MAYA	Affro-Caribîaidd
CAMILLA	Cymreig
FFAITH	Cymreig a Phrydeinig
CASSIE	Cymreig a Phrydeinig
ASHLEY	Cymreig a Phrydeinig
SADIA	Cymreig
ROBBIE	Prydeinig
TREY	Prydeinig
IBRAHIM	Prydeinig
TIRION	Cymreig
SION	Cymreig
PIERRE	Cymreig a Ffrengig
SIMON	Cymreig a Phrydeinig
DAFYDD	Cymreig

Bydd yr adran nesaf yn manylu ar yr offerynnau ymchwil, trwy gynnig rhesymeg dros benderfyniadau penodol wrth lunio'r offerynnau ymchwil, a manylir ar brofiadau penodol yn ystod y cyfnod casglu data pan fo hynny'n berthnasol.

3.8 Casglu'r data

Casglwyd y data gan ddechrau gyda chyfnod o arsylwi ethnograffegol yn YUGC a barhaodd am 6 wythnos. Yn ystod y cyfnod hwn dosbarthais holiaduron cefndirol i'r plant er mwyn casglu gwybodaeth ddemograffegol ychwanegol am y disgyblion. Yn ogystal, cynhaliwyd gêm amlen (*'envelope game'*) gyda'r disgyblion ar gyfer adnabod grwpiau gwahanol yn y dosbarth. Wedi'r cyfnod arsylwi, dechreuais gynnal cyfweiliadau sosioieithyddol gyda 24 aelod o'r dosbarthiadau yr oeddwn i'n eu harsylwi. Dechreuau'r cyfweiliadau sosioieithyddol gyda thasg cyfweld wedi ei llunio er mwyn ennyn llafar digymell gan y disgyblion, a barhaodd hyd at awr gyda phob disgybl, wedyn roedd tasg rhestr o eiriau er mwyn ennyn llafar mwy ffurfiol gan y disgyblion. Cynhaliwyd y cyfweiliadau un-wrth-un mewn ystafell a baratowyd imi gan YUGC. Defnyddiwyd microffon Zoom H2 dwy sianel. Parhaodd y cyfweiliadau rhwng 30 munud a 55 munud. Recordiwyd pob cyfweiliad ar ffurf .wav gydag amlder samplu 44.1kHz a *quantization* 24bit.

3.8.1 Arsylwi ethnograffegol

Mae ymchwil ethnograffegol yn ystyried hunaniaethau gwahanol grwpiau neu garfannau mewn cyd-destunau cymdeithasol penodol yn ogystal ag adnabod grwpiau a rhwydweithiau cymdeithasol a chlywed sgysiau anffurfiol unigolion, megis gwaith Bucholtz (1999); Eckert (2000); Moore (2003, 2004); Mendoza-Denton (2008); Drager (2009); Hall-Lew (2009); Lawson (2011); Kirkham (2013); Nance (2013). Mae ethnograffiaeth yn faes ehangach o fewn anthropoleg sy'n gyffredin iawn mewn gwaith sosioieithyddol:

variationists increasingly are seeking to use ethnographic methods involving careful, long term participation in and observation of the communities they study rather than relying solely on pre-determined, 'objective' social factors (Schilling-Estes 2007, t. 171).

Golyga hyn fod ethnograffeg yn galluogi'r ymchwilydd i'w drochi ei hun yn niwylliant y gymuned dan sylw. Trwy fod wedi'i drochi, mae gan y sosioieithydd gyfle i ddadansoddi agweddau ieithyddol a chymdeithasol y gymuned yn ehangach.

Mae defnyddio ethnograffeg mewn gwaith sosioieithyddol yn deillio o waith Eckert (1989) ar y *burnouts* a'r *jocks* sy'n rhan o'r ail don sosioieithyddol, fel y soniwyd amdano yn isadran 2.1. Defnyddiodd Eckert (1989) dull ethnograffegol ar gyfer dadansoddi'r berthynas rhwng amrywio ieithyddol a hunaniaeth gymdeithasol mewn pobl ifanc. Cyfeirwyd eisoes yn is-adran 3.4 at ddiffygion defnyddio statws sosioeconomaidd rhieni cyfranogwyr ifanc. Roedd Eckert (1989) yn defnyddio ethnograffeg i osgoi hyn, trwy'r *jocks* a'r *burnouts* a oedd yn cynrychioli'r dosbarth gweithiol a'r dosbarth canol, ac felly nid oedd angen defnyddio statws sosioeconomaidd rhieni ar gyfer y bobl ifanc. Rhybuddia Eckert (2000, t. 76) yn erbyn dosbarthu pobl i wahanol gategorïau cymdeithasol gan mai dyna'r duedd mewn gwaith sosioieithyddol o'r don gyntaf. Mae ethnograffeg yn cynnig ffordd i fynd y tu hwnt i ystyriaeth syml o gategorïau cymdeithasol ar sail haeniad sosioeconomaidd er enghraifft, ac yn ceisio cyd-destunoli'r ymchwili yn fanylach trwy arsylwi (Wolfson 1978).

Mae ethnograffeg yn dechreg sy'n nodweddiadol o'r ail a'r drydedd don sosioieithyddol. Yn yr ail don roedd sosioieithyddion yn dueddol o ddefnyddio ethnograffeg er mwyn archwilio'r berthynas rhwng amrywio ieithyddol a'r ddynmeg gymdeithasol yn y gymuned dan sylw. Yn wahanol i'r ail don, mae'r drydedd don yn dadansoddi amrywio'n fwy gofalus trwy ei ystyried fel proses mynegeiol ac yn ystyried ymarfer arddulliol wrth i unigolion adeiladu hunaniaeth. Diffiniodd Eckert (2012, tt. 93–94) y drydedd don fel 'variation as a reflection of social identities and categories to the linguistic practice in which speakers place themselves in the social landscape through stylistic practice', felly wrth i ethnograffeg mewn sosioieithyddiaeth ddod yn fwy cyffredin, newidiwyd y berthynas rhwng iaith a hunaniaeth ym maes sosioieithyddiaeth.

Trwy arsylwi ac ymdrochi yn y gymuned dan sylw mewn ysgol yng Nghaerdydd roeddwn i fel ymchwilydd yn medru adleisio canfyddiadau fel yr uchod gan sosioieithyddion megis Kirkham (2013, t. 96) fod arsylwi cyfranogwyr (*participant observation*) yn galluogi i'r sosioieithydd ethnograffegol ddod i adnabod unigolion yn y gymuned fel bod rhai o anafanteision gwaith sosioieithyddol arferol yn cael eu goresgyn. Er enghraifft, gellid dadlau bod arsylwi ethnograffegol yn mynd ymhellach na chyfweld sosioieithyddol gan ei fod yn lleihau effeithiau'r recordio (cymharer 'Paradocs yr Arsylwr', 3.8.4.1 (Labov 1972))

oherwydd bod y gymuned wedi eu cyfarwyddo â phresenoldeb yr ymchwilydd (Kirkham 2013 tt. 97–98).

Cynhaliwyd fy nghyfnod o chwe wythnos o arsylwi ethnograffegol o fewn gwersi Cymraeg a'r Fagloriaeth Gymreig (BAC) blwyddyn deg yn YUGC fel y soniais uchod yn is-adran 3.6. Roedd arsylwi yn y ddau ddosbarth yn brofiad gwahanol, gan fod dymeg y gwersi yn gyferbyniol iawn. Roedd y gwersi Cymraeg yn nodweddiadol o wersi ysgol, gyda'r disgyblion yn gwneud eu gwaith yn unigol neu mewn parau ar adegau, yn gwneud tasgau llenyddol ac ieithyddol, a minnau'n eistedd yng nghefn yr ystafell ger y disgyblion. Roedd y gwersi Cymraeg yn gyfle imi ddarganfod mwy am gefndir academiaidd ac ieithyddol y disgyblion, gydag amser i siarad gyda'r disgyblion yn codi'n aml ar ddechrau neu ar ddiwedd y wers. Tua diwedd y tymor neu pan nad oedd yr athrawes yn bresennol, roeddwn i'n mynd o gwmpas y dosbarth yn sgwrsio gyda gwahanol ddisgyblion.

Roedd natur y gwersi BAC yn wahanol gan fod tasgau grŵp i'r disgyblion eu cwblhau yn fwy annibynnol. Tasg y disgyblion oedd creu cynllun busnes, cyflwyno'r cynllun hwnnw a chreu'r cynnyrch ar gyfer ei werthu yn ffair Nadolig yr ysgol. Golyga hyn fod y disgyblion yn treulio eu hamser y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth mewn ystafelloedd cyfrifiaduron, ystafelloedd coginio ac yn gyffredinol yn mynd o gwmpas yr ysgol yn cyflawni tasgau heb bresenoldeb athro. Creodd hyn amgylchedd ffafriol ar gyfer dod i adnabod y disgyblion a sgwrsio gyda nhw yn yr un ffordd ag y buasent yn siarad â'i gilydd. Trwy wneud hyn, adeiladais berthynas gyda'r disgyblion ac roeddent yn gyfforddus i siarad am amryw o bynciau. Paratôdd hyn y disgyblion ar gyfer sefyllfa cyfwelliad.

Wrth arsylwi, mae'n bwysig bod hunaniaeth yr ymchwilydd yn cael ei chyfleu yn glir ond mae'n amhosibl gwneud hyn yn gyfartal gyda gwahanol grwpiau gan fod agweddau gwahanol yr ymchwilydd yn cael eu hamlygu gyda gwahanol ddisgyblion. Mae Drager (2009, t. 37) yn ystyried hunaniaeth yr ethnograffegydd ymhellach wrth drafod "the myth of the neutral ethnographer". Sonia Drager (2009, t. 39) yn benodol am geisio bod yn hi ei hun, wrth geisio cynnal perthnasau gyda merched o wahanol grwpiau. Golyga hyn fod angen i'r ymchwilydd ddangos hunaniaethau eithaf anghyson gyda gwahanol ddisgyblion – agweddau gwahanol gydag unigolion gwahanol. Diystyrir yr ethnograffegydd fel rhywun diduedd, ac

anogir yr ymchwilydd i ddangos ei hunaniaeth ac i gydnabod tuedd yn ei hymchwil. Roedd hyn hefyd yn wir wrth imi gasglu data yn YUGC.

Cesglais y data dros gyfnod o bedwar mis rhwng 2018 a 2019. Roeddwn i'n 22 oed ac felly dim ond chwe blynedd yn hŷn na'r disgyblion, a olygai fy mod i'n iau na mwyafrif yr oedolion yr oeddent yn arfer cyfathrebu gyda nhw yng nghyd-destun addysg. Mewn ethnograffeg mae'n bwysig defnyddio elfennau o'ch hunaniaeth i gysylltu â'r gymuned dan sylw, ac roeddwn i'n meddu ar rai elfennau o'r hunaniaeth gyffredin gyda'r disgyblion. O'm safbwynt i, treuliais y rhan fwyaf o'm plentyndod yng Nghaerdydd cyn symud i ogledd-orllewin Cymru. Felly er bod y disgyblion yn ymwybodol fy mod i o'r gogledd, nid oeddent yn tynnu sylw'n ormodol at fy acen, fel a wnaed gyda rhai athrawon gogleddol. Felly ar gyfer diystyru myth yr ethnograffegydd niwtral (Drager 2009, t. 37) mae'n bwysig i addasu hunaniaeth gyda gwahanol grwpiau neu unigolion mewn cymuned (Mani 1990; Narayan 1993).

Felly, mae ethnograffeg yn cynnig ffordd i'r ymchwilydd fodoli yn niwylliant y gymuned dan sylw trwy arsylwi cyfranogwyr, gyda'r bwriad o daflu goleuni ar amrywio ieithyddol drwy wybodaeth gymdeithasol. Yn fy nghyfnod arsylwi, treuliais amser yn arsylwi dwy wers wahanol iawn, profiad a'm galluogodd i ddysgu am agweddau gwahanol a oedd yn perthyn i'r disgyblion. Mae ethnograffeg yn annog yr ymchwilydd ei hun i arddangos ac amrywio ei hunaniaeth ei hun ar gyfer cysylltu â gwahanol grwpiau. Yn ogystal, mae ethnograffeg yn archwilio a dehongli hunaniaethau gwahanol grwpiau ymhellach na thrwy ddefnyddio categorïau cymdeithasol gwrthrychol fel mewn tonau sosioieithyddol blaenorol. O ganlyniad i hynny, mae dull y drydedd don yn galluogi'r ymchwilydd i oresgyn rhai anfanteision sy'n gysylltiedig â dulliau fel y cyfweliad sosioieithyddol (gw. isadran 3.8.4). Trwy ei ddefnyddio ochr yn ochr gyda chyfweliad sosioieithyddol, gellid defnyddio'r ethnograffeg i arsylwi a'r cyfweliad i gasglu data meintiol, ac yn yr ymchwil hwn cafodd ei ddefnyddio gyda holiadur a'r gêm amlen (*envelope game*). Ceir rhagor o fanylion ar yr arsylwi ethnograffegol ym mhennod 4.

3.8.2 Y gêm amlen

Defnyddiais y gêm amlen er mwyn rhoi'r cyfle i'r disgyblion eu dosbarthu eu hunain a'u cyd-ddisgyblion mewn rhwydweithiau cymdeithasol gwahanol a rhoi ychydig o wybodaeth ynglŷn â nodweddion y grwpiau gwahanol. Cafodd 'y gêm amlen' ei dyfeisio gan Matthews (2005; gw. Clark a Trousdale 2013, t. 40) ar gyfer adnabod gwahanol grwpiau o ferched mewn ysgol uwchradd yn yr UDA. Defnyddiais yr offeryn ymchwil hwn ar gyfer derbyn rhyw fath o syniad cyn y cyfnod arsylwi estynedig o'r grwpiau gwahanol yn y dosbarth, ac i weld a oedd y disgyblion yn ymwybodol o wahanol grwpiau o fewn y dosbarth ac yn benodol a oeddent yn ymwybodol eu bod nhw eu hunain yn perthyn i grwp penodol. Yn ôl Clark a Trousdale (2013, t. 44):

by combining the observations from the envelope game with observations of social practice gleaned during the ethnography, it may be possible to reach a fuller understanding of the social structure of a community

Roedd y gêm amlen yn gymorth imi ar gyfer sefydlu rhwydweithiau cymdeithasol yr ystafell ddosbarth trwy ddefnyddio gwybodaeth gan y disgyblion eu hunain, yn hytrach na dibynnu ar fy arsylwadau yn unig.

Rhoddais daflenni i barau neu driawdau o ddisgyblion, a oedd yn eistedd gyda'i gilydd yn y wers Gymraeg yn ystod wythnos olaf y tymor. Penderfynwyd ar wneud hyn yn ystod wythnos olaf y tymor gan nad oedd llawer o waith i'w wneud gan y disgyblion, ac fe gytunwyd gyda'r athro i gynnal y gêm amlen yn ystod y wers hon tua phythefnos o flaen llaw. Gofynnais i'r parau neu driawdau i restru'r gwahanol rhwydweithiau cymdeithasol y dosbarth, gan gynnwys disgyblion o'r wers BAC ac eraill os yn berthnasol, gan ddisgrifio nodweddion y grwpiau a pham eu bod nhw'n ffrindiau.

Roedd y disgyblion felly'n llunio'r grwpiau gwahanol yn aml gyda disgybl o grŵp cymdeithasol gwahanol, gan mai'r athrawes oedd wedi cynllunio'r cynllun eistedd ar ddechrau'r flwyddyn academaidd, ac felly roeddent yn aml yn eistedd ar wahân i'w ffrindiau. O ganlyniad, roedd sylw cytbwys yn cael ei roi wrth lunio rhwydweithiau cymdeithasol y dosbarth gan nad oedd y disgyblion yn eistedd gyda ffrindiau o'u grwpiau

cymdeithasol eu hunain. Roedd hyn yn creu portread cliriach o rwydweithiau'r dosbarth, gydag aelodau o grwpiau llai amlwg o'r dosbarth yn cael mewnbwn. Arweiniodd hyn at lai yn cael eu hesgeuluso o'r gêm amlen, ac felly mwy o grwpiau cymdeithasol y dosbarth yn cael eu cynrychioli.

Ar gyfer llunio'r grwpiau terfynol, defnyddiais ganlyniadau'r gêm amlen i gadarnhau llawer o'r grwpiau yr oeddwn i wedi eu hadnabod trwy arsylwi. Yn ogystal, roedd rhaid imi newid neu addasu rhai o'r grwpiau os oedd y disgyblion wedi gosod rhai cyd-ddisgyblion yn gyson mewn grwpiau gwahanol. Y brif broblem gyda defnyddio arsylwi yn yr ystafell ddosbarth i lunio rhwydweithiau cymdeithasol y dosbarth yw nad oedd gen i lawer o wybodaeth gan rai grwpiau am eu ffrindiau tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Ymhellach, cydnabu llawer o ddisgyblion nad oedd ganddynt lawer o ffrindiau agos yn y dosbarth, er eu bod nhw'n dod ymlaen gyda'u cyd-ddisgyblion yn y dosbarth, ac felly penderfynais ganiatáu i'r disgyblion gynnwys ffrindiau o'r tu hwnt i'r dosbarth, rhag creu drwgdeimlad. Nid oeddwn i eisiau i ddisgyblion deimlo cywilydd nad oeddent yn perthyn i grwpiau amlwg, er bod y rhan fwyaf yn perthyn i grŵp gydag o leiaf un ffrind. Ceir mwy o sylw i gynnwys y grwpiau yn isadran 4.3.

Er i'r gêm amlen fod yn hanfodol er mwyn adnabod rhwydweithiau cymdeithasol yr ystafell ddosbarth gyda mewnbwn y disgyblion, roedd anfanteision o'i defnyddio fel offeryn ymchwil. Fel y nodwyd uchod, nid oedd yr holl ddisgyblion yn ymateb yn dda iddi, gyda llawer yn teimlo cywilydd, ond yn ogystal, roedd gofyn i'r disgyblion 'restru nodweddion' gwahanol grwpiau yn bwynt dadleuol. Cefais rai sylwadau cas am gyd-ddisgyblion, a dywedodd un par nad oeddent yn hoffi labelu cyd-ddisgyblion, am nad oedd hi'n bosibl cyfleu perthnasau trwy restru nodweddion. Cydnabuwyd wrth y disgyblion fod yna anfanteision yn perthyn i'r dull hwn ond nodwyd wrthynt mai'r gêm amlen oedd y ffordd fwyaf effeithiol imi allu cofnodi eu barn nhw ar beth yw rhwydweithiau cymdeithasol y dosbarth. Roedd hefyd yn ddull a fyddai'n cyfleu'r grwpiau yn gryfach na thrwof i fel ymchwilydd yn ceisio adnabod grwpiau heb fewnbwn disgyblion.

Felly, roedd y gêm amlen yn gymorth imi ar gyfer sefydlu rhwydweithiau cymdeithasol yr ystafell ddosbarth, trwy gael mewnbwn y disgyblion ynglŷn â

rhwydweithiau cymdeithasol y dosbarth. Roedd hi'n bwysig cyfuno gwybodaeth y disgyblion a'm gwybodaeth fy hun o ganlyniad i'r arsylwi, gan fod y disgyblion yn adnabod strwythurau'r dosbarth yn well nag ymchwilydd sy'n arsylwi arnynt am chwe wythnos yn unig.

3.8.3 Holiaduron cefndirol

Cyn y cyfweiliadau, gofynnais i'r disgyblion ateb holiadur ar wybodaeth ychwanegol er mwyn casglu gwybodaeth gefndirol (Atodiad B: Ffurflen cydsynio disgyblion

Adran 2: Datganiad

Rwyf dros 14 oed, a chydysnïaf i gymryd rhan yn y cyfweiliad sy'n rhan o'r prosiect uchod ar [Dyddiad cynnal y cyfweiliad __/__/____].

1. Rwyf wedi darllen y wybodaeth yn y ddogfen hon.
2. Mae manylion unrhyw weithdrefnau a risgiau wedi eu hesbonio i mi i'm boddhad.
3. Cytunaf i'm cyfranogiad yn y cyfweiliad gael ei recordio ac i'r recordiad / nodiadau / trawsgrifiad a'r ffurflen gydysnio hon gael eu cadw ar gyfrifiadur o dan amodau Deddf Gwarchod Data (1998) ac o dan gyfrinair. Cedwir copi caled o dan glo.
4. Rwyf yn ymwybodol y dylwn gadw copi o'r ddogfen hon at ddibenion cyfeirio.

Deallaf:

- Na chaf fudd uniongyrchol o gymryd rhan yn y prosiect hwn.
- Fy mod yn rhydd i dynnu'n ôl o'r prosiect ar unrhyw adeg ac i beidio â darparu ateb i gwestiynau penodol.
- P'un a dynnaf yn ôl ai peidio, ni fydd hyn yn effeithio ar unrhyw wasanaeth a ddarperir i mi gan Brifysgol Caerdydd.
- Y caf ofyn i'r recordio gael ei stopio ar unrhyw adeg, ac y caf dynnu'n ôl ar unrhyw adeg o'r cyfweiliad heb anfantais i mi.

Cytunaf/Ni chytunaf* i'w recordiad/nodiadau neu drawsgrifiad o'r recordiad gael ei ddefnyddio gan ymchwilyr eraill nad ydynt yn aelodau o'r tîm ymchwil, ond sy'n gwneud ymchwil gysylltiedig.*
*dileer fel y bo'n briodol

PWYSIG: Ni ryddheir unrhyw fanylion personol a all arwain at ddatgelu fy enw ac ni fydd y recordiad o'm cyfranogiad ar gael yn gyhoeddus.

Adran 3: Llofnodion Section 3: Signatures

Llofnod y cyfranogwr
Signature of participant.....

Dyddiad
Date.....

Section 2: Statement

I am over 14 years of age and consent to take part in this interview which is part of the above project [Date the interview was held __/__/____]

1. I have read the information in this document
2. Information regarding procedures and risks have been explained to me to my satisfaction
3. I also agree for my participation in the interview to be recorded and for the recording / notes / transcription and this consent form to be kept on a computer under the conditions of the Data Protection Act (1998) and under a password. A physical copy will be kept in locked storage.
4. I am aware that I should retain a copy of this document for reference purposes

I understand:

- I may not receive direct benefit by participating in this project
- I am free to withdraw from the project at any time and not to provide answers to certain questions
- Whether I withdraw or not, this will not affect any service provided to me by Cardiff University.
- I may request that the recording be stopped at any time and I may withdraw from the interview at any time without any personal disadvantage.

I agree/I do not agree* for the recording/notes or transcription of the recording to be used by other researchers who are not members of the research team, but who are carrying out linked research
*delete as appropriate

IMPORTANT: Any personal details that may lead to the disclosure of my name will not be released and the recording of my participation will not be made publicly available.

Ysgol y Gymraeg

Pennaeth yr Ysgol Yr Athro Sioned Davies BA DPhil

School of Welsh

Head of School Professor Sioned Davies BA DPhil

Tystiaf fy mod wedi esbonio'r ymchwil i'r cyfranogwr ac ystyriaif ei fod e/ei bod hi'n deall yr hyn sydd ynghlwm wrtho ac yn rhoi cydsyniad rhydd i gymryd rhan.

I certify that I have explained the research to the participant and I consider he/she understands its implications and freely gives consent to participate.

Enw'r Ymchwilydd

Name of Researcher: Ianto Gruffydd

Llofnod yr Ymchwilydd

Signature of Researcher.....

Dyddiad

Date.....

Atodiad C: Holiadur cefndirol). Galluogodd yr holiadur imi ganfod gwybodaeth ddemograffegol am y disgyblion a'u rhieni, yn debyg i'r hyn a adnabu Labov (1984, t. 32) ar gyfer dadansoddi patrymau sosioieithyddol. Roedd hanner cyntaf yr holiadur yn gofyn am eu henw, eu rhywedd, eu hoedran, eu man geni, eu lleoliad presennol, lleoliadau eraill yr oeddent wedi byw ynddynt, a'u haddysg gynradd. Roedd yr ail hanner ar gyfer canfod gwybodaeth ar bapur am eu defnydd ac amllder defnydd iaith er mwyn llunio sampl cyfweld. Ni fuaswn wedi canfod yr wybodaeth hon gan bawb trwy arsylwi yn unig. Roedd gwybodaeth yr holiaduron wedyn yn fy ngalluogi i lunio proffil ar gefndir y disgyblion (Schilling-Estes 2007, t. 186). Trwy lunio proffil i bob disgybl, roeddwn i'n medru personoli cwestiynau'r holiadur i bob disgybl, er enghraifft, gofyn cwestiynau am le yr oeddent yn byw.

Gofynnais i'r disgyblion ddweud lle yr oeddent yn byw ar hyn o bryd, ac unrhyw le arall yr oeddent wedi byw yn ystod eu bywydau. Bwriad hyn oedd dosbarthu'r disgyblion ar sail statws MALIC lle yr oeddent yn byw, gan ystyried a oeddent wedi byw mewn lleoliad arall am gyfnod yn ogystal. Roedd dryswch wrth wneud hyn gan fod cyfeiriadau rhai disgyblion yn wahanol i'r manau yr oeddent yn byw ynddynt mewn gwirionedd. Cafwyd enghraifft benodol lle'r oedd tri disgybl, yn byw yn agos iawn at ei gilydd, ond wedi enwi tair gwahanol ardal o Gaerdydd fel eu lleoliad presennol. Er mwyn goresgyn y broblem, gofynnais i bob disgybl a oedd yn cael eu cyfweld i fewnbynnu eu côd-post a chlicio ar eu ward etholiadol ar fap rhyngweithiol MALIC er mwyn gallu canfod statws MALIC y disgyblion hynny. Roedd hyn llawer yn fwy dibynadwy na derbyn enw ardal yng Nghaerdydd oherwydd drysfa terfyn a ffiniau llawer o ardaloedd.

Roedd ail hanner yr holiadur yn gofyn am iaith gyntaf, hunaniaeth genedlaethol, gwybodaeth am rieni (o le mae'r rhiant/rhieni yn dod, pa iaith a siaredid gyda'r disgybl a swydd), amllder siarad Cymraeg tu allan i'r ysgol, a gyda phwy maent yn siarad Cymraeg tu allan i'r ysgol. Defnyddiais y wybodaeth hon yn gyntaf er mwyn llunio sampl a oedd yn bodloni gofynion y sampl o safbwynt y newidynnau annibynnol, sef rhywedd ac iaith yr aelwyd. Yn ail, defnyddiais y wybodaeth er mwyn llunio proffil manylach ar y disgyblion a'r rhwydweithiau cymdeithasol, fel y gwelir yn 4.3.

Un peth yr oedd angen ei ystyried wrth ddadansoddi atebion yr holiadur cyd-destun oedd y '*social desirability effect*' (Diekmann 2007, t. 448). Hynny yw, roedd hi'n bwysig cofio bod atebion yr holiadur yn aml ar sail beth mae'r unigolyn yn teimlo sydd fwyaf addas i'w ddweud mewn cyd-destun cymdeithasol penodol. Roedd hyn yn berthnasol wrth ystyried y cwestiynau ynglŷn ag amllder iaith. Mae'n debygol nad yw gwir ddefnydd neu amllder defnydd iaith wastad yn cael eu cofnodi mewn holiadur.

Mae Evas et al. (2017, t. 79) yn tynnu sylw at gyfyngiadau hunanadrodd ar ddefnydd iaith hefyd, ac yn pwysleisio budd defnyddio mesurau ethnograffegol o arsylwi ar gyfer canfod gwir ddefnydd iaith teuluoedd (2017, t. 107). Ni all yr holiadur hwn fod yn sicr ynglŷn â defnydd iaith tu hwnt i'r ystafell ddosbarth gan ddisgyblion, ac er bod arsylwi ethnograffegol a chyfweld yn gymorth os bydd angen, nid dyna ddiben yr ymchwil hwn. Mae'r holiadur cefndirol yn cynnig syniad ynglŷn â defnydd ac amllder iaith disgyblion, ac mae trafod defnydd ac amllder defnydd iaith gyda'r disgyblion wrth arsylwi yn rhoi syniad pellach imi wrth benderfynu ar sampl sy'n gwahaniaethu'r disgyblion o aelwydydd Cymraeg a'r disgyblion o aelwydydd di-Gymraeg. Wedi derbyn yr holiaduron a'u dadansoddi, cynhaliwyd cyfweiliadau sosioieithyddol.

3.8.4 Y cyfweiliad sosioieithyddol

3.8.4.1 Y cyfweiliad

Cafodd y cyfweiliad sosioieithyddol ei ddiffinio gan Labov (1984) ac fe'i hadwaenir fel y prif offeryn ymchwil a ddefnyddir gan sosioieithyddion. Prif nod y cyfweiliad sosioieithyddol yw sbarduno naratif naturiol gan y siaradwr er mwyn canfod enghreifftiau o'r dafodiaith ganddynt (Labov 1984). Er mwyn strwythuro'r cyfweiliad, dilynais drefn weddol debyg i'r ffurf Labovaidd o gyfweiliad sosioieithyddol lled-strwythuredig, gyda modiwlau sgwrs yn fframio strwythur y cyfweiliad, a phob modiwl yn agor gyda chwestiwn syml cyn cynnig opsiynau mwy manwl a phersonol ar sut i ddilyn y cwestiwn agoriadol (Tagliamonte 2006, t. 38). Cafodd y modiwlau eu trefnu o flaen llaw, ac roedd hyblygrwydd trwy ddewis dull lled-strwythuredig ar ei gyfer yn cynnig y cyfle i fynd yn ôl ac ymlaen rhwng gwahanol fodiwlau petai naratif y disgybl yn gweddu yn well i fodiwl gwahanol. Roedd y modiwlau wedi eu trefnu fel a ganlyn:

1. Teulu a Ffrindiau
2. Cymuned
3. Diwylliant
4. Ysgol
5. Ymladd
6. Diddordebau
7. Breuddwydion
8. Gwaith
9. Iaith.

Gwelir Atodiad Ch: Modiwlau a chwestiynau cyfweiliad ar gyfer y cwestiynau posibl o fewn y cyfweiliad lled-strwythuredig sydd ynghlwm â'r modiwlau hyn.

Diben y modiwlau oedd creu strwythur a phynciau y gellid eu cymharu ond nid ar draul sbarduno naratif naturiol gan y disgyblion (Labov 1984, t. 32). Sbarduno naratif

naturiol gan y disgyblion, neu *'the vernacular'* (Labov 1972, t. 112; Tagliamonte 2006, t. 8) yw prif nod y cyfweiliad sosioieithyddol. Mae'r *'vernacular principle'* yn cael ei gyflwyno gan Labov (1972, t. 112) fel *'the style of speech which is most regular in its structure and in its relation to the evolution of the language'*. Golyga hyn mai'r *'vernacular'* yw'r iaith sydd yn cael ei siarad mewn sefyllfaoedd cyffredinol, anffurfiol, o ddydd i ddydd gan unigolion. Adlewyrchir hyn gan Sankoff a Thibault (1980, t. 54) a alwodd y *'vernacular'* yn *'everyday speech'*. Byddaf yn defnyddio'r term *'iaith bob dydd'* i olygu *'vernacular'* o hyn allan.

Tynnir sylw at anfanteision chwilio am iaith bob dydd mewn rhai enghreifftiau gan nad yw'n addas ar gyfer pob cyd-destun yn ymchwil Hall-Lew (2009, t. 34). Cynigia Hall-Lew (2009, t. 34) fod cyfweiliadau lled-strwythuredig gyda'r diben o ennyn iaith bob dydd yn fwy addas ac yn dueddol o beidio ag ennyn ffurfiau traddodiadol gan y siaradwyr. Dengys Schilling-Estes (1998) fod rhai siaradwyr yn Ocracoke, North Carolina, yn ymwybodol bod yr ymchwilydd yn chwilio am iaith bob dydd ac felly'n gor-ddefnyddio amrywiolion lleol traddodiadol na fyddent efallai'n eu defnyddio mewn sgwrs arferol. Mae gor-ddefnyddio amrywiolion traddodiadol yn gyffredin pan fo'r cyfranogwyr yn ymwybodol bod yr ymchwilydd yn astudio'r sgwrs leol benodol. O ganlyniad, pwysleisiais wrth y disgyblion fy mod i'n dadansoddi sut mae grwpiau gwahanol yn siarad o fewn y dosbarth, heb roi sylw penodol i acen na thafodiaith Caerdydd.⁵

Mewn cyfweiliadau sosioieithyddol lle mae'r ymchwilydd yn ceisio ennyn y sgwrs bob dydd gan y cyfranogwr, mae cyd-destun cyfweiliad yn broblematig. Yn ôl Labov (1972, t. 113) *'any systematic observation defines a formal context in which more than the minimal attention is paid to speech'*. O ganlyniad ni allwn ddisgwyl casglu iaith bob dydd oherwydd ymwybyddiaeth y siaradwyr (Coupland 1988, t. 10). Gelwir yr ymwybyddiaeth hon yn egwyddor ffurfioldeb (*'principle of formality'*) (Labov 1972). Golyga hyn ei bod yn anodd canfod iaith bob dydd unigolyn mewn cyfweiliad, gan fod yr unigolyn yn ymwybodol eu bod yn cael eu cyfweld, felly mae posibilrwydd na fydd y cyfweiliad yn adlewyrchu sgwrs arferol unigolion.

⁵ Nid oedd efelychu amrywiolion traddodiadol yn bryder i'r ymchwil hwn oherwydd cyd-destun Caerdydd. Nid yw amrywiad traddodiadol y Wenhwyseg bellach yn gyffredin ymysg siaradwyr Cymraeg Caerdydd, ac felly ni fyddai'r siaradwyr yn anelu am y ffurfiau hyn.

Arweinia hyn at un arall o egwyddorion Labov, sef paradocs yr arsylwr ('*observer's paradox*') (Labov 1984, t. 30). Disgrifir y paradocs gan Labov (1972, t. 209) fel a ganlyn:

the aim of linguistic research in the community must be to find out how people talk when they are not being systematically observed; yet we can only obtain these data by systematic observation.

Felly, er mai nod y cyfweiliad sosioieithyddol yw creu amgylchiadau hamddenol, anffurfiol er mwyn derbyn sgwrs hamddenol ac anffurfiol gan y siaradwr, mae presenoldeb y peiriant recordio a chyd-destun cyfweiliad yn gwneud hynny'n anodd iawn.

Er hynny, mae dulliau i leihau paradocs yr arsylwr wedi cael eu hadnabod. Byddaf yn sôn isod am gwestiynau '*tried and true*'. Y brif ffordd yr aed ati i'w leihau oedd trwy arsylwi yn ethnograffegol. Nodwyd gan Labov (1984, t. 30),

there will be sources of error in participant observation and in face-to-face interviews, but they are complementary; by combining both methods, we can estimate the degree of our error in our final statement of the rules of the vernacular.

Trwy gyfuno cyfweiliadau sosioieithyddol ag arsylwi cyfranogwyr (neu arsylwi ethnograffegol) fel mae sosioieithyddion eraill wedi ei wneud (e.e. Eckert 2000; Moore 2004; Mendoza-Denton 2008; Kirkham 2013), mae'n bosibl goresgyn rhai o gyfyngiadau'r cyfweiliad sosioieithyddol fel paradocs yr arsylwr.

Esbonia Kirkham (2013, t. 98) y rhesymeg tu ôl i gyfuno cyfnod o arsylwi ethnograffegol a chyfweiliad sosioieithyddol mewn ymchwil:

if speakers are used to engaging with a researcher over a prolonged period of time, then the effects of the researcher attempting to record speech data should be somewhat minimised when compared to a researcher who is unknown to the speaker.

Rhoddodd y cyfnod o arsylwi ethnograffegol cyn cyfweld â'r disgyblion amser iddynt fy adnabod fel oedolyn nad oedd yn ffigur awdurdodol (Eckert 1989, Moore 2004, Drager

2009, Kirkham 2013). O ganlyniad, mae cyfweiliadau sosioieithyddol yn gyfle i ethnograffegydd drafod pethau maent yn aml eisoes yn ei wybod am y disgyblion, o ganlyniad i'r arsylwi, ac sydd yn ei dro yn gallu lleihau paradocs yr arsylwr. Diffinia Kirkham (2013, t. 99) hyn fel 'an extension of [...] regular interactions with the adolescents'.

3.8.4.2 Cyfweiliadau â disgyblion YUGC

Agorwyd y cyfweiliad gyda modiwl ar deulu a ffrindiau. Strwythurodd Labov (1984, t. 32) ei fodiwlau gan ddechrau gyda chwestiwn ar ddemograffeg (e.e. teulu, ffrindiau, ardal) ar gyfer canfod data demograffegol ar gyfer dadansoddi patrymau sosioieithyddol. Gofynnais gwestiwn ar ffrindiau'r disgyblion i agor y cyfweiliad gan eu bod nhw'n ymwybodol fy mod i wedi treulio cyfnod yn arsylwi grwpiau o ffrindiau yn y dosbarth. Roedd y modiwlau'n agor gyda chwestiwn syml, eithaf caeedig, er mwyn osgoi amlygu paradocs yr arsylwr (Schilling-Estes 2007, t. 178). Pwysleisia Schilling-Estes (2007, tt. 171–173) fod angen i gyfweiliad sosioieithyddol ymddangos fel sgwrs naturiol, a chynnwys cwestiynau penagored fel nad yw'r unigolyn yn medru ateb 'ie' neu 'na' yn aml.

Roedd y modiwlau a'r cwestiynau a baratowyd yn cynnwys cymysgedd o gwestiynau '*tried and true*' (Tagliamonte 2006, t. 43) a rhai gwreiddiol a luniais ar gyfer disgyblion YUGC. Roedd y modiwlau yn cynnwys 'topics of general interest and topics designed to minimize people's attention to the fact that they were being recorded' (Schilling-Estes 2007, t. 171). Mae cwestiynau '*tried and true*' yn gwestiynau y mae sosioieithyddion wedi eu profi i fod yn effeithiol ar gyfer ennyn sgwrs gan gyfranogwyr. Mae cwestiwn ofn marwolaeth ('*danger of death*') yn gwestiwn '*tried and true*' lle mae'r ymchwilydd yn gofyn a yw'r cyfranogwr erioed wedi bod mewn sefyllfa lle maent wedi poeni am eu bywyd (Labov 1984, t. 33). Esboniwyd effeithiolrwydd y cwestiwn hwn gan Labov (1972, t. 92): 'often he becomes so involved in the narration to the extent that... signs of emotional tension disappear'. Er hynny, nid yw'r cwestiynau '*tried and true*' heb eu beirniaid, a cwestiyna Morris (2013, t. 128) effeithiolrwydd y cwestiwn wrth gyfweild disgyblion ysgol, am nad ydynt yn meddu ar brofiadau bywyd helaeth.

Mae fy mhrofiadau o gyfweild disgyblion YUGC yn cefnogi safbwynt Morris (2013, t.

128) o ran defnyddio cwestiynau '*tried and true*'. Ni sbardunodd y cwestiwn '*Danger of Death*' naratif eang iawn gan y disgyblion. Yn yr un modd methodd gwestiwn '*tried and true*' arall i ennyn naratif gan y rhan fwyaf o'r disgyblion hefyd, pan ofynnais gwestiwn ar sut mae Caerdydd wedi newid dros y blynyddoedd. Eto, nid oedd y disgyblion hyn yn ddigon hen i allu sgwrsio am y pwnc yn helaeth. Dengys hyn bwysigrwydd perthnasedd cwestiynau i gyfranogwyr o wahanol oeddrannau.

Er hynny, roedd egwyddor y cwestiynau *tried and true*, sef bod adrodd ar brofiadau drwg yn arwain at gyfranogwyr yn ymateb gyda sgwrs bob dydd fel dyfyniad Labov (1972, t. 92) uchod, yn berthnasol. Lluniais gwestiynau oedd yn holi ynglŷn â phrofiadau drwg penodol neu am bethau nad oeddent yn boblogaidd ymysg disgyblion ysgol. Gofynnais gwestiynau cyffredinol fel 'beth yw'r peth gwaethaf am fynd i'r ysgol?', a oedd yn llwyddiannus o ran sbarduno naratif gan ei fod yn rhoi cyfle i'r disgybl fynegi unrhyw anfodlonrwydd neu deimlad negyddol am yr ysgol, ac yn aml roedd llawer o gwyno am yr ysgol. Os na fyddwn yn derbyn ateb a oedd yn ennyn naratif, er enghraifft, rhestr o bethau gwael am yr ysgol, gofynnwyd i'r disgybl ynglŷn â'u hateb i'r cwestiwn er mwyn iddynt ddechrau manylu.

Yn hwyrach yn y modiwl ysgol, gofynnais gwestiynau fel 'pan o'n i yn yr ysgol, doedd neb yn hoffi cinio ysgol, beth ti'n ei feddwl o ginio ysgol YUGC?'. Mae geiriad y cwestiwn hwn yn defnyddio barn neu safbwynt pobl eraill ar bwnc penodol. Yn ôl Tagliamonte (2006, t. 42) mae hyn yn dechneg lwyddiannus ar gyfer dangos dealltwriaeth am sefyllfa benodol a sbarduno naratif gan yr unigolyn. Hefyd, rwyf innau fel ymchwilydd yn dangos fy ngwybodaeth i ar y pwnc dan sylw ac yn fy ngosod fy hun yng nghyd-destun y cwestiwn. Hyd yn oed os nad oedd y disgyblion yn cytuno gyda'r farn neu'r safbwynt penodol, byddent yn anghytuno ac yn ymhelaethu gyda'u barn nhw. Roedd tynnu ar brofiadau neu ddigwyddiadau penodol yn rhywbeth y ailadroddais drwy'r cyfweiliadau ar gyfer cael disgyblion i fanylu neu ymhelaethu ar atebion.

Gan ystyried hynny, ceisiais dynnu sylw disgyblion at ddigwyddiadau penodol megis bore Nadolig a'u diwrnod cyntaf yn YUGC, wrth geisio ennyn naratif am atgofion. Yn ôl Labov (1984, t. 32) mewn cyd-destunau personol 'communication norms and styles of

personal interaction are most plainly revealed'. Mae gofyn am ddigwyddiadau penodol a phrofiadau personol yn hytrach na chysyniadau athronyddol neu gyffredinol yn egwyddor bwysig mewn cyfweiliadau sosioieithyddol (Tagliamonte 2006, t. 46) gan eu bod yn ennyn naratif. Yn yr un modd, gofynnais am bethau penodol oedd yn ymwneud â Chaerdydd drwy'r cyfweiliad. Yn hytrach na gofyn i'r disgyblion a oeddent yn mynd i'r parc yn eu hamser rhydd, cymhwysais y cwestiynau hyn i'r ardaloedd lle'r oedd y disgyblion yn byw. Er enghraifft, 'wyt ti'n mynd i'r parc yn Eglwys Newydd sydd wrth ymyl y gamlas?'. Diben gwneud hyn yw fy lleoli fy hun fel ymchwilydd yn y gymuned a dangos fy ngwybodaeth o'r ardal dan sylw.

Roedd bwriad ieithyddol yn ogystal ynghlwm â gofyn cwestiynau i'r disgyblion ar Gaerdydd drwyddi draw, ac am yr ysgol yn y modiwl hwnnw. Trwy ofyn am y pynciau hyn, roeddwn yn gofyn ynglŷn â'r cyd-destun lle mae'r disgyblion hyn yn siarad Cymraeg gan gydnabod realiti'r sefyllfa ieithyddol. Hynny yw, roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion y dosbarth yn siarad Saesneg gyda'i gilydd, ac wrth ystyried disgyblion aelwydydd di-Gymraeg, gan fwyaf dim ond yn siarad y Gymraeg yn yr ysgol. Felly roedd gofyn am yr ysgol a Chaerdydd yn rhywbeth a wnes i ar gyfer ennyn sgwrs bob dydd y disgyblion.

Yn ystod fy amser yn YUGC sylweddolais bwysigrwydd llunio cwestiynau a oedd yn canolbwyntio ar ddiddordebau pobl ifanc ar gyfer ennyn naratif naturiol gan y disgyblion. Dyma'r math o gwestiynau sydd fwyaf llwyddiannus wrth ennyn ymateb helaethach gan ddisgyblion fel y nodwyd gan Drager (2009, t. 35) a Morris (2013, tt. 128–129). Gan ystyried hyn, roedd y modiwl 'diddordebau' wedi'i lunio ar ôl y cyfnod arsylwi, lle deuthum i wybod am ddiddordebau penodol a oedd gan blant YUGC. Mewn ffordd, roedd y modiwl hwn yn ddiweddiariad ar fodiwl gemau Labov (1984) a oedd yn effeithiol ar gyfer sbarduno naratif am gemau a chwaraeodd y siaradwyr yn eu plentyndod. Yn y fersiwn hon, holais am ffenomenau mwy diweddar megis *instagram*, *rocket league*, *fortnite*, *escaperooms* a *netflix*. Yn ystod y cyfnod arsylwi, dysgais ynglŷn â diddordebau poblogaidd fel y rhain, a thrwy gynnig testunau o ddiddordeb i'r disgyblion, roeddent yn awyddus i sgwrsio amdanynt mewn cyd-destun cyfweiliad yn y ffordd fwyaf naturiol ag oedd yn bosibl. Trwy ofyn am ffenomenau cyfredol fel hyn, roeddwn yn pwysleisio fy rôl fel dysgwr, ac nid fel ffigwr

awdurdodol yn YUGC (Tagliamonte 2006, tt. 47–48).

Y modiwl olaf yn y cyfweiliad sosioieithyddol oedd y modiwl iaith. Yn ôl Labov (1984, t. 35) ‘the language module is indicated separately, since this is introduced in a variety of ways as a distinct area of interest’. Felly mae angen sylw penodol ar y modiwl iaith, a golyga hyn bod angen ei osod ar ddiwedd y cyfweiliad. Gwneir hyn gan fod modiwl a chwestiynau yn ymwneud ag iaith yn golygu bod ffocws y siaradwr yn symud tuag at eu hiaith. Trwy godi ymwybyddiaeth y siaradwr o’u hiaith, mae paradocs yr arsylwr yn cynyddu, ac felly mae posibilrwydd y bydd mwy o feddwl tu ôl i’r iaith mae’r cyfranogwr yn ei ddefnyddio. Pe tasai modiwl arall yn dilyn y modiwl iaith, gellid honni y byddai’r modiwl hwnnw’n fwy tebygol o gael ei drafod gydag iaith fwy gofalus, a’r nod o ennyn sgwrs naturiol yn anos i’w sicrhau.

Yn y modiwl iaith pwysleisiais y gallasai pob cwestiwn fod yn trafod y Gymraeg neu’r Saesneg, yn hytrach na gofyn cwestiynau am Gymraeg y disgyblion yn unig. Galluogodd hyn imi gymharu dwy iaith y disgyblion, yn ogystal â pharhau i roi’r argraff nad Cymraeg oedd prif ffocws yr astudiaeth, ac felly roedd y disgyblion yn hapus i barhau i siarad yn onest. Yn ogystal, gan nad oedd rhai o’r disgyblion yn siarad Cymraeg tu allan i’r ystafell ddosbarth, nid oedd cyd-destunau rhai o’r cwestiynau’n addas ar gyfer y Gymraeg. Er enghraifft, gofynnais i’r disgyblion ‘a fyddet ti’n defnyddio’r un math o iaith gyda dy ffrindiau ag y byset ti yn y gwaith neu mewn cyfweiliad’, gyda’r nod o ganfod a oeddent yn teimlo fod eu Cymraeg yn ddigon da i siarad mewn cyd-destunau mwy ffurfiol. Yn aml byddai’r disgyblion yn ystyried y Saesneg yn unig gan nad oeddent yn defnyddio’r Gymraeg yn y cyd-destun hwn.

3.8.4.3 Rhestr o eiriau

Mae disgwyl i gyfweiliad sosioieithyddol gynnwys amryw o arddulliau siaradwyr, o’r ffurfiol i’r anffurfiol, fel y noda Krug a Sell (2013, t. 73) “this is usually operationalized... to reflect an increase in the degree of formality”. Mae darn cyntaf y cyfweiliad sy’n cynnwys y cwestiynau uchod yn ceisio ennyn arddull anffurfiol, a’r rhestr o eiriau wedi’i lunio er mwyn ceisio ennyn arddull mwy ffurfiol. Roedd y rhestr o eiriau yn dilyn y modiwl olaf ar iaith, a oedd hefyd yn fwy ffurfiol na modiwlau eraill y cyfweiliad. O ganlyniad, mae’r rhestr yn ennyn

sgwrs fwy gofalus gan y disgyblion. Gwelir Atodiad D: Rhestr o eiriau ar gyfer copi o'r rhestr o eiriau.

Yn yr is-adran hon, manylir ar yr ymchwil blaenorol sydd wedi ei gynnal ar y ddwy nodwedd a gyflwynir yn 1.3. Dechreuir gydag ymchwil blaenorol ar ansawdd y llafariaid caeedig cefn (3.8.5) cyn cyflwyno ymchwil blaenorol ar amrywio yn achos y newidyn (ai) yn y sillaf olaf ddiacen (3.8.6).

3.8.5 Ansawdd y llafariaid caeedig cefn

Y nodwedd ieithyddol gyntaf dan sylw yw ansawdd llafariaid caeedig cefn Caerdydd. Yn gyntaf, edrychwn ar ymchwil blaenorol ar llafariaid caeedig cefn Caerdydd gan ddechrau gyda'r llafariad /u:/. Mae /u:/ Saesneg Caerdydd wedi cael sylw gan Coupland (1988, 1990) a chynrychiolir llafariad /u:/ gan set eirfaol *GOOSE* yn y Saesneg (Wells 1982). Dywed Collins a Mees (1990, tt. 94–95) fel a ganlyn am llafariad *GOOSE* Caerdydd: 'GOOSE is also closer, somewhat advanced from the back, but typically lacking the glide variants found in mainstream RP and many other accents of England'. Felly ceir ansawdd mwy caeedig yn ogystal â blaenu o'r cefn yn Saesneg Caerdydd. Mewn astudiaeth ddiweddar, mae Miura (2015, t. 150) yn cyfeirio at bresenoldeb 'slight GOOSE-fronting' ymysg siaradwyr hŷn Saesneg Caerdydd. Nid oes ymchwil cyfredol ar ansawdd llafariaid caeedig cefn siaradwyr ifanc Saesneg Caerdydd.

O safbwynt y llafariad /ʊ/, noda Coupland (1988, t. 25) bod llafariaid cefn byr fel arfer yn anghrynedig yng Nghaerdydd. Cyflewyd hyn gan Mees (1977) yn ogystal, a noda symbol /ʌ/ ar gyfer /ʊ/ RP. Felly gellid dweud ar sail hynny bod ansawdd /ʊ/ yng Nghaerdydd yn fwy agored na mewn RP Saesneg. Ni nodwyd bod /ʊ/ yn blaenu mewn ymchwil blaenorol ar y llafariaid caeedig cefn Caerdydd.

Mae blaenu-*GOOSE* yn enghraifft o amrywiad uwch-leol, felly'n amrywiolyn sy'n gyffredin mewn amrywiadau Saesneg mewn mwy nag un ardal dros y byd. Ceir cofnod ohono ar draws y byd Saesneg ei iaith yng Ngogledd America (Labov 1994, 2001; Ash 1996; Fought 1999; Hall-Lew 2005, 2009; Labov et al. 2006; Baranowski 2008; Fridland 2008; Wong 2014), ym Mhrydain (Williams a Kerswill 1999; Hawkins a Midgley 2005; Altendorf a

Watt 2008; Cheshire et al. 2011; Hughes et al. 2011; Hawkins a Midgley 2012; Scobbie et al. 2012; Flynn 2012; Drummond 2013; Holmes-Elliott 2015; Baranowski a Turton 2015; Howley 2015; Baranowski 2017) Awstralia (Cox 1999) a Seland Newydd (Easton a Bauer 2000; Hay et al.. 2008).

Mae'n bwysig nodi bod yr ymchwil hwn yn cofnodi ymddangosiad blaenu-*GOOSE* fel nodwedd uwch-leol ar sail y corff o waith ar llafariaid caeedig cefn Caerdydd, felly mae'n bosibl bod ansawdd /u:/ Saesneg Caerdydd hefyd yn flaenach nag y cofnodwyd ef mewn ymchwil blaenorol. Yn ogystal, er nad oes cofnod o flaenu-*FOOT* yn y gwaith blaenorol ar Saesneg Caerdydd, ceir patrwm cyffredin o *FOOT* yn dilyn *GOOSE* ac yn blaenu, er iddo wneud hynny ar raddfa llawer arafach (Harrington et al. 2011, t. 152). Ceir nifer o astudiaethau sy'n cofnodi blaenu-*FOOT* yn Saesneg yn ne Lloegr lle mae cyferbyniad rhwng llafariaid *FOOT* a *STRUT* (Torgersen a Kerswill 2004; Fabricius 2007; Ferragne & Pellegrino 2010; Jansen 2019) fel a geir yn Saesneg Caerdydd.

Crynhua Collins a Mees (1990, t. 88) un o brif nodweddion Saesneg Caerdydd, 'the accent is characterised by an overall lack of lip-rounding'. Mae'n bwysig nodi nad yw'r ymchwil hwn yn mesur gwefus-grynio oherwydd ni ddefnyddiwyd dulliau uwchsain neu gamerâu i fesur, ond mae'n bwysig ystyried ffactorau ynganu a allai effeithio ar ansawdd y llafariaid caeedig cefn yng Nghymraeg Caerdydd.

Felly, mae blaenu-*GOOSE* yn enghraifft o amrywiad uwchleol mewn amrywiadau Saesneg ar hyd a lled y byd (e.e. Labov et al. 2006; Hall-Lew 2011; Cheshire et al. 2011; Wong 2014), ac mae blaenu-*FOOT* hefyd yn gyffredin mewn amrywiadau Saesneg yn ne Lloegr (e.e. Ferragne & Pellegrino 2010; Jansen 2019). Diben cynnwys ansawdd y llafariaid caeedig cefn fel newidyn felly oedd sefydlu a yw newidyn sy'n ymddangos mewn newid ieithyddol rhyngwladol yn Saesneg yn ymddangos yng Nghymraeg Caerdydd trwy gyffyrddiad ieithyddol a throsglwyddo ieithyddol. Er bod yr is-adran hon wedi rhoi sylw ehangach at flaenu llafariaid caeedig cefn mewn ymchwil blaenorol, dadansoddi ansawdd y llafariaid caeedig cefn mae'r ymchwil hwn, gydag ansawdd agored neu gaeedig yn cael ei fesur hefyd.

3.8.6 Amrywio yn achos y newidyn (ai) yn y sillaf olaf ddiacen

Yr ail nodwedd dan sylw yn yr ymchwil hwn yw amrywio yn achos y newidyn (ai) yn y sillaf olaf ddiacen. Mae'r ymchwil yn ymwneud ag orgraffynnau <ae>, <ai> ac <au> sydd oll yn cynhyrchu'r un amrywiolion tafodieithol traddodiadol /ɛ/ ac /a/, yn ogystal â'r amrywiolyn safonol /ai/. Dengys Thomas a Thomas (1989, t. 41) diriogaeth -a (o'i chymharu ag -e) yn y sillaf olaf ddiacen yn y Gymraeg yng Nghymru. Ni ddengys y map y ffurf safonol /ai/ gan nad yw'n ffurf lafar draddodiadol, ond mae'n ffurf sy'n dod yn fwyfwy cyffredin ar lafar mewn ysgolion Cymraeg (Jones 1998). O ganlyniad, penderfynwyd edrych ar amrywio (ai) yn y sillaf olaf ddiacen er mwyn canfod pa amrywiolion sy'n cael eu defnyddio yng nghyd-destun tafodiaith newydd, a mesur effaith cymysgu tafodieithol a safoni ar ba amrywiolion sy'n cael eu defnyddio.

Dadansodda Jones (1998) ddefnydd o ôl-ddodiaid lluosog yn nhafodieithoedd Cwm Rhymni a Rhosllannerchrugog. Dengys Tabl 28 a Tabl 29 yn is-adran 6.2.1 bod yr ôl-ddodiad '-au' yn ymddangos yn sgwrs siaradwyr iau o'r ddwy ardal. Cymherir hynny â defnydd grwpiau oedran hŷn a fyddai'n fwy tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol, a gwelir bod llai yn defnyddio'r ffurf safonol /ai/ a'r mwyafrif helaeth yn defnyddio'r ôl-ddodiad traddodiadol [ɛ] (Jones 1998, t. 193). Dengys hyn amlygrwydd y ffurf safonol sy'n cael eu defnyddio mewn ysgolion ar draul y ffurfiau traddodiadol.

Ymhellach, mae amrywiolion nad ydynt yn frodorol i'r ddwy ardal hon yn gyffredin o fewn y grwpiau oedran iau. Yn Rhosllannerchrugog mae [a] yn gyffredin gan lai na 10% o'r grŵp oed 7–19 (Jones 1998, t. 193; Tabl 29). Nid yw'n bresennol ymysg y grwpiau hŷn. Yng Nghwm Rhymni mae [ɛ] yn gyson ar hyd yr ystod o oedrannau (Tabl 28). Yn ôl Jones (1998, tt. 97–193) gall hyn fod oherwydd cyffyrddiad tafodieithol gydag amrywiadau Cymraeg cyfagos, neu oherwydd dylanwad y cyfryngau Cymraeg. Gwelir yn is-adran 3.7 fod wyth allan o ddeg o'r disgyblion o aelwydydd Cymraeg â rhieni o dde-orllewin neu ogledd-orllewin Cymru. Gan ystyried hyn felly, mae'n bosibl y gall cymysgu tafodieithol arwain at ymddangosiad amrywiolion sy'n draddodiadol o ardaloedd eraill yn amrywiadau'r bobl ifanc.

3.9 Dadansoddi'r data

Trawsgrifiwyd y data gyda meddalwedd ELAN a'u dadansoddi gan ddefnyddio meddalwedd PRAAT. Cwblhawyd dadansoddiadau ystadegol gan ddefnyddio modelau effeithiau cymysg trwy feddalwedd Rstudio ac R (R Core Team 2011; R Team 2020). Defnyddiwyd modelau effeithiau cymysg am fod yr ymchwil hwn yn ymdrin â mesur F1 ac F2 llafariaid ac felly mae'r data'n ddata parhaol. Mae data yn barhaol pan fydd y lefelau a all effeithio ar y ffactorau dan sylw yn sefydlog (*fixed*) (Baayen 2009, t. 241). Mae defnyddio modelau effeithiau cymysg yn galluogi'r ymchwil i wahaniaethu rhwng effeithiau sefydlog ac effeithiau ar hap. Mae effeithiau sefydlog yn cwmpasu ffactorau sydd yn aros yr un peth, megis iaith aelwyd siaradwyr neu oedran (Baayen 2009, t. 241). Mae effeithiau ar hap yn cwmpasu pethau sy'n digwydd ar hap ym mhob cyfweiliad, er enghraifft, geiriau a siaradwr (Baayen 2009, t. 241). Trwy ddefnyddio effeithiau ar hap megis geiriau a siaradwr mae'r ymchwil yn ystyried amrywio rhwng siaradwyr a rhwng y geiriau hyn wrth amcangyfrif pa ffactorau sy'n dylanwadu ar batrymau amrywio siaradwyr (Johnson 2009, t. 365).

3.10 Crynodeb

Felly i grynhoi, cyflwynwyd yn y bennod hon y fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer casglu a dadansoddi data yn yr ymchwil hwn. Cynhaliwyd cyfweiliadau sosioieithyddol gyda phedwar disgybl ar hugain ar gyfer casglu a dadansoddi data ieithyddol. Roedd gofyn i'r pedwar disgybl ar hugain gwblhau holiadur cefndirol er mwyn canfod data demograffegol arnynt. Penderfynais ar y pedwar ar hugain o ddisgyblion a ffurfiodd y sampl cyfweld wedi cyfnod o arsylwi ethnograffegol mewn dau ddsbarth gwahanol yn YUGC. Cynhaliwyd yr arsylwi ethnograffegol a'r gêm amlen fel modd o arsylwi strwythurau cymdeithasol y disgyblion hyn a pharatoi disgyblion ar gyfer cyfweiliad. Yn y bennod nesaf bydd yr ethnograffeg a sefyllfa gymdeithasol y dosbarth yn cael eu dadansoddi

4 Arsylwi ethnograffegol

4.1 Cyflwyno'r ethnograffeg

Mae'r bennod hon yn adrodd ar fy mhrofiadau yn arsylwi trwy ddull ethnograffegol yn YUGC. Fel y nodwyd yn adran 3.8.1, arsylwais ddau ddsbarth yn YUGC chwe gwaith yr wythnos am chwe wythnos. Pwrpas cynnal cyfnod o arsylwi ethnograffegol oedd taflu goleuni ar sut y mae strwythurau cymdeithasol yn dylanwadu ar batrymau amrywio ieithyddol disgyblion YUGC (sy'n un o gwestiynau ymchwil yr astudiaeth a nodwyd yn 1.4). Mae'r bennod hon yn cynnig dadansoddiad o rwydweithiau'r dosbarth a adnabuwyd yn ystod y cyfnod arsylwi gan gynnwys eu hymarfer cymdeithasol, eu hunaniaeth a'u harferion yn y dosbarth. Bydd y rhwydweithiau hynny hefyd yn cael eu defnyddio fel newidyn annibynnol a'u dadansoddi yn nadansoddiadau penodau 5 a 6 er mwyn ateb y cwestiwn ymchwil.

Cynhaliwyd yr arsylwi ochr-yn-ochr â'r gêm amlen y soniais amdani yn is-adran 0. Lluniwyd y grwpiau, neu'r cymunedau arfer⁶ trwy gyfuno fy nehongliad o'r cyfnod arsylwi ethnograffegol, a dehongliad y disgyblion o grwpiau'r dosbarth trwy'r gêm amlen. Mae 'cymuned arfer' yn cynrychioli 'grwpiau' sydd yn rhannu ymarfer cymdeithasol cyffredin (Lave a Wenger 1991; Eckert a McConnell-Ginet 1992, t. 464). Roedd y gêm amlen yn gyfle i'r disgyblion gynnig hunanasesiad o'u cyd-ddisgyblion a rhwydweithiau'r dosbarth trwy eu henwi a rhestru nodweddion pob grŵp. Bydd sylwadau o'r gêm amlen hefyd yn cynnig cyd-destun wrth wneud dadansoddiadau o'r cymunedau arfer yn adran 4.3. Ar y llaw arall, roedd yr arsylwi yn gyfle i mi fel ymchwilydd arsylwi cymunedau arfer y dosbarth a chanfod pam a sut y maent yn cynrychioli grŵp o ffrindiau. Ymhellach, roedd yr ethnograffeg yn rhoi cyfle i'r disgyblion ddod i'm hadnabod ac i mi ddod i'w hadnabod hwy. Trwy ddod i adnabod y disgyblion, roedd gennyf berthynas wedi'i ffurfio gyda nhw cyn eu cyfweld, yn ogystal â phynciau a straeon o ddiddordeb i'r disgyblion i gyfeirio atynt wrth eu cyfweld.

⁶ Er cysondeb rhwng termau'r disgyblion eu hunain a'r rhai a ddefnyddir yn y bennod hon, penderfynwyd defnyddio 'grwpiau' hyd at is-adran 1.2.2, lle bydd cymunedau arfer yn cael eu cyflwyno i'r darllenydd.

Bydd y bennod hon yn trafod fy mhrofiadau fel ymchwilydd yn YUGC. Yn gyntaf, ceir adran ar brofiadau adfyfyriol o arsylwi yn YUGC (4.2). Bydd is-adran ar y gwersi (4.2.1) yn cynrychioli'r prif gorff adfyfyriol ar fy nghyfnod o arsylwi dau ddsbarth yn YUGC. Yn dilyn hyn bydd is-adran ar gymunedau arfer 4.2.2 (Lave a Wenger 1991, Eckert a McConnell-Ginet 1992) sef y dull a ddefnyddiwyd i ddsbarthu gwahanol garfannau yn y dosbarth, yn ogystal â beirniadaeth o ddefnyddio'r dull o safbwynt ymarferol. Mae is-adran arall ar safleoldeb (4.2.3) sy'n tynnu ar sylwadau Drager (2009) yn archwilio fy rôl fel ymchwilydd wrth arsylwi ac unrhyw gyfyngiadau a wynebais fel ymchwilydd yn YUGC. Yn olaf o safbwynt profiadau adfyfyriol mae is-adran 4.2.4 yn ymdrin ag agweddau ar ddefnydd ac ymagweddau iaith. Yn adran 4.3 ceir dadansoddiad o bob cymuned arfer a ffurfiodd y sampl cyfweld, cyn dethol clystyrau arfer yn 4.4 ar gyfer y dadansoddiadau ystadegol. Yn olaf ceir crynodeb i gloi'r bennod yn 4.5.

4.2 Profiadau adfyfyriol o arsylwi yn YUGC

4.2.1 Y gwersi

Arsylwais wersi Cymraeg a gwersi y Fagloriaeth Gymreig (BAC) dros gyfnod o chwe wythnos. Roedd tair gwersi yr wythnos yr un, yn ogystal â thri diwrnod sgiliau BAC ar ddiwedd y tymor lle'r oedd y disgyblion yn cwblhau eu prosiect BAC y soniais amdano mewn manylder yn is-adran 3.8.1. Roedd rhaid i'r disgyblion greu cynnyrch a'i werthu yn ffair Nadolig yr ysgol. Yn ystod y tri diwrnod yma, roedd gwersi arferol yn cael eu hepgor. Roedd y gwersi hyn oll yn gyfle imi adnabod rhwydweithiau cymdeithasol a grwpiau'r disgyblion, a gwranddo ar ddisgyblion yn cyfathrebu gyda'i gilydd trwy'r Gymraeg.

Yn ystod y gwersi Cymraeg, roedd y plant yn ysgrifennu'n greadigol ac yn darllen drama. Roedd y gwersi yn nodweddiadol o arddull ystafell ddsbarth arferol fel y nodwyd eisoes yn 3.8.1. Yn aml, roedd yr athro yn disgwyl distawrwydd i'r disgyblion wneud eu gwaith. Golyga hyn fod y rhan fwyaf o fy rhyngweithio gyda'r plant yn digwydd ar ddechrau ac ar ddiwedd y wers Gymraeg. Er hyn, roedd yr athro yn ailatgoffa'r disgyblion y gallent fy holi yn ystod y gwersi. Yn aml byddai hyn yn arwain at y disgyblion mwyaf hyderus yn fy holi

ac yn sgwrsio â mi. Arsylwais ar wahanol weithgareddau a rhyngweithio rhwng disgyblion yn ystod y wers Gymraeg ond roeddwn i'n ofalus rhag tarfu gormod ar y wers.

Mewn gwersi darllen, roedd yr athro yn dewis disgyblion i chwarae rhannau cymeriadau penodol, rhywbeth sy'n arferol wrth astudio drama mewn gwर्स Gymraeg, ac roedd yn ymddangos bod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn awyddus iawn i gymryd rhan. Nid oeddwn yn disgwyl hyn, ac yn aml iawn byddai'n rhaid i'r athro ofyn i'r disgyblion o'r grwpiau a oedd fel arfer yn llai awyddus i wneud gwaith ysgol i beidio â gwirfoddoli i ddarllen er mwyn rhoi cyfle i ddisgyblion eraill. Roedd y gwर्स darllen yn rhoi cyfle imi arsylwi arddulliau mwy ffurfiol y disgyblion wrth iddynt ddarllen i weddill y dosbarth, a byddai'n rhoi syniad pellach imi ynglŷn â pha amrywiadau ffonolegol a seinegol i'w disgwyl.

Tua diwedd y tymor, roedd gwर्स yn llawer mwy hamddenol gan fod y disgyblion wedi cwblhau eu gwaith am y tymor. Yn ystod y tair gwर्स Gymraeg olaf, roedd y disgyblion yn gwylio ffilm o'r ddrama yr oedden nhw wedi bod yn ei hastudio, ac roedd yr athrawes yn mynd a dod o'r ystafell ddosbarth. Mae hyn yn gyffredin ar ddiwedd tymor ysgol, gyda'r athrawon yn brysur yn cwblhau gwaith gwahanol, nid oedd cymaint o sylw yn cael ei roi i'r dosbarth roeddwn i'n ei arsylwi. Dywedodd yr athro wrthyf y byddwn i'n cael siarad gyda phawb yn ystod y gwर्स olaf ac y byddai cyfle imi gynnal y gêm amlen a dosbarthu'r holiaduron cefndirol.

Yn amlwg, o safbwynt ymarferol, nid oedd hi'n bosibl siarad yn estynedig gyda phob aelod o'r dosbarth neu bob aelod o grwpiau'r dosbarth. Mewn gwर्स Cymraeg, fel y nodwyd uchod, yn aml nid oedd gennyf gyfle i siarad yn ystod y wers, ac yn y gwर्स BAC yn aml roedd y disgyblion ar wasgar. O ganlyniad, gellid dweud nad oeddwn i'n adnabod rhai disgyblion mor dda ag eraill cyn eu cyfweld. Er hynny, roedd arsylwi yn y dosbarth yn ffynhonnell werthfawr er mwyn cynefino'r disgyblion â'm presenoldeb, a'u paratoi nhw ar gyfer cyfathrebu'n helaethach mewn sefyllfa cyfweliad (Kirkham 2013, t. 97–98). Ceir mwy o fanylder ar hyn yn is-adran 4.2.2.

Nid oedd hi'n bosibl arsylwi y disgyblion tu hwnt i wersi heb bresenoldeb athro, ac oherwydd hynny penderfynais yn erbyn arsylwi ar ddisgyblion gyda phresenoldeb athro.

Byddai hyn wedi bod yn wrthgynhyrchiol, gan mai ceisio sefydlu fy hun fel oedolyn heb awdurdod oedd y nod (Kirkham 2013, t. 60). Er bod ethnograffegwyr wedi pwysleisio budd arsylwi tu allan i'r ystafell ddosbarth (Eckert 1989), mae budd arsylwi o fewn yr ystafell ddosbarth hefyd yn glir. Dadleuir mai'r ystafell ddosbarth yw'r man lle y mae'r disgyblion yn cynhyrchu eu diwylliant ac ystyr cymdeithasol (Mehan 1989; Rampton 1995, 2006). Yn ogystal maent yn treulio y rhan fwyaf o'u hamser yn yr ysgol mewn ystafell ddosbarth. Cyflea Kirkham (2013, t. 60) realiti'r sefyllfa mai'r ystafell ddosbarth yw 'the only way to gain extended access to the students'.

Er hynny, nid oedd yr elfen arsylwadol yn gyfyngedig i'r ystafell ddosbarth yn unig. Fel y nodwyd yn adran 3.8.1, roedd y wers BAC yn aml yn golygu treulio amser tu hwnt i'r ystafell ddosbarth gyda'r disgyblion. Treuliais amser mewn gwersi BAC mewn ystafelloedd cyfrifiadurol, ystafelloedd coginio, llyfrgelloedd yr ysgol, prif swyddfa'r ysgol a cherdded o gwmpas tu fewn a thu allan i'r ysgol. O ganlyniad, roedd hyn yn brofiad mwy nodweddiadol o ethnograffeg mewn ysgol (e.e. Eckert 1998, Moore 2004, Mendoza-Denton 2008, Drager 2009, Lawson 2011). Yn ogystal, roeddwn i'n treulio amser rhwng gwersi, lle roedd y wers Gymraeg cyn y wers BAC, yn ogystal ag ychydig o amser ar ddechrau amser cinio yn cerdded coridorau'r ysgol gyda'r disgyblion.

Nesaf sonnir am y fframwaith a ddefnyddiwyd ar gyfer rhannu'r dosbarth yn grwpiau llai ar sail rhwydweithiau cymdeithasol y dosbarth, cymunedau arfer. Cyflwynir y cysyniad hwn a'i gyfyngiadau a sut yr eir ati i leihau effeithiau'r cyfyngiadau yn yr ymchwil hwn isod.

4.2.2 Cymunedau arfer

Cafodd y disgyblion eu rhannu i grwpiau yn dilyn y cysyniad o gymuned arfer (Lave a Wenger 1991; Eckert a McConnell-Ginet 1992) lle y mae unigolion yn cael eu lleoli 'according to joint engagement in social practice and not according to membership of decontextualised social structure' (Moore 2004, tt. 9–10). Mae'r cymunedau arfer wedi eu llunio ar sail y cyfnod arsylwi a'r wybodaeth a dderbyniwyd yn ysgrifenedig yn y gêm amlen. Mae cymuned arfer yn fframwaith gysyniadol sy'n gwahanu a dosbarthu unigolion ar sail ymarferion cymdeithasol penodol y mae'r ymchwilydd wedi bod yn dyst iddynt wrth gynnal yr ymchwil.

Trwy wneud hyn mae'r gwahanol gymunedau arfer yn rhannu nodweddion ideolegol penodol neu hunaniaeth, ac nid nodweddion cymdeithasol megis rhywedd neu ethnigrwydd yn unig, fel mewn astudiaethau sosioieithyddol hanesyddol. Roedd rhai cymunedau arfer perthyn i gymunedau ehangach yn yr ysgol (tu hwnt i'r ystafelloedd dosbarth yr oeddwn yn eu harsylwi) a oedd gwerth eu nodi oherwydd eu hymarfer cymdeithasol a'u hunaniaethau yn berthnasol i'w cyd-ddisgyblion

Nid yw'r cysyniad o gymuned arfer heb ei gyfyngiadau. Dywed Roberts (2006, t. 629) 'communities of practice may become static in terms of their knowledge base and resistant to change'. Ceir enghreifftiau wrth arsylwi, o ffraeo rhwng unigolion o fewn yr un gymuned arfer, ond penderfynwyd yn erbyn newid y cymunedau arfer gan fod yr unigolion hyn yn dal yn rhannu nodweddion llawer amlycach nag yr oeddent â chymunedau arfer eraill (4.3.3). Er hynny, mae posibilrwydd nad yw cymuned arfer yn rhannu nodweddion tebyg ym mhob achos, ac mae posibilrwydd hefyd y gall y nodweddion hyn newid dros amser gan achosi dynameg y gymuned arfer i newid. Mae'n bwysig cydnabod hefyd, er bod Moore (2011) yn ymdrin â chyfleu cymunedau arfer fel trefniannau cymdeithasol sy'n cael eu ffurfio gan yr unigolion ei hunain, mai'r ymchwilydd sy'n penderfynu ar y cymunedau arfer yn y pen draw. Ceisiwyd osgoi'r cyfyngiad hwn trwy geisio adlewyrchu ymarferion cymdeithasol y disgyblion a defnyddio gwybodaeth ysgrifenedig gan y disgyblion o'r gêm amlen fel y nodwyd uchod ac yn 4.1.

Fel y soniwyd amdano uchod yn 4.2.1, nid oedd hi'n yn bosibl treulio amser y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth gyda disgyblion yn YUGC gan nad oeddwn wedi cael caniatâd i dreulio amser gyda'r disgyblion heb bresenoldeb athro. Fel ymchwilydd a oedd yn arsylwi yn yr ystafell ddosbarth gan fwyaf, un o'r anfanteision o safbwynt y cymunedau arfer oedd sut yr oeddwn yn eu dehongli heb brofi'r cymunedau arfer tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Roedd peryg imi gymryd yn ganiataol fod y disgyblion yn ffrindiau gyda'r disgyblion yr oeddent yn eistedd wrth eu hymyl. Roeddwn yn dyst i'r disgyblion hyn yn cymryd rhan mewn ymarferion cymdeithasol gyda'i gilydd oherwydd eu lleoliad yn yr ystafell ddosbarth, lle nad oeddent yn debygol o wneud tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Dengys canlyniadau'r gêm amlen a'r cyfweiliadau sosioieithyddol, er enghraifft, nad oedd rhai o'r cymunedau arfer yn gyfeillgar â'i gilydd (gw. is-adrannau 4.3.3 a 4.3.4). Amlyga hyn bwysigrwydd defnyddio mwy

na dim ond cyfnod arsylwi ar gyfer adlewyrchu cymunedau arfer.

Nodwyd cyfyngiad arall sy'n berthnasol i'r ymchwil hwn gan Wenger et al. (2002, t. 141) yn ymwneud â'r ffordd y mae cymuned arfer yn cynnwys aelodau llai blaenllaw y gymuned. Yn yr un modd noda Robert (2006, t. 627) 'peripheral community members may not necessarily develop beyond a position of peripheral participation'. Golyga hyn y gall rhai aelodau gael eu hanwybyddu gan yr ymchwilydd gan nad ydynt yn chwarae rôl flaenllaw mewn sefyllfa benodol wrth arsylwi. Soniwyd eisoes yn is-adran 4.2.1 ynglŷn ag adnabod rhai disgyblion yn well na'i gilydd oherwydd rhesymau ymarferol. Hynny yw, mae'n amhosib ac afrealistig rhannu'ch amser fel ymchwilydd yn gyfartal rhwng gwahanol gymunedau arfer. O ganlyniad mae rhai disgyblion yr ydych yn eu hadnabod yn well nag eraill. Y peth pwysicaf yw creu cyfleoedd i'r disgyblion gynefino â'm presenoldeb cyn cynnal cyfweiliadau, hyd yn oed os mai dim ond amser cyfyngedig y mae rhai disgyblion yn treulio yn gyda'r ymchwilydd.

Cefais enghraifft o hyn yn ystod yr wythnosau cyntaf yn arsylwi yn YUGC. Tueddais i ddilyn y criw mwyaf o ddisgyblion lle bynnag yr aent, boed hynny er enghraifft, i'r ystafell gyfrifiaduron, i nôl offer o ddisbarthiadau eraill, neu yn yr ystafell ddisbarth ei hun. Daeth i'r amlwg wedi ychydig wythnosau fod rhai aelodau o'r dosbarthiadau nad oeddwn i wedi siarad gyda nhw i'r un graddau. Er fy mod i wedi trafod hyn o safbwynt ymarferol yn is-adrannau 4.2.1 ac 4.2.2., roedd y disgyblion hyn hefyd yn aelodau o gymunedau arfer y Merched Normal (4.3.5), Merched Rhun (4.3.7) a Merched Cymraeg (4.3.9). Dengys teitlau'r cymunedau arfer hyn, mai merched oedd y disgyblion hyn. Bydd yr is-adran nesaf yn trafod y broblem hon, sef safleoldeb.

4.2.3 Safleoldeb

Mae safleoldeb yn ymwneud â sut mae'r ymchwilydd yn ymddangos yn y diwylliant neu'r gymuned lle mae'r ymchwil yn cael ei gynnal. Diffiniwyd safleoldeb gan Savin-Baden a Howell Major (2013, t. 71) fel 'the position that the researcher has chosen to adopt within a given research study'. Mae rhai pethau y gall yr ymchwilydd eu rheoli gan fod profiadau yr ymchwilydd yn elfennau goddrychol a chyd-destunol (Chiseri-Strater 1996) a rhai pethau

eraill nad oes modd i'r ymchwilydd eu newid fel hil, neu rywedd (Holmes 2014, tt. 2–3). Gall safleoldeb ymchwilydd effeithio ar yr ymchwil fel y noda Foote a Bartell (2011, t. 4), 'the positionality that researchers bring to their work, and the personal experiences through which positionality is shaped, may influence what researchers may bring to research encounters, their choice of processes, and their interpretation of outcomes'. Felly, fy safleoldeb fel ymchwilydd sy'n arwain at beidio â ffurfio perthnasau mor ddatblygedig gyda rhai merched yn y dosbarth. Bydd adran 4.3 ar gymunedau arfer y sampl cyfweld yn arddangos hunaniaethau'r gwahanol gymunedau arfer. Bydd yr hunaniaethau hyn yn amlygu pam fod rhai grwpiau yn rhannu mwy gydag ymchwilydd nag eraill.

Wrth gynnal cyfnod o arsylwi ethnograffegol felly, mae'n bwysig cydnabod datganiad safleoldeb yr ymchwilydd (Holmes 2014, t. 6). Mae gofyn i'r ymchwilydd fod yn ymwybodol o'u credoau a'u canfyddiadau ar gyfer yr ymchwil, ac adnabod sut y gall hynny effeithio ar yr ymchwil, yn ogystal ag adnabod safle'r ymchwilydd o'i gymharu â'r cyfranogwyr (Savin-Baden a Howell Major 2013, t. 75). Rwyf i yn ddyd ifanc yn fy ugeiniau cynnar, sydd oddeutu bum mlynedd yn hŷn na'r disgyblion, ac yn dod o Ogledd Cymru. O ran fy safle yn yr ystafell ddosbarth, o gymharu â'r cyfranogwyr a'r athro, roedd yn bwysig imi beidio ag ymddangos fel ffigur awdurdodol. Mae Drager (2009) yn crynhoi rôl yr ethnograffegydd fel gwrandäwr sydd rywle rhwng beth mae disgybl yn ei adnabod fel oedolyn a chyd-fyfyrywyr. Mae'r ethnograffegydd yn rhy hen neu ffurfiol i fod yn fyfyriwr, ond nid yw'n ddigon ffurfiol i fod yn athro neu'n rhiant (Drager 2009, t. 38; Kondo 1986, t. 78).

Er mwyn dod i adnabod pob aelod o'r dosbarth o wahanol gymunedau arfer, ceisiais bwysleisio beth oedd yn debyg rhyngof a'r disgyblion. O ganlyniad felly roeddwn i'n ymdrechu i ymddangos fel '*Insider*' (Merton 1972). Diffinia Merton (1972, t. 21) *Insiders* ac *Outsiders* fel a ganlyn, 'insiders are the members of specified groups and collectivities or occupants of specified social statuses: outsiders are not'. Gellid hefyd diffinio *insiders* yn well ar gyfer y cyd-destun hwn 'as someone whose biography (gender, race, class, sexual orientation and so on) gives them a 'lived familiarity' with an a priori knowledge of the group being researched' (Griffith 1998; Mercer 2007; Holmes 2014, t. 18). Defnyddiais rai o'r pynciau biograffegol uchod ar gyfer pwysleisio canfyddiadau o debygrwydd rhyngddo i a'r disgyblion. Er enghraifft, wrth drafod chwaraeon, roeddwn i'n crybwyll y ffaith i mi gael

fy magu yng Nghaerdydd a fy mod i'n dilyn Clwb Pêl-Droed Caerdydd fel llawer o aelodau'r dosbarth. Hefyd, gyda rhai merched, roeddwn i'n sôn fod gen i chwaer yr un oed â nhw, ac yn trafod eu diddordebau hi. Disgrifir hyn gan Herod (1999, t. 321) fel, 'the researcher's ability to consciously manipulate their positionality'.

Er hynny, yn aml nid oedd hi'n bosibl gwneud hyn, ac yn yr achosion hynny, roeddwn i'n ymddangos fel *outsider*. Mae manteision ynghlwm â bod yn *outsider* hefyd, er enghraifft, heb arbenigedd neu wybodaeth ar bynciau penodol, roedd gen i allu i holi'r disgyblion am bethau elfennol na fuasai *Insider* yn ofyn, neu i'r gwrthwyneb, i ofyn cwestiynau heriol heb wybod eu bod nhw'n heriol (Holmes 2014, t. 19). Roedd y mathau hyn o gwestiynau yn aml yn arwain at atebion a sgysiau helaeth gyda'r disgyblion, ac roeddwn i'n medru eu hail-ofyn mewn cyd-destun cyfweiliad sosioieithyddol a chael ymatebion naturiol, hamddenol gan y disgyblion. Dengys hyn fod mantais i'r ddwy safle wrth greu perthynas gyda'r disgyblion. Nesaf, byddaf yn trafod arferion ieithyddol disgyblion y YUGC, gan gynnwys sut y mae'r iaith yn cael ei defnyddio a pha statws sydd ganddi yn swyddogol yn ogystal ag yn gymdeithasol, cyn mynd ati i drafod y gwahanol gymunedau arfer yn y gwersi a arsylwais arnynt.

4.2.4 Ymagweddau ieithyddol y disgyblion

Mae'r disgyblion yn YUGC i gyd yn rhugl yn y Gymraeg a Chymraeg yw iaith yr ystafell ddosbarth yn YUGC. Mae'r disgyblion yn gwneud eu gwaith ysgol i gyd yn y Gymraeg, ac yn cyfathrebu gyda'r athro yn y Gymraeg. Yn ychwanegol, mae rheol yn yr ysgol bod rhaid i'r disgyblion siarad Cymraeg gyda'i gilydd, a phetaent yn siarad Saesneg, byddai'r athro yn dweud wrthynt beidio ac yn eu hatgoffa mai Cymraeg yw iaith yr ysgol. Yn aml iawn roedd hyn yn digio'r disgyblion. Byddai rhai disgyblion yn aml yn gwatwar yr athrawon wrth glywed eu cyd-ddisgyblion yn siarad Saesneg gyda'i gilydd ar draws y dosbarth. Roedd hyn yn aml yn ennyn gwerthfawrogiad gan aelodau eraill o'r dosbarth. Roedd cael eu gorfodi i siarad Cymraeg gyda'i gilydd yn y dosbarth yn rhywbeth yr oedd y disgyblion yn ei gydnabod, ond ar yr un pryd yn aml ddim yn ei ddilyn. Ceir dyfyniadau gan ddisgyblion ynglŷn â hyn yn y dadansoddiad o'r cymunedau arfer (4.3).

Er hynny, anghywir fyddai dweud nad oedd y disgyblion yn siarad Cymraeg gyda'i gilydd. Mae polisi Cymraeg yn unig YUGC yn golygu fod llawer o sefyllfaoedd lle mae'r disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg yn ystod y diwrnod ysgol. Dengys hyn bŵer ysgolion Cymraeg i greu amgylchedd lle mai Cymraeg yw'r iaith ragosodedig ac nid Saesneg. Er hynny, roedd lefelau hyder y disgyblion yn amrywio, gyda phawb yn ymddangos yn hyderus ac yn barod i siarad Cymraeg, ond nid yw hyn yn wir ymhob achos. Er enghraifft, nododd un disgybl a oedd yn teimlo nad oedd ei Chymraeg ddigon da. Crynhoa hyn baradocs a welais yn aml yn YUGC, lle roedd yr athrawon eisiau i'r disgyblion siarad Cymraeg gyda'i gilydd, ond ar yr un pryd roeddent yn cwyno am ddiffyg safon yn eu Cymraeg.

Oherwydd y rheol Cymraeg yn unig, roedd y disgyblion yn aml yn siarad gyda'u cyd-ddisgyblion yn y Gymraeg ac felly roedd hi'n gyffredin iawn iddynt gyfathrebu yn y Gymraeg er eu bod nhw'n fwy tebygol o siarad Saesneg gyda'i gilydd y tu allan i'r ystafell ddosbarth. O ganlyniad, roedd defnydd o'r Gymraeg yn normal iawn ac nid oedd yn syndod clywed dau ddisgybl o aelwydydd di-Gymraeg yn cyfathrebu'n Gymraeg gyda'i gilydd. Er i ddefnydd y Gymraeg fod yn normal yng cyd-destun addysgol, roedd rhai grwpiau wedi profi lleiafrif o ddisgyblion o flynyddoedd hŷn yn eu gwawdio yn ystod eu cyfnod yn YUGC am siarad Cymraeg tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Ceir rhagor o fanylion am hyn yn is-adran 4.3.9.

Byddaf yn ystyried defnydd ieithyddol ac agwedd gwahanol grwpiau tuag at iaith yn yr adran nesaf sy'n dadansoddi cymunedau arfer y dosbarth. Bydd yr adran hon yn trafod beth sy'n nodweddiadol ynglŷn â phob cymuned arfer, yn diffinio pob un a'r rhesymau wrth wraidd aelodaeth ym mhob cymuned arfer. Yn ogystal, bydd sylwadau ar bob grŵp o'r gêm amlen yn ogystal â'r cyfnod arsylwi. Fel y soniais uchod, ffurfiais y grwpiau yn dilyn arsylwi rhwydweithiau cymdeithasol yr ystafell ddosbarth, a sylwadau'r disgyblion eu hunain yn y gêm amlen. Diben dadansoddi'r grwpiau yw diffinio'r grwpiau hyn yn gymdeithasol, er mwyn taflu goleuni dros unrhyw amrywio rhwng disgyblion a all godi wedi dadansoddi data cyfweliadau'r disgyblion.

4.3 Dadansoddi'r cymunedau arfer

Felly, eir ati nesaf i ddadansoddi'r cymunedau arfer. Ffurfiwyd y cymunedau arfer hyn o ddisgyblion y sampl a oedd yn mynychu dosbarthiadau BAC a Chymraeg blwyddyn deg, set tri YUGC. Nid yw'r cymunedau arfer yn cynnwys disgyblion nad oeddent yn cael eu cyfweld, ond yn aml roedd y cymunedau arfer yn fwy nag aelodau'r sampl yn unig. Bydd pob dadansoddiad yn cynnwys nodweddion y cymunedau arfer penodol ar sail y cyfnod arsylwi, sylwadau cyd-ddisgyblion am gymunedau arfer ac unigolion penodol o'r gêm amlen a'r cyfweiliadau sosioieithyddol, a pherthynas cymunedau arfer gyda chymunedau arfer eraill. Yn ogystal rhoddir sylw manwl i rai unigolion os yw'n berthnasol. Bydd tabl gyda gwybodaeth gefndirol a gasglwyd o'r holiadur cefndirol a dadansoddiad ohonynt ar gyfer pob cymuned arfer.

4.3.1 Y Sbartheiniaid

Yn ystod y cyfnod arsylwi, dehonglais y Sbartheiniaid fel criw o fechgyn hyderus, direidus a phoblogaidd. Roedd gan y Sbartheiniaid rwydweithiau cymdeithasol agored, roeddent yn benodol yn ffrindiau gyda'r Bechgyn Meme Chat, y Merched Poblogaidd a'r Merched Chwaraeon. Roedd yr enw yn rhywbeth a fathwyd gan y bechgyn eu hunain, ac roedd cymunedau arfer eraill y dosbarth yn aml yn cyfeirio at y bechgyn fel y Sbartheiniaid. Yn aml, roedd aelodau'r gymuned arfer yn ganolog i unrhyw sgwrs a oedd yn digwydd dros y dosbarth cyfan, neu rhwng athro a'r dosbarth cyfan. Roedd athrawon yn aml yn gorfod gofyn i aelodau'r Sbartheiniaid i ddistewi ac i wneud eu gwaith, ond er hynny, roedd Y Sbartheiniaid o ddifrif am eu dyfodol academiaidd ac yn poeni am ennill graddau er mwyn parhau â'r hyn yr oeddent eisiau ei wneud yn y dyfodol (gw. Enghraifft 1 ac Enghraifft 2 isod).

Enghraifft 1 – Trey

Trey: um
ond uh, sai'n meddwl, sai'n really gw'bod unrhyw, ar y foment *like*,
fi just yn trio ca'l *good grades* mewn popeth, a wedyn fi efo'r *option* i 'neud
unrhyw beth *really*.

Enghraifft 2 – Robbie

Robbie: wedyn *all the academic*, so, bys- byse llawer o *grades* fi angen bod yn *A stars* and like, sai'n *A star*, like, A fi allu* *achieveo As*, os fi'n rhoi mind fi, ond *like, you know, not an A star*.

Yn y gêm amlen derbyniodd y Sbartheiniaid sylwadau gan gyd-ddisgyblion o'r cymunedau arfer eraill yn cyfleu eu poblogrwydd – '*legends*', '*prif fechgyn*', '*neis*' – ac nid oedd unrhyw sylwadau a oedd wir yn negyddol amdanynt yng nghanlyniadau'r gêm amlen. Yn ogystal, roedd cyfeiriadau at eu diddordebau mewn chwaraeon gyda phob aelod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon boed yn rygbi, hoci, hoci iâ neu bel-droed. Soniwyd am eu hiwmor – '*doniol*', '*cheeky*', '*class clowns*', '*gwneud i'r dosbarth chwerthin*' ac am eu hyder, gelwid nhw'n '*hyderus*', '*ddim ots beth mae pobl eraill yn meddwl*', '*laid-back*', '*swnllyd*', '*siaradus*'. Er eu poblogrwydd, roedd Ibrahim yn cydnabod ei fod yn hoff iawn o rai aelodau o'r cymunedau arfer llai poblogaidd er bod eraill o'r dosbarth yn eu hadnabod fel '*rhyfedd*' yn ôl canlyniadau'r gêm amlen.

Ibrahim a Robbie yw arweinwyr y Sbartheiniaid,

Enghraifft 3 – Robbie

Robbie: oh so, Ibrahim, mae e'n um – fi a Ibrahim yn 'neud llawer efo'n gilydd, ni'n *kinda' like the two constantly fighting for like the leadership of the gang*. *li- like*, ni'n best mates, *like*, ni yw yw *closest* yn y *gang* oherwydd ni'n 'neud *stuff* efo *cadets and whatever*. a ni'n like, shareo *same interests*, like saethu, hedfan, 'neud *bad stuff*. *ca'l laugh basically*.

Mae Ibrahim, Endaf a Trey yn ffrindiau ers yr ysgol gynradd, ac yn byw yn yr un ward etholiadol ac yn aml yn treulio eu hamser gyda'i gilydd yn ystod y gwyliau oherwydd eu bod

nhw'n byw yn yr un ardal. Er ei fod yn aelod canolog o'r gymuned arfer, nid yw Robbie yn byw yn yr un ardal â'r bechgyn eraill.

Roedd y Sbartheiniaid yn treulio llawer o'u hamser yn y dref, neu yn Gablafa ar benwythnosau o'u cymharu â rhai o fechgyn eraill y dosbarth. Cydnabuwyd hyn yn y gêm amlen gan gyd-disgyblion yn nodi 'Gablafa' ac 'Roadmen'. Mae 'Roadmen' yn cyfeirio at gysyniad cymdeithasol cyfoes o fechgyn ifanc yn gwisgo mewn ffordd benodol ac hefyd yn siarad mewn ffordd benodol, gyda defnydd o amrywiadau SALI (gw. is-adran 2.2.4). Sonia gwahanol aelodau o'r dosbarth am ddefnydd y Sbartheiniaid o eiriau SALI,

Enghraifft 4 – Dafydd

Cyf.: oce ma' hynna'n ddiddorol
um, so rho bach, rho enghreifftiau o be', be' ma' grŵp chi – sut ma'
grŵp ti'n siarad o gymharu â fel Ibrahim, Robbie a Trey

Dafydd: um,
fwy fel – llai, os ma nhw'n – os ni'n defnyddio *slang* fel *really stupid*
pethau fel *bruv* a *fam*, ni'n 'neud e fel jôc

Enghraifft 5 – Robbie

Robbie: os ti'n edrych ar Ismail, ma' fe'n *proper British accent*
uh
oherwydd like Dad e'n dod o Lloegr, fi'n credu mae 'di *picko* fe lan o fan 'na

Enghraifft 6 – Angharad

Cyf.: oes fel rhywbeth am acen Ibrahim ac Endaf ac ati sy'n wahanol i acenion pobl eraill?

Ang.: ie ma Ibrahim yn dod o fel Llundain
mae ei teulu, so ma' fe fel, *English accent*, ond ma' Endaf yn dod o'r Gogledd

Cyf.: be' so ti'n meddwl ma' nhw'n swnio'n wahanol i'w gilydd?

Ang.: yeah, *definite*-
ond, os fel, os ma' nhw efo'i gilydd am fel amser hir

Cyf.: mm

Ang.: *they kinda' just fel, speak the same.*

Fel y nodwyd uchod yn Enghraifft 6, mae rhieni Endaf yn wreiddiol o ogledd Cymru. Mae Endaf yn un o bum disgybl yn y sampl cyfweld gydag o leiaf un rhiant o ogledd neu orllewin Cymru. Endaf yw unig aelod o'r gymuned arfer o aelwyd Gymraeg ond nid oeddwn i'n ymwybodol o hyn, na'i rieni gogleddol, nes iddo ddweud wrthyf wedi cyfnod sylweddol o arsylwi. Soniodd Endaf yn ei gyfweiliad ei fod wedi cael profiad llawer llai Cymreig na'i chwaer a aeth hefyd i YUGC.

Enghraifft 7 – Endaf

Endaf: dwi'n, dwi'n probably um, w- dwi'n probably'n well adre'n siarad Cymraeg oherwydd ma' chwaer fi yn hoffi fel, cywiro fi yn treiglo

Cyf: oh really?

Endaf: yeah, mae'n *really annoying*

Endaf: yeah, mae'n, ma' hi'n, mae'n fel siarad Cymraeg lot mwy, ma' hi'n mynd i fel, um yr Eisteddfod a pethau, ond dwi, dwi'n fel pryd ma' teulu fi'n mynd i'r Eisteddfod, dwi just yn mynd i fel, gweld *cousin* fi yn *Liverpool*, so

Dengys hyn ddylanwad grŵp cyfoedion ar ddisgyblion ysgol, yn hytrach na'u rhieni (Labov 1972; Cheshire 1982; Romaine 1984; Eckert 1988, 1997).

Roedd Trey yn aelod o'r gymuned arfer ond nid oedd Trey yn treulio ei amseroedd cinio yn yr ysgol gyda'r Sbartheiniaid. Yng ngêm amlen Ibrahim, dywedai fod Trey yn treulio amser gyda'r '*chavs*' 'weithiau pryd mae'n dewis'. Roedd Trey yn gwrthwynebu hyn, ac yn dweud ei fod yn dewis treulio amser gyda'r bechgyn eraill tu allan i'r dosbarth gan nad ydyw eisiau treulio ei amser cinio yng nghwmni athrawon, sef beth oedd gweddill y bechgyn yn ei wneud. Roedd hyn yn crynhoi gwahaniaeth rhyngddo ac aelodau eraill y gymuned arfer:

Enghraifft 8 – Trey

Trey: um

so, ie fi, fi fel arfer yn uh, s- like, mynd â um, so by' fi fel arfer efo Rhys, Phillip,

Rhidion, pobl fel yna

Cyf.: mm

Trey: um, ond oherwydd amser cinio ma' nhw gyd yn mynd fel i um, dosbarthiadau gwahanol fel Mr Mathews *stuff* fel yna

Cyf.: mm

Trey: a fi just yn, sai'n *really like*, siarad i Mr Mathews, sai (()) {LG}.

Tabl 9. Gwybodaeth gefndirol am gymuned arfer y 'Sbarteiniaid'.

ENW AELOD	HUNANIAETH GENEDLAETHOL	IAITH AELWYD	LLEOLIAD MALLC
IBRAHIM	Prydeinig	Di-Gymraeg	50% Uchaf
ROBBIE	Prydeinig	Di-Gymraeg	30–50% Isaf
ENDAF	Cymreig	Cymraeg	50% Uchaf
TREY	Prydeinig	Di-Gymraeg	50% Uchaf

Er eu delwedd fel '*roadmen*', mae pob aelod ac eithrio Robbie yn byw mewn lleoliad MALIC o fewn hanner uchaf Cymru fel y gwelir yn Tabl 9 uchod. Fel y nodwyd uchod, dim ond Endaf sydd o aelwyd Gymraeg, ac Endaf yw'r unig aelod o'r gymuned arfer sy'n nodi ei hunaniaeth genedlaethol fel Cymreig yn Tabl 9. Y Sbarteiniaid yw'r unig gymunedau arfer sydd â mwyafrif yn ystyried eu hunain yn Brydeinig. Mae'r rhan fwyaf o'r cymunedau arfer wedi eu cyfansoddi o ddisgyblion o aelwydydd di-Gymraeg eu hiaith fel y Sbarteiniaid, ond dim ond y Sbarteiniaid a'r Geeks (Tabl 14) sy'n ymuniaethu fel Prydeinig neu Gymreig a Phrydeinig. Dim ond Ibrahim, Robbie a Trey o'r sampl gyfan, ac un aelod o'r Geeks sy'n adnabod eu hunain fel Prydeinig yn unig yn ogystal. Gellid honni bod Prydeindod Ibrahim a Robbie yn cysylltu gyda'r grŵp 'air cadets' yr oeddent yn ei fynychu yn ystod yr wythnos ac yn aml iawn ar benwythnosau hefyd.

4.3.2 Y Bechgyn Meme Chat

Y Bechgyn Meme Chat yw'r ail gymuned arfer o fechgyn yn y dosbarth. Mae'r enw yn deillio o '*group chat*' y bechgyn ar gyfryngau cymdeithasol ac yn ymwneud â'u diddordeb mewn *memes*. Mae *memes* o ddiddordeb i bawb yn y dosbarth mewn gwirionedd, ond roedd cyd-ddisgyblion yn tynnu sylw tuag at hiwmor unigryw y gymuned arfer hon yn ystod y cyfnod

arsylwi. Roedd eu diddordebau unigryw mewn pynciau megis, hanes, comiwnyddiaeth, *marvel* ac *avengers* yn golygu nad oedd llawer o'r disgyblion o gymunedau arfer eraill yn uniaethu gyda'r pynciau hyn, ac oherwydd hyn nid oeddent mor boblogaidd â'r Sbartheiniaid. Yn y gêm amlen cafwyd sylwadau yn cyfleu hyn – '*annoying* weithiau', '*wannabe class clown*', 'meddwl bod nhw'n doniol', '*kind of annoying* ond doniol', '*weirdos*', 'ail prif fechgyn (*no offence*)' ac roedd anghytuno rhyngddynt â'r Merched Poblogaidd yn aml. Ar y llaw arall roedd llawer o ymwneud gydag aelodau o'r Sbartheiniaid. Roedd y rhan fwyaf yn gyfeillgar gyda'u cyd-ddisgyblion tu hwnt i'r gymuned arfer, ond gyda'i gilydd roeddent yn amlwg yn cyd-dynnu'n llawer gwell na gydag eraill.

Tabl 10. Gwybodaeth gefndirol am gymuned arfer y 'Bechgyn Meme Chat'

ENW AELOD	HUNANIAETH GENEDLAETHOL	IAITH AELWYD	LLEOLIAD MALLC
IOAN	Cymreig	Cymraeg	50% Uchaf
MATH	Cymreig a Phrydeinig	Cymraeg	50% Uchaf
TIRION	Cymreig	Di-Gymraeg	50% Uchaf
CARWYN	Cymreig	Cymraeg	30–50% Uchaf
DAFYDD	Cymreig	Di-Gymraeg	50% Uchaf
PIERRE	Cymreig a Ffrengig	Di-Gymraeg	50% Uchaf

Yn wahanol i'r Sbartheiniaid, mae pob un aelod yn uniaethu fel o leiaf rhannol Gymreig fel y dengys Tabl 10. Mae Math a Pierre, sydd yn eu hystyried eu hunain yn Gymreig a Phrydeinig ac yn Gymreig a Ffrengig, y naill â rhiant o'r Alban a'r llall â rhiant o Ffrainc ac felly mae'r hunaniaethau hyn o ganlyniad i gefndiroedd eu rhieni. Dengys Tabl 10 bod hanner y gymuned arfer, Ioan, Math a Carwyn o aelwydydd Cymraeg, ac yn ychwanegol mae gan Dafydd a Tirion gefndir Cymreig yn eu teuluoedd, yn siarad Cymraeg gyda Nain a Taid neu bod eu rhieni'n medru'r Gymraeg. Er hynny, nid yw mwyafrif o'r gymuned arfer yn siarad Cymraeg gyda'i gilydd tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.

O ran lleoliad MALIC, fel y gwelid yn Tabl 10, mae'r gymuned arfer hon i gyd o fewn y 50% uchaf yng Nghymru, ac eithrio un aelod, Carwyn. Mae hefyd yn bwysig nodi'r cysylltiad rhwng aelwydydd Cymraeg a lleoliad MALIC yma. Carwyn yw'r unig ddisgybl o aelwyd Gymraeg yn y sampl cyfweld gyfan nad yw'n byw mewn ward etholiadol lleol ymysg 50%

uchaf yng Nghymru. Mae'n bwysig ystyried felly bod disgyblion yr ymchwil hwn sydd o aelwydydd Cymraeg yn tueddu i ddod o ardaloedd mwy breintiedig yng Nghaerdydd. Sonia Aitchison a Carter (2000, t. 80) am y dosbarth canol Cymraeg yn ymsefydlu mewn ardaloedd tebyg yng Nghaerdydd fel y nodwyd yn 1.2.

Ioan yw arweinydd y gymuned arfer hon ac roedd ei ddiddordebau hefyd yn cynrychioli diddordebau llawer o fechgyn y gymuned arfer. Roeddent yn hoffi pynciau academiaidd fel hanes, ac yn ymddiddori yn yr ail ryfel byd yn benodol, yn ogystal â hoffi ffilmiau marvel ac Avengers ac ati. Roedd Ioan hefyd yn hoffi chwarae hoci, yn ogystal â llawer o fechgyn eraill yn y dosbarth gan gynnwys Dafydd a Math o fewn y gymuned arfer a Trey, o'r Sbartheiniaid. Roedd Ioan yn cwyno bod llawer o'r Bechgyn Meme Chat yn rhy barod i aros i fewn ar benwythnosau neu wyliau erbyn hyn, yn hapusach yn chwarae ar eu *Playstations* (Enghraifft 9). Nid oedd chwarae ar ddyfeisiau tebyg yn ddiddordeb mawr gan fechgyn o gymunedau arfer eraill.

Enghraifft 9 – Ioan

Cyf.: so, o't ti'n sôn am *Powerleague*
yeah, ti'n mynd i *Powerleague* lot?

Ioan: um, ddim gymaint nawr
ond, uh, yn y hâf a pethau fel hwnna, ni'n mynd, o'n ni arfer mynd fel bron pob dydd,
really

Cyf.: oh oce

Ioan: ond nawr, o'dd e fel, ((fi'n meddwl)) ma'r prisiau 'di codi tipyn bach a ni just yn colli
interest really
fi'm yn gw'bod pam, fel, e- o'dd ffrindiau, just, ella oherwydd gwaith ysgol neu
rhywbeth, fi ddim yn gw'bod, ond ni just ddim yn mynd gymaint dim mwy
dal yn mynd bob ryw hyn a hyn, fel, uh, ni efo uh, diwrnod HMS ar y Dydd Mercher, ni'n
mynd fan 'na
ni'n mynd i *Powerleague* ar Dydd Mercher a pethau fel yna, ni just, ddim gymaint dim
mwy ond ni dal yn 'neud e, pethau fel hwnna

Cyf.: *I suppose*, pan ti'n mynd yn hyn, fel, fyny'r ysgol, ti ddim gyda gymaint o amser rhydd

Ioan: na, ie
a ma' lot o fel, ma' fel *mobile phones* a pethau fel hwnna, ma' pobl efo way mwy o

interest mewn fel, *Playstations* neu rywbeth nawr.

Roedd Bechgyn Meme Chat yn treulio amser tu allan i'r ysgol gyda'i gilydd, yn bennaf ar benwythnosau, er eu cyfaddefiad uchod eu bod yn treulio llawer o amser yn cymdeithasu ar *Playstations* ac *Xbox*. Yn aml roeddent yn aros o gwmpas ardal Yr Eglwys Newydd, yn hytrach na mynd i'r dref fel y Sbartheiniaid.

4.3.3 Y Merched Poblogaidd

Roedd y Merched Poblogaidd yn gymuned arfer o ferched a oedd yn hoffi mynd i'r dref ar benwythnosau a threulio eu hamser gyda grwpiau o'r tu allan i'r ysgol. Roeddent yn ymddangos ac yn ymddwyn yn hŷn na merched eraill y dosbarth. Dim ond tair aelod oedd yn perthyn i'r gymuned arfer hon, felly roeddent yn griw gymharol fach, efallai oherwydd eu hanfodlonrwydd i dderbyn merched o'r tu allan. Roeddent yn tueddu i ystyried disgyblion - merched yn benodol – o setiau uwch fel '*snobs*' ac yn cyfeirio at agwedd snobyddlyd rhai o fewn y dosbarth yn aml yn ystod y cyfnod arsylwi. Enwodd y grŵp y 'Merched Chwaraeon' fel un gymuned arfer nad oedden nhw'n eu hoffi am y rheswm hwn (4.3.4). Gwelir dyfyniad o gyfweliad Angharad o'r Merched Chwaraeon yn sôn am y Merched Poblogaidd isod:

Enghraifft 10 – Angharad

Ang.: um, ie, {NS}, ie ma' nhw'n fel, ni byth yn siarad i ein gilydd
ond fel, ma' nhw'n fel casáu ni

Cyf.: oh *really*?

Ang.: (()) fi ddim, fi ddim yn casáu nhw
fel fi 'llu siarad i nhw
ond fel

Derbyniodd y gymuned arfer sylwadau cymysg gan gyd-ddisgyblion yn y gêm amlen. Tra bo rhai yn cyfeirio atynt yn negyddol – '*gossipers*', '*bitchy*', a '*chavs*', roedd ganddynt lawer o ffrindiau yn y dosbarth, a roedd llawer yn sôn yn fwy cyffredinol amdanynt fel '*siaradus*', '*hyderus*' '*swnllyd*' a '*doniol*'.

Derbyniodd y Merched Poblogaidd gryn dipyn o sylwadau ar eu hacenion yng nghyfweliadau a chanlyniadau gêm amlen gwahanol ddisgyblion. Roedd Camilla yn benodol yn derbyn sylwadau gan aelodau eraill o'r dosbarth am ei hacen, ac yn aml byddai cyddisgyblion yn sôn wrthyf am ei defnydd o amrywiadau traddodiadol Saesneg Caerdydd. Ceir enghreifftiau isod o ddisgyblion yn defnyddio Camilla fel enghraifft o rywun ag acen a oedd yn arbennig o nodweddiadol o Gaerdydd:

Enghraifft 11 – Trey

Trey: uh fi'n meddwl m- *like*, uh ma' Camilla ddim yn *really* siarad llawer o Cymraeg
Cyf.: oce
be' am acen hi yn gyffredinol?
Trey: *Cardiff accent*
Cyf.: ie? Oes lot o bobl gyda *Cardiff accent*?
Trey: um
na dim *really*
Cyf.: na?
Trey: dim yn y dosbarth, ond uh, *like* yn y, *like* y blwydyn ma' 'na *like*, tua *like* dau ddeg, dau ddeg pump
Cyf.: oh be' fel gyda *traditional*-
Trey: yeah
Cyf.: yeah, 'cause fyswn i'n dadlau bo' chi gyd gyda rhyw fath o *Cardiff accent*, ond be-
Trey: *Cardiff accent*
ie, ie, ie
ond *like*, *like*, dweud yr 'a', ie
ma' 'na *like few*, ond yn dosbarth ni does dim, *really*.

Enghraifft 12 – Leia

Leia: ma' uh, pobl yn dweud 'tho fi trwy'r amser bo' acen fi'n newid yn dibynnu pwy fi'n siarad efo
- - -
so *apparently* fi'n siarad *super posh* Saesneg efo Mam fi, *apparently* fi'n swnio'n *really* gog pan fi'n siarad efo Dad fi
pobl fel Camilla, fi'n siarad, fi'n gallu teimlo fy hun yn siarad mwy *like Cardiff*

like, o- nes i ddweud ‘*arm*’ y diwrnod arall, a nes i dweud ‘*arm*’, like nes- ma’n *really weird*

fi’n siarad *posh* efo Mam, *gog* efo Dad, *Cardiff* efo Camilla, ond *like*, fi ddim yn *gw’bo’* pa un yw *actually* sud fi’n siarad.

Felly, mae Trey a Leia yn cysylltu’r defnydd uwch o ffurfiau traddodiadol Caerdydd gydag iaith Camilla. Y ffurf sydd dan sylw yn Enghraifft 11 ac Enghraifft 12 yw’r [æ(:)] mwy caeedig (e.e. ‘dark’) sy’n cael sylw gan Coupland (1988, t. 25), sydd yn ôl Trey yn amrywiolyn lleiafrifol iawn yn YUGC.

Tabl 11. Gwybodaeth gefndirol am gymuned arfer y ‘Merched Poblogaidd’

ENW AELOD	HUNANIAETH GENEDLAETHOL	IAITH AELWYD	LLEOLIAD MALLC
MAYA	Affro-Caribîaidd	Di-Gymraeg	10–20% Isaf
MAIR	Cymreig	Cymraeg	50% Uchaf
CAMILLA	Cymreig	Di-Gymraeg	30–50% Isaf

Mae’r tair aelod o’r gymuned arfer yn dod o wardiau etholiadol mewn gwahanol leoliadau ar y raddfa MALIC. Roedd Camilla o gefndir di-Gymraeg, sosioeconomaidd is, a’u rhieni o Gaerdydd, ac yn ystyried ei hun yn Gymreig. Roedd Maya yn dod o gefndir tebyg hefyd ond yn ystyried ei hun fel Affro-Caribîaidd oherwydd ei ethnigrwydd a hanes ei theulu a ymfudodd i Gaerdydd o’r Caribî. Sylwir bod Mair, yr unig aelod o fewn yr 50% uchaf yng Nghymru o aelwyd iaith Gymraeg ac nad yw hi’n dod o ardal mwy di-freintiedig fel y ddwy arall. Er hynny, nid oedd cyd-ddisgyblion o gymunedau arfer gwahanol yn ystyried Mair yn wahanol i’r ddwy aelod arall. Er bod Mair yn cael ei hadnabod fel hyn gan ei chyd-ddisgyblion, roedd hi a’r Merched Poblogaidd hefyd yn ymwybodol eu bod hi o gefndir mwy Cymreig:

Enghraifft 13 – Maya

Maya: ond fel, yr fel ((enghraifft)) o fel, pan o’dd mair yn siarad efo *boyfriend* hi, neu efo mam hi, ma’n hollol wahanol

Cyf.: {NS} oh oce

Maya: ma' mam hi ddim ond yn siarad Cymraeg {NS}, a ma'n- dim ond fod siarad Cymraeg adref, ond fel, mae Lucas o ysgol gwahanol a pethau so, ie

Enghraifft 14 – Mair

Cyf.: ma – rho bach o hanes teulu ti fi

Mair: um, mae fe'n teulu eithaf Cymraeg

Cyf.: ie?

oce

Mair: sydd bach yn *annoying* weithiau

Cyf.: pam?

Mair: just oherwydd fel, os fi'n dweud gair yn Saesneg, oherwydd mae yna tueddiad nawr oherwydd yn ysgol uwchradd chi'n siarad mwy o Saesneg

Cyf.: yeah

Mair: so mae'n *annoying*, chi'n dweud fel un gair yn Saesneg a mae mam fel 'siarad Cymraeg' a chi just fel 'shut up'

Er ei sylwadau uchod yn Enghraifft 14, roedd Mair yn teimlo trueni dros sefyllfa'r Gymraeg yn yr ysgol:

Enghraifft 15 – Mair

Mair: um

sai'n credu mae nhw'n fel, yn digon fel, *strict*, fel mae nhw yn dweud wrthon ni i siarad Cymraeg, ond wedyn mae yna llawer o fel – ma- mae'r ysgol i gyd yn dueddol i siarad Saesneg sydd yn eithaf drist.

Soniwyd eisoes yn is-adran 4.2.2 ynglŷn ag anfantais y cysyniad o gymunedau arfer gan nad yw'n ystyried newid yn ystod cyfnod yr ymchwil. Yng nghyd-destun y Merched Poblogaidd, erbyn i mi ddychwelyd i gynnal cyfweiliadau, roedd shifft wedi bod yng nghyfeillgarwch aelodau'r gymuned arfer gyda Maya a Mair wedi ffraeo â Camilla. Eglura Camilla yn ei chyfweiliad nad oedd hi'n ffrindiau gyda'r merched bellach a'i bod hi erbyn hyn yn treulio eu hamser gyda Merched Rhun. Eglura Camilla'r sefyllfa isod:

Enghraifft 16 – Camilla

Cam.: a o'n ni'n eistedd yn gwely fi, a o'dd hi, 'nes i *joino'r live* o' nhw'n 'neud
a o'dd um, o' nhw ddim yn gw'bod o'n i ar y *live* yna, a mae gen- mae dal gen
i e ar ffôn fi, fel 'nes i *screen recordo* fe, o'dd e fel
'*Camilla you're a rat, Camilla Parry's a rat' and stuff like that*, a wedyn nhw'n
galw fi enwau, fel

- - -

Cam.: so nawr dyna pam dwin ffrindiau efo fel Gwenno a Faith, *and closer* efo nhw, a fi'n *glad*
hefyd oherwydd ma' nhw *so much drama*.

Roedd Camilla wastad yn gyfeillgar gyda 'Merched Rhun', sef y gymuned arfer yr oedd hi'n treulio'i hamseroedd cinio gyda bellach, yn ystod y cyfnod arsylwi, ond roedd ei phersonoliaeth a'u diddordebau yn ymdebygu llawer mwy â chymuned arfer y Merched Poblogaidd. Ymhellach, digwyddodd y ffrae y soniwyd amdano yn Enghraifft 16 cyn y cyfnod arsylwi, ac yn ystod y cyfnod arsylwi, ni chlywais unrhyw beth am y ffrae, a roedd y tair yn aml yn treulio amser gyda'i gilydd yn y gwersi BAC a'r gwersi Cymraeg. Tybiwn y byddai Maya, Mair a Camilla yn cymodi yn y dyfodol. Felly, am y rhesymau hyn, penderfynais gadw Camilla yn y gymuned arfer hon.

Pwynt pellach ar y Merched Poblogaidd yw, er nad oeddent yn hoffi merched o setiau uwch am eu bod nhw'n dod ar draws yn snobyddlyd, ac yn edrych lawr eu trwynau arnynt, sylwir bod Maya a Mair yn ymddwyn yr un ffordd tuag at Camilla isod:

Enghraifft 17 – Mair

Mair: a wedyn fi just yn cofio fel, oedd fi just eisiau gadael yr ysgol y diwrnod yna,
oherwydd oedd hi – oedd y merch yma, fel mae hi ddim, fel, fi'n – fi'n credu fi a ffrind fi
bach mwy *classy* na hi

Cyf.: oce

Mair: a mae hi bach yn, fel fi'n *fine* gyda hi nawr, mae'n merch digon neis nawr, ond mae hi
just kind of fel, oedd hi 'di cael merched yma i fel, trio *threateno* ni i *beato* ni lan a
pethau fel yna

Cyf.: *oh god*

Mair: a wedyn oedd nhw'n dweud bod nhw tu allan i'r ysgol a pethau fel yna

a fi'n meddwl mae'n eithaf *trampy* pryd mae merched yn fel ffraeo, fel fi'n ffeindio fe mor *disgusting*, a fi'n *hateo* pryd ma- -- pryd mae fel *fighys* yn ysgol, fi byth yn rhedeg ato fe, fi just ddim yn hoffi gweld e

Felly, roedd paradocs yn bodoli o amgylch y Merched Poblogaidd, ac er bod atgasedd gan y gymuned arfer hon tuag at '*snobs*' o setiau uwch, roedd Mair a Maya yn meddwl eu bod nhw 'bach mwy *classy*' na Camilla. Gellid honni efallai fod yna gysylltiad rhwng agwedd snobyddlyd cyd-aelodau'r gymuned arfer tuag at Camilla, a'r ffaith ei bod hi'n defnyddio ffurfiau traddodiadol, a all fod yn warthnodedig.

4.3.4 Y Merched Chwaraeon

Mae'r gymuned arfer hon yn cael ei diffinio ar sail diddordeb y merched mewn chwaraeon:

Enghraifft 18 – Llinos

Cyf.: so pam bo' chi'n ffrindiau then, pam bo' chi'n ca'l ymlaen?

Llinos: fi'n credu ma' fe *just*, ma' rhan fwyaf o' ni yn 'neud um, fel pêl rwyd a athletau, ni'n 'neud fel llawer o chwaraeon

Roedd Awel yn gwneud athletau a chwarae rygbi a Llinos yn gwneud athletau a phêl-rwyd ac yn gwirfoddoli mewn chwaraeon yn ystod yr wythnos. Roedd Awel a Llinos weithiau'n absennol o'r wers Gymraeg neu'r wers BAC am fod ganddynt ymrwymiadau gyda thimau chwaraeon yr ysgol. Gelwid nhw'n 'sporty' gan lawer o ddisgyblion yn y gêm amlen. Y tu hwnt i chwaraeon, roeddent yn hoffi treulio eu hamser hamdden tua canol y ddinas gyda amryw o ffrindiau eraill.

Tabl 12. Gwybodaeth gefndirol am gymuned arfer y 'Merched Chwaraeon'

ENW AELOD	HUNANIAETH GENEDLAETHOL	IAITH AELWYD	LLEOLIAD MALLC
AWEL	Cymreig	Cymraeg	50% Uchaf
LLINOS	Cymreig	Cymraeg	50% Uchaf

Roedd Llinos ac Awel o aelwydydd Cymraeg, ac maent yn byw yn yr un ward etholiadol sydd yn y 50% uchaf yng Nghymru o safbwynt y MALIC fel y gwelwyd uchod yn Tabl 12. Un waith eto gwelir y cysylltiad rhwng aelwyd Iaith Gymraeg a Lleoliad MALIC uchel yn y gymuned arfer hon. Aethant i'r un ysgol gynradd hefyd ond soniodd Llinos nad oeddent yn agos iawn yn yr ysgol gynradd, ac mewn gwirionedd nad ydyn nhw'n ffrindiau agos iawn er eu bod nhw yn yr un gymuned arfer.

Enghraifft 19 – Llinos

Cyf.: oce, cyfweliad Llinos, oce
Reit, so, yn y dosbarth, o'dd ti'n ffrindiau gyda Awel?
Llinos: ie, ni'n ca- yeah-
fel, ma' hi'n rhan o grŵp fi, ie

Yn hytrach, eu haelodaeth yn y gymuned chwaraeon tu hwnt i'r ystafell ddosbarth oedd yn golygu eu bod nhw yn yr un gymuned arfer. Dengys hyn wahaniaeth rhwng grwpiau o ffrindiau a cymuned arfer, nid yw pob unigolyn mewn cymuned arfer o reidrwydd yn ffrindiau agos, ond maent yn rhannu hunaniaeth neu ymarfer gymdeithasol, yn yr achos hwn, ar sail eu diddordebau (Moore 2004, tt. 9–10).

Roedd y ddwy felly yn rhan o gymuned arfer estynedig y Merched Chwaraeon, oedd yn mynd y tu hwnt i'r gwersi Cymraeg a BAC. Wedi fy nghyfnod arsylwi, nid oeddwn i wedi cydnabod y gymuned arfer hon ond roedd y rhan fwyaf o'r disgyblion wedi ei chynnwys yn eu taflenni gêm amlen. Roedd rhai wedi cynnwys Awel yn y gymuned arfer Merched Poblogaidd, ond nid oedd Awel nac unrhyw un o aelodau'r Merched Poblogaidd wedi ei chynnwys ynddo. Yn hytrach, derbyniodd y Merched Chwaraeon ac Awel sylwadau negyddol fel '*superior*', '*snitch*', '*snakes*', '*shady*' a '*snobby*' gan aelodau'r Merched Poblogaidd yn y gêm amlen. Mae'n debyg nad oeddwn i'n ymwybodol o hyn yn ystod y cyfnod arsylwi gan nad oeddwn i'n arsylwi ar wersi chwaraeon na thu allan i'r dosbarth. Dengys hyn bwysigrwydd y gêm amlen fel offeryn ymchwil wrth arsylwi mewn ystafell ddosbarth yn unig. Tu hwnt i'r Merched Poblogaidd, roedd sylwadau am y Merched Chwaraeon yn gadarnhaol.

4.3.5 Merched Normal

Y Merched Normal yw'r grŵp distawaf o'r merched. Daw'r enw o gemau amlen eu cyddisgyblion, gyda llawer yn cyfeirio at y gymuned arfer hwn fel 'Merched Normal'. Y prif ddatganiadau o'r gêm amlen oedd eu bod nhw'n 'dawel', 'aeddffed', 'smart', 'diniwed, ddim yn rhan o'r *banter*' ac eu bod nhw'n rhannu'r un diddordebau. Yn y gêm amlen, roedden nhw'n adnabod eu hunain fel y merched 'normal', ond roedd eraill yn eu hadnabod fel y merched 'distaw'. Mae llawer llai o wybodaeth yn cael ei ddatgelu am y Merched Normal nag am y cymunedau arfer eraill, yn nghanlyniadau'r gêm amlen. Mae'r aelodau yn nodi eu bod nhw'n 'debyg' ac 'yr un diddordebau' yn y gêm amlen. Mae'r Merched Normal yn llai dylanwadol mewn sefyllfaedd cymdeithasol o fewn y dosbarth na rhan fwyaf o'r cymunedau arfer eraill. Gellid honni bod eu swildod yn arwain at lai o wybodaeth amdanynt. Roedd hynny hefyd wedi fy nharo i, gan nad oeddent yn hoffi rhannu gormod gyda fi fel ymchwilydd.

Tabl 13. Gwybodaeth gefndirol am gymuned arfer y 'Merched Normal'.

ENW AELOD	HUNANIAETH GENEDLAETHOL	IAITH AELWYD	LLEOLIAD MALLC
ASHLEY	Cymreig a Phrydeinig	Di-Gymraeg	30–50% Isaf
ELEN	Cymreig	Cymraeg	50% Uchaf

Yn Tabl 13, nodir bod Elen yn dod o aelwyd Gymraeg mewn ward etholiadol sydd o fewn y 50% uchaf ar raddfa'r MALIC. Mae hi'n ystyried ei hun yn Gymreig, tra bod Ashley yn ystyried ei hun yn Gymreig a Phrydeinig. Er nad yw pob disgybl iaith aelwyd di-Gymraeg yn ystyried eu hunain yn o leiaf rhannol Brydeinig, mae disgyblion o aelwydydd di-Gymraeg yn fwy tebygol o ystyried eu hunain yn Brydeinig na disgyblion o aelwydydd Cymraeg. Mae 50% o ddisgyblion aelwydydd di-Gymraeg yn ystyried eu hunain yn Brydeinig neu rhannol Brydeinig, tra dim ond 20% o ddisgyblion aelwydydd Cymraeg sy'n nodi Prydeinig fel rhan o'u hunaniaeth genedlaethol. Mae'n bosibl bod y ffaith mai Saesneg yn aml yw iaith aelwydydd di-Gymraeg yn arwain at deimlad fwy Prydeinig. Neu, fel y nodir uchod yn 4.3.2, mae llawer o rieni disgyblion wedi eu magu yng ngwledydd eraill Prydain, neu'r tu hwnt.

Gellid tybio bod rhai disgyblion yn cydnabod y cysylltiad hynny gyda mannau geni neu mannau magu eu rhieni neu berthnasau trwy eu hunaniaeth genedlaethol.

4.3.6 Geeks

Enwyd y gymuned arfer hon yn 'Geeks' oherwydd bod llawer o'u cyd-disgyblion wedi cyfeirio atynt fel 'geeks' yn y gêm amlen. Disgrifir y Geeks fel 'pob amser yn gwneud gwaith cartref', 'diniwed' 'odd', 'distaw' 'doctor who' 'technoleg gwyb people'. Er hynny, nid oeddent yn amhoblogaidd gyda chymunedau arfer eraill. Roedd Simon yn benodol yn aelod poblogaidd o'r dosbarth, roedd yn ymddangos yn hoffus iawn a derbyniodd sylwadau cadarnhaol yng ngemau amlen ei gyd-ddisgyblion. Canfuwyd yn y gêm amlen fod aelodau o'r ddwy gymuned arfer fwyaf hyderus y Sbartheiniaid a'r Merched Poblogaidd a oedd fel arfer mor ddi-flewyn-ar-dafod, yn eu disgrifio fel 'tawel', 'gwahanol', 'unigryw' a 'rili smart'.

Tabl 14. Gwybodaeth gefndirol am gymuned arfer y 'Geeks'.

ENW AELOD	HUNANIAETH GENEDLAETHOL	IAITH AELWYD	LLEOLIAD MALLC
SIMON	Cymreig a Phrydeinig	Di-Gymraeg	50% Uchaf
GWEN	Prydeinig	Cymraeg	50% Uchaf

Roedd y Geeks o gefndiroedd mwy breintiedig na rhai o'u cyd-disgyblion fel y dengys eu lleoliad MALIC yn Tabl 14. Dengys Tabl 14 uchod fod hunaniaeth genedlaethol Brydeinig yn perthyn i'r Geeks. Gwen yw'r unig ddisgybl o aelwyd Gymraeg sydd wedi nodi ei hunaniaeth genedlaethol fel Prydeinig yn unig. Mae Gwen hefyd yn cyflwyno sylwadau negyddol ynglŷn â'i pherthynas â'r Gymraeg yn ei chyfweliad, yn benodol ynghylch cael ei gorfodi i siarad Cymraeg yn yr ysgol:

Enghraifft 20 – Gwen

Cyf.: so pa- pa wersi fyset ti ddim yn 'neud?

Gwen: um, Cymraeg

Cyf.: yeah, pam? Ti'm yn hoffi Cymraeg?

Gwen: mm, ma'n *dead*

Cyf.: {LG} ti'n meddwl?

Gwen: sori, sori, ie, um, well ma'r iaith ddim mor wael â 'na, ond fi just, oh fi ddim yn gw'bod pam ma' nhw'n trio fel pwyslei- ma' nhw'n fel *forceo* fe

Mae hyn yn crynhoi rhywbeth y nodwyd yn 4.2.4 ynglŷn â'r disgyblion yn digio pan yr oedd yr athro yn eu hatgoffa i siarad Cymraeg. Er hynny, sonia Gwen a Simon am ffrindiau yn eu cymuned arfer y maent yn siarad Cymraeg â nhw. Mae un o rieni Gwen o Gaerdydd a'r llall o Lundain, ac mae dau riant Simon o Gaerdydd.

O ran eu hunaniaethau Prydeinig, efallai y gall eu diddordebau a'u delwedd fel 'Geeks' hefyd fod yn rhan o'u hunaniaethau Prydeinig. Roedd Simon yn aelod o'r *Scouts* tra bod Gwen yn aelod o'r capel, ac oherwydd hynny roeddent yn treulio llawer o'u hamser tu allan i'r ysgol gyda ffrindiau nad oeddent yn mynychu YUGC. Roedd Simon hefyd yn mynychu'r clwb gwyddbwyll yn ystod amseroedd cinio, felly gellid dweud fod diddordebau'r Geeks yn cynrychioli diddordebau llawer llai cyffredin yn y dosbarth yn ogystal.

4.3.7 Merched Rhun

Y gymuned arfer hon yw'r gymuned arfer fwyaf hyblyg yn y dosbarth o safbwynt cymdeithasol. Roeddent yn debyg i '*in-betweens*' (Eckert 2000, t. 59; Moore 2003) ac i weld yn cyd-dynnu â phob aelod o'r dosbarth yn ystod y cyfnod arsylwi, ac fe'u harsylwais yn treulio eu hamser gyda chymunedau arfer eraill megis y 'Merched Normal'. Mae Rhun a Faith yn agos iawn, ac maent yn aml yn treulio eu hamser gyda Sadia a Camilla, a rhai aelodau o'r Merched Normal, ond maent hefyd yn ymwneud gyda'r cymunedau arfer eraill i gyd. Yn eu sylwadau o'r gêm amlen rhoddodd Rhun a Faith eu hunain mewn cymuned arfer gyda'i gilydd a Sadia, ond ychwanegwyd eu bod nhw yn 'hoffi mynd rownd grwpiau' ac eu bod nhw'n '*unproblematic* gyda grwpiau eraill'. Ceir sylwadau eraill o'r gêm amlen yn disgrifio Merched Rhun fel 'neis i siarad gyda', 'aeddfe'd', 'pobl *really* neis' a 'mynd i'r nefoedd'. Wrth arsylwi, dywedodd Faith wrtha i ei bod hi'n aml yn blino ar y ffraeo a'r

dadlau ymysg rhai disgyblion y dosbarth. Yn ei chyfweliad, cymhara Faith hen bobl a phobl ifanc:

Faith: ma' Nain fi'n byw rownd y cornel
so fi'n gallu just cerdded rownd y cornel i gweld Nain fi
um, ma lot o pobl hen
a fi'n eitha' hoffi hynna, oherwydd fi ddim yn hoffi'r ffaith bod pobl ifanc --
um, fi ddim yn, sai'n gw'bo' pam, ond ma' pobl ifanc *just yn kind of* poeni fi
weithiau

- - -

Cyf.: be- be' sy'n poeni ti amdanyn nhw?

Faith: fi ddim yn gw'bo' ma' nhw just yn -- ma rhai o'r pethau mae nhw'n 'neud, fi'n gweld
pethau mae nhw'n 'neud weithiau ar y stryd, mae nhw'n galw allan weithiau
uh, galw pethau um, yeah fi just 'di clywed pethau'n digwydd yn yr ardal
ond lle fi'n byw fi'n eitha' lwcus bod pobl eitha' hen o gwmpas, a fi just yn hoffi'r ffaith
bod-
a ma' nhw'n dweud storïau i fi a just, mae nhw'n po- just pobl *really, really* neis

Crynhua hyn agweddau Merched Rhun, roeddent yn hapus i fod yn ffrindiau gyda phawb ac yn osgoi ffraeo.

Roedd Sadia yn aelod arall o'r gymuned arfer hon. Dengys Tabl 15 isod bod Sadia o ardal MALIC isel, ac o gefndir Asiaidd. Roedd Sadia yn wahanol i Rhun a Faith oherwydd eu profiadau yn yr ysgol a thu hwnt. Tra bod Rhun a Faith yn hyderus ac yn hoffi treulio amser gyda chymunedau arfer eraill yn y dosbarth, roedd Sadia yn ddistawach ac yn fwy mewnblyg. Yn ei chyfweliad, rhannodd Sadia ei bod hi wedi profi pethau anodd fel ymosodiadau a hiliaeth yn ei chymuned:

Enghraifft 21 – Sadia

Sadia: um, lan i fel blwyddyn chwech o'dd pethau fel, o'dd pethau'n normal *really*, doedd dim
byd yn *really like* digwydd

um, ond fel, yn diweddar, mae fel, llawer o Caerdydd wedi fel mynd yn *really* hiliol

Cyf.: oce

Sadia: um, yn erbyn fel Mwslemiaid yn enwedig

fel, um, sai'n really siŵr, mae Dad fi ddim yn *really* hoffi Grangetown ddim mwy o'dd e di cael ei, fel, mae e wastad wedi bod yn byw yn Grangetown ond fel nawr, mae e ddim yn *really* fel, like, mae e ddim *really* yn saff.

- - -

Sadia: fel, yeah, dim just y, y hilaieth fel, ma' Dad fi just ddim yn meddwl bod Grangetown yn lle saff oherwydd fel yn, yn y hâf, fi'n credu o'dd rywun wedi ca'l ei lladd tu allan o tŷ fi
um, a just fel *generally*, o'n i 'di dod nôl o'r ysgol, -- na, o'n i 'di codi lan un diwrnod um, o' fi'n cerdded i'r bus stop, o' fi 'di edrych mewn i'r parc ble mae like, mae llawer o plant yn mynd yna ar ôl ysgol, a o'dd 'na fel *nazi signs* wedi cael eu *spray painto* o gwmpas, so

Yn ogystal, siaradodd Sadia'n onest yn ei chyfweliad am ei phrofiad o fod yr unig ferch Fwslemaidd mewn *hijab* yn yr ysgol:

Enghraifft 22 – Sadia

Cyf.: um, be' ti'n cofio am d'wrnod cynta' ti'n Ysgol Uwchradd Gymraeg Caerdydd?

Sadia: o'dd pawb yn fel *stareo* ar fi

Cyf.: really?

Sadia: yeah, oherwydd um, dyna'r diwrnod cyntaf o' fi'n gwisgo'r *hijab*

Cyf.: ah, oce

Sadia: a felly o' fi 'di cerdded mewn a o'dd pawb just yn edrych ar fi, oherwydd ma'r ysgol byth 'di ca'l rywun yn gwisgo un, felly o'dd e'n wahanol

Felly, er bod ei phersonoliaeth yn wahanol i bersonoliaethau Rhun a Faith, gellid honni bod hynny'n ddisgwyliedig oherwydd profiadau bywyd cyferbyniol iawn.

Penderfynwyd cynnwys Sadia yn yr un gymuned arfer oherwydd canlyniadau'r gêm amlen y trafodwyd uchod.⁷ Roedd Sadia yn treulio llawer o'u hamser rhydd yn yr ysgol gyda Rhun a Faith, ond tra bo Rhun a Faith yn hoffi mynd i'r dref yn eu hamser rhydd, roedd Sadia yn treulio llawer o'i hamser gyda'i theulu a gyda ffrindiau yn ei phentref.

Tabl 15. Gwybodaeth gefndirol am gymuned arfer y 'Merched Rhun'.

ENW AELOD	HUNANIAETH GENEDLAETHOL	IAITH AELWYD	LLEOLIAD MALLC
RHUN	Cymreig a Phrydeinig	Di-Gymraeg	30–50% Isaf
FAITH	Cymreig a Phrydeinig	Di-Gymraeg	50% Uchaf
SADIA	Cymreig	Di-Gymraeg	10% Isaf

Dengys Tabl 15 fod Rhun, Faith a Sadia i gyd yn dod o aelwydydd di-Gymraeg, er bod hanes o'r Gymraeg yn nheuluoedd Rhun a Sadia. Mae tad Sadia yn wreiddiol o'r Aifft ond wedi dysgu Cymraeg ac yn defnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd er nad ydynt yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd – yn hytrach maent yn siarad Saesneg ac Arabeg. Mae Rhun a Faith wedi nodi eu hunaniaeth genedlaethol fel Cymreig a Phrydeinig yn ogystal. Faith yw'r unig un o leoliad MALIC yn yr hanner uchaf, mae Rhun yn y 30–50% isaf, a Sadia yw'r unig ddisgybl sy'n byw mewn awdurdod sydd yn y 10% isaf yng Nghymru. Soniwyd uchod ynglŷn â phroblemau fel hiliaeth a thrais yn ardal Sadia.

4.3.8 Cassie

Roedd Cassie yn ymddangos fel 'goth' neu 'emo' o ran ei delwedd; ei cholur a'i gwisg, sy'n gysylltiedig â cherddoriaeth roc neu fetal. Soniodd Cassie yn helaeth ynglŷn â'i diddordeb mewn cerddoriaeth yn ei chyfweliad:

Enghraifft 23 – Cassie

Cyf.: wyt ti'n mynd i gigs?

- - -

⁷ Ni roddodd unrhyw un Camilla yn y gymuned arfer hon yn y gêm amlen.

Cassie: um, am *surprise*, mae Dad yn *plano* cym'yd fi i *Download Festival*

Cyf.: oh *nice*

Cassie: sy'n dod lan, so dwi'n *really excited* am hynna

Cyf.: so ydy dy dad yn hoffi fel, *metal*?

Cassie: um, yeah, o'dd, o'dd e 'di ca'l fi mewn i fe trwy, o'dd – dwi'n credu o'dd e'n *Linkin Park*.

Roedd Cassie hefyd yn ymddiddori mewn pynciau academaidd fel gwyddoniaeth a llenyddiaeth, ac roedd hi'n benderfynol iawn i lwyddo yn yr ysgol. Roedd yr agwedd hyn hefyd yn cael ei adlewyrchu yn ei defnydd iaith, gyda phwyslais ar gywirdeb a ffurfioldeb yn ôl Cassie:

Enghraifft 24 – Cassie

Cyf.: um, wyt ti'n meddwl bo' ti'n siarad uh, yn wahanol yn Gymraeg neu Saesneg yn dibynnu ar bwy ti'n siarad gyda?

Cassie: um

na, ddim *really*, dwi'n hoffi cadw e'n fel *straightforward*

um, dwi'n hoffi siarad yn fel pryd- uh, yn enwedig pryd dwi'n siarad Saesneg, fel sai'n siŵr, fel dwi'n hoffi siarad yn fel, ddim *literate* ond-

- - -

Cyf.: okay, pam bo' ti'n meddwl bo' ti'n siarad fel 'na?

Cassie: sai'n hoffi, fel

o'n i -- dwi eisiau siarad yn fel defnyddio geiriau fel, uh cywir, a fel *advanced* neu beth bynnag, *widened vocabulary*, um, {NS} pryd o'n i'n fach so mae just 'di fel sticko, a sai'n hoffi fel yr *image* o'r fel um, {NS} y *chavy people*, fel- ti just yn gweld {NS} nhw a mae ddim yn -- sai'n hoffi e, so sai eisiau bod fel hwnna, pobl gweld fi fel hwnna.

Enghraifft 25 – Cassie

Cyf.: oes gen ti hoff neu gas athro neu athrawes yn y- yn yr ysgol?

Cassie: Miss Abbingdon?

Cyf.: okay, be' ma' hi'n 'neud?

Cassie: mae'n dysgu uh, Saesneg, mae bach yn hena'* so mae'n *really* fel, *wise*, a mae'n gwybod be' mae'n siarad am

Cyf.: mm

Cassie: a ma' hi just mor fel, ma' hi just yn person gorau erioed, {NS} mae, oh, mae'n *really* fel, *apologetic*, a 'oh sori, na dwi ddim yn-' uh, chi'n gwybod, ma'i ddim yn meindio os chi 'di anghofio llyfr neu beth bynnag, mae hi just yn *really* dda, mae'n gwybod be' ma'i'n siarad, a ma'i'n really fel *literate*, dwi'n caru e.

Gall hyn gynnig rheswm dros ei hunaniaeth genedlaethol Gymreig a Phrydeinig. Roedd Cassie hefyd yn dod o leoliad MALIC isel iawn o gymharu â gweddill y dosbarth, ac wedi cael ei magu ar aelwyd ddi-Gymraeg fel y gwelir isod yn

Tabl 16.

Tabl 16. Gwybodaeth gefndirol am gymuned arfer 'Cassie'.

ENW AELOD	HUNANIAETH GENEDLAETHOL	IAITH AELWYD	LLEOLIAD MALLC
CASSIE	Cymreig a Phrydeinig	Di-Gymraeg	20–30%

Yng nghanlyniadau gêm amlen Cassie, nododd nad oedd hi mewn grŵp penodol yn y dosbarth, a bod eu ffrindiau hi mewn dosbarthiadau eraill ac eu bod nhw'n gwranddo ar yr un math o gerddoriaeth. Er hynny, soniodd hi mai Dafydd oedd ei ffrind agosaf yn y dosbarth, ac esboniodd ei bod nhw'n ffrindiau oherwydd cerddoriaeth. Derbyniwyd sylwadau fel 'hoffi aros gyda'i gilydd' a 'ddim yn cymysgu llawer' yn y gêm amlen. Er hynny, roedd Dafydd yn treulio mwy o'i amser yn yr ysgol a thu allan i'r ysgol o fewn cymuned arfer y Bechgyn Meme Chat, felly roedd y gymuned arfer hon yn fwy perthnasol iddo. Hefyd, roedd Cassie dod ymlaen gyda llawer o'r bechgyn fel ffrindiau, a nodwyd yng ngemau amlen cyd-ddisgyblion eu bod hi'n ffrindiau gyda Carwyn a Robbie yn ogystal. Felly, penderfynwyd gadael Cassie mewn cymuned arfer ar ei phen ei hun. Mae Nance (2013, tt. 91–92) yn wynebu problem debyg ac yn cynnwys cymuned arfer gydag un aelod yn unig.

4.3.9 Merched Cymraeg

Mae'r Merched Cymraeg yn gymuned arfer nad oeddwn i'n bwriadu ei chynnwys yn yr ymchwil yn wreiddiol. Eto, dim ond un aelod, Leia, a oedd yn rhan o'r cyfnod arsylwi, ac nid oedd Leia yn rhan o'r sampl cyfweld gwreiddiol. Gwahoddwyd Leia i gael cyfweliad wedi i aelod arall o'r dosbarth dynnu allan o'r ymchwil. Yn wreiddiol, sylwais bod Leia yn treulio amser gyda'r Merched Chwaraeon, ond nid oedd Leia yn rhannu'r un diddordeb mewn chwaraeon, felly penderfynwyd yn erbyn ei chynnwys yn y gymuned arfer honno. Wedi cyfweld â Leia, daeth yn amlwg bod Leia yn rhan o gymuned arfer a oedd yn ymestyn tu hwnt i'r sampl cyfweld.

Adwaenir y gymuned arfer fel y Merched Cymraeg oherwydd eu bod nhw i gyd o aelwydydd Cymraeg ac o fy mhrofiad i tra'n arsylwi, roeddent yn siarad Cymraeg gyda'i gilydd. Er na allaf ddweud yn sicr, cefais yr argraff mai'r Merched Cymraeg oedd yr unig gymuned arfer oedd yn siarad Cymraeg yn unig gyda phob aelod. Er fod YUGC yn ysgol Gymraeg, mae syniad yn bodoli ymysg rhai disgyblion bod y Gymraeg i'w chael er mwyn siarad gydag athrawon ac yn y wers, ond pan nad yw'r athro yn bresennol, siaredir Saesneg. Sonia Leia yn ei chyfweliad ynglŷn â'i phrofiadau o bobl yn eu gwawdio am siarad Cymraeg:

Enghraifft 26 – Leia

Cyf.: wyt ti'n meddwl bod grwpiau gwahanol yn siarad yn wahanol?

gallai fod yn Gymraeg neu Saesneg

Jeia: ie,

um, fi'n gw'bod bod {NS} ma grŵp fi, ma' rai pobl yn 'neud hwyl o ni bo' ni'n

siarad Cymraeg weithiau

Cyf.: okay

Jeia: achos ma' nhw'n meddwl bo' ni'n *really like, uncool*

Cyf.: mm

Jeia: ond o'n i fel arfer, 'oh, oes unrhyw un o gwmpas sy'n mynd i 'neud hwyl o fi am siarad

Cymraeg?' ond nawr fi ddim yn *like*, fi ddim yn *careo* dim amdano Cymraeg, i f-- fi yn

Gymraeg, Cymraeg yw iaith fi, fi'n mynd i siarad e, a fi mewn ysgol Cymraeg.

Oh, atgof o flwyddyn saith, o' fi'n cerdded nôl o'r ysgol efo ffrindiau fi, siarad Cymraeg, a

bachgen yma sy' nawr yn blwyddyn unarddeg yn dweud '*oh, why you speaking Welsh*

for?'

a 'nes i mynd adre' a 'nes i dweud wrth Dad fi 'o' fi just yn siarad Cymraeg, fel fi wedi bod ers o' fi'n *like* un'

ac oedd e'n gofyn '*why you speaking Welsh for, we're not in school anymore*'

ac o'n i'n *really like*, nid *upset*, ond o'n i'n *like*

Cyf.: o't ti'n meddwl o' ti -- *obviously*, pan ti'n blwyddyn saith ti- ti'm eisiau bod yn wahanol

Jeia: ie

ie

so wedyn 'nes i dechrau siarad Saesneg am *ages*, a nawr fi 'di sylwi mae'n *stupid*, fi'n -- fi ddim eisiau siarad Saesneg trwy'r amser

Mae'n debyg nad yw'r agwedd hon yn unigryw i YUGC. Er hynny – a sylwadau eraill yn yr is-adrannau uchod (Enghraifft 20 ac Enghraifft 15) – roedd clywed Cymraeg yn cael ei siarad gan ddisgyblion tu hwnt i'r ystafell ddosbarth yn gyffredin iawn yn YUGC

Tabl 17. Gwybodaeth gefndirol am gymuned arfer y ‘Merched Cymraeg’.

ENW AELOD	HUNANIAETH GENEDLAETHOL	IAITH AELWYD	LLEOLIAD MALLC
LEIA	Cymreig ac Asiaidd	Cymraeg	50% Uchaf

Roedd aelodau eraill o gymuned arfer y Merched Cymraeg mewn setiau uwch a dim ond yn y wers BAC yr oedd Leia wrth imi arsylwi. Roedd Leia hefyd yn treulio amser gyda’r Merched Chwaraeon, ond nid oedd Leia yn rhan o’r gymuned arfer honno a oedd wedi eu seilio ar eu diddordeb mewn chwaraeon. Yn ychwanegol, dengys fy nata demograffegol yn Tabl 17 fod Leia ymysg y 50% uchaf o ran ei lleoliad MALLC. Fel y nodwyd yn is-adran 4.3.2 dim ond Carwyn o gymuned arfer y Bechgyn Meme Chat oedd ymysg y 50% isaf. Roedd Leia hefyd o gefndir Asiaidd, ac adlewyrchid hynny yn ei hunaniaeth genedlaethol.

4.4 Clystyrau arfer

Yn dilyn cyflwyno’r cymunedau arfer, sylwyd bod cymunedau arfer y ‘Merched Chwaraeon’ (4.3.4) y ‘Merched Normal’ (4.3.5) y ‘Geeks’ (4.3.6) ‘Merched Rhun’ (4.3.7) ‘Cassie’ (4.3.8) a’r ‘Merched Cymraeg’ (4.3.9) oll yn cynnwys dau aelod neu lai. Gyda chyn lleied o aelodau, ni fyddai’n bosibl cynnal dadansoddiad ystadegol o gymuned arfer fel ffactor er mwyn ceisio canfod a oes amrywio ar sail y strwythurau arfer dan sylw. Ni fyddai unrhyw amrywio ieithyddol gan gymunedau arfer sy’n cynnwys un aelod (‘Cassie’ a’r ‘Merched Cymraeg’) yn wahanol i amrywio fesul siaradwr. Felly byddai hynny’n tanseilio diben mesur cymuned arfer fel ffactor cymdeithasol a newidyn annibynnol sy’n ceisio taflu goleuni dros amrywio rhwng strwythurau cymdeithasol. O ganlyniad felly, penderfynwyd creu ‘clystyrau arfer’ neu *constellations of practice* (Wenger 1998) gan uno parau o’r cymunedau arfer hyn gyda’i gilydd, er mwyn sicrhau lleiafswm o dri aelod fesul clwstwr arfer. Sicrhâi hyn brofion ystadegol dilys wrth fesur arwyddocâd strwythur cymdeithasol ar amrywio ieithyddol disgyblion YUGC.

Ffurfir y clystyrau arfer hefyd er mwyn cynrychioli rhwydweithiau ehangach disgyblion y dosbarthiadau yr oeddwn yn eu harsylwi, gan nad oedd disgyblion gyda'u cymunedau arfer ehangach ym mhob gwrs fel y dengys 4.3. Yn ôl Wenger (1998, t. 127):

a constellation is a particular way of seeing them as related, one that depends on the perspective one adopts. In the same way there are many different reasons that some communities of practice may be seen as forming a constellation.

Gellid ffurfio clwstwr arfer felly am nifer o wahanol resymau, gan gynnwys tebygrwydd rhwng cymunedau arfer, gorgyffyrddiad rhwng arddulliau neu ddisgwrs, a meddu ar aelodau cyffredin (Wenger 1998, t. 127). Roedd yn bwysig sicrhau nad uno cymunedau arfer ar hap a wnaethpwyd yma. Yn hytrach, ymdrechir i sefydlu'r clystyrau arfer fel a wneir wrth ffurfio'r cymunedau arfer, sef ar sail yr ymarfer cymdeithasol a'r hunaniaethau yr arsylwyd arnynt yn ystod y cyfnod arsylwi ethnograffegol, yn ogystal â sylwadau'r gêm amlen.

Fel y nodwyd yn 4.3.7 roedd natur gymdeithasol yn perthyn i Merched Rhun, ac roeddent yn aml yn ymddangos fel '*in-betweens*' yn treulio eu hamser gyda gwahanol gymunedau arfer. Nodwyd yn 4.3.7 yn benodol eu bod yn aml yn treulio eu hamser gyda'r Merched Normal, felly yn naturiol, gellir cyfuno'r ddwy gymuned arfer hon i greu clwstwr arfer 'Rhun_Normal' ar gyfer y dadansoddiadau ystadegol. Fel y nodwyd hefyd yn 4.3.9, roedd Leia yn treulio amser gyda'r Merched Chwaraeon, felly roedd hi'n synhwyrol ymuno'r ddwy gymuned arfer hynny i greu clwstwr arfer 'Chwaraeon_Cymraeg' ar gyfer y dadansoddiadau ystadegol. Roedd uno'r bedair gymuned arfer hyn i greu dau glwstwr arfer felly o ganlyniad i'r ffaith bod y cymunedau arfer yn cynnwys aelodau ag ymarfer cyffredin neu debyg (Wenger 1998, t. 127).

Felly, mae hynny'n gadael y cymunedau arfer 'Cassie' a'r 'Geeks' yn weddill, dau gymuned arfer nad oeddent yn treulio eu hamser gyda'i gilydd, ond fel y nodwyd yn 4.3.6 ac 4.3.8 roedd ganddynt agweddau o'u hunaniaethau yn gyffredin, sef bod y ddwy gymuned arfer yn ymdrechu'n galed yn yr ysgol, ac yn hoff o ddysgu, agwedd '*pro-school*' a geir ganddynt fel y cyfeiriwyd ato mewn ymchwil blaenorol ar gymunedau arfer (Nance 2013). O ganlyniad i'r agweddau neu ymarferion cyffredin hyn, gellir cyfuno'r cymunedau arfer hynny

i greu clwstwr arfer ‘Cassie_Geeks’ ar gyfer y dadansoddiadau ystadegol (Wenger 1998, t. 127). Gwelir holl gymunedau arfer y dosbarth a’u clystyrau arfer cyfatebol yn Tabl 18

Tabl 18 – Cymunedau a chlystyrau arfer y dosbarth

Cymunedau Arfer	Clystyrau Arfer
Y Sbartheiniaid	Y Sbartheiniaid
Bechgyn <i>Meme Chat</i>	Bechgyn <i>Meme Chat</i>
Merched Poblogaidd	Merched Poblogaidd
Merched Cymraeg	Cymraeg_Chwaraeon
Merched Chwaraeon	
Merched Rhun	Rhun_Normal
Merched Normal	
Cassie	Cassie_Geeks
Geeks	

4.5 Crynodeb

I gasglu, trafodwyd yn y bennod hon strwythurau cymdeithasol y dosbarth er mwyn taflu golau ar sut y maent yn dylanwadu ar batrymau amrywio ieithyddol disgyblion YUGC sy’n berthnasol i un o gwestiynau ymchwil yr astudiaeth a nodwyd yn 1.4. Mae’r rhwydweithiau cymdeithasol yn cael eu cynrychioli trwy gysyniadau’r cymunedau arfer a’r clystyrau arfer (Lave a Wenger 1991; Wenger 1998). Yn gyntaf yn 4.3 dadansoddwyd y cymunedau arfer a gafodd eu llunio, rhai ohonynt a oedd yn perthyn i gymunedau ehangach yn yr ysgol a oedd gwerth eu nodi oherwydd eu hymarfer cymdeithasol a’u hunaniaethau yn berthnasol i’w cyd-ddisgyblion. Yn 4.4 cyfunwyd rhai cymunedau arfer er mwyn ffurfio clystyrau arfer, sy’n fwy cynrychioliadol o rwydweithiau’r ystafell ddosbarth yr oeddwn i’n ei harsylwi, ac er mwyn hwyluso’r dadansoddiadau ystadegol. Bydd clwstwr arfer yn newidyn annibynnol yn nadansoddiadau penodau 5 a 6 ac yn fy ngalluogi i archwilio unrhyw amrywio ar sail gwahanol rwydweithiau cymdeithasol y disgyblion.

5 Amrywio ansoddol y llafariaid caeedig cefn /u(:)/ ac /ʊ/.

5.1 Cyflwyniad

Mae'r bennod hon yn edrych ar ansawdd y llafariaid caeedig cefn /u(:)/ ac /ʊ/ yn lleferydd Cymraeg disgyblion YUGC. Nod y bennod yw dadansoddi amrywio seingol yn ogystal â mesur effaith gwahanol ffactorau ieithyddol a chymdeithasol ar batrymau amrywio'r nodwedd hon yn YUGC. Y cwestiynau ymchwil dan sylw yn y bennod hon yw:

1. I ba raddau y ceir amrywio yn ansawdd y llafariaid caeedig cefn?
2. I ba raddau y mae ffactorau cymdeithasol ac ieithyddol yn effeithio ar ansawdd llafariaid caeedig?

Yn y bennod hon bydd y data'n cael ei ddadansoddi gyda dulliau acwstig o fewn fframwaith sosioieithyddol meintiol. Bydd y data'n cael ei ddadansoddi ar sail y ffactorau cymdeithasol ac ieithyddol a gyflwynir yn 5.5. Gwneir hyn er mwyn canfod data sy'n gymharol gydag ymchwil rhyngwladol ar amrywio ieithyddol a'r llafariaid caeedig cefn. Dylid pwysleisio mai dyma'r ymchwil cyntaf o'i fath ar Gymraeg Caerdydd.

Bydd y cwestiynau ymchwil uchod yn cael eu hystyried drwyddi draw, ac yn cael eu trafod yn y drafodaeth yn 5.10. Mae'r cwestiynau ymchwil yn mapio ar nodau ehangach y traethawd, ac yn cysylltu â chwestiynau ymchwil ehangach yr ymchwil hwn a cyflwynwyd ym mhennod 1. Mae'r nodwedd hon yn ymwneud â chyffyrddiad ieithyddol gyda Saesneg Caerdydd, gan ystyried fod blaenu'r llafariaid caeedig cefn yn gyffredin mewn Saesneg ar hyd a lled y byd. Er hynny, nid blaenu yn unig sydd o ddiddordeb i'r nodwedd hon, ac ystyrir pa mor agored a chaeedig yw ansawdd y llafariaid caeedig cefn hefyd.

Bydd y bennod hon yn cyflwyno data ar amrywio ansoddol llafariaid caeedig cefn disgyblion YUGC. Bydd goblygiadau unrhyw amrywio posibl yn ansawdd y llafariaid caeedig cefn gan ddisgyblion YUGC yn cael eu trafod ym mhennod 7, y drafodaeth. Bydd y drafodaeth yn taflu goleuni dros unrhyw amrywio sydd ar waith trwy ystyried cwestiynau

ymchwil ehangach yr ymchwil hwn, ac unrhyw brosesau damcaniaethol a all fod wrth wraidd amrywio yn YUGC.

Yn y bennod hon, ceir yn gyntaf adolygiad o lenyddiaeth y llafariaid caeedig cefn, ar y Saesneg ac yna'r Gymraeg. Yn dilyn hynny, edrychir ar y gwahanol ffactorau ieithyddol a chymdeithasol dan sylw mewn ymchwil blaenorol. Edrychir wedyn ar y fethodoleg a ddefnyddir ar gyfer dadansoddi'r llafariaid caeedig cefn, cyn cyflwyno'r canlyniadau. Yn olaf ceir trafodaeth o'r canlyniadau a chasgliad.

5.2 Cyflwyniad i'r llafariaid caeedig cefn

Ceir llawer o waith ar lafariaid caeedig cefn yn y Saesneg. Yn benodol, mae diddordeb ynglŷn â blaenu'r llafariaid caeedig cefn mewn astudiaethau ar y Saesneg. Yn unol â setiau llafariaid Wells (1984), gelwid y ffenomenau hyn yn blaenu-*FOOT* (/ʊ/) a blaenu-*GOOSE* (/u(:)/). Yn benodol, mae'r corff helaethach o waith yn perthyn i flaenu-*GOOSE* oherwydd ei hymddangosiad fel ffenomen uwchleol mewn amrywiadau Saesneg o amgylch y byd. Mae ymchwil Coupland (1988) a Mees a Collins (1999) wedi ymchwilio i ansawdd llafariaid caeedig cefn yn Saesneg Caerdydd. Ni cheir unrhyw sôn am flaenu-/ʊ/ yn yr ymchwil, ond sonnir bod /u:/ yn ganol (Coupland 1988, t. 26), felly wedi ei blaenu o'r safle gefn.

Yn y Gymraeg, nid yw blaenu llafariaid caeedig cefn wedi ei astudio'n fanwl. Mae gwahanol ymchwil wedi tynnu sylw at ansawdd llafariaid caeedig cefn y Gymraeg (e.e. Oftedal 1969; Jones 1984; Awbery 1984; Mayr a Davies 2011; Mayr et al. 2017; Iosad 2017). Er hynny, nid yw'r astudiaethau hyn wedi dadansoddi llafariaid caeedig cefn gan ddefnyddio dulliau Labovaidd a chan ystyried effaith ffactorau cymdeithasol ar amrywio.

Nesaf, ceir is-adran ar ymchwil blaenorol i ansawdd llafariaid caeedig cefn y Saesneg, cyn troi at ymchwil blaenorol i ansawdd llafariaid caeedig cefn y Gymraeg.

5.3 Ymchwil blaenorol i ansawdd llafariad caeedig cefn y Saesneg

Yn aml mae ymchwil yn edrych ar llafariad cyffredinol mewn ardal benodol ac yn cynnwys y llafariad caeedig cefn (Fought 1999; Altendorf 2003; Torgersen and Kerswill 2004; Kerswill and Williams 2005; Hawkins a Midgley 2005; Torgersen et al. 2006, Fabricius 2007) ond hefyd ceir astudiaethau yn edrych ar ansawdd neu flaenu mewn llafariad caeedig cefn (Harrington et al. 2008, 2011; Kleber et al. 2012; Jansen 2019). Mae llawer o waith diweddar yn canolbwyntio ar flaenu-*GOOSE* yn unig, oherwydd ei boblogrwydd fel ffenomen uwchleol (e.e. Holmes-Elliott 2015; Howley 2015). Nesaf, trafodir ymchwil blaenorol ar y llafariad Saesneg *GOOSE*, cyn troi at ymchwil blaenorol ar y llafariad Saesneg *FOOT*.

Yn yr is-adrannau nesaf, ac yng ngweddill y bennod hon, defnyddir *GOOSE* a *FOOT* wrth gyfeirio at ymchwil ar ansawdd llafariad caeedig cefn y Saesneg.

5.3.1 Ymchwil blaenorol i ansawdd y llafariad Saesneg *GOOSE*

Mae gwaith ar y llafariad gaeedig gefn hir Saesneg, *GOOSE*, yn edrych ar newid sy'n digwydd yn Saesneg lle mae'r ffonem yn cael ei chynhyrchu'n flaenach nag oedd yn gyffredin yn draddodiadol yn Saesneg. Er mai'r llafariad gaeedig gefn /u:/ yw *GOOSE* yn draddodiadol, mae Wells (1982, t. 148) hefyd yn nodi bod *GOOSE* yn 'rather central than back' mewn llawer o amrywiadau dinesig poblogaidd, ac mae cofnodion o seineg Saesneg o ddechrau'r ugeinfed ganrif yn nodi *GOOSE* flaen yn ogystal (Jones 1932). Dengys hyn fod blaenu-*GOOSE* felly'n newid sydd ar waith ers bron i ganrif ym Mhrydain.

Awgryma Labov (1994, t. 116) fod llafariad cefn yn dueddol o flaenu, ac yn fwy diweddar dywed Ferragne a Pellegrino (2010, t. 29) fod cynhyrchu llafariad *GOOSE* flaen yn dueddiad sy'n digwydd yn gynyddol. Fe astudiwyd blaenu-*GOOSE* y Saesneg yng Ngogledd America, (Labov 1994, 2001; Ash 1996; Fought 1999; Hall-Lew 2005, 2009; Labov, Ash a Boberg 2006; Baranowski 2008; Fridland 2008; Wong 2014), Awstralia (Cox 1999), Seland Newydd (Easton a Bauer 2000; Hay, Maclagan a Gordon 2008) yn ogystal â mewn amrywiadau Prydeinig, ym Manceinion (Hughes et al. 2011; Drummond 2013; Baranowski a

Turton 2015; Howley 2015; Baranowski 2017), Nottingham (Flynn 2012) De Lloegr (Williams a Kerswill 1999; Hawkins a Midgley 2005; Altendorf a Watt 2008; Holmes-Elliott 2015), Llundain (Altendorf a Watt 2008; Cheshire et al. 2011), *RP* (Hawkins a Midgley 2012) a'r Alban (Scobbie et al. 2012).

Mae presenoldeb /u:/-flaen felly yn ddangosydd o lefelu rhanbarthol, neu uwchleoleiddio (*supralocalisation*), sef 'loss of localised features in urban and rural varieties of English in Britain, to be replaced with features found over a wider region' (Kerswill 2003, t. 187) . Mae nodwedd uwchleol fel blaenu-*GOOSE* yn lledaenu naill ai trwy drylediad daearyddol, o ardaloedd dinesig tuag allan (Trudgill 1983), neu drwy lefelu, sef 'the reduction or attrition of marked variants' (Trudgill 1986, t. 98).

Mae ymchwil blaenorol yn dangos bod blaenu-*GOOSE* yn gyfnewidiad sy'n digwydd islaw lefel ymwybyddiaeth (Labov 1966, 2007, t. 346). Achosir newidiadau islaw lefel ymwybyddiaeth yn aml gan ffactorau ieithyddol yn fwy na ffactorau cymdeithasol (Hall-Lew 2011). Cychwynna'r newidiadau hyn mewn grwpiau cymdeithasol o gefndir sosioeconomaidd is, cyn symud i fyny'r hierarchaeth gymdeithasol ac ymsefydlu mewn grwpiau eraill (Labov 1966, t. 128). Tystiolaeth bellach ohono fel newid islaw lefel ymwybyddiaeth (*change from below*) yw'r ffaith nad yw'n derbyn sylwebaeth agored (*overt commentary*) yn gymdeithasol, ac nad yw'n ymddangos bod bri neu warthnod yn perthyn iddo (Fridland 2008).

5.3.2 Ymchwil blaenorol i ansawdd y llafariad Saesneg *FOOT*

Nesaf, trown at astudiaethau sy'n trafod llafariad *FOOT* y Saesneg. Mae'n bwysig cydnabod nad oes cymaint o ymchwil wedi'i gynnal ar flaenu-*FOOT* yn y Saesneg ag sydd wedi'i gynnal ar flaenu-*GOOSE*.

Hyd y gwyddys, nid yw *FOOT* yn blaenu yn amrywiadau gogledd Lloegr. Fel y canfu Ferragne a Pellegrino (2010, t. 29), nid yw *FOOT* yn blaenu yn Hull a dwyrain Swydd Efrog ac ymhellach, nid oes unrhyw awgrym bydd y llafariad yn blaenu yn y dyfodol. Ymhellach, gwelir hyn hefyd yn Newcastle a Chaerhirfryn yn yr un ymchwil (Ferragne a Pellegrino 2010).

Mae Jansen (2019) hefyd yn canfod nad yw *FOOT* yn blaenu yn Carlisle. Mae'n debyg nad yw llafariad *FOOT* yn blaenu yn yr amrywiadau hyn, gan nad oes cyferbyniad rhwng ynganiad *FOOT* a *STRUT* yng ngogledd Lloegr, ac o ganlyniad mae hynny'n rhwystro unrhyw flaenu posibl rhag digwydd (Ferragne a Pellegrino 2010; Jansen 2019, t. 23).

Mewn amrywiadau yn ne Lloegr, lle mae cyferbyniad rhwng *FOOT* a *STRUT*, mae *FOOT* yn fwy tueddol o flaenu. Dengys Ferragne a Pellegrino (2010) fod *FOOT* yn blaenu yn amrywiadau Saesneg Safonol De Lloegr ac yn East Anglia. Nodwyd bod *FOOT* yn blaenu mewn amrywiadau RP (Fabricius 2007) yn ogystal. Arsylwyd bod *FOOT* yn blaenu yn Ashord a Reading gan Torgersen a Kerswill (2004). Dywedir bod blaenu-*FOOT* yn Ashford yn rhan o shifft cadwyn ('*chain shift*') llafariad byrion yn ne-ddwyrain Lloegr fel y gwelwyd yn Trudgill (2004) yn ogystal. Yn Reading, dywed Torgersen a Kerswill (2004, t. 46) mai lefelu tafodieithol sy'n arwain at flaenu-*FOOT*, gyda siaradwyr yn ffafrio ffurfiau Llundainig oherwydd cyffyrddiad tafodieithol a thrylediad hir-dymor.

Trafoda Ferragne a Pellegrino (2010, t. 29) y ddwy lafariad gaeedig gefn, a'u perthynas â'i gilydd, trwy esbonio tair sefyllfa bosibl ar gyfer blaenu *GOOSE* a *FOOT*. Y gyntaf yw'r un lle nad yw naill lafariad na'r llall yn symud o'r safle cefn. Mae hyn yn cael ei ddangos yn y data yn Hull a dwyrain Swydd Efrog (Ferragne a Pellegrino 2010, t. 29). Yn ail, ceir sefyllfa lle mae *GOOSE* yn blaenu, ond nid yw *FOOT* yn gwneud hynny, ac mae hynny yn digwydd yn Burnley, Caerhirfryn a Newcastle yn nata Ferragne a Pellegrino (2010, tt. 18–29) a hefyd yn Carlisle (Jansen 2019, tt. 24–25). Y drydedd sefyllfa yw bod y ddwy lafariad *GOOSE* a *FOOT* yn blaenu. Ceir hyn yn amrywiadau Saesneg de Lloegr megis RP, Reading, a Llundain (Torgersen 2002; Torgersen a Kerswill 2004; Fabricius 2007; Ferragne a Pellegrino 2010) lle mae cyferbyniad rhwng *FOOT-STRUT*. Mae ymchwil blaenorol yn awgrymu bod hyn yn ddechreuad ar ryw fath o 'potential partial chain shift', lle mae *GOOSE* yn arwain y newid (Ferragne a Pellegrino 2010; Harrington et al. 2011)

5.4 Y llafariad caeedig cefn /u(:)/ ac /ʊ/ yng Nghymru

Diben yr is-adran hon yw cynnig darlun o sefyllfa'r llafariad caeedig cefn yn y Gymraeg yn gyntaf. Nid yw'r sefyllfa mor glir ar gyfer y llafariad caeedig cefn yn y Gymraeg ag ydyw yn y

Er hynny, yn aml nid yw'r darlun mor syml â hynny, a cheir amrywio tafodieithol, a gwahaniaethau rhwng y de a'r gogledd yn effeithio ar hyd llafariaid (Awbery 1984, tt. 70–81; Awbery 2009, tt. 361–362). Mewn geiriau unsillafog yn y de ceir llafariaid byr cyn ffrithiolion atalseiniau, a chlystyrau eraill a llafariaid hir cyn ochrolion di-lais. Yn y gogledd ceir llafariaid byrion cyn ochrolion di-lais a chlystyrau eraill a llafariaid hirion cyn ffrithiolyn ac atalseiniau.

Mewn sillafau acennog, ceir mwy o bosibiliadau. Yn Nghymraeg de Cymru, gellir cael llafariaid hirion neu rhai byrion mewn geiriau unsillafog, yn y sillaf olaf acennog ac yn y goben acennog. Ceir yr un patrwm yng Nghymraeg y gogledd ac eithrio yn y goben acennog, lle ni cheir llafariaid hirion yno dim ond llafariaid byrion. Addaswyd Tabl 20 a Tabl 21 o Awbery (1984, tt. 72–74).

Tabl 20 – Gwahaniaethau rhwng hyd llafariaid y gogledd a'r de mewn geiriau unsillafog, wedi'i addasu o Awbery (1984, t. 72)

CYD-DESTUN OLYNOL:	DE CYMRU		GOGLEDD CYMRU	
Ochrol yn di-lais	HIR		BYR	
Clwstwr o ffrithiolyn ac atalsain	BYR		HIR	
Clystyrau eraill	BYR		BYR	

Tabl 21 – Gwahaniaethau hyd llafariad rhwng y gogledd a'r de mewn gwahanol gyd-destunau sillafog, wedi'i addasu o Awbery (1984, t. 74)

CYD-DESTUN SILLAFOG	DE CYMRU		GOGLEDD CYMRU	
Unsillafog	HIR	BYR	HIR	BYR
Sillaf olaf acennog	HIR	BYR	HIR	BYR
Goben acennog	HIR	BYR		BYR

Felly, gwelir bod amrywiaeth tafodieithol yn effeithio ar hyd llafariaid yn y Gymraeg, gyda gwahaniaethau amlwg rhwng y de a'r gogledd. Felly o ran hyd, ymddengys llafariad [ɔ] mewn cyd-destunau byr yn unig.

5.4.2 Y llafariaid caeedig cefn yn y Gymraeg

Mae astudiaethau blaenorol ar ffonoleg y Gymraeg wedi diffinio llafariaid hirion a llafariaid byrion ar sail hyd llafariaid yn unig (e.e. Sweet 1884; Fynes-Clinton 1913; Jones 1984; Ball a Williams 2001; Hannahs 2013). Nodir bod gwahaniaeth rhwng llafariaid gogledd Cymru ar sail hyd yn unig, ac nid ansawdd (Jones 1984, t. 57; Ball a Williams 2001, tt. 36–39). I'r gwrthwyneb, yn ne Cymru, mae ymchwil blaenorol yn cyfleu gwahaniaeth mewn ansawdd yn ogystal â hyd llafariaid unsain (Jones 1984, t. 57; Awbery 1984, tt. 65–70).

Ceir amrywio rhwng gwahanol amrywiadau o fewn de Cymru hefyd. Dengys ymchwil blaenorol wahaniaeth rhwng systemau ffonolegol y de-ddwyrain a'r de-orllewin o ran ansawdd llafariaid hirion y goben acennog (Wmffre 2003; Iosad 2017; Rees 2018). Pan geir llafariad gaeedig yn y sillaf olaf ddiacen, e.e yn y gair 'tebyg'- [te:big] a geir yn ne-ddwyrain Cymru ond yn ne-orllewin Cymru ceir [tɛ:big]. Felly ceir ansawdd hanner caeedig yn amrywiad de-ddwyrain Cymru, ac ansawdd hanner agored yn amrywiad de-orllewin Cymru (Rees 2018, t. 163).

Ni cheir llawer o ymchwil ar llafariaid y Gymraeg gyda dulliau acwstig (e.e. Oftedal 1969; Ball 1984). Cynhaliwyd Mayr a Davies (2011) yr astudiaeth acwstig systemataidd gyntaf o systemau llafarog y gogledd-orllewin a'r de-orllewin ar sail recordiau o ddynion 18–21 oed yn y rhanbarthau hyn o Gymru. Darganfuont bod gwahaniaethau ansoddol rhwng /ɔ/ ac /u/, yn ogystal â pharau eraill o llafariaid, yng ngogledd Cymru yn ogystal ac yn ne Cymru. Ceir canfyddiadau gwahanol yma felly i'r ymchwil clybodol blaenorol a grybwyllwyd uchod, a honna mai gwahaniaeth mewn hyd yn unig ac nid ansawdd a geir rhwng llafariaid yng Ngogledd Cymru (Jones 1984; Ball a Williams 2001). O safbwynt patrymau amrywiadau newydd yn y de-ddwyrain felly, nid nodwedd ddeheuol o angenrheidrwydd yw gwahaniaethu ansawdd.

Defnyddiwyd setiau 'hŵd' a 'hwd' er mwyn cynrychioli'r ddwy llafariad gan Mayr a Davies (2011). Fel y disgwyliid, roedd cymedr F1 'hŵd' yn llai na chymedr F1 'hwd', felly mae ansawdd 'hŵd' yn fwy caeedig na 'hwd'. Roedd cymedr F2 'hŵd' hefyd yn llai na chymedr F2 'hwd'. Roedd ansawdd 'hŵd' felly yn fwy cefn, nag ansawdd 'hwd'. Golyga hynny felly nad

oes blaenu yn llafariad ‘hŵd’ ym Mayr a Davies (2011) a bod llafariad ‘hwd’ yn fwy blaen, fel y gwelir mewn diagram llafariad arferol. Nodir yn Mayr a Davies (2011, t. 9) hefyd bod gwahaniaethau rhwng fformantau llafariad caeedig cefn yn y de-orllewin a’r gogledd-orllewin. Cynhyrchir ansawdd sydd ychydig yn flaenach ac ychydig yn fwy caeedig yn ne Cymru o’u cymharu â’r gogledd ar gyfer set ‘hŵd’, ac ansawdd flaenach ar gyfer ‘hwd’ yn ne Cymru hefyd.

Dadansoddwyd gwahaniaethau rhwng parau o lafariaid hirion a byrion y Gymraeg yn ne-orllewin Cymru gan Iosad (2017). Yn debyg i Mayr a Davies (2011) mae Iosad (2017, t. 24) yn canfod gwahaniaeth ansoddol rhwng parau o lafariaid hir a byr, ac eithrio rhwng y pâr o lafariaid caeedig cefn, /u/ ac /ʊ/ yn Sir Benfro, lle nad oedd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng F1 /u/ ac /ʊ/. Golyga hyn nad oedd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng uchder y ddwy lafariad hyn, yn wahanol i’r llafariad eraill. Mae’r canfyddiadau hyn yn gyson â rhai dadansoddiadau ffonolegol clybodol sydd wedi cofnodi bod [u] yn amrywio ag [ʊ] fel llafariad fer mewn sawl cyd-destun mewn ardaloedd eraill, e.e. [krøn] a [krun] (Rees 2013).

Fel y nodwyd yn 5.2, nid oes llawer o enghreifftiau o astudiaethau sy’n archwilio ansawdd y llafariad caeedig cefn yn y Gymraeg. O’r astudiaethau acwstig sydd wedi eu hastudio, gwneud hynny fel rhan o ddadansoddiad systemataidd o lafariaid Cymraeg y maent, ac nid fel dadansoddiad o’r llafariad caeedig cefn yn benodol fel a geir yn yr ymchwil hwn. Mae’r amrywiadau Cymraeg dan sylw hefyd yn amrywiadau traddodiadol, ac nid amrywiad newydd fel sydd dan sylw yn yr ymchwil hwn. Nid yw’r astudiaethau eraill hyn chwaith yn ystyried dylanwad ffactorau ieithyddol a chymdeithasol ar ansawdd y llafariad caeedig cefn, nac yn gosod y data o fewn fframwaith Labovaidd. Nesaf, edrychir ar ymchwil blaenorol ar lafariaid caeedig cefn Saesneg Cymru.

5.4.3 Y llafariad caeedig cefn yn Saesneg Cymru

Yn Mayr et al. (2017) cyflwynwyd data ar siaradwyr dwyieithog yn Sir Gaerfyrddin, gyda’r diben o fesur effaith cyffyrddiad ieithyddol ac iaith yr aelwyd ar lafariaid unsain yng Nghymraeg a Saesneg y siaradwyr. Roedd y llafariad gaeedig gefn hir yn gefn yn y ddwy iaith, tra bo’r llafariad gaeedig gefn fer yn amrywio. Cafwyd llafariad gaeedig gefn byr flaen

yn y Saesneg ar gyfer *FOOT*, ond nid felly ar gyfer 'HWD' y Gymraeg (Mayr et al. 2017, t. 260). Felly mae'r ddwy lafariad gaeedig gefn gyfatebol yn y Saesneg a'r Gymraeg wedi dargyfeirio o'i gilydd, ac mae llafariad gaeedig gefn Saesneg Caerfyrddin yn efelychu patrwm cyffredin yn Saesneg de'r Deyrnas Gyfunol, lle ceir y ceir ansawdd *FOOT* sy'n blaenu.

Cofnodwyd llafariad *GOOSE* Saesneg Gogledd Cymru fel rhai cefn gan Ferragne a Pellegrino (2010, t. 21). Er hynny, trosolwg bras o fformantau Gogledd Cymru mewn cymhariaeth o dafodieithoedd gwahanol y Deyrnas Gyfunol a geir yma. Ni cheir dadansoddiad manwl o fformantau'r llafariad caeedig cefn na thrafodaeth benodol ar fformantau siaradwyr Saesneg Gogledd Cymru yn yr astudiaeth hon.

Mae astudiaethau hefyd wedi astudio Saesneg Caerdydd a'i llafariad (Mees 1977; Coupland 1988; Collins a Mees 1990; Mees a Collins 1999; Miura 2015). Yn gyntaf, o safbwynt llafariad /ʊ/, dywed Coupland (1988, t. 25) fod llafariad cefn byr fel arfer yn anghrynedig yng Nghaerdydd. Cyflewyd hyn gan Mees (1977) yn ogystal, a noda symbol /ʊ/ ar gyfer /ʊ/ RP. Felly gellid dweud ar sail hynny bod ansawdd /ʊ/ yng Nghaerdydd yn fwy cefn ac agored na mewn amrywiadau RP Saesneg.

O safbwynt ffonem /u:/ Saesneg Caerdydd, sonia Coupland (1998, t. 26) fod /u:/ Caerdydd yn 'noteworthy for their lack of diphthongization and centralization when realized phonetically'. Cafwyd disgrifiad tebyg gan Collins a Mees (1990, t. 94) a ddywed bod *GOOSE* hefyd yn fwy caeedig ac yn flaen o'r cefn. Yn Miura (2015) nodir bod 'slight GOOSE-fronting' yn Saesneg siaradwyr hŷn o Gaerdydd. Felly mae ymchwil a ddengys /u:/ wedi'i flaenu i safle ganol yn Saesneg Caerdydd. Yn ogystal disgrifiwyd ansawdd mwy caeedig ar gyfer /u:/, fel y nodir hefyd ar gyfer ffonem /ʊ/ uchod.

Mae'r ymchwil blaenorol hwn ar llafariad Caerdydd yn cynnig yr unig ddarlun felly o fformantau llafariad caeedig cefn Caerdydd. Er eu bod ar llafariad y Saesneg, mewn sefyllfa o gyffyrddiad ieithyddol, maent yn cynnig cyfeiriad defnyddiol i'r ymchwil hwn. Mewn ymchwil blaenorol ar ieithoedd lleiafrifol yng nghyd-destun adfywio ieithyddol, gwelwyd patrymau newydd o amrywio ieithyddol yn datblygu gan bobl ifanc sy'n wahanol i'r amrywiadau traddodiadol ac sy'n ymdebygu'n fwy â phatrymau o'r iaith fwyafrifol (King, et

al. 2009; Nance 2013, 2015) Nesaf, manylir ar wahanol ymchwil i lafariaid a'r ffactorau sydd yn eu heffeithio, gan ddechrau gyda ffactorau ieithyddol.

5.5 Ffactorau sy'n effeithio ar lafariaid caeedig cefn mewn ymchwil blaenorol

5.5.1 Ffactorau ieithyddol

Mae'r ffactorau ieithyddol a gyflwynir isod yn effeithio pa ffactorau sy'n effeithio ar flaenu llafariaid caeedig cefn y Saesneg *GOOSE* a *FOOT* mewn ymchwil blaenorol ar y Saesneg. Fel y nodwyd eisoes yn 5.3.2, mae corff ehangach o waith ar flaenu-*GOOSE* yn bodoli nag sydd ar gyfer blaenu-*FOOT*. O ganlyniad felly bydd cyfradd uwch o'r is-adran hon yn trafod astudiaethau ar flaenu-*GOOSE* na blaenu-*FOOT* y Saesneg. Bydd yr is-adrannau canlynol yn cychwyn trwy drafod unrhyw ymchwil sy'n trafod y ddwy lafariad gaeedig gefn, cyn manylu ar ymchwil i flaenu-*GOOSE* ac yna ymchwil i flaenu-*FOOT* lle bydd yn bosibl.

5.5.1.1 /l/ yn y coda

Dangosir ymchwil blaenorol fod /l/ yn y coda yn rhwystro blaenu llafariaid caeedig cefn (Kleber et al. 2012; Strycharczuk & Scobbie 2017). Yn gyffredinol, gellid disgwyl lleihad mewn F2 pan fydd /l/ yn y coda yn dilyn llafariad gaeedig gefn (Kleber et al. 2012, t. 390; Strycharczuk a Scobbie 2017, t. 328). Sylwir yn ogystal fod y gwahaniaeth rhwng cyd-destunau heb /l/ yn y coda a chyda /l/ yn y coda yn fwy ar gyfer *GOOSE* nag ydyw ar gyfer *FOOT*, ac felly gellid honni fod blaenu-*FOOT* yn broses fwy diweddar na blaenu-*GOOSE* (Hawkins & Midgley 2005; Kleber et al. 2012, t. 400; Strycharczuk a Scobbie 2017, t. 328).

Yn wreiddiol, ystyriwyd /l/ yn y coda fel y cyfyngiad ieithyddol cryfaf oll ar gyfer rhwystro blaenu-*GOOSE* (Hall-Lew 2005; Fridland 2008; Mesthrie 2010; Labov 2011). Roedd gwahaniaethu rhwng llafariaid *GOOSE* a *GHOUL* yn gyffredin iawn, ond nid yw mor gyffredin mewn astudiaethau mwy diweddar. Dengys astudiaethau cynharach fod /l/ yn y coda yn cyfyngu ar flaenu-*GOOSE* ym mhob cyd-destun (e.e. Ash 1996), ond yn ddiweddarach dengys astudiaethau eraill fod blaenu-*GOOSE* yn digwydd cyn /l/ yn y coda (e.e. Flynn 2012; Howley 2012; Baranowski a Turton 2015; Baranowski 2017). Mae'r newid hwn yn dangos y

gall pob cyd-destun alluogi blaenu-*GOOSE* yn y pen draw, ond mai /l/ yn y coda sy'n rhwystro newid i'r raddau helaethaf (Fridland 2008, t. 445).

Yn Saesneg Manceinion, mae llawer o ymchwil wedi ei wneud ar flaenu-*GOOSE*, ac mae'n un o'r unig ardaloedd yn y byd lle mae blaenu-*GOOSE* cyn /l/ yn y coda yn nodweddiadol o'r acen neu dafodiaith leol:

Not only is there advanced fronting of *GOOSE* before /l/ in Manchester [...] but also that, at least for some Mancunians, the fronting in this environment may be part of the stereotype of the local accent (Baranowski 2017, t. 314)

Mewn astudiaethau eraill ar Saesneg Manceinion dengys Baranowski a Turton (2015, t. 3) nad yw /l/ yn y coda yn rhwystro blaenu-*GOOSE*. Yn Howley (2015, t. 184) gwelir er fod fformantau cyn /l/ yn y coda ychydig yn is, nad oedd hyn yn ystadegol arwyddocaol. Mae Howley (2015, t. 192) hefyd yn arsylwi gwahaniaeth ar sail rhyw, gyda merched yn blaenu-*GOOSE* o flaen /l/ yn fwy na bechgyn.

Er hynny, ni fydd tocynnau /l/ yn y coda yn cael eu cynnwys fel rhan o'r dadansoddiad archwiliadol oherwydd diffyg tocynnau o flaen /u:/ yn y data. Nid yw /l/ yn y coda ar ôl /u:/ yn gyffredin iawn yn nata YUGC, heblaw wrth gyfnewid cod felly penderfynwyd hepgor y tocynnau o brif gorff y data, felly nid oes llawer o docynnau yn bodoli gyda /l/ yn y coda yn dilyn /u:/. Er hynny, ceir dadansoddiad neilltuol o docynnau /l/ yn y coda yn 5.7.2 cyn y dadansoddiadau archwiliadol. Yn gyffredinol, mewn ymchwil i flaenu-*GOOSE*, oherwydd effaith eithafol coda /l/, mae fel arfer yn cael ei hepgor o'r dadansoddiad terfynol (Holmes-Elliot 2015, t. 185) felly nid yw hyn yn wahanol i ddadansoddiadau ar y ffonem /u:/ gyfatebol Saesneg.

5.5.1.2 *Cyd-destun seinegol rhagflaenol*

Mae cyd-destun seinegol rhagflaenol yn ffactor ieithyddol sy'n effeithio ar flaenu llafariaid caeedig cefn. Yn ôl Jansen (2019, t. 11), 'the preceding environment as the strongest

predictor in this change seems to be a unifying factor across varieties of English' felly cyd-destun rhagflaenol yn gyson mewn ymchwil diweddar ar flaenu-*GOOSE* yn y Saesneg yw'r ffactor mwyaf arwyddocaol sy'n effeithio ar ansawdd *GOOSE* (Baranowski 2007; Hall-Lew 2009; Mesthrie 2010; Flynn 2012; Holmes-Elliott 2015; Howley 2015).

Mewn astudiaethau ar flaenu-*GOOSE* rhennir y cyd-destunau rhagflaenol hyn yn ddosbarthiadau cytseiniol gwahanol, ac mae gwahanol ymchwil wedi eu gwahanu mewn ffyrdd gwahanol. Mae rhai wedi cymharu cytseiniaid corunol yn erbyn cytseiniaid anghorunol (Hall-Lew 2005; Cheshire et al. 2011; Baranowski a Turton 2015; Baranowski 2017). Mae eraill wedi cymharu'r rheiny gyda thaflodolion hefyd (Fridland 2008; Mesthrie 2010; Flynn 2012), ac eraill wedi cymharu corunolion, anghorunolion, taflodolion a soniarusion yn ogystal (Holmes-Elliott 2015; Howley 2015). Felly, gellid cymharu rhwng gwahanol fathau o gytseiniaid.

Mae'r drefn cynhyrchiad gwerthoedd F2, sef y drefn sy'n adlewyrchu hierarchaeth, o'r uchaf i'r isaf, neu'r blaenaf i'r mwyaf cefn yn gyson rhwng gwahanol ymchwil. Mae *GOOSE* yn blaenu fwyaf ar ôl taflodolion > corunolion > anghorunolion > soniarusion (Holmes-Elliott 2015, t. 207; Howley 2015, t. 188). Yn ôl Fridland (2008, t. 442) 'this pattern is exceedingly regular in its progression across different speech communities'.

Yn dilyn taflodolion, yn benodol y taflodolyn /j/, mae'r gwerthoedd F2 uchaf (e.e. Mesthrie 2010; Jansen 2010, Nance 2013). Mae Holmes-Elliott (2015, t. 182) yn cynnig mai amledd cynhyrchu'r /j/ daflodol sy'n achosi hyn, 'as the preceding palatal environment occurs so frequently, the frontier articulation becomes the normal target'. Ceir canfyddiad tebyg yn Fridland & Bartlett (2006, t. 18) yn ogystal: 'the crowded back vowel space coupled with the high incidence of preceding palatals creates a phonological environment which induces fronting'.

Mae'n debyg fod blaenu-*GOOSE* wedi dechrau yn dilyn corunolion (Ohala 1981; Harrington, Kleber a Reubold 2008; Hall-Lew 2009; Baranowski 2017, t. 304), cyn lledaenu i gyd-destunau eraill. Er hynny, yn ôl Flemming (2003, t. 336), nid yw pob corunolyn yn medru cyflyru blaenu: 'coronals that condition fronting are produced with a front tongue body,

while coronals that condition retraction are produced with a back tongue body'. Eiliwyd y canfyddiadau hyn gan Hall-Lew (2009) yn ogystal.

Yn y rhan fwyaf o amrywiadau Saesneg, mae llai o flaenu ar ôl cytseiniaid anghorunol. Er hynny, sonnir yn Baranowski (2017, t. 304) nad oes gwahaniaeth rhwng corunolion ac anghorunolion yn sgwrs pobl ifanc ym Manceinion bellach: 'both kinds of tokens are equally fronted, occupying high front position with an average expected F2 of around 2200 Hz'. Ar y llaw arall, ceir gwahaniaeth ymysg siaradwyr hŷn sy'n blaenu llai cyn anghorunolion na chyn corunolion (Baranowski 2017, t. 306).

O safbwynt y soniarusion, mae llawer o astudiaethau yn penderfynu hepgor /l/ ac /r/ yn benodol oherwydd effeithiau cydynganiadol (*coarticulatory*) (Watson, et al. 2000; Hall-Lew 2009; Mesthrie 2010; Nance 2013; Howley 2015). Yn ychwanegol, mae /w/ hefyd yn cael ei hepgor mewn astudiaethau eraill am yr un rheswm (Watson, Maclagan a Harrington 2000; Nance 2013; Howley 2015). Mae'r soniarusion yn debygol o leihau mesuriadau F2 *GOOSE*.

Wrth i flaenu-*GOOSE* ddatblygu mewn ardal benodol dros amser, mae effeithiau'r amgylchiadau seinegol rhagflaenol yn lleihau, yn debyg i'r hyn y nodwyd yn 5.5.1.1 am effaith coda /l/. Crynhowyd hyn gan Holmes-Elliot (2015, tt. 185–186): 'If *GOOSE*-fronting is new, preceding phonetic environment is strong, but as fronting spreads, the effects of preceding phonetic environment weakens'. Gwelir hyn yn Harrington et al.. (2008, t. 2830) lle mae'r siaradwyr ifanc yn blaenu-*GOOSE* ym mhob amgylchedd seinegol rhagflaenol, ond mae'r siaradwyr hŷn yn profi /u:/ mwy ôl cyn corunolion mewn geiriau fel '*who'd*' a '*food*'. Felly, wrth i'r bobl ifanc flaenu-*GOOSE* nid yw'r un rhwystrau ieithyddol yn bodoli o'u cymharu â'r genhedlaeth hŷn, ac nid oes effaith ynghlwm ag amgylchiadau seinegol rhagflaenol bellach.

Gwelir patrwm tebyg ar gyfer llafariad *FOOT* yn Ne Lloegr yn Kleber et al. (2012, t. 392) lle mae'r gwahaniaethau rhwng gwahanol cyd-destunau rhagflaenol yn llai ymysg y bobl ifanc o'i gymharu â'r bobl hŷn yn yr ymchwil. Mae'n debyg felly bod effaith cydynganiadol (*coarticulatory*) felly yn llai ar gyfer pobl ifanc na phobl hŷn. Mae Jansen (2019) yn defnyddio cyd-destunau seinegol rhagflaenol sy'n gymharol gyda gwaith ar

GOOSE. Yng nghanlyniadau Jansen (2019, tt. 15–16) nodir mai corunolion sy'n cynhyrchu'r fformantau blaenaf ar gyfer *FOOT* o flaen cyd-destunau eraill.

5.5.1.3 *Cyd-destun seinegol olynol*

Ar ôl hepgor coda /l/ o'r dadansoddiadau fel y nodwyd yn 5.5.1.1, gall cyd-destunau seinegol olynol eraill effeithio ar lafariad caeedig cefn. Yn yr un modd â chyd-destun seinegol rhagflaenol (**Gwall! Ffynhonnell y cyfeirnod heb ei ganfod.**), mae hierarchaethau cyson wrth drafod effaith cyd-destun seinegol olynol ar *GOOSE* hefyd. Yn Fridland (2008) a Flynn (2012) ceir trefn hierarchol blaenu-*GOOSE* fwyaf cyn, cytseiniaid > seibiau > llafariad. Yn Holmes-Elliott (2015) a Howley (2015) ceir trefn blaenu-*GOOSE* hierarchol cyn cytseiniaid > seibiau > soniarusion. Sonnir nad yw'n ystadegol arwyddocaol yn y rhan fwyaf o ymchwil (Mesthrie 2010, t. 10; Howley 2015 tt. 188–189).

Er nad yw'r mwyafrif o ymchwil yn canfod amgylchedd seinegol olynol yn arwyddocaol, mae Holmes-Elliott (2015, t. 211) yn nodi, 'following phonetic environment does condition the variable patterning of this change'. Yn ychwanegol, dengys Holmes-Elliott (2015) fod effaith amgylchedd seinegol canlynol wedi gwanhau dros amser fel y nodwyd ar gyfer y ffactorau ieithyddol eraill uchod yn 5.5.1.1 a **Gwall! Ffynhonnell y cyfeirnod heb ei ganfod.** Felly er bod cyflyru seinegol canlynol yn ystadegol arwyddocaol, lleihawyd yr effaith mewn grwpiau oedran iau. O ganlyniad, mae'n bosibl i flaenu-*GOOSE* gollir'r ffactorau seinegol hyn, a datblygu rhai newydd (McMahon 1994, gw. Holmes-Elliott 2015, t. 212)

Mewn astudiaethau ar y llafariad *FOOT* Saesneg ni cheir llawer o ymchwil yn ystyried cyd-destun seinegol olynol. Yn Jansen (2019, t. 8) codiwyd ar gyfer cytseiniaid, soniarusion, a seibiau ar gyfer y llafariad *GOOSE* a *GOAT*, ond dim ond cytseiniaid a gâi eu cynhyrchu ar gyfer *FOOT* gan nad oedd digon o enghreifftiau o soniarusiaid na seibiau mewn cyd-destunau olynol. Yn Kleber et al. (2012) mae pedair set o lafariad sy'n cynrychioli cyd-destunau olynol a rhagflaenol fel y nodwyd uchod **Gwall! Ffynhonnell y cyfeirnod heb ei ganfod.** Cytseiniaid gwahanol yw'r cyd-destunau olynol yn dilyn trefn blaenu /t/ > /d/ > /k/ > /l/ ar gyfer siaradwyr ifanc a hen (Kleber et al. 2012, t. 390).

5.5.2 Ffactorau cymdeithasol

Trafodir isod wahanol ffactorau cymdeithasol sy'n dylanwadu ar flaenu llafariaid caeedig cefn. Yn yr un modd ag yn 5.5.1, bydd cyflwyniad ar y ffactor cymdeithasol dan sylw a'r llafariaid caeedig cefn yn gyffredinol, cyn manylu ar ymchwil i *GOOSE* yn gyntaf, a *FOOT* yn ail.

5.5.2.1 Oed

Yn gyffredinol, mewn astudiaethau ar flaenu llafariaid caeedig cefn mae blaenu yn cynyddu ac yn cysoni yn iaith siaradwyr iau (e.e. Hawkins a Midgley 2005; Cheshire et al. 2011; Kleber et al. 2012; Flynn 2012; Holmes-Elliott 2015; Jansen 2019), felly mae pobl ifanc yn cynhyrchu llafariaid caeedig cefn blaenach na phobl hŷn. Yn ogystal, mae'r ffactorau ieithyddol a all rwystro neu gyflyrru blaenu llafariaid caeedig cefn (gw. is-adran 5.5.1) yn lleihau o fewn pobl ifanc (Kleber et al. 2012; Harrington et al. 2008). Dengys hyn newid deiacronig mewn amser ymddangosiadol, a gall y newid hwn fod ar waith neu wedi ei gwblhau. Nid yw'r ymchwil hwn yn ceisio dangos newid yn ansawdd y llafariaid caeedig cefn.

Felly, mewn ymchwil i flaenu-*GOOSE* mae llawer o astudiaethau wedi cymharu gwahanol grwpiau oedrannau ac yn arsylwi bod siaradwyr iau yn blaenu-*GOOSE* yn fwy na phobl hŷn a chanol oed (Holmes-Elliott 2015, t. 205; Hawkins & Midgley 2005, t. 192; Jansen 2019, t. 10). Ceir hefyd astudiaethau eraill fel Howley (2015) yn cymharu plant a phobl ifanc o wahanol oedrannau. Mewn astudiaethau o'r math hwn, mae cysyniad 'adolescent peak' (Labov 2001) yn cael ei adlewyrchu, gan fod plant iau yn blaenu llai na phlant hŷn.

Yn yr un modd, mae'n gyffredin i siaradwyr ifanc flaenu-*FOOT* yn fwy na phobl hŷn (Hawkins & Midgley 2005 t. 192; Kleber et al. 2012, t. 392). Ymhellach, mae'r gwahaniaethau rhwng y gwahanol setiau llafarog y soniwyd amdanynt yn 5.5.1.3 yn lleihau yn iaith pobl ifanc o'u cymharu â phobl hŷn (Kleber et al. 2012). Er hynny, ceir enghreifftiau megis Jansen (2019, t. 15) lle nad yw oed yn ffactor sy'n ystadegol arwyddocaol wrth drafod blaenu-*FOOT*.

5.5.2.2 *Rhywedd*

Nid oes patrymu cadarn y naill ffordd na'r llall ar gyfer effaith rhywedd fel ffactor yn effeithio ar flaenu llafariaid caeedig cefn. Dadleuir mewn rhai astudiaethau mai merched sy'n arwain blaenu-*GOOSE* (e.e. Kerswill 2005; Flynn 2012). Yn Flynn (2012, t. 26) a Kerswill (2005, t. 1034) mae merched ifanc yn arwain y newid tuag at flaenu-*GOOSE*, felly ceir enghraifft o oed yn rhyngweithio â rhywedd. Ymhellach, yn ôl Labov (2001, t. 292) mae merched yn fwy tueddol o arwain newid islaw lefel ymwybyddiaeth fel blaenu-*GOOSE* na bechgyn.

Er hynny, mae rhai astudiaethau yn canfod nad yw egwyddor Labov (2001) heb eithriadau, ac sy'n arddangos bechgyn fel arweinwyr blaenu-*GOOSE* (e.e. Baranowski 2017). Yn Baranowski (2017, t. 316) mae dynion yn blaenu-*GOOSE* yn fwy helaeth na merched cyn /l/. Felly mae merched yn ymdebygu i haenau sosioeconomaidd uwch fel yn Labov (2001; 2006) a Trudgill (1974) lle ceir ddefnydd uwch o ffurfiau safonol gan ferched.

Ar gyfer ymchwil i flaenu-*FOOT* nid yw Jansen (2019, t. 20) yn cynnwys rhywedd fel effaith sy'n ystadegol arwyddocaol ar gyfer dadansoddiad effeithiau cymysg *FOOT*. Dengys Kleber et al. (2012, t. 392) bod merched yn cynhyrchu *FOOT* blaenach na'r bechgyn, a hynny ar gyfer y grwpiau hŷn ac iau. Fel y nodwyd ar gyfer Flynn (2012) a Kerswill (2005) ar gyfer *GOOSE*, mae merched ifanc yn arwain trwy flaenu-*FOOT* hefyd yn Kleber et al. (2012).

5.5.2.3 *Rhwydweithiau, cymunedau a chlystyrau arfer, a chefnidir sosioeconomaidd*

Ymchwiliodd Fought (1999) i flaenu llafariaid caeedig cefn yn Saesneg merched a bechgyn mewn ysgol uwchradd yn California. Yno, roedd merched yn fwy tebygol o flaenu-/u/ os oeddent yn perthyn i gang, ond roedd y bechgyn yn fwy tebygol o flaenu-/u/ os nad oeddent yn perthyn i gang (Fought 1999, t. 17). Felly, gwelir rhywedd yn rhyngweithio gydag aelodaeth o gang.

Archwiliodd Mesthrie (2010) flaenu-*GOOSE* mewn gwahanol garfanau ethnig siaradwyr Saesneg iaith gyntaf yn Ne Affrica. Roedd llafariad *GOOSE* flaen yn nodweddiadol

o siaradwyr gwyn, ond dengys Mesthrie (2010, t. 28) ei bod yn gyffredin ymysg pob ethnigrwydd yn yr ymchwil ymysg siaradwyr dosbarth canol. Yn Howley (2015) cymharwyd y gwahaniaeth rhwng pobl ifanc Roma gyda rhwydweithiau o ffrindiau agored a chaeedig a'u tueddiadau i flaenu-*GOOSE*. Defnyddiwyd pobl ifanc enedigol o Fanceinion fel llinyn mesur ar gyfer blaenu-*GOOSE*. Yn ôl Howley (2015, t. 189) roedd y bobl ifanc Roma gyda rhwydweithiau agored yn blaenu-*GOOSE* fel pobl ifanc a oedd yn enedigol o Fanceinion.


Dengys Jansen (2019, t. 12) fod cysylltiad rhwng statws sosioeconomaidd ar gyfer blaenu-*GOOSE* yn Carlisle, gyda siaradwr dosbarth canol yn cynhyrchu *GOOSE* flaenach na siaradwyr dosbarth gweithiol. Ni chanfuwyd cysylltiad rhwng statws sosioeconomaidd mewn astudiaethau amlwg eraill ar *GOOSE* (e.e. Flynn 2012; Holmes-Elliott 2015). Ymhellach, dengys Jansen (2019, t. 14) fod statws sosioeconomaidd yn arwyddocaol wrth ystyried blaenu-*FOOT* hefyd, gyda siaradwyr dosbarth canol yn cynhyrchu *FOOT* flaenach na siaradwyr dosbarth gweithiol.

5.6 Methodoleg


Nesaf, troir at y fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer ymdrin â'r data a gasglwyd, yn ogystal â sut yr euthum ati i ddadansoddi y canlyniadau dan sylw.

5.6.1 Codio'r data

Trawsgrifiwyd data'r cyfweiliadau sosioieithyddol trwy feddalwedd ELAN (Sloetjes a Wittenburg, 2008). Yn gyntaf, er mwyn trawsgrifio, gwrandawyd ar y cyfweiliadau a chreu segmentiau i'r siaradwr a'r cyfwelydd, gan greu segment newydd bob tro yr oedd saib naturiol yn y sgwrs. Fe godiwyd pob llafariad gaeedig gefn trwy ychwanegu rhesi ar y trawsgrifiad yn ELAN, a chynnwys y ffonem a'r tocyn perthnasol. Gwnaethpwyd hyn yn glywedol â llaw er mwyn profi bod y ffonemau yn gywir ar sail hyn oedd wedi ei drawsgrifio. Wedi allforio'r trawsgrifiadau â'r tocynnau a ffonemau perthnasol i PRAAT (Boersma a Weenink 2014), roedd angen golygu pob trawsgrifiad unigol er mwyn paru pob sain gyda'r ffonem a'r tocyn perthnasol. Gan ddefnyddio PRAAT cafodd y llafariaid eu neilltuo rhag segmentau eraill ar ddechrau a diwedd brig y donffurf berthnasol.



Ffigur 3 – Ciplun o grid-destun PRAAT cyfweiliad disgybl YUGC



Ffigur 4 Ciplun o grid-destun PRAAT cyfweiliad disgybl YUGC

Gwelir yn Ffigur 3 a Ffigur 4 gipluniau o textgrid PRAAT o gyfweiliad disgybl YUGC. Dengys y rhifau 1, 2 a 3, y rhesi y soniwyd amdanynt uchod. Mae rhes 1 yn cynnwys segmentau o gyfweiliad wedi eu rhannu ym mhob saib naturiol. Yn rhes 2 ceir y tocyn dan sylw, 'nhw' yn yr achos hwn, ac mae ffiniau'r tocyn yn cynrychioli pryd y cynhyrchwyd y tocyn gan y siaradwr. Yn rhes 3, yn yr un modd mae'r ffiniau'n cynrychioli pryd y cynhyrchwyd sain /u(:)/ gan y disgybl. Defnyddiwyd symbol 'u' ar gyfer dynodi llafariad /u(:)/ ac 'ʊ' ar gyfer dynodi llafariad /ʊ/ yn y drydedd rhes.

5.6.2 Capiu tocynnau

Yn dilyn codio capiwyd y tocynnau. Yn gyntaf, hepgorwyd unrhyw lafariaid nad oedd yn glir i'r glust yn y Textgrid PRAAT. Y prif reswm tu ôl capio tocynnau oedd gan fod y data'n anghybwys oherwydd bod rhai geiriau'n fwy cyffredin nag eraill. O ganlyniad, penderfynwyd gosod uchafswm o ddeng tocyn i bob gair fesul siaradwr. Gwnaethpwyd hyn gan eraill megis Holmes-Elliott (2015, t. 195). Golyga hyn nad oedd nifer eithafol o docynnau ar gyfer rhai geiriau, a petai tocynnau mwy cyffredin yn cynhyrchu F2 uwch na thocynnau llai cyffredin, byddai cymedrau F2 y siaradwyr yn uwch na'r gwir gynhyrchiant F2 cymedrol. Mewn geiriau eraill, ceir cynrychioliad gwell o amrywio'r siaradwyr (Wolfram 1993, t. 214).

Er enghraifft, yn aml roedd siaradwyr yn cynhyrchu nifer sylweddol o docynnau ar gyfer y tocynnau mwyaf cyffredin megis 'nhw'. Oherwydd amllder tocynnau o'r fath, cafodd bob yn dri thocyn eu cofnodi, hyd nes cyrraedd y cyfanswm o ddeng tocyn ar gyfer pob gair. Gwnaethpwyd hyn er mwyn osgoi data anghybwys fel hyn. Ar gyfer fersiynau o'r un gair wedi'u treiglo a heb eu treiglo, ystyriwn y ddau fel yr un gair. Er enghraifft, gan ei bod hi'n anarferol i'r disgyblion yn YUGC gynhyrchu 'rhywbeth' gydag /r/ di-lais, roedd uchafswm o ddeng tocyn ar gyfer 'rywbeth' a 'rhywbeth' fesul siaradwr felly.

Wedi hepgor y tocynnau nad oeddent yn glir, a'r tocynnau dros yr uchafswm o ddeg, roedd $n=1221$ o docynnau ar gyfer y ffonem /u(:)/ a $n=1044$ o docynnau ar gyfer y ffonem /ʊ/. Felly, mae cyfanswm o $n=2265$ o docynnau ar gyfer y dadansoddiad o lafariaid cefn uchel disgyblion YUGC.

5.6.3 Dadansoddiad acwstig

Cynhaliwyd dadansoddiad acwstig o'r nodwedd hon. Dadansoddwyd y tocynnau ar PRAAT (Boersma a Weenink 2008) gyda sgript (Stanley 2017). Rhedwyd y sgript er mwyn canfod fformantau pob siaradwr yn unigol. Mae'r sgript (Stanley 2017) yn allforio F1, F2 ac F3 pob tocyn o'r trawsgrifiad yng nghanol amserol pob ffonem. Penderfynwyd mesur y fformantau yng nghanol y ffonemau gan mai dyma lle ceir y mesur mwyaf sefydlog ar gyfer fformant, yn osgoi effeithiau cydynganiadol (Lindblom 1963). Ymhellach, mae'r dull hwn yn gyffredin mewn ymchwil i lafarïad caeedig cefn (e.e. Fought 1999; Kleber et al. 2012). Allforiwyd y fformantau o PRAAT i ffeil .csv.

Yn dilyn allforio'r fformantau, gwiriwyd y fformantau ar y daenlen er mwyn canfod bod y sgript wedi allforio'r fformantau'n gywir. Gwiriwyd fformantau ar hap ym mhob cyfweiliad yn gyntaf. Wedi hynny, penderfynwyd bod angen gwirio unrhyw fformant a oedd yn disgyn o dan y mesuriadau arferol ar gyfer F1 ac F2. Petai'r F1 yn llai na 200Hz ac yn fwy na 600Hz gwiriwyd y fformant yn y textgrid ar PRAAT. Yn yr un modd, petai'r F2 yn llai na 1000Hz neu fwy na 2200Hz gwiriwyd y fformant yn y textgrid ar PRAAT. Wedi gwirio'r spectogramau, llwyddodd y sgript i gofnodi mesuriadau cywir gan fwyaf, ac felly gadawyd y fformantau hyn fel yr oeddent ar y daenlen. Fodd bynnag, ar adegau roedd y fformant yn anghywir, ac yn yr achosion hynny, fe gymerwyd y mesuriadau â llaw a'u haddasu ar y daenlen.

5.6.4 Normaleiddio

Penderfynwyd normaleiddio fformantau data acwstig cyn cynnal dadansoddiad o'r data. Gwneir hyn er mwyn gwaredu unrhyw wahaniaethau biolegol rhwng merched a bechgyn. O ganlyniad mae unrhyw wahaniaeth oherwydd amrywio sosioseinegol rhwng unigolion, yn hytrach nag unrhyw resymau biolegol neu anatomegol. Er enghraifft, dywed Labov (2001, tt. 157–158) y dylai unrhyw wahaniaethau ar sail rhywedd fod oherwydd patrymau sosioieithyddol yn hytrach nag oherwydd bod gan fechgyn, gan amlaf, lwybr llais mwy na merched.

Cafodd y normaleiddio ei gwblhau drwy'r NORM suite ar-lein (Thomas & Kendall 2007) a defnyddir dull Watt a Fabricius (2002), sef dull o normaleiddio fformantau lle mae'r llafariaid yn cael eu cyfrifo yn berthnasol i fformantau llafariaid eraill ('*vowel extrinsic*'). O ganlyniad, codiwyd deg tocyn o lafariaid /i:/, /o:/ /a:/ i gyd-fynd ag uchafswm deng tocyn adran 5.6.2. Canfuwyd cymedr yr F1 a'r F2 wedi'u normaleiddio ar sail y llafariaid hyn. Normaleiddiwyd data pob disgybl yn unigol. Nesaf, byddwn yn esbonio sut caiff y data ei ddadansoddi a'i gyflwyno.

5.6.5 Setiau llafarog

Penderfynwyd creu setiau llafarog ar gyfer disgrifio cyd-destunau ffonolegol posibl ar gyfer y ddwy lafariad gaeedig gefn dan sylw /u(:)/ ac /ʊ/. Mae'r setiau llafarog yn disgrifio pa ffonem sy'n perthyn i'r gair, beth yw'r cyd-destun ffonolegol, y cyd-destun sillafog, a oes pwyslais ar y llafariad, ac a yw'r sillaf yn agored neu'n gaeedig. Y cymhelliant ar gyfer creu'r setiau hyn oedd er mwyn hwyluso'r dadansoddiadau ystadegol fel bod llai o ffactorau i'w dadansoddi. Felly crëwyd setiau llafarog gan fod perthynas rhwng pwyslais, a yw'r sillaf yn agored neu'n gaeedig, a'r cyd-destun sillafog.

Yn Tabl 22 a Tabl 23 isod, gwelir y setiau llafarog sy'n berthnasol i'r ffonem y maent yn perthyn iddynt. Ceir cydberthynas rhwng y set llafarog a'r cyd-destun ieithyddol. CWM yw'r set unsillafog ar gyfer /ʊ/ a CŴN yw'r set unsillafog ar gyfer /u(:)/. CWPAN yw'r set ddeusillafog gyda goben acennog ar gyfer /ʊ/ a RHYWBETH yw'r set ddeusillafog gyda goben acennog ar gyfer /u(:)/. RHESWM yw'r set ddeusillafog gyda sillaf olaf acennog ar gyfer /ʊ/, a MARW yw'r set ddeusillafog gyda sillaf olaf acennog ar gyfer /u(:)/. Nid yw unrhyw un o setiau /ʊ/ yn cynnwys sillaf agored, i'r gwrthwyneb, dim ond CŴN o setiau /u(:)/ sy'n gaeedig. Nodwyd hynny yn Awbery (2009, tt. 361–362).

Tabl 22 – Setiau llafarog y llafariad /ʊ/

/ʊ/	Pwyslais	Sillaf Agored/Caeedig	Cyd-destun Sillafog	<i>n</i>
CWM	Oes	Caeedig	Unsillafog	346
CWPAN	Oes	Caeedig	Goben acennog	553
RHESWM	Nac oes	Caeedig	Sillaf olaf ddiacen	145
<i>Cyfanswm</i>				1044

Tabl 23 – Setiau llafarog y llafariad /u(:)/

/u(:)/	Pwyslais	Sillaf Agored/Caeedig	Cyd-destun sillafog	<i>n</i>
CŴN	Oes	Caeedig	Unsillafog	751
MARW	Nac oes	Agored	Sillaf olaf ddiacen	236
RHYWBETH	Oes	Agored	Goben acennog	234
<i>Cyfanswm</i>				1221

Sylwer mai /u(:)/ yw'r ffonem yn Tabl 23, a gwnaethpwyd hynny gan nad yw pob set llafariad na'r tocynnau sy'n perthyn i'r setiau yn cynrychioli /u:/. Mae 'cŵn' yn air Cymraeg sy'n cael ei ynganu fel [ku:n], sy'n cynnwys /u:/ ond yn ychwanegol gellid cael geiriau fel 'marw' [maru] o'r set MARW nad yw'n cynnwys /u:/ fel yn *GOOSE* Saesneg. Er hynny, mae 'llw' a 'marw' yn ymddwyn fel *GOOSE* Saesneg, ac felly penderfynwyd cynnwys /u(:)/ fel ffonem y ddwy set o lafariaid hynny. Mae set RHYWBETH yn amlwg yn ddeusain 'yw' yn ysgrifenedig. Ar lafar caiff y ddeusain hon ei monotoneiddio i [rʊbɛθ] neu [rʊbɑθ] mewn rhai amrywiadau o'r Gymraeg. Yn gyferbyniol, fel [u(:)] oedd disgyblion YUGC yn ei ynganu. Cynhwyswyd RHYWBETH fel set /u(:)/ felly.

5.6.6 Dadansoddiad ystadegol

Defnyddiwyd dulliau ystadegol er mwyn dadansoddi'r data ar lafariaid cefn uchel /u(:)/ ac /ʊ/ disgyblion YUGC. Gwnaethpwyd hyn er mwyn ein galluogi i fesur ac i adnabod patrymau

sy'n bodoli o fewn y data, ar sail y ffactorau cymdeithasol ac ieithyddol. Mae dulliau ystadegol yn ein galluogi i ddefnyddio profion er mwyn mesur arwyddocâd gwahanol ffactorau yn ymwneud â fformantau'r llafariaid cefn uchel dan sylw. Defnyddiwyd lefel alffa $\alpha = 0.05$.

Yn gyntaf, ceir dadansoddiad archwiliadol yn edrych ar bob ffactor, cymdeithasol ac ieithyddol, un wrth un. Y ffactorau sy'n cael eu dadansoddi yn 5.8 ac 5.9 yw rhywedd, clystyrau arfer, iaith yr aelwyd, tasg, cyd-destun seinegol rhagflaenol, cyd-destun seinegol olynol a math o air. Bydd y ffactorau hyn yn cael eu dadansoddi ar gyfer y ddwy lafariad gaeedig gefn, hynny yw, yn gyntaf ar gyfer /u(:)/ ac yn ail ar gyfer /v/. Cynhaliwyd y dadansoddiadau hyn ar RStudio (R Core Team 2011; R Team 2020) ac Excel, a defnyddiwyd profion ANOVA un ffordd a dwy ffordd a phrofion-*t* yn y dadansoddiadau archwiliadol ar gyfer mesur arwyddocâd ystadegol pob ffactor. Bydd y dadansoddiad archwiliadol, sy'n mesur arwyddocâd y ffactorau hyn yn unigol, yn adnabod pa ffactorau sy'n ystadegol arwyddocaol ar gyfer F1 ac F2 y llafariaid cefn uchel.

Wedi'r dadansoddiad archwiliadol, cynhaliwyd dadansoddiad effeithiau cymysg. Mae'r model effeithiau cymysg, yn is-adran 5.9, yn mesur arwyddocâd y ffactorau trwy ystyried perthynas ac effaith y ffactorau ar ei gilydd. Cynhaliwyd y dadansoddiad effeithiau cymysg trwy Rbrul (Johnson 2009) sef meddalwedd ar gyfer dadansoddi nifer o ffactorau mewn un model. Defnyddir Rbrul ar gyfer llunio model effeithiau cymysg. Mantais modelau effeithiau cymysg yw bod modd dadansoddi'r daroganwyr (newidynnau annibynnol) megis rhywedd, neu gyd-destun seinegol ynghyd a hapeffeithiau megis siaradwr a gair. Dadansoddwyd y newidynnau annibynnol ar sail un newidyn dibynnol ar y tro, felly F1 ac F2. O ganlyniad, ceir pedair model effeithiau cymysg yn yr ymchwil hwn: dwy ar gyfer pob llafariad, y naill ar gyfer F1 a'r llall ar gyfer F2. Ymhellach, gellid dadansoddi unrhyw ryngweithio rhwng gwahanol effeithiau sefydlog a'r berthynas rhyngddynt trwy gynnal model effeithiau cymysg.


5.7 Canlyniadau

Yn yr adran hon, bydd canlyniadau'r data yn cael eu cyflwyno. Yn gyntaf, ceir canlyniadau'r dadansoddiadau y setiau llafarog a gyflwynwyd yn 5.6.5. Yn dilyn hynny, cyflwynir canlyniadau ar effaith y setiau llafarog hyn ar fformantau'r ddwy lafariad dan sylw. Trafodir effaith coda /l/ sy'n ffactor a all effeithio ar ansawdd y llafariaid caeedig cefn ar wahân, cyn cyflwyno'r ffactorau eraill fel rhan o'r dadansoddiad archwiliadol. Dadansoddir fformantau pob ffactor cymdeithasol a ieithyddol ar gyfer y llafariad /u(:)/ ac ar gyfer y llafariad /ʊ/. Gwnaethpwyd hyn er mwyn canfod pa ffactorau cymdeithasol ac ieithyddol a fyddai'n ystadegol arwyddocaol cyn cynnal dadansoddiad effeithiau cymysg.

5.7.1 Dadansoddiad y setiau llafarog

Cyflwynir canlyniadau F1 ac F2 y setiau llafarog ar F1 ac F2 y disgyblion yn yr is-adran hon. Gwneir hynny ar wahân i brif is-adran canlyniadau er mwyn cyfleu'r gwahaniaeth rhwng y setiau llafarog dan sylw yn y gwaith. Wedi'r is-adran hon, bydd y canlyniadau'n cael eu dadansoddi ar sail y llafariaid /ʊ/ ac /u(:)/ yn hytrach na'r setiau llafarog gan ei bod yn haws dadansoddi a rheoli'r canlyniadau fel hynny. O ganlyniad, ni cheir trafodaeth o'r ffactorau ar sail y setiau llafarog, felly penderfynir cyflwyno dadansoddiad o'r setiau llafarog o flaen llaw. Bydd y setiau llafarog yn cael eu hailgyflwyno ar gyfer y dadansoddiadau ystadegol yn 5.9.


Dengys Ffigur 5 werthoedd F1 wedi'u normaleiddio ar gyfer y chwe set llafarog. Dechreuwn gyda setiau llafarog ffonem /ʊ/ sef CWM, CWPAN a RHESWM. CWM ($n=346$) a gynhyrchodd y cymedr F1 uchaf o 1.03 ac felly'r set leiaf caeedig ar gyfer setiau llafariad /ʊ/, wedyn RHESWM ($n=145$) gydag 1.01 a CWPAN ($n=553$) gynhyrchodd y cymedr F1 isaf o 0.95 ac felly'r set fwyaf caeedig ar gyfer setiau llafariad /ʊ/. O ganlyniad, ceir cymedr F1 o 0.98 ar gyfer llafariad /ʊ/. O safbwynt setiau llafarog llafariad /u(:)/, CŴN ($n=751$) a gynhyrchodd y cymedr F1 isaf o 0.79 ac felly'r set lleiaf gaeedig ar gyfer setiau ffonem /u(:)/, a chafwyd mesuriadau ychydig yn uwch gyda 0.83 gan setiau MARW ($n=236$) a RHYWBETH ($n=234$) ac felly y setiau hyn oedd y ddwy set fwyaf caeedig ar gyfer setiau ffonem /u(:)/. O ganlyniad, ceir cymedr F1 o 0.81 ar gyfer ffonem /u(:)/.



Figur 5 – Mesuriadau F1 wedi eu normaleiddio ar gyfer y setiau llafarog

Cynhaliwyd prawf ANOVA un-ffordd er mwyn profi effaith y gwahanol setiau llafarog ar F1 y disgyblion. Dengys yr ANOVA fod effaith y setiau llafarog ar F1 y siaradwyr yn ystadegol arwyddocaol ar lefel $p < .05$ [$F(5, 2260) = 174.70, p < 0.001$]. Cynhaliwyd profion-t yn ogystal a ddengys bod y gwahaniaeth rhwng pob set llafarog yn arwyddocaol heblaw am CWM a RHESWM ($p = 0.987$) a RHYWBETH a MARW ($p = 0.987$).

Dengys Ffigur 6 werthoedd F2 wedi'u normaleiddio ar gyfer y chwe set llafarog. Fel y nodwyd uchod, mae F2 yn ymwneud â pha mor flaen neu gefn yw'r llafariad. Ar gyfer setiau llafarog ffonem /u(:)/, MARW ($n=236$) gynhyrchodd y cymedr F2 uchaf, o 1.28 ac felly'r set flaenaf o setiau ffonem /u(:)/, CŴN ($n=751$) sy'n ail gyda chymedr o 1.20 a RHYWBETH ($n=234$) yn cynhyrchu'r cymedr F2 isaf o 1.17, ac felly'r set lleiaf blaen o setiau ffonem /u(:)/. O ganlyniad, ceir cymedr F2 o 1.21 ar gyfer ffonem /u(:)/. Ar gyfer setiau llafarog ffonem /ʊ/, RHESWM ($n=145$) sydd â'r cymedr F2 uchaf o 1.02 ac felly'r set flaenaf o ffonem /ʊ/, CWM ($n=346$) yn ail gyda 0.96 a CWPAN ($n=553$) yn cynhyrchu'r cymedr F2 isaf o 0.95 ac felly'r set lleiaf blaen o setiau ffonem /ʊ/. O ganlyniad, ceir cymedr F2 o 0.96 ar gyfer ffonem /ʊ/.



Ffigur 6 – Mesuriadau F2 wedi eu normaleiddio ar gyfer y setiau llafarog

Cynhaliwyd prawf ANOVA un-ffordd er mwyn profi effaith y gwahanol setiau llafarog ar F2 y disgyblion. Dengys yr ANOVA fod effaith y setiau llafariaid ar F2 y siaradwyr yn ystadegol arwyddocaol ar lefel $p < .05$ [$F(5, 2260) = 105.65, p < 0.001$]. Cynhaliwyd profion-*t* yn ogystal a ddengys fod y gwahaniaeth rhwng pob set llafarog yn arwyddocaol heblaw am CWM a CWPAN ($p = 0.501$) a RHYWBETH a CŴN ($p = 0.238$).


5.7.2 Dadansoddiad /l/ yn y coda

Yn gyntaf edrychir ar ganlyniadau archwiliadol ar /l/ yn y coda yng Nghymraeg disgyblion YUGC. Fel y crybwyllwyd uchod, ni fydd /l/ yn y coda yn rhan o'r dadansoddiad llawn, a hynny am fwy nag un rheswm. Yn gyntaf, yr arfer mewn astudiaethau ar lafariad *GOOSE* y Saesneg gyda /l/ yn y coda yw cynnal dadansoddiad archwiliadol neilltuol a'i hepgor o'r prif ddadansoddiad oherwydd ei effaith ar allffonau /u/. Mae /l/ yn y coda yn nodweddiadol am rwystro blaenu-*GOOSE* ac felly leihau F2 y llafariad. Yn ail, nid oedd digon o docynnau ar gyfer /l/ yn y coda yn y data oherwydd nid yw'n gyffredin yn dilyn y llafariad /u(:)/ yn y Gymraeg, heblaw mewn geiriau benthug o'r Saesneg, e.e. cŵl, ffŵl. Er hynny, cafwyd 176 o docynnau o /l/ yn y coda ar gyfer /ʊ/. Nesaf, edrychwn ar effaith /l/ yn y coda ar y llafariad

honno.


Crëwyd set lafarog ychwanegol er mwyn gwahaniaethu /l/ yn y coda sef MEDDWL. Dim ond yn y cyd-destun ffonolegol hwn y cafwyd nifer ddigonol o docynnau o /l/ yn y coda. Penderfynwyd mai cynnal cymhariaeth o setiau MEDDWL a RHESWM fyddai'n synhwyrol gan fod y ddwy set yn cynrychioli yr un rhinweddau ffonolegol. Mae'r ddwy set yn cynrychioli geiriau di-bwyslais, sillaf caeedig, a sillaf olaf ddiacen. Mae MEDDWL yn cynrychioli tocynnau gydag /l/ yn y coda, a RHESWM yn cynrychioli pob cyd-destun seinegol olynol arall.

Dengys Ffigur 7 fod MEDDWL ($n=176$) yn cynhyrchu cymedr F1 o 1.07, sy'n uwch na RHESWM ($n=149$) a gynhyrchodd gymedr F1 o 1.02. Cynhaliwyd prawf ANOVA un-ffordd er mwyn profi effaith /l/ yn y coda ar F1 y disgyblion ar gyfer y llafariad /ʊ/. Dengys yr ANOVA fod effaith /l/ yn y coda ar F1 y disgyblion yn ystadegol arwyddocaol ar lefel $p < .05$ [$F(1, 323) = 12.31, p < 0.001$].



Ffigur 7 – Mesuriadau F1 wedi eu normaleiddio MEDDWL a RHESWM

Yn Ffigur 8, dangosir mesuriadau F2 y setiau dan sylw, cynhyrchodd RHESWM ($n=149$) gymedr F2 o 1.01, mesur a oedd yn sylweddol uwch na chymedr F2 MEDDWL ($n=176$), 0.88. Cynhaliwyd prawf ANOVA un-ffordd er mwyn profi effaith /l/ yn y coda ar F2 y disgyblion ar gyfer y llafariad /ʊ/. Dengys yr ANOVA fod effaith /l/ yn y coda ar F2 y disgyblion yn ystadegol arwyddocaol ar lefel $p < .05$ [$F(1, 323) = 38.48, p < 0.001$].



Ffigur 8 – Mesuriadau F2 wedi eu normaleiddio MEDDWL a RHESWM

Felly, cynhyrchir cymedr F1 uwch, ac felly /ʊ/ is gan setiau meddwl MEDDWL, ond cynhyrchir cymedr F2 uwch, ac felly /ʊ/ flaenach gan setiau RHESWM. Gwelir felly fod coda /l/ yn lleihau F2 /ʊ/, fel y mae astudiaethau eraill wedi eu cofnodi ynglŷn â choda /l/ ac F2 llafariad *GOOSE* y Saesneg. Fel y nodwyd uchod, nid yw'r data yn dangos effaith coda /l/ ar /u(:)/ Caerdydd fel sy'n nodweddiadol mewn ymchwil i flaenu-*GOOSE*, gan nad yw coda /l/ yn gyffredin ar ôl /u(:)/ yn y Gymraeg. Er hynny, mae'r un effaith rwystrol yn bresennol ar gyfer F2 coda /l/ disgyblion YUGC ar gyfer y llafariad /ʊ/.

Nesaf, ceir is-adran y dadansoddiad archwiliadol. Dechreuir gyda dadansoddiad o'r ffactorau cymdeithasol dan sylw a'u heffaith ar fformantau'r llafariad caeedig cefn. Y ffactorau cymdeithasol sydd dan sylw yn yr adran nesaf yw rhywedd, clystyrau arfer, iaith yr aelwyd a thasg. Wedi hynny, ceir dadansoddiad o'r ffactorau ieithyddol dan sylw a'u

heffaith ar fformantau'r llafariaid caeedig cefn. Y ffactorau ieithyddol dan sylw yn yr adran nesaf yw cyd-destun seinegol rhagflaenol, cyd-destun seinegol olynol a math o air.


5.8 Dadansoddiad archwiliadol

5.8.1 Ffactorau cymdeithasol

5.8.1.1 Rhywedd


Yn yr is-adran hon byddwn yn edrych ar effaith rhywedd ar fformantau llafariaid caeedig cefn disgyblion YUGC. Dechreuwn trwy edrych ar fformantau llafariad /u(:)/, cyn troi at gymedrau llafariad /ʊ/.

Yn Ffigur 9, gwelir bod cymedr F1 y bechgyn ($n=618$) yn 0.80 a chymedr F1 y merched ($n=603$) yn 0.81 ar gyfer y llafariad /u(:)/. Cynhaliwyd prawf ANOVA un-ffordd er mwyn profi effaith rhywedd ar F1 /u(:)/ y disgyblion. Dengys yr ANOVA nad yw effaith rhywedd ar F1 /u(:)/ y disgyblion yn ystadegol arwyddocaol ar lefel $p < .05$ [$F(1, 1220) = 4.04, p = 0.04465$].




Ffigur 9 – Mesuriadau F1 wedi eu normaleiddio fesul rhywedd ar gyfer /u(:)/

Yn Ffigur 10, gwelir bod cymedr F2 y bechgyn ($n=618$) yn 1.16 a chymedr F2 y merched ($n=603$) yn 1.26 ar gyfer y llafariad /u(:)/. Cynhaliwyd prawf ANOVA un-ffordd er mwyn profi effaith rhywedd ar F2 /u(:)/ y disgyblion. Dengys yr ANOVA fod effaith rhywedd ar F2 /u(:)/ y disgyblion yn ystadegol arwyddocaol ar lefel $p < .05$ [$F(1, 1220) = 38.19$ $p > 0.001$]




Ffigur 10 – Mesuriadau F2 wedi eu normaleiddio fesul rhywedd ar gyfer /u(:)/

Nesaf, trown at ganlyniadau fformantau'r llafariad /ʊ/ gan gychwyn gyda chymedrau F1. Yn Ffigur 11, gwelir bod y bechgyn ($n=517$) yn cynhyrchu cymedr F1 o 1.01 a'r merched ($n=527$) yn cynhyrchu cymedr F1 o 0.96. Cynhaliwyd prawf ANOVA un-ffordd er mwyn profi effaith rhywedd ar F1 /ʊ/ y disgyblion. Dengys yr ANOVA fod effaith rhywedd ar F1 /ʊ/ y disgyblion yn ystadegol arwyddocaol ar lefel $p < .05$ [$F(1, 1043) = 24.00$ $p > 0.001$].



Ffigur 11 – Mesuriadau F1 wedi eu normaleiddio fesul rhywedd ar gyfer /σ/

Yn Ffigur 12, gwelir bod bechgyn ($n=517$) yn cynhyrchu cymedr F2 o 0.90, a'r merched ($n=527$) yn cynhyrchu cymedr F2 o 1.02 ar gyfer y llafariad /σ/. Cynhaliwyd prawf ANOVA un-ffordd er mwyn profi effaith rhywedd ar F2 /σ/ y disgyblion. Dengys yr ANOVA fod effaith rhywedd ar F2 /σ/ y disgyblion yn ystadegol arwyddocaol ar lefel $p < .05$ [$F(1, 1043) = 78.06$ $p > 0.001$].



Ffigur 12 – Mesuriadau F2 wedi eu normaleiddio fesul rhywedd ar gyfer /σ/

Felly, dengys yr is-adran hon fod merched yn cynhyrchu y cymedrau F2 uchaf, ac felly'r llafariaid blaenaf ar gyfer y ddwy lafariad gaeedig gefn. Mae'r merched hefyd yn cynhyrchu cymedr F1 uchaf, ac felly'r llafariad isaf ar gyfer /u(:)/. Ar y llaw arall, mae'r bechgyn yn cynhyrchu cymedr F1 uchaf, ac felly'r llafariad isaf ar gyfer /ʊ/. Mae pob ffigur yn yr is-adran yn dangos rhywedd fel ffactor ystadegol arwyddocaol ar fformantau'r llafariaid caeedig cefn ac eithrio ffigur Ffigur 9 lle nad yw effaith rhywedd ar F1 /u(:)/ yn ystadegol arwyddocaol.


Yn yr is-adran nesaf, troir at y clystyrau arfer, a gyflwynwyd eisoes yn 4.4, a'u heffaith fel ffactor cymdeithasol ar fformantau llafariaid cefn uchel y disgyblion.

5.8.1.2 Clystyrau arfer

Yn yr is-adran hon byddwn yn cyflwyno canlyniadau ar effaith y clystyrau arfer ar fformantau llafariaid cefn uchel disgyblion YUGC. Nodwyd yn is-adran 4.4 fod rhai cymunedau arfer yn cael eu huno â chymunedau arfer eraill i greu clystyrau arfer oherwydd diffyg aelodau er mwyn cynnal dadansoddiadau ystadegol dilyn. Yn yr un modd ag yn is-adran 5.8.1.1 uchod, bydd yr is-adran hon yn dechrau trwy ystyried effaith clystyrau arfer ar fformantau'r llafariad /u(:)/ cyn symud ymlaen i ystyried fformantau'r llafariad /ʊ/. Cyn hynny, rhown sylw i'r clystyrau arfer ei hunain.


Fel y nodwyd yn 4.4, penderfynwyd cyfuno cymunedau arfer gyda nifer gyfyngedig o aelodau â chymunedau arfer eraill yr oeddent yn gydnaws â'i gilydd yn ôl dadansoddiadau'r cymunedau arfer yn 4.3. Ni ellid dadansoddi effaith y strwythurau cymdeithasol petai cymunedau arfer gydag un aelod yn cael eu dadansoddi, gan mai'r hyn a fyddai'n cael ei ddadansoddi fyddai amrywio siaradwr ac nid amrywio cymuned arfer mewn gwirionedd. Felly, sefydlir clystyrau arfer er mwyn sicrhau bod y dadansoddiadau yn yr adran hon ac adran 5.9 yn ddilys. O ganlyniad, ffurfir clystyrau arfer Cassie_Geeks ar sail diddordeb gyffredin y ddau gymuned arfer mewn addysg, Cymraeg_Chwaraeon ar sail bod y ddwy gymuned arfer hwn yn treulio amser gyda'i gilydd, a Rhun_Normal am yr un rheswm.

Felly, dengys Ffigur 13 gymedrau F1 y clystyrau arfer ar gyfer llafariad /u(:)/. Mae Cymraeg_Chwaraeon ($n=163$), Sbartheiniaid ($n=206$) a Rhun_Normal ($n=251$) yn cynhyrchu'r cymedrau F1 uchaf ymysg y clystyrau arfer, trwy gynhyrchu cymedr F1 o 0.82. Yn dilyn hynny, ceir clystyrau arfer y Merched Poblogaidd ($n=154$) yn cynhyrchu cymedr F1 o 0.81, Cassie_Geeks ($n=147$) yn cynhyrchu cymedr F1 o 0.79 a'r Bechgyn Meme Chat ($n=300$) gyda chymedr F1 o 0.78. Cynhaliwyd prawf ANOVA un-ffordd er mwyn profi effaith clystyrau arfer ar F1 /u(:)/ y disgyblion. Dengys yr ANOVA fod effaith clystyrau arfer ar F1 /u(:)/ yn ystadegol arwyddocaol ar lefel $p < .05$ [$F(5, 1215) = 3.77$ $p = 0.00215$].




Ffigur 13 – Mesuriadau F1 wedi eu normaleiddio fesul clwstwr arfer ar gyfer /u(:)/

Yn Ffigur 14, gwelir canlyniadau cymedr F2 y clystyrau arfer ar gyfer llafariad /u(:)/. Cynhyrchir y cymedr F2 uchaf gan 'Cymraeg_Chwaraeon' ($n=163$) gyda chymedr F2 o 1.32. Yn dilyn hynny ceir y 'Merched Poblogaidd' ($n=154$) a'r 'Sbartheiniaid' ($n=206$) gyda chymedrau F2 o 1.24. Wedi hynny ceir 'Cassie_Geeks' ($n=147$) a 'Rhun_Normal' ($n=251$) gyda chymedrau F2 o 1.20, ac yn cynhyrchu'r cymedr F2 isaf mae'r 'Bechgyn Meme Chat' ($n=300$), gyda chymedr F2 o 1.13. Cynhaliwyd prawf ANOVA un-ffordd er mwyn profi effaith clystyrau arfer ar F2 /u(:)/ y disgyblion. Dengys yr ANOVA fod effaith clystyrau arfer ar F2 /u(:)/ yn ystadegol arwyddocaol ar lefel $p < .05$ [$F(5, 1215) = 9.90$ $p > 0.001$].



Ffigur 14 – Mesuriadau F2 wedi eu normaleiddio fesul clwstwr arfer ar gyfer /u(:)/

Trown nawr tuag at ganlyniadau'r clystyrau arfer ar gyfer fformantau'r llafariad /ʊ/. Yn Ffigur 15, gwelir canlyniadau cymedr F1 y clystyrau arfer ar gyfer llafariad /ʊ/. Cynhyrchir y cymedr F1 uchaf gan y 'Sbartheiniaid' ($n=159$) gyda chymedr F1 o 1.05. Yn dilyn hynny ceir 'Cymraeg_Chwaraeon' ($n=131$) gyda chymedr F1 o 1.00, a'r 'Bechgyn Meme Chat' ($n=248$) gyda chymedr F1 o 0.99. Wedi hynny ceir y 'Merched Poblogaidd' ($n=152$) gyda chymedr F1 o 0.96, a 'Cassie_Geeks' ($n=152$) a Rhun_Normal ($n=202$) gyda chymedr F1 o 0.95. Cynhaliwyd prawf ANOVA un-ffordd er mwyn profi effaith clystyrau arfer ar F1 /ʊ/ y disgyblion. Dengys yr ANOVA fod effaith clystyrau arfer ar F1 /ʊ/ yn ystadegol arwyddocaol ar lefel $p < .05$ [$F(5, 1038) = 7.61$ $p > 0.001$].




Ffigur 15 – Mesuriadau F1 wedi eu normaleiddio fesul clwstwr arfer ar gyfer / σ /

Dengys Ffigur 16 ganlyniadau cymedr F2 y clystyrau arfer ar gyfer y llafariad / σ /.

Cynhyrchir y cymedrau F2 uchaf gan ‘Cymraeg_Chwaraeon’ ($n=131$) gyda chymedr F2 o 1.06, a’r ‘Merched Poblogaidd’ ($n=152$) gyda chymedr F2 o 1.05. Yn dilyn hynny ceir ‘Rhun_Normal’ ($n=202$) gyda chymedr F2 o 1.01, ac yna, gyda chymedrau is ceir y ‘Sbartheiniaid’ ($n=159$) gyda chymedr F2 o 0.93, a ‘Cassie_Geeks’ gyda chymedr F2 o 0.91. Cynhyrchir y cymedr F2 isaf gan y ‘Bechgyn Meme Chat’ gyda chymedr F2 o 0.85.

Cynhaliwyd prawf ANOVA un-ffordd er mwyn profi effaith clystyrau arfer ar F2 / σ / y disgyblion. Dengys yr ANOVA fod effaith clystyrau arfer ar F2 / σ / yn ystadegol arwyddocaol ar lefel $p < .05$ [$F(5, 1038) = 27.31$ $p > 0.001$].



Ffigur 16 – Mesuriadau F2 wedi eu normaleiddio fesul clwstwr arfer ar gyfer /ʊ/


Felly, cynhyrchir cymedrau F2 uchel, ac felly lafariaid caeedig cefn blaenach gan y ‘Merched Poblogaidd a’r ‘Cymraeg_Chwaraeon’ ar gyfer y ddwy lafariad gaeedig gefn. Ar y llaw arall, cynhyrchir cymedrau F2 isel, ac felly llafariaid caeedig cefn cefnach gan y ‘Bechgyn Meme Chat’ a ‘Cassie_Geeks’ ar gyfer y ddwy lafariad dan sylw. Wrth ystyried F1, cynhyrchir cymedr F1 uchel, ac felly llafariaid caeedig cefn mwy agored ar gyfer y ddwy lafariad dan sylw gan y ‘Sbarteiniaid’ a ‘Cymraeg_Chwaraeon’. Cynhyrchir cymedr F1 isel, ac felly lafariad caeedig cefn mwy caeedig gan ‘Cassie_Geeks’. Gwelir yn yr is-adran hon hefyd fod clwstwr arfer yn ffactor cymdeithasol sy’n ystadegol arwyddocaol ar gyfer F1 ac F2 y ddwy lafariad gaeedig gefn. Nesaf, eir ati i ddadansoddi effaith iaith yr aelwyd fel ffactor cymdeithasol ar fformantau llafariaid caeedig cefn y disgyblion.

5.8.1.3 Iaith yr aelwyd

Yn yr is-adran hon ceir dadansoddiad o’r berthynas rhwng iaith yr aelwyd a fformantau llafariaid caeedig cefn y disgyblion. Bydd yr is-adran hon yn dechrau trwy ystyried effaith iaith yr aelwyd ar fformantau’r llafariad /u(:)/ cyn symud ymlaen i ystyried fformantau’r llafariad /ʊ/.


Yn Ffigur 17, gwelir cymedrau F1 disgyblion aelwydydd Cymraeg a rhai di-Gymraeg ar gyfer y llafariad /u(:)/. Gwelir felly mai disgyblion aelwydydd Cymraeg ($n=496$) sy’n

cynhyrchu'r cymedr F1 uchaf, 0.83. Cynhyrchir cymedr F1 o 0.79 gan ddisgyblion aelwydydd di-Gymraeg ($n=725$). Cynhaliwyd prawf ANOVA un-ffordd er mwyn profi effaith iaith yr aelwyd ar F1 /u(:)/ y disgyblion. Dengys yr ANOVA fod effaith iaith yr aelwyd ar F1 /u(:)/ y disgyblion yn ystadegol arwyddocaol ar lefel $p < .05$ [$F(1, 1220) = 25.46, p < 0.001$].




Ffigur 17 – Mesuriadau F1 wedi eu normaleiddio fesul iaith yr aelwyd ar gyfer /u(:)/

Yn Ffigur 18, gwelir cymedrau F2 disgyblion aelwydydd Cymraeg a rhai di-Gymraeg ar gyfer y llafariad /u(:)/. Gwelir felly mai disgyblion aelwydydd di-Gymraeg ($n=725$) sy'n cynhyrchu'r cymedr F2 uchaf, 1.22. Cynhyrchir cymedr F2 o 1.20 gan ddisgyblion aelwydydd Cymraeg ($n=496$). Cynhaliwyd prawf ANOVA un-ffordd er mwyn profi effaith iaith yr aelwyd ar F2 /u(:)/ y disgyblion. Dengys yr ANOVA nad oedd effaith iaith yr aelwyd ar F2 /u(:)/ y disgyblion yn ystadegol arwyddocaol ar lefel $p < .05$ [$F(1, 1220) = 1.73, p = 0.1885$].




Ffigur 18 – Mesuriadau F2 wedi eu normaleiddio fesul iaith yr aelwyd ar gyfer /u(:)/

Nesaf, trown at ganlyniadau fformantau'r llafariad /ʊ/ gan gychwyn gyda chymedrau F1. Dengys Ffigur 19 mai disgyblion aelwydydd Cymraeg ($n=440$) sy'n cynhyrchu'r cymedr F1 uchaf, 1.01. Cynhyrchir cymedr F1 o 0.96 gan ddisgyblion aelwydydd di-Gymraeg ($n=604$). Cynhaliwyd prawf ANOVA un-ffordd er mwyn profi effaith iaith yr aelwyd ar F1 /ʊ/ y disgyblion. Dengys yr ANOVA fod effaith iaith yr aelwyd ar F1 /ʊ/ y disgyblion yn ystadegol arwyddocaol ar lefel $p < .05$ [$F(1, 1043) = 19.38, p < 0.001$].



Ffigur 19 – Mesuriadau F1 wedi eu normaleiddio fesul iaith yr aelwyd ar gyfer /ʊ/

Yn Ffigur 20, gwelir cymedrau F2 disgyblion aelwydydd Cymraeg a rhai di-Gymraeg ar gyfer y llafariad /ʊ/. Cynhyrchir y cymedr F2 uchaf gan ddisgyblion aelwydydd di-Gymraeg ($n=604$), 0.98. Cynhyrchir cymedr F2 o 0.93 gan ddisgyblion aelwydydd Cymraeg ($n=440$). Cynhaliwyd prawf ANOVA un-ffordd er mwyn profi effaith iaith yr aelwyd ar F2 /ʊ/ y disgyblion. Dengys yr ANOVA fod effaith iaith yr aelwyd ar F2 /ʊ/ y disgyblion yn ystadegol arwyddocaol ar lefel $p < .05$ [$F(1, 1043) = 19.38, p < 0.001$].




Ffigur 20 – Mesuriadau F2 wedi eu normaleiddio fesul iaith yr aelwyd ar gyfer /ʊ/

Felly, sylwir bod yr un patrwm yn ymddangos ar gyfer y ddwy llafariad gaeddig gefn o ystyried effaith iaith yr aelwyd fel ffactor cymdeithasol. Cynhyrchir y cymedrau F1 uchaf, ac felly y llafariad caeddig cefn isaf gan ddisgyblion o aelwydydd Cymraeg, a chynhyrchir y cymedrau F2 uchaf, ac felly'r llafariad caeddig cefn blaenaf, gan ddisgyblion o aelwydydd di-Gymraeg. Nid oedd effaith iaith yr aelwyd ar F2 /u(:)/ y disgyblion yn ystadegol arwyddocaol, ond roedd pob dadansoddiad arall yn yr is-adran yn profi'n ystadegol arwyddocaol.

5.8.1.4 Tasg


Nesaf, ceir dadansoddiad o'r ddwy dasg dan sylw sef y cyfweliad a'r rhestr geiriau. Defnyddiwyd y ddwy dasg hyn yn y cyfweliad sosioieithyddol er mwyn ennyn cyd-destunau a oedd yn amrywio o ran ffurfioldeb. Mae'r cyfweliad yn ceisio ennyn sgwrs sydd mor agos at sgwrs ddi-gymell y disgyblion ag sy'n bosibl, ac mae'r rhestr geiriau yn aml yn ennyn sgwrs fwy ffurfiol gan mai math o dasg darllen ydyw. Isod, byddwn yn dadansoddi'r ddwy dasg er mwyn archwilio'r effaith a gafodd y tasgau ar fformantau llafariad cefn uchel y disgyblion. Nesaf, ceir dadansoddiad o effaith tasg ar fformantau llafariad caeddig cefn disgyblion YUGC.

Yn gyntaf, dadansoddir effaith tasg ar fformantau'r llafariad /u(:)/, gan gychwyn gydag F1. Gwelir yn Ffigur 21 y cynhyrchir cymedr F1 o 0.83 yn y cyfweliad ($n=930$), a chynhyrchir cymedr F1 o 0.74 yn y rhestr geiriau ($n=291$). Cynhaliwyd prawf ANOVA un-ffordd er mwyn profi effaith cyd-destun seinegol olynol ar F1 /u(:)/ y disgyblion. Dengys yr ANOVA fod effaith tasg ar F1 /u(:)/ y disgyblion yn ystadegol arwyddocaol ar lefel $p < .05$ [$F(1, 1220) = 90.44, p < 0.001$].




Ffigur 21 – Mesuriadau F1 wedi eu normaleiddio fesul tasg ar gyfer /u(:)/

Dengys Ffigur 22 gymedrau F2 llafariad /u(:)/ ar gyfer y ddwy dasg dan sylw. Cynhyrchir cymedr F2 o 1.27 yn nhasg y cyfweliad ($n=930$). Yn nhasg y rhestr geiriau ($n=291$), cynhyrchir cymedr F2 o 1.03. Cynhaliwyd prawf ANOVA un-ffordd er mwyn profi effaith cyd-destun seinegol olynol ar F2 /u(:)/ y disgyblion. Dengys yr ANOVA fod effaith tasg ar F2 /u(:)/ y disgyblion yn ystadegol arwyddocaol ar lefel $p < .05$ [$F(1, 1220) = 160.73, p < 0.001$].




Ffigur 22 – Mesuriadau F2 wedi eu normaleiddio fesul tasg ar gyfer /u(:)/

Nesaf, ceir dadansoddiad o'r ddwy dasg dan sylw ar gyfer fformantau'r llafariad /ʊ/. Dadansoddir F1 llafariad /ʊ/ disgyblion yn gyntaf. Yn Ffigur 23, gwelir fod y dasg rhestr geiriau ($n=314$) yn cynhyrchu cymedr F1 o 1.00, a chynhyrchir cymedr F1 o 0.98 yn nhasg y cyfweliad ($n=730$). Cynhaliwyd prawf ANOVA un-ffordd er mwyn profi effaith tasg ar F1 /ʊ/ y disgyblion. Dengys yr ANOVA nad oedd effaith tasg ar F1 /ʊ/ y disgyblion yn ystadegol arwyddocaol ar lefel $p < .05$ [$F(1, 1043) = 2.67, p = 0.10229$].



Ffigur 23 – Mesuriadau F1 wedi eu normaleiddio fesul tasg ar gyfer /σ/

Dengys Ffigur 24 gymedrau F2 y llafariad /σ/ ar gyfer y ddwy dasg dan sylw. Cynhyrchir cymedr F2 o 0.97 yn y cyfweliad ($n=730$), a chymedr F2 o 0.94 yn y rhestr geiriau ($n=314$). Cynhaliwyd prawf ANOVA un-ffordd er mwyn profi effaith tasg ar F1 /σ/ y disgyblion. Dengys yr ANOVA nad oedd effaith tasg ar F2 /σ/ y disgyblion yn ystadegol arwyddocaol ar lefel $p < .05$ [$F(1, 1043) = 5.34, p = 0.021$].



Ffigur 24 – Mesuriadau F2 wedi eu normaleiddio fesul tasg ar gyfer /σ/

Felly, i grynhoi, gwelir bod effaith tasg yn arwyddocaol ar gyfer fformantau'r llafariad /u(:)/, ond nad oedd effaith tasg yn arwyddocaol ar gyfer dadansoddiadau fformantau'r llafariad /ʊ/. Cynhyrchir F2 uwch, ac felly llafariad /u(:)/ flaenach, yn ogystal ag F1 uwch ac felly /u(:)/ is yn y cyfweiliad sosioieithyddol nag yn y rhestr geiriau.

Nesaf, edrychir ar ddadansoddiadau'r ffactorau ieithyddol dan sylw yn y bennod hon, a'u heffaith ar fformantau'r llafariad caeedig cefn. Y ffactorau ieithyddol sydd dan sylw yw cyd-destun seinegol rhagflaenol, cyd-destun seinegol olynol, cyd-destun sillafog a math o air.


5.8.2 Ffactorau ieithyddol

5.8.2.1 *Cyd-destun seinegol rhagflaenol*

Fel y trafodwyd eisoes yn **Gwall! Ffynhonnell y cyfeirnod heb ei ganfod.**, cyd-destun seinegol rhagflaenol yw'r cyfyngiad ieithyddol cryfaf wrth drafod blaenu-*GOOSE* (e.e, Labov 1994, 2001; Ash 1996; Fridland 2008; Holmes-Elliott 2015). Bydd yr is-adran hon yn dadansoddi'r berthynas rhwng cyd-destun seinegol rhagflaenol a fformantau llafariad caeedig cefn y disgyblion. Dechreuir yr is-adran hon trwy ystyried effaith cyd-destun seinegol rhagflaenol ar fformantau llafariad /u(:)/ cyn symud ymlaen i ystyried fformantau'r llafariad /ʊ/.


Mae'r cyd-destun rhagflaenol wedi'i rannu'n bedwar categori gwahanol, sef y pedwar categori nodweddiadol mewn astudiaethau blaenu-*GOOSE*: taflodolion, corunolion, anghorunolion a soniarusion. Roedd pumed categori, sef 'dim', sy'n golygu nad oes cytsain o flaen y llafariad dan sylw. Ceir hyn yng nghyd-destun tocynnau'r llafariad /ʊ/ yn unig, mewn geiriau megis 'wrth'. Er hynny, hepgorwyd y categori hwn o'r dadansoddiad y llafariad /ʊ/ oherwydd diffyg tocynnau ($n=17$). Yn ychwanegol nid yw taflodolion yn cael eu cynhyrchu cyn y llafariad /ʊ/ yn y Gymraeg, felly dim ond tri chategori sy'n bosibl wrth ddadansoddi'r llafariad hon.

Yn gyntaf, dechreuwn gyda mesuriadau o'r llafariad /u(:)/. Dengys Ffigur 25 uchod fesuriadau F1 ar gyfer tocynnau'r llafariad /u(:)/. Cynhyrchir y cymedr F1 uchaf ar ôl taflodolion ($n=343$), 0.84. Yn dilyn hynny ceir cymedr F1 o 0.80 ar ôl soniarusion ($n=298$), a hefyd 0.80 ar ôl corunolion ($n=487$). Cynhyrchir y cymedr F1 isaf ar ôl anghorunolion ($n=93$), gyda chymedr F1 o 0.73. Cynhaliwyd prawf ANOVA un-ffordd er mwyn profi effaith cyd-destun seinegol rhagflaenol ar F1 /u(:)/ y disgyblion. Dengys yr ANOVA fod effaith cyd-destun seinegol rhagflaenol ar F1 /u(:)/ y disgyblion yn ystadegol arwyddocaol ar lefel $p < .05$ [$F(3, 1218) = 16.25, p < 0.001$].




Ffigur 25 – Mesuriadau F1 wedi eu normaleiddio fesul cyd-destun rhagflaenol ar gyfer /u(:)/

Dengys Ffigur 26 fesuriadau cymedr F2 mewn gwahanol cyd-destunau seinegol rhagflaenol ar gyfer tocynnau'r llafariad /u(:)/. Cynhyrchir y cymedr F2 uchaf ar ôl taflodolion ($n=343$), 1.34. Yn dilyn hynny ceir soniarusion ($n=298$) gyda chymedr F2 o 1.21, a chorunolion ($n=487$) gyda chymedr o 1.18. Cynhyrchir yr F2 isaf ar ôl anghorunolion ($n=93$), gyda chymedr F2 o 0.89. Cynhaliwyd prawf ANOVA un-ffordd er mwyn profi effaith cyd-destun seinegol rhagflaenol ar F2 /u(:)/ y disgyblion. Dengys yr ANOVA fod effaith cyd-destun seinegol rhagflaenol ar F2 /u(:)/ y disgyblion yn ystadegol arwyddocaol ar lefel $p < .05$ [$F(3, 1218) = 69.87, p < 0.001$].




Figur 26 – Mesuriadau F2 wedi eu normaleiddio fesul cyd-destun rhagflaenol ar gyfer /u(:)/

Nesaf, trown at fesuriadau o fformantau'r llafariad /ʊ/. Yn Ffigur 27, gwelir cymedrau F1 y gwahanol cyd-destunau seinegol rhagflaenol ar gyfer y llafariad /ʊ/. Cynhyrchir y cymedr F1 uchaf ar ôl soniarusion ($n=118$), 1.04. Yn dilyn y soniarusion, ceir cymedr F1 o 0.98 ar ôl anghorunolion ($n=817$). Cynhyrchir y cymedr F1 isaf ar ôl corunolion ($n=109$) gyda chymedr F1 o 0.97. Cynhaliwyd prawf ANOVA un-ffordd er mwyn profi effaith cyd-destun seinegol rhagflaenol ar F1 /ʊ/ y disgyblion. Dengys yr ANOVA fod effaith cyd-destun seinegol rhagflaenol ar F1 /ʊ/ y disgyblion yn ystadegol arwyddocaol ar lefel $p < .05$ [$F(2, 1042) = 7.17, p < 0.001$].



Ffigur 27 – Mesuriadau F1 wedi eu normaleiddio fesul cyd-destun rhagflaenol ar gyfer /ʊ/

Yn Ffigur 28, gwelir cymedrau F2 y gwahanol cyd-destunau seinegol rhagflaenol ar gyfer y llafariad /ʊ/. Cynhyrchir y cymedr F2 uchaf ar ôl corunolion ($n=109$), gyda chymedr F2 o 1.10. Yn dilyn hynny, ceir cymedr F2 o 0.98 ar ôl soniarusion ($n=118$), a cheir y cymedr F2 isaf ar ôl anghorunolion ($n=817$), 0.94. Cynhaliwyd prawf ANOVA un-ffordd er mwyn profi effaith cyd-destun seinegol rhagflaenol ar F2 /ʊ/ y disgyblion. Dengys yr ANOVA fod effaith cyd-destun seinegol rhagflaenol ar F2 /ʊ/ y disgyblion yn ystadegol arwyddocaol ar lefel $p < .05$ [$F(2, 1042) = 25.48, p < 0.001$].



Ffigur 28 – Mesuriadau F2 wedi eu normaleiddio fesul cyd-destun rhagflaenol ar gyfer /ʊ/

Felly, dengys y dadansoddiadau hyn fod patrymau tebyg yn ymddangos yma ar gyfer F1 ac F2 ar gyfer y llafariad /u(:)/, a threfnau amrywiol ar gyfer fformantau llafariad /ʊ/. Ar gyfer F1 ac F2 y llafariad /u(:)/ ceir trefn fformantau hierarchol, o’r uchaf i’r isaf, fel a ganlyn: taflodolion > soniarusion > corunolion > anghorunolion. Gwelir tebygrwydd felly gyda threfnau mewn ymchwil blaenorol ar *GOOSE* y Saesneg (**Gwall! Ffynhonnell y cyfeirnod heb ei ganfod.**), er bod gwahaniaeth yn y soniarusion, ceir mwy o fanylion ar hynny yn is-adran 5.10. Nid yw cyd-destun rhagflaenol taflodol yn bosibl ar gyfer y llafariad /ʊ/, ond ceir trefn hierarchol, o’r uchaf i’r isaf, sy’n debyg ar gyfer F1 y llafariad hon hefyd, sef soniarusion > corunolion > anghorunolion. Ceir patrwm gwahanol ar gyfer F2 y llafariad hon sef, corunolion > soniarusion > anghorunolion. Nodwyd bod pob dadansoddiad yn ystadegol arwyddocaol yn yr is-adran hon ar gyfer fformantau’r ddwy lafariad. Nesaf, dadansoddir cyd-destunau seinegol olynol.


5.8.2.2 *Cyd-destun seinegol olynol*

Mae cyd-destun seinegol olynol yn ffactor ieithyddol arall sydd o ddiddordeb i’r ymchwil hwn, gan ei fod yn ffactor ieithyddol sy’n aml yn arwyddocaol wrth ystyried *GOOSE* yn y Saesneg (Flynn 2012). Cyflwynwyd y gwahanol gyd-destunau seinegol olynol mewn ymchwil

blaenorol eisoes yn 5.5.1.3. Yn y dadansoddiad hwn byddwn yn cyflwyno pedwar categori ar gyfer gwahanol gyd-destunau seinegol olynol, sef cytseiniaid, seibiau, soniarusion a llafariad. Mae cytseiniaid yn cyfeirio at gytseiniaid argaeol (*obstruent*), neu unrhyw gytseiniaid nad ydynt yn soniarusion. Mae seibiau yn cyfeirio at gyd-destun lle nad oes sain olynol. Mae llafariad wedi eu cynnwys gan ei bod hi'n bosibl cael gair gyda llafariad yn dilyn /u/, e.e. 'rhywun'.


Nesaf, byddwn yn dadansoddi effaith cyd-destun seinegol olynol ar fformantau llafariad caeedig cefn disgyblion YUGC. Dechreuwn gyda mesuriadau F1 ac F2 y llafariad /u(:)/, cyn symud ymlaen at fesuriadau F1 ac F2 y llafariad /ʊ/.

Yn Ffigur 29 uchod, gwelir bod cyd-destun olynol seibiau ($n=544$) yn cynhyrchu'r cymedr F1 uchaf, 0.82. Cynhyrchir cymedr F1 o 0.81, cyn cyd-destunau llafarog ($n=32$), cynhyrchir cymedr F1 o 0.80 cyn cyd-destunau soniarusol ($n=199$), ac yn olaf, cynhyrchir cymedr F1 o 0.79 cyn cyd-destunau cytseiniol ($n=446$). Cynhaliwyd prawf ANOVA un-ffordd er mwyn profi effaith cyd-destun seinegol olynol ar F1 /u(:)/ y disgyblion. Dengys yr ANOVA fod effaith cyd-destun seinegol rhagflaenol ar F1 /u(:)/ y disgyblion yn ystadegol arwyddocaol ar lefel $p < .05$ [$F(3, 1218) = 5.73, p < 0.001$].



Ffigur 29 – Mesuriadau F1 wedi eu normaleiddio fesul cyd-destun olynol ar gyfer /u(:)/

Gwelir yn Ffigur 30 mai cyd-destun saib ($n=544$) sy'n cynhyrchu'r cymedr F2 uchaf, 1.28. Yn dilyn hynny ceir cyd-destun cytseiniol ($n=446$), yn cynhyrchu cymedr F2 o 1.17, a chyd-destun llafarog ($n=32$) yn cynhyrchu cymedr F2 o 1.16. Cynhyrchir y cymedr F2 isaf cyn cyd-destunau soniarusol ($n=199$), 1.14. Cynhaliwyd prawf ANOVA un-ffordd er mwyn profi effaith cyd-destun seinegol olynol ar F2 /u(:)/ y disgyblion. Dengys yr ANOVA fod effaith cyd-destun seinegol rhagflaenol ar F2 /u(:)/ y disgyblion yn ystadegol arwyddocaol ar lefel $p < .05$ [$F(3, 1218) = 16.91, p < 0.001$].




Ffigur 30 – Mesuriadau F2 wedi eu normaleiddio fesul cyd-destun olynol ar gyfer /u(:)/

Nesaf, edrychir ar effaith y cyd-destunau olynol ar fformantau'r llafariad /ʊ/, gan gychwyn gydag F1. Dim ond dau gategori sy'n bodoli ar gyfer cyd-destunau seinegol olynol y llafariad /ʊ/. Nid oes cyd-destunau olynol llafarog yn bodoli ar gyfer y llafariad hon yn y Gymraeg, a hepgorwyd cyd-destun seinegol olynol seibiau ar gyfer y llafariad hon, gan nad oedd digon o docynnau ar gyfer cynnal dadansoddiad heb effeithio ar y canlyniadau.

Yn Ffigur 31, gwelir mesuriadau F1 y cyd-destunau seinegol olynol dan sylw ar gyfer y llafariad /ʊ/. Mae cyd-destun olynol soniarusol ($n=177$) yn cynhyrchu cymedr F1 o 1.03, a chyd-destun olynol cytseiniol ($n=867$) yn cynhyrchu cymedr F1 o 0.97. Cynhaliwyd prawf ANOVA un-ffordd er mwyn profi effaith cyd-destun seinegol olynol ar F1 /ʊ/ y disgyblion.


Dengys yr ANOVA fod effaith cyd-destun seinegol olynol ar F1 / σ / y disgyblion yn ystadegol arwyddocaol ar lefel $p < .05$ [$F(1, 1043) = 20.11, p < 0.001$].



Ffigur 31 – Mesuriadau F1 wedi eu normaleiddio fesul cyd-destun olynol ar gyfer / σ /

Yn Ffigur 32, gwelir bod cyd-destun olynol soniarusol ($n=177$) yn cynhyrchu cymedr F2 o 1.00, a chyd-destun olynol cytseiniol ($n=867$) yn cynhyrchu cymedr F2 o 0.95.

Cynhaliwyd prawf ANOVA un-ffordd er mwyn profi effaith cyd-destun seinegol olynol ar F2 / σ / y disgyblion. Dengys yr ANOVA nad oedd effaith cyd-destun seinegol olynol ar F2 / σ / y disgyblion yn ystadegol arwyddocaol ar lefel $p < .05$ [$F(1, 1043) = 5.56, p = 0.0186$].



Ffigur 32 – Mesuriadau F2 wedi eu normaleiddio fesul cyd-destun olynol ar gyfer /ʊ/

Felly, i grynhoi, mae cyd-destun olynol yn arwyddocaol ym mhob dadansoddiad yn yr is-adran hon ac eithrio F2 y llafariad /ʊ/. Hefgorwyd cyd-destunau olynol seibiau a llafariaid ar gyfer y dadansoddiadau /ʊ/ oherwydd nifer gyfyngedig y tocynnau, a chafwyd trefn hierarchol, sef soniarusion > cytseiniaid wrth gynhyrchu'r cymedrau F1 ac F2. Ar gyfer dadansoddiadau o'r llafariad /u(:)/, saib gynhyrchodd y cymedrau uchaf ar gyfer canlyniadau'r ddwy fformant. Ar gyfer F1 y ffonem hon ceir trefn hierarchol, o'r uchaf i'r isaf fel a ganlyn seibiau > llafariaid > soniarusion > cytseiniaid. Ar gyfer F2 y llafariad hon, ceir trefn hierarchol, o'r uchaf i'r isaf fel a ganlyn, seibiau > cytseiniaid > llafariaid > soniarusion. Roedd pob dadansoddiad o'r cyd-destunau seinegol olynol, ac eithrio F2 /ʊ/, yn ystadegol arwyddocaol.


Nesaf, dadansoddir y math o air fel ffactor ieithyddol a'i heffaith ar fformantau'r llafariaid cefn uchel.

5.8.2.3 Math o air

Nesaf, edrychwn ar effaith math o air (*word type*) ar fformantau llafariaid cefn uchel y disgyblion. Rhennir y data'n eiriau cynnwys a geiriau swyddogaeth. Tra bo geiriau cynnwys yn eiriau gydag ystyr a gwybodaeth fel enwau, ansoddeiriau a berfau, mae geiriau


swyddogaeth yn eiriau sy'n gwasanaethu ar gyfer rhesymau gramadegol fel berfau cynorthwyol, arddodiaid a rhagenwau. Mae geiriau cynnwys felly yn llawer mwy cyffredin ($n=1804$) yn y data na geiriau swyddogaeth ($n=461$) oherwydd natur mwy arbenigol geiriau swyddogaeth. Nesaf, ceir dadansoddiad o effaith math o air ar fformantau llafariad caeedig cefn disgyblion YUGC.

Yn Ffigur 33 isod, gwelir mesuriadau F1 math o air ar gyfer llafariad /u(:)/ Cynhyrchir cymedr F1 o 0.83 mewn geiriau swyddogaeth ($n=284$) a chymedr F1 o 0.80 mewn geiriau cynnwys ($n=937$). Cynhaliwyd prawf ANOVA un-ffordd er mwyn profi effaith math o air ar F1 /u(:)/ y disgyblion. Dengys yr ANOVA nad yw effaith math o air ar F1 /u(:)/ y disgyblion yn ystadegol arwyddocaol ar lefel $p < .05$ [$F(1, 1220) = 10.37, p = 0.00131$].




Ffigur 33 – Mesuriadau F1 wedi eu normaleiddio fesul math o air ar gyfer /u(:)/

Yn Ffigur 34, gwelir mesuriadau F2 math o air ar gyfer llafariad /u(:)/. Cynhyrchir cymedr F2 o 1.32 mewn geiriau swyddogaeth ($n=284$) a chymedr F2 o 1.18 mewn geiriau cynnwys ($n=937$). Cynhaliwyd prawf ANOVA un-ffordd er mwyn profi effaith math o air ar F2 /u(:)/ y disgyblion. Dengys yr ANOVA fod effaith math o air ar F2 /u(:)/ y disgyblion yn ystadegol arwyddocaol ar lefel $p < .05$ [$F(1, 1220) = 51.55, p < 0.001$].




Ffigur 34 – Mesuriadau F2 wedi eu normaleiddio fesul math o air ar gyfer /u(:)/

Nesaf, trown at ddadansoddi fformantau math o air ar gyfer llafariad /ʊ/. Yn Ffigur 35 mesuriadau F1 ar gyfer y llafariad /ʊ/. Cynhyrchir cymedr F1 o 1.03 mewn geiriau swyddogaeth ($n=177$) a chymedr F1 o 0.97 mewn geiriau cynnwys ($n=867$). Cynhaliwyd prawf ANOVA un-ffordd er mwyn profi effaith math o air ar F1 /ʊ/ y disgyblion. Dengys yr ANOVA fod effaith math o air ar F1 /ʊ/ y disgyblion yn ystadegol arwyddocaol ar lefel $p < .05$ [$F(1, 1043) = 17.04, p < 0.001$].



Ffigur 35 – Mesuriadau F1 wedi eu normaleiddio fesul math o air ar gyfer /ʊ/

Yn Ffigur 36, dangosir mesuriadau F2 y llafariad /ʊ/. Cynhyrchir cymedr F2 o 1.03 mewn geiriau swyddogaeth ($n=177$) a chymedr F2 o 0.95 mewn geiriau cynnwys ($n=867$). Cynhaliwyd prawf ANOVA un-ffordd er mwyn profi effaith math o air ar F2 /ʊ/ y disgyblion. Dengys yr ANOVA fod effaith math o air ar F2 /ʊ/ y disgyblion yn ystadegol arwyddocaol ar lefel $p < .05$ [$F(1, 1043) = 18.38, p < 0.001$].



Ffigur 36 – Mesuriadau F2 wedi eu normaleiddio fesul math o air ar gyfer /ʊ/

Felly, i grynhoi, dengys yr is-adran hon fod effaith math o air yn ystadegol arwyddocaol ar gyfer pob dadansoddiad ac eithrio F1 y llafariad /u(:)/. Yn nadansoddiadau y llafariad /u(:)/, geiriau swyddogaeth sy'n cynhyrchu'r fformantau uchaf ar gyfer F1 ac F2. I'r gwrthwyneb, yn nadansoddiadau'r llafariad /ʊ/, geiriau cynnwys sy'n cynhyrchu'r fformantau uchaf ar gyfer F1 ac F2.

Felly, wedi cwblhau dadansoddiad o bob ffactor unigol, eir ati nesaf i ddadansoddi effeithiau cymysg er mwyn ystyried cydberthynas y ffactorau dan sylw.

5.9 Dadansoddiadau modelau effeithiau cymysg

Crëwyd model effeithiau cymysg ar gyfer F1 ac F2 y llafariaid /u(:)/ a /ʊ/ ar wahân i'w gilydd gan ddefnyddio Rbrul (Johnson 2009). Cynhelir dadansoddiadau un-lefel ar Rbrul. O ganlyniad ceir pedair model effeithiau cymysg. Nodwyd y ffactorau dan sylw yn y dadansoddiadau hyn yn 5.6.6.

Yn y modelau effeithiau cymysg hyn, dadansoddwyd cymedrau F1 ac F2 wedi eu normaleiddio fel y newidynnau dibynnol. Mae'r newidynnau sefydlog a restrwyd uchod yn cynnwys ffactorau ieithyddol a chymdeithasol a gyflwynwyd yn adrannau 5.5.1 ac 5.5.2. Penderfynwyd hepgor cyd-destun sillafog, ffonem a math o air o'r dadansoddiad effeithiau cymysg. Hefgorwyd cyd-destun sillafog a ffonem gan fod y set llafarog yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â chyd-destun sillafog a ffonem. Hefgorwyd math o air yn ogystal er mwyn sicrhau bod y modelau y sefydlog, gan fod problemau wedi codi oherwydd natur y set ddata a nifer y newidynnau annibynnol. Ym mhob model, cafodd gair a siaradwr eu dethol fel hapeffeithiau.

Cyn cyflwyno'r dadansoddiadau, manylir ar yr hyn y mae'r dadansoddiadau hyn yn eu cyflwyno. Mewn model effeithiau cymysg, dadansoddir y ffactorau mewn cydberthynas â'i gilydd. Mae'r ffactorau hyn yn ddibynnol ar ei gilydd yn y model, a dangosir arwyddocâd pob ffactor mewn cromfachau yn ymyl y ffactor. Mae amrywiolyn yn perthyn i bob ffactor, er enghraifft y gwahanol ryweddau neu'r gwahanol ieithoedd aelwyd dan sylw yn y dadansoddiad. Mae'r cyfernodau yn dynodi pa amrywiolyn sy'n cyflyru fformantau uchel neu isel. Mae cyfernod positif yn cyflyru fformantau uwch ac mae'r cyfernod negatif yn cyflyru fformantau is. Mae cymedr yn dynodi union gymedr y fformant dan sylw. Mae tocyn yn golygu nifer y tocynnau ar gyfer yr amrywiolyn, a'r cymedr yn dynodi cymedr y fformant ar gyfer yr amrywiolyn hwnnw.

5.9.1 Model F1 /u(:)/

Tabl 24 – Model effeithiau cymysg F1 /u(:)/

Ffactor	Amrywiolyn	Cyfernod	Tocynnau	Cymedr
Rhywedd (0.571)	Bachgen	0.009	618	0.798
	Merch	-0.009	603	0.814
Iaith_Aelwyd (0.0058)	Cymraeg	0.031	496	0.829
	di Gymraeg	-0.031	725	0.79
Tasg (<0.001)	cyfweliad	0.028	930	0.826
	rhestr geiriau	-0.028	291	0.742
Clwstwr_Arfer (0.151)	Rhun_Normal	0.03	251	0.816
	Sbarteiniaid	0.022	206	0.822
	Merched Poblogaidd	0.018	154	0.809
	Cymraeg_Chwaraeon	-0.009	163	0.823
	Cassie_Geeks	-0.017	147	0.794
	Bechgyn Meme Chat	-0.045	300	0.781
	RHYWBETH	0.026	234	0.833
Setiau_Llafarog (0.0124)	MARW	0.007	238	0.832
	CWN	-0.033	749	0.789
Cyd_Destun_Rhagflaenol (0.203)	taflodol	0.017	343	0.836
	anghorunol	0.001	93	0.729
	corunol	-0.006	487	0.801
	soniarus	-0.011	298	0.804
Cyd_Destun_Olynol (0.391)	seibiol	0.019	544	0.823
	soniarus	0.015	199	0.802
	cytseiniol	-0.014	446	0.787
	llafarog	-0.02	32	0.806
Math_Gair (0.735)	cynnwys	0.004	937	0.799
	swyddogaeth	-0.004	284	0.829

Yn Tabl 24, gwelir dadansoddiad model effeithiau cymysg ar F1 /u(:)/ y disgyblion. Dengys Tabl 24 mai'r unig ffactor ystadegol arwyddocaol yn y model hwn yw Tasg ($p < 0.001$), ac roedd iaith yr aelwyd ychydig dros y trothwy o fod yn ystadegol arwyddocaol. Nid oedd unrhyw un o'r ffactorau eraill yn ystadegol arwyddocaol yn y model hwn.

5.9.2 Model F2 /u(:)/

Tabl 25 – Model effeithiau cymysg F2 /u(:)/

Ffactor	Amrywiolyn	Cyfernod	Tocynnau	Cymedr
Rhywedd (0.0696)	Merch	0.076	603	1.263
	Bachgen	-0.076	618	1.16
Iaith_Aelwyd (0.133)	di Gymraeg	0.036	725	1.22
	Cymraeg	-0.036	496	1.197
Tasg (<0.001)	cyfweliad	0.079	930	1.268
	rhestr geiriau	-0.079	291	1.03
Clwstwr_Arfer (0.174)	Sbarteiniaid	0.095	206	1.235
	Cymraeg_Chwaraeon	0.092	163	1.324
	Bechgyn Meme Chat	0.017	300	1.133
	Cassie_Geeks	-0.059	147	1.2
	Merched Poblogaidd	-0.067	154	1.239
	Rhun_Normal	-0.079	251	1.2
Setiau_Llafarog (0.015)	MARW	0.091	236	1.281
	CWN	-0.017	751	1.201
	RHYWBETH	-0.074	234	1.174
Cyd_Destun_Rhagflaenol (<0.001)	taflodol	0.166	343	1.344
	corunol	0.027	487	1.181
	soniarus	-0.024	298	1.205
	anghorunol	-0.169	93	0.893
Cyd_Destun_Olynol (0.0627)	cytseiniol	0.049	446	1.165
	llafarog	0.045	32	1.165
	seibiol	-0.043	544	1.276
	soniarus	-0.051	199	1.141
Math_Gair (0.315)	swyddogaeth	0.023	284	1.319
	cynnwys	-0.023	937	1.178

Yn Tabl 25, gwelir dadansoddiad model effeithiau cymysg ar F2 /u(:)/ y disgyblion. Dengys Tabl 25 fod cyd-destun rhagflaenol ($p < 0.001$) a thasg ($p < 0.001$) yn ffactorau sy'n ystadegol arwyddocaol ar gyfer F2 /u(:)/. Nid oedd unrhyw un o'r ffactorau eraill yn ystadegol arwyddocaol yn y model hwn

5.9.3 Model F1 /σ/

Tabl 26 – Model effeithiau cymysg F1 /σ/

Ffactor	Amrywiolyn	Cyfernod	Tocynnau	Cymedr
Rhywedd (0.419)	Bachgen	0.022	517	1.008
	Merch	-0.022	527	0.959
Iaith_Aelwyd (0.023)	Cymraeg	0.038	440	1.013
	di Gymraeg	-0.038	604	0.961
Tasg (0.726)	cyfweliad	0.003	731	0.977
	rhestr geiriau	-0.003	313	0.999
Clwstwr_Arfer (0.281)	Sbarteiniaid	0.057	159	1.048
	Merched Poblogaidd	0.027	152	0.964
	Rhun_Normal	0.015	202	0.952
	Cymraeg_Chwaraeon	-0.024	131	0.995
	Cassie_Geeks	-0.031	152	0.953
	Bechgyn Meme Chat	-0.044	248	0.991
Setiau_Llafarog (<0.001)	RHESWM	0.037	145	1.009
	CWM	0.009	346	1.027
	CWPAN	-0.046	553	0.949
Cyd_Destun_Rhagflaenol (0.0864)	soniarus	0.034	118	1.04
	anghorunol	-0.004	817	0.976
	corunol	-0.029	109	0.972
Cyd_Destun_Olynol (0.0767)	soniarus	0.021	177	1.028
	cytseiniol	-0.021	867	0.974
Math_Gair (0.0239)	swyddogaeth	0.034	177	1.034
	cynnwys	-0.034	867	0.973

Yn Tabl 26, gwelir dadansoddiad o fodel effeithiau cymysg ar F1 /σ/ y disgyblion. Dengys Tabl 26 mai setiau llafarog ($p < 0.001$) yw'r unig ffactor sy'n ystadegol arwyddocaol ar gyfer y model hwn. Nid oedd unrhyw un o'r ffactorau eraill felly yn ystadegol arwyddocaol yn y model hwn.

5.9.4 Model F2 / σ /

Tabl 27 – Model effeithiau cymysg F2 / σ /

Ffactor	Amrywiolyn	Cyfernod	Tocynnau	Cymedr
Rhywedd (0.213)	Merch	0.042	527	1.021
	Bachgen	-0.042	517	0.896
Iaith_Aelwyd (0.157)	di Gymraeg	0.028	604	0.979
	Cymraeg	-0.028	440	0.932
Tasg (<0.001)	cyfweliad	0.051	731	0.97
	rhestr geiriau	-0.051	313	0.934
Clwstwr_Arfer (0.345)	Cymraeg_Chwaraeon	0.084	131	1.062
	Merched Poblogaidd	0.041	152	1.049
	Rhun_Normal	0.017	202	1.012
	Sbarteiniaid	-0.016	159	0.932
	Bechgyn Meme Chat	-0.045	248	0.853
	Cassie_Geeks	-0.081	152	0.912
Setiau_Llafarog (0.454)	RHESWM	0.026	145	1.021
	CWM	-0.004	346	0.955
	CWPAN	-0.022	553	0.945
Cyd_Destun_Rhagflaenol (0.0396)	corunol	0.045	109	1.095
	soniarus	0.002	118	0.982
	anghorunol	-0.047	817	0.938
Cyd_Destun_Olynol (0.849)	cytseinol	0.005	867	0.952
	soniarus	-0.005	177	0.995
Math_Gair (0.628)	cynnwys	0.018	867	0.945
	swyddogaeth	-0.018	177	1.027

Yn Tabl 27, gwelir dadansoddiad model effeithiau cymysg ar F2 / σ / y disgyblion.

Dengys Tabl 27 mai dim ond Tasg ($p < 0.001$) sy'n ystadegol arwyddocaol yn y model hwn.

Nid oedd unrhyw un o'r ffactorau eraill felly yn ystadegol arwyddocaol yn y model hwn.

5.10 Trafodaeth

Yn yr adran olaf o'r bennod hon, ceir trafodaeth o'r canlyniadau a gyflwynwyd yn y dadansoddiadau yn 5.7 a 5.9, a'u perthynas i'r cwestiynau ymchwil a gyflwynwyd ar ddechrau'r bennod (5.1). Yn gyntaf, atebir y cwestiwn ymchwil cyntaf sef i ba raddau y ceir amrywio yn ansawdd y llafariaid caeedig cefn. Felly, trafodwn y patrymau amrywio a geir yn nefnydd disgyblion YUGC o'r ddwy lafariad gaeedig gefn. Yn ail, atebir yr ail gwestiwn ymchwil sef i ba raddau y mae ffactorau cymdeithasol ac ieithyddol yn effeithio ar ansawdd y llafariaid caeedig cefn. Er mwyn gwneud hyn, yn gyntaf ceir crynodeb o'r ffactorau a oedd yn arwyddocaol yn y dadansoddiadau yn 5.8 ac 5.9. Yn dilyn hynny ceir trafodaeth ynghylch canlyniadau'r dadansoddiadau effeithiau cymysg, sef y prif ddadansoddiad dan sylw yn yr ymchwil hwn, ac yn dilyn hynny, unrhyw ffactorau eraill a gafwyd yn arwyddocaol yn y dadansoddiadau archwiliadol sy'n cyfleu patrymau sy'n destun trafodaeth bellach.

5.10.1 I ba raddau y ceir amrywio yn ansawdd y llafariaid caeedig cefn?

Nod gyntaf y bennod felly oedd archwilio i ba raddau y ceir amrywio yn ansawdd y llafariaid caeedig cefn. Fe wnaethpwyd hyn oherwydd diffyg gwybodaeth ynghylch ansawdd llafariaid Cymraeg Caerdydd (5.4). Dangosodd y canlyniadau fod gwahaniaeth clir rhwng ansawdd y ddwy lafariad dan sylw. Mewn ymchwil hanesyddol ar Gymraeg Gogleddol, ac mewn ymchwil mwy diweddar gan Iosad (2017) ar y Gymraeg, nid oedd sicrwydd ynglŷn â gwahaniaeth ansoddol yn llafariaid y Gymraeg, yn benodol y llafariaid caeedig cefn. Yn benodol, fe ddangosodd y canlyniadau fod /ʊ/ Cymraeg Caerdydd o ansawdd mwy agored nag /u(:)/, ac yn ogystal bod /u(:)/ o ansawdd flaenach nac /ʊ/. Ceir trafodaeth yn gyntaf ar flaender y llafariaid caeedig cefn, cyn trafod uchder y llafariaid.

Mewn ymchwil acwstig blaenorol ar y Gymraeg (Mayr a Davies 2011, t. 9; Mayr et al. 2017, t. 255) cofnodwyd bod /ʊ/ yn flaenach nac /u(:)/ yng Nghymraeg y de a'r gogledd, a cheir canfyddiadau tebyg yn ansawdd siaradwyr Saesneg Gogledd Cymru yn Ferragne a Pellegrino (2010, t. 28) yn ogystal. I'r gwrthwyneb, yn yr amrywiadau Saesneg agosaf i Gaerdydd yn ddaearyddol, megis Birmingham a de Lloegr, cafwyd /u(:)/ flaenach nac /ʊ/. Ymhellach, cofnodwyd hyn mewn amryw o astudiaethau ar Saesneg Lloegr (Ferragne a

Pellegrino 2010). Fel y trafodwyd eisoes yn 5.4.3, nid oes data diweddar yn bodoli ar Gymraeg Caerdydd, ond mae'r ymchwil hanesyddol (Mees 1977; Coupland 1988; Mees a Collins 1990; Collins a Mees 1999) yn cofnodi blaenu yn llafariad /u(:)/, ac er nad ydynt yn cymharu'r ddwy lafariad yn uniongyrchol, ni nodwyd unrhyw sylw ynghylch blaenu /ʊ/ ganddynt. O ganlyniad, mae llafariaid caeedig cefn disgyblion YUGC yn arddangos patrymau ansoddol tebycach i lafariaid Saesneg Caerdydd a Saesneg Lloegr, yn hytrach na rhai siaradwyr Cymraeg neu siaradwyr Saesneg o ogledd Cymru (Ferragne a Pellegrino 2010).

Felly, edrychwn nesaf ar flaender y llafariaid hyn yn neilltuol. Yn gyntaf, edrychwn ar lafariad caeedig cefn hir /u(:)/ Caerdydd. Ar gyfer mesur blaenu, gellid defnyddio graddfa Mesthrie (2010, t. 12) fel cyfeiriad i ganfod i ba raddau mae llafariaid caeedig cefn Caerdydd yn blaenu. Nodir yn 5.7.1 y cynhyrchir cymedr F2 o 1.21 gan lafariad /u(:)/ Caerdydd, yn ôl graddfa Mesthrie (2010, t. 12) felly, ceir blaenu i ansawdd eithaf blaen (*frontish*). Ni chofnodwyd blaenu yn y llafariad gaeedig gefn hir mewn amrywiadau traddodiadol o'r Gymraeg mewn ymchwil acwstig ddiweddar (Mayr a Davies 2011; Mayr et al. 2017), felly ceir yma y cofnod cyntaf o'r llafariad gaeedig gefn hir /u(:)/ sy'n blaenu yn y Gymraeg.

Felly os nad yw'r llafariad /u(:)/ sy'n blaenu yn gyffredin mewn amrywiadau Cymraeg traddodiadol, mae'n bwysig gofyn o le daw'r patrwm newydd hwn i Gymraeg Caerdydd. Fel y nodwyd yn 5.4.3, mae llafariad gaeedig gefn hir Saesneg Caerdydd wedi ei chofnodi fel llafariad sy'n blaenu i safle ganol mewn ymchwil blaenorol (Collins a Mees 1990, t. 94), ond nid oes ymchwil diweddarach ar ansawdd y llafariad yn bodoli. Ers cyfnod yr ymchwil hwn, mae blaenu'r llafariaid caeedig cefn hir, neu blaenu-*GOOSE* wedi sefydlu fel nodwedd uwchleol yn Saesneg y Deyrnas Gyfunol, ac mae ymchwil yn y nodwedd yn llawer mwy cyffredin. Gellid honni felly ei bod hi'n bosibl bod *GOOSE* flaen yn Saesneg Caerdydd yn fwy cyffredin nag yng nghyfnod ymchwil Coupland (1988) ac ati, ac o ganlyniad fod y llafariad gaeedig gefn /u(:)/ yng Nghymraeg YUGC wedi blaenu o ganlyniad i'r cyffyrddiad gyda Saesneg Caerdydd. Byddai ymchwil pellach ar Saesneg Caerdydd yn cadarnhau unrhyw ddamcaniaethau ynghylch tarddiad y llafariad gaeedig gefn hir sy'n blaenu yng Nghymraeg Caerdydd.

Nesaf, trown at flaender ansawdd /ʊ/. Eto, trwy ddefnyddio graddfa Mesthrie (2010, t. 28) gellid dweud bod cymedr F2 llafariad /ʊ/ o 0.96 yn blaenu'n gymedrol i safle ganol. Nid oes cofnod bod /ʊ/ yn blaenu mewn amrywiadau traddodiadol o'r Gymraeg, er i'r llafariad hon fod yn flaenach nag /u(:)/ yn yr amrywiadau hyn fel y cofnodwyd uchod. Ar y llaw arall, cofnodwyd bod llafariad /ʊ/ Caerdydd yn blaenu i safle ganol mewn ymchwil blaenorol ar Saesneg Caerdydd (Mees a Collins 1990, t. 94). Mae ymchwil mwy diweddar yn cyfleu llafariad *FOOT* y Saesneg fel llafariad sy'n blaenu mewn amrywiadau de'r Deyrnas Gyfunol yn benodol fel y nodwyd yn 5.3.2 (Ferragne a Pellegrino 2010, t. 29).

Eto, byddai angen cynnal ymchwil pellach er mwyn cadarnhau unrhyw ddamcaniaethau ynglŷn â sefydliad presenoldeb /ʊ/ sy'n blaenu yng Nghymraeg Caerdydd. Mae'n bosibl eto mai cyffyrddiad ieithyddol o Saesneg Caerdydd sy'n arwain at /ʊ/ sy'n blaenu yng Nghymraeg Caerdydd, mae'n bosibl bod hyn yn ffenomen weddol ddiweddar, gyda llafariad *FOOT* Saesneg Caerdydd yn dilyn rhai *GOOSE* Caerdydd a ddechreuodd y shifft tuag at flaen y geg, fel y nodwyd yn 5.3.2 (Ferragne a Pellegrino 2010; Harrington et al. 2011).

Nesaf, trown at uchder y llafariaid caeedig cefn. Mewn ymchwil acwstig blaenorol ar y Gymraeg (Mayr a Davies 2011, t. 9; Mayr et al. 2017, t. 255) cofnodwyd bod /ʊ/ yn fwy agored nag /u(:)/ yng Nghymraeg y de a'r Gogledd. Ceir canfyddiadau tebyg yn Saesneg gogledd Cymru a'r rhan fwyaf o amrywiadau Saesneg y Deyrnas Gyfunol yn Ferragne a Pellegrino (2010, t. 28). Yn Saesneg Caerdydd, fel y nodwyd yn 5.4.3, yn ôl Mees (1977) mae ansawdd mwy agored i llafariaid caeedig cefn byr Caerdydd o'i gymharu â'r RP. Nodwyd hefyd gan Mees a Collins (1990, t. 94) fod llafariaid caeedig cefn hir Caerdydd yn gaeedig, felly gellid honni bod /ʊ/ yn fwy agored nag /u(:)/ Saesneg Caerdydd hefyd. O ganlyniad, mae ansawdd mwy agored /ʊ/ o'i gymharu â /u(:)/ yng Nghymraeg Caerdydd yn cyd-fynd â'r patrymau a gofnodwyd mewn ymchwil eraill mewn amrywiaeth o amrywiadau Cymraeg a Saesneg.

Felly, wedi sefydlu sut mae uchder llafariaid caeedig cefn Caerdydd yn berthnasol i'w gilydd, nesaf edrychwn ar uchder y llafariaid hyn yn neilltuol. Yn gyntaf, edrychwn ar llafariad caeedig cefn /u(:)/ Caerdydd. Os cymherir uchder /u(:)/ Cymraeg Caerdydd â gwahanol

amrywiadau Saesneg y Deyrnas Gyfunol, gwelir bod /u(:)/ Cymraeg Caerdydd o ansawdd fwy agored (Ferragne a Pellegrino 2010, t. 28). Cyferbynna hyn â disgrifiad Mees a Collins (1990, t. 94) ynghylch ansawdd gaeedig *GOOSE* Saesneg Caerdydd. Nid yw'n glir felly a ddaw'r /u(:)/ agored hwn o gyffyrddiad ieithyddol honedig â Saesneg Caerdydd y tro hwn. Byddai ymchwil pellach ar Saesneg Caerdydd eto yn taflu goleuni dros unrhyw gyffyrddiad ieithyddol posibl.

Trown nawr at uchder llafariad gaeedig gefn byr /ʊ/. Fel y dywed uchod, mae'r llafariad hon yn fwy agored na'r llafariad gaeedig gefn hir /u(:)/ fel y disgwyliwyd. Trwy edrych eto ar ddata Ferragne a Pellegrino (2010, t. 28) ar gyfer amrywiadau Saesneg y Deyrnas Gyfunol, awgrymir eto fod y llafariad hon hefyd yn fwy agored na mewn amrywiadau eraill o Saesneg y Deyrnas Gyfunol. Mewn ymchwil ar Saesneg Caerdydd, noda Mees (1977) lafariad fwy agored yng Nghymraeg YUGC, felly gellid honni eto mai effaith cyffyrddiad ieithyddol o Saesneg Caerdydd sydd wrth wraidd ansawdd agored y llafariad gaeedig gefn fer /ʊ/. Byddai angen cynnal ymchwil pellach er mwyn cadarnhau hynny.

5.10.2 I ba raddau y mae ffactorau cymdeithasol ac ieithyddol yn effeithio ar ansawdd y llafariad caeedig cefn yng Nghymraeg Caerdydd?

Ail nod yr is-adran hon yw ateb i ba raddau y mae ffactorau cymdeithasol ac ieithyddol yn effeithio ar ansawdd y llafariad caeedig cefn yng Nghymraeg Caerdydd. Dadansoddwyd y ffactorau cymdeithasol ac ieithyddol hyn er mwyn llunio darlun o lafariad caeedig cefn Caerdydd sy'n cymharu ag ymchwil blaenorol ar rai o amrywiadau'r Saesneg. Felly, yn gyntaf ceir crynhoed o'r ffactorau a oedd yn arwyddocaol yn y dadansoddiadau yn 5.8. Mae gweddill y drafodaeth yn canolbwyntio ar effaith y ffactorau hyn gan ganolbwyntio ar ganlyniadau'r dadansoddiadau effeithiau cymysg.

Yn nadansoddiadau archwiliadol F1, sy'n mesur uchder y llafariad caeedig cefn, ar gyfer llafariad /ʊ/, roedd setiau llafarog, rhywedd, cymuned arfer, iaith yr aelwyd, cyd-destun seinegol rhagflaenol, cyd-destun seinegol olynol a math o air yn ffactorau ystadegol arwyddocaol. Ar gyfer llafariad /u(:)/ roedd setiau llafarog, cymuned arfer, iaith yr aelwyd, tasg, cyd-destun rhagflaenol a chyd-destun rhagflaenol yn ffactorau ystadegol arwyddocaol.

Yn nadansoddiadau archwiliadol F2, sy'n mesur blaender y llafariaid caeedig cefn, ar gyfer llafariad /ʊ/ roedd setiau llafarog, rhywedd, cymuned arfer, iaith yr aelwyd, cyd-destun seinegol rhagflaenol a math o air yn ffactorau ystadegol arwyddocaol. Ar gyfer llafariad /u(:)/ roedd setiau llafarog, rhywedd, cymuned arfer, tasg, cyd-destun seinegol rhagflaenol, cyd-destun seinegol olynol a math o air yn ffactorau ystadegol arwyddocaol.

Er fod y dadansoddiadau archwiliadol yn cynnig darlun o effaith pob ffactor yn unigol, ni fydd yr is-adran hon yn trafod pob ffactor yn eang. Yn hytrach, ceir trafodaeth ehangach o ganlyniadau'r dadansoddiadau effeithiau cymysg, yn benodol y ffactorau a gafwyd yn arwyddocaol yn y pedair model dan sylw yn 5.9. Wedi hynny, ceir trafodaeth o unrhyw batrymau sy'n ennyn mwy o sylw o'r dadansoddiadau archwiliadol, nas trafodwyd fel rhan o drafodaeth y modelau effeithiau cymysg. Felly, crynhown nesaf ganlyniadau y dadansoddiadau archwiliadol. Cynhaliwyd dadansoddiadau archwiliadol er mwyn crynhoi'r data, a chyflwyno pob ffactor yn unigol a'u heffaith ar y llafariaid caeedig cefn.

Yn y modelau effeithiau cymysg, gwelir nad oedd cymaint o ffactorau'n arwyddocaol. Yn nadansoddiad effeithiau cymysg F1 /u(:)/ (5.9.1) yr unig ffactor ystadegol arwyddocaol oedd tasg. Yn nadansoddiad effeithiau cymysg F2 /u(:)/ (5.9.2) roedd tasg a chyd-destun seinegol rhagflaenol oll yn ffactorau ystadegol arwyddocaol. Yn nadansoddiad effeithiau cymysg F1 /ʊ/ (5.9.3), eto dim ond un ffactor oedd yn ystadegol arwyddocaol sef y setiau llafarog. Yn nadansoddiad effeithiau cymysg F2 /ʊ/ (5.9.4) tasg oedd yr unig ffactor ystadegol arwyddocaol. Felly er mwyn ateb yr ail gwestiwn ymchwil, gellid dweud bod amryw o ffactorau yn effeithio ar amrywio'r llafariaid caeedig cefn.

Sylwir bod tasg yn ffactor sy'n ystadegol arwyddocaol ar gyfer modelau F1 ac F2 y llafariad /u(:)/ a model F2 y llafariad /ʊ/. Golyga hyn fod tasg yn ffactor sy'n effeithio ar flaenu ag uchder y llafariad /u(:)/, gyda chymedr F2 sylweddol uwch ac felly /u(:)/ flaenach yn y dasg cyfweld, a chymedr F1 uwch ac felly /u(:)/ fwy agored yn y dasg cyfweld. Ymhellach, mae tasg yn ffactor sy'n effeithio ar flaenu y llafariad /ʊ/, gyda chymedr F2 yn uwch ac felly /ʊ/ yn flaenach yn y dasg cyfweld. Gellid dweud felly fod ansawdd /u(:)/ ac /ʊ/ yn flaenach, ac ansawdd /u(:)/ yn fwy agored mewn iaith ddigymell disgyblion YUGC, gan fod y dasg cyfweld, sef y dasg wedi'i llunio ar gyfer ennyn iaith ddigymell gan y disgyblion,

yn cynhyrchu ansawdd blaenach ar gyfer y llafariad /u(:)/ ac /ʊ/ ac ansawdd is ar gyfer y llafariad /u(:)/ na thasg y rhestr geiriau. Golyga hyn fod amrywio ar sail arddull ar waith yng Nghymraeg Caerdydd ar gyfer y llafariad caeedig cefn.

Wrth ystyried fod ymchwil blaenorol gan Jones (1988) a Thomas (1991) yn beirniadu Cymraeg y de-ddwyrain, neu Gymraeg ysgolion Cymraeg fel amrywiadau gor-safonol, gellid dweud bod arwyddocâd i'r canlyniad hwn. Mae disgyblion YUGC felly yn meddu ar arddulliau gwahanol o'r Gymraeg, yn amrywio yn eu hansawdd o'r llafariad /u(:)/ rhwng cyd-destunau ffurfiol ac anffurfiol ac yn cynhyrchu patrwm newydd o gynhyrchu llafariad flaenach, mwy agored mewn cyd-destunau mwy anffurfiol.

Roedd cyd-destun seinegol rhagflaenol hefyd yn arwyddocaol ym model F2 /u(:)/. Mae arwyddocâd y ffactor ar gyfer y model hwn yn ymdebygu i arwyddocâd y ffactor hwn mewn ymchwil blaenorol ar llafariad *GOOSE* y Saesneg y soniwyd amdano yn **Gwall! Ffynhonnell y cyfeirnod heb ei ganfod.** (e.e. Hall-Lew 2005; Fridland 2008; Mesthrie 2010; Holmes-Elliott 2015). Yn debyg i'r ymchwil ar *GOOSE*, taflodolion oedd y cyd-destun rhagflaenol a gyflyra blaenu fwyaf yng Nghymraeg YUGC yn ogystal. Ymhellach, ceir llai o flaenu ar ôl cyd-destun anghorunol, fel a welir mewn astudiaethau ar *GOOSE* Saesneg. Yn wahanol i astudiaethau blaenorol ar flaenu-*GOOSE* y Saesneg, nid yw soniarusion yn rhwystro blaenu-/u(:)/ yng Nghymraeg YUGC.

Yr unig ffactor ystadegol arwyddocaol ar gyfer model F1 /ʊ/ oedd y setiau llafarog a gyflwynwyd yn 5.6.5. Fe wahaniaethwyd rhwng chwe set lafarog: tair sy'n perthyn i'r llafariad /u(:)/ a thair sy'n perthyn i'r llafariad /ʊ/, ac fe gynhwyswyd y setiau yn yr ymchwil er mwyn hwyluso'r modelau effeithiau cymysg fel y nodwyd yn 5.6.5. Nid yw ymchwil blaenorol yn cyfleu gwahaniaethau rhwng gwahanol setiau llafarog sy'n arddangos gwahanol gyd-destunau ffonolegol o fewn yr un llafariad, yn hytrach ceir setiau sy'n cynrychioli ffonem yn unig (e.e. Mayr et al. 2017). Golyga arwyddocâd y setiau llafarog fod cyfyngiad ieithyddol yn effeithio ar amrywio rhwng y setiau gwahanol sy'n cynrychioli gwahanol gyd-destunau ffonolegol.

Nesaf, ceir trafodaeth o unrhyw ffactorau pellach nad oeddent yn ystadegol arwyddocaol yn nadansoddiadau effeithiau cymysg is-adran 5.9 sy'n ennyn sylw pellach oherwydd patrymau gwerth eu nodi, neu gymhariaeth gydag ymchwil blaenorol.

Yn gyntaf, trafodwn effaith iaith yr aelwyd. Rhannwyd y disgyblion yn rhai o aelwydydd Cymraeg, lle roedd o leiaf un rhiant yn siarad Cymraeg gyda'r disgyblion, a rhai o aelwydydd di-Gymraeg lle siaredid ieithoedd eraill gyda'r disgyblion. Fel y nodwyd yn 3.4.2, roedd deg disgybl o aelwydydd Cymraeg, a phedwar disgybl ar ddeg o aelwydydd di-Gymraeg. Nid oedd iaith yr aelwyd yn ffactor ystadegol arwyddocaol yn y dadansoddiadau effeithiau cymysg. Gwelir felly gyferbyniad rhwng yr ymchwil hwn ac ymchwil ar gymunedau dwyieithog rhyngwladol eraill, sy'n cyfleu bod iaith yr aelwyd neu brofiad ieithyddol yn effeithio ar iaith (e.e. Simonet 2010, 2014; Simonet ac Amengual 2020). Er hynny, gwelir canfyddiadau tebyg i'r ymchwil mewn astudiaethau eraill ar y Gymraeg (Morris 2013, 2017; Mayr et al. 2017) lle nad oedd effaith arwyddocaol rhwng cynhyrchiant llafariaid pobl ifanc dwyieithog o wahanol gefndiroedd ieithyddol yng Nghymru. O ganlyniad, mae'r nodwedd hon yn ymdebygu i ymchwil diweddar ar y Gymraeg, lle nad yw iaith yr aelwyd yn ffactor sy'n effeithio ar amrywio fel y mae mewn cyd-destunau dwyieithog rhyngwladol eraill.

Rhannwyd y data ar sail rhywedd hefyd. Roedd deuddeg merch a deuddeg bachgen yn y sampl. Nid oedd rhywedd yn ffactor ystadegol arwyddocaol yn y modelau effeithiau cymysg yn 5.9. Yn y dadansoddiad archwiliadol, 5.8, gwelir fod rhywedd yn ffactor sy'n effeithio ar F2 y llafariaid caeedig cefn. Mae merched yn cynhyrchu llafariaid caeedig cefn blaenach na'r bechgyn yn y ddau ddadansoddiad. O ganlyniad felly, mae paralelau yma gydag astudiaethau Kerswill (2005), Flynn (2012) a Kleber et al. (2012) lle y cynhyrchir llafariaid caeedig cefn blaenach gan ferched na bechgyn.

Ymhellach, yn ôl Labov (2001) mae merched yn fwy tueddol o arwain newid islaw lefel ymwybyddiaeth na bechgyn. Er mai amrywio sy'n cael ei gofnodi yn yr ymchwil hwn ac nid newid, mae blaenu llafariaid caeedig cefn yn broses sy'n digwydd o dan lefel ymwybyddiaeth y siaradwr yn ôl ymchwil eraill ar flaenu llafariaid caeedig cefn *GOOSE* Saesneg (Holmes-Elliott 2015). Dengys hynny felly fod effaith rhywedd ar F2 /u(:)/ ac /ʊ/ yn

cyd-fynd ag egwyddor Labov (2001) ar effaith rhywedd ar newid islaw lefel ymwybyddiaeth (gw. 2.1).

Gellid dweud hefyd fod bechgyn yn cynhyrchu /ʊ/ fwy agored na'r merched yn YUGC, ac mae hynny'n arwyddocaol gan fod /ʊ/ fwy agored yn nodweddiadol o dafodiaith draddodiadol Saesneg Caerdydd fel y nododd Mees (1977) uchod (gw. 5.4.3). Dengys hyn effaith cyffyrddiad ieithyddol ar gynhyrchiad /ʊ/ disgyblion YUGC. Fel y nodwyd uchod, byddai angen cynnal ymchwil pellach er mwyn archwilio cyffyrddiad ieithyddol posibl, ac ynghlwm â hynny, effaith rhywedd arno wrth gynhyrchu /ʊ/.

Cafodd y disgyblion eu rhannu ar sail clystyrau arfer yn ogystal. Nid oedd clystyrau arfer yn ystadegol arwyddocaol fel ffactor yn effeithio ar y llafariad caeedig cefn yn 5.9. O ganlyniad, nid oedd amrywio ar sail strwythurau cymdeithasol ar gyfer y llafariad caeedig cefn. Er hynny, gellid arsylwi patrymu ar sail y clystyrau cymdeithasol yn ôl ansawdd y llafariad caeedig cefn. Ar gyfer llafariad /u(:)/ cynhyrchir F1 ac F2 cymharol uchel, ac felly llafariad blaenach a mwy agored gan 'Cymraeg_Chwaraeon', 'Sbartheiniaid' a'r 'Merched Poblogaidd'⁸. Mae'r tri chlwstwr arfer hyn yn ystyried cymdeithasu tu allan i'r ysgol fel rhai o'i prif ddiddordebau (4.3), ac yn treulio eu penwythnosau a'u hamser rhydd yng nghanol dinas Caerdydd. Cymherir hynny gyda'r tri clwstwr arfer arall, 'Rhun_Normal'⁹, 'Cassie_Geeks' a'r 'Bechgyn Meme Chat' a gynhyrcha F1 ac F2 is, ac felly ansawdd /u(:)/ llai blaen ac mwy caeedig. Yn unol â sylwadau yn 4.3, roedd y tri chlwstwr arfer hyn ychydig yn llai agored o ran strwythurau cymdeithasol, ac yn treulio eu hamser rhydd yn eu maestrefi o'u cymharu â'r tri clwstwr arfer a nodwyd uchod.

Felly, er nad yw clystyrau arfer yn ystadegol arwyddocaol, ceir patrwm amlwg yma lle y cynhyrchir ansawdd flaenach a mwy agored ar gyfer llafariad /u(:)/ gan glystyrau arfer canol y ddinas sydd â rhwydweithiau ehangach: maent yn glystyrau arfer mwy

⁸ Er hynny, nid oedd llafariad /u(:)/ clwstwr arfer y Merched Poblogaidd yr un mor agored â'r ddau glwstwr arfer arall.

⁹ Roedd clwstwr arfer Rhun_Normal yn cynhyrchu F1 uwch na'r Merched Poblogaidd, ac roedd dau aelod o gymuned arfer Rhun yn treulio'u hamser yn cymdeithasu yn y dref gyda amryw o bobl, felly gellid dweud eu bod nhw'n dilyn disgrifiad y tri chlwstwr arfer sy'n cynhyrchu'r fformantau uwch.

cymdeithasol, yn aml yn treulio eu hamser yn y dref. A yw'n bosibl felly, fod yr ansawdd blaenach, mwy agored hwn sy'n cael ei gynhyrchu gan y clystyrau arfer canol y ddinas yn rhan fwy nodweddiadol o Gymraeg Caerdydd, fel yr awgrymwyd uchod yn achos dadansoddiad tasg? Ceir felly batrwm tebyg yma rhwng y clystyrau cymdeithasol a'r clystyrau llai cymdeithasol a geir yn Eckert (1991) gyda'r *burnouts* a'r *jocks*.

Ceir patrymau cymharol debyg ar gyfer llafariad /ʊ/ ond nid yw'r clystyrau arfer canol y ddinas a'r clystyrau arfer maestrefol yn patrymu'n union fel y gwnaethpwyd ar gyfer /u(:)/ uchod. Yn debyg, mae clystyrau arfer 'Cymraeg_Chwaraeon' a'r 'Merched Poblogaidd' yn cynhyrchu'r /ʊ/ flaenaf, ac eto 'Rhun_Normal' yn cynhyrchu fformantau gweddol uchel yn ogystal. Eto gwelir fformantau isel gan 'Cassie_Geeks' a'r 'Bechgyn Meme Chat' ar gyfer F2, ond y tro hwn, ceir fformantau gweddol isel gan y 'Sbarteiniaid' hefyd. Ar gyfer F1, ceir cymedr uchel gan y 'Sbarteiniaid' a 'Cymraeg_Chwaraeon' a chymedr isel gan 'Cassie_Geeks' a 'Rhun_Normal', ond hefyd ceir cymedr uchel gan y 'Bechgyn Meme Chat' a chymedr cymharol isel gan y 'Merched Poblogaidd'.

Dosbarthwyd tocynnau llafariad caeedig cefn YUGC i wahanol gyd-destunau seinegol olynol. Y cyd-desunau seinegol olynol dan sylw oedd seibiau, cytseiniaid, llafariad a soniarusion. Nid oedd cyd-destun seinegol olynol yn ffactor ystadegol arwyddocaol yn y dadansoddiadau effeithiau cymysg. Arddangosir patrymau amrywiol yn nadansoddiadau archwiliadol effaith cyd-destun seinegol olynol ar gyfer /u(:)/ yn 5.8.2.2. Ar gyfer F2 /u(:)/ ceir trefn hierarchol o'r isaf i'r uchaf fel a ganlyn, seibiau > cytseiniaid > llafariad > soniarusion. Y drefn gyffredin a geir mewn ymchwil ar flaenu-GOOSE y Saesneg yw cytseiniaid > seibiau > llafariad (Fridland 2008; Flynn 2012) a chytseiniaid > seibiau > soniarusion (Holmes-Elliott 2015; Howley 2015). Felly, ceir tebygrwydd rhwng trefnau hierarchol cyffredin GOOSE y Saesneg, a threfn hierarchol F2 /u(:)/ disgyblion YUGC. Er y gwelir trefnau tebyg felly, seibiau yw'r cyd-destun olynol sy'n cyflyru'r /u(:)/ flaenaf yn y Gymraeg, ac nid cytseiniaid fel mewn ymchwil ar flaenu-GOOSE y Saesneg.

5.11 Crynodeb

Yn y bennod hon dadansoddwyd ansawdd y ddwy lafariad gaeedig gefn /u(:)/ ac /ʊ/ yng Nghymraeg YUGC. Canfuwyd y ceir amrywio ansoddol rhwng y ddwy lafariad gaeedig gefn yng Nghymraeg YUGC, sy'n cadarnhau amrywiaeth rhwng ansawdd y ddwy lafariad hon yn y Gymraeg fel y trafodwyd yn 5.4.1. Mae'r ddwy lafariad yn blaenu a thrwy gyfeirio at raddfa flaenu Mesthrie (2010, t. 11), gellid dweud bod /u(:)/ yn blaenu i safle eithaf blaen, a /ʊ/ i safle ganol, fel y gwelir mewn amrywiadau o dde'r Deyrnas Gyfunol (Ferragne a Pellegrino 2010, t. 28). O safbwynt uchder y llafariad, trwy gymharu â data blaenorol (Ferragne a Pellegrino 2010, t. 28; Mayr a Davies 2011; Mayr et al. 2017) gellid dweud bod ansawdd mwy agored gan lafariad caeedig cefn disgyblion YUGC, nag mewn amrywiadau Saesneg eraill ac amrywiadau Cymraeg mwy traddodiadol. Honnir bod cyffyrddiad ieithyddol o Saesneg Caerdydd ar waith, ond bydd angen cynnal ymchwil pellach er mwyn cadarnhau hynny.

Dengys y drafodaeth uchod hefyd fod gwahanol ffactorau cymdeithasol ac ieithyddol yn effeithio ar ansawdd llafariad caeedig cefn disgyblion YUGC yn y dadansoddiadau effeithiau cymysg. Cafwyd amrywio ar sail arddull trwy'r dadansoddiad tasg, a ddengys ansoddau amrywiol mewn cyd-destunau a oedd yn amrywio mewn ffurfioldeb. Cafwyd hefyd amrywio ar sail cyfyngiadau ieithyddol gyda'r setiau llafarog yn arwyddocaol yn ogystal. Nid oedd iaith yr aelwyd yn effeithio ar batrymau amrywio yn y dadansoddiadau effeithiau cymysg, sy'n cyd-fynd â gwaith diweddar ar y Gymraeg (Morris 2013, 2017; Mayr et al. 2017) ond yn cyferbynnu ag ymchwil rhyngwladol ar gymunedau dwyieithog (Simonet 2010, 2014; Simonet ac Amengual 2020) .

6 Amrywio ffonolegol (ai) yn y sillaf olaf ddiacen

6.1 Cyflwyniad


Yn y bennod hon, ceir dadansoddiad o amrywio ffonolegol (ai) y Gymraeg yn y sillaf olaf ddiacen. Mae (ai) yn cynnwys yr orgraffynnau <ae>, <ai> ac <au> sydd yn cynrychioli'r ddeusain /ai/ mewn cyd-destunau ffurfiol. Mae gan yr orgraffynnau hyn oll yr un amrywiolion tafodieithol traddodiadol, sef /ɛ/ ac /a/. Golyga hynny fod yr un 3 amrywiolyn posibl, sef /ai/, /ɛ/ ac /a/ yn bosibl ar gyfer y 3 orgraffyn uchod ar gyfer (ai). O ganlyniad i hynny penderfynwyd dadansoddi'r tri orgraffyn dan sylw gyda'i gilydd. Ceir mwy o fanylder ar ddsbarthiad traddodiadol yr amrywiolion hyn isod.

Diben ymchwilio i amrywio ffonolegol yr orgraffynnau <ae>, <ai> ac <au> yw canfod i ba raddau y mae cyffyrddiad tafodieithol rhwng amrywiadau traddodiadol y Gymraeg a safoni yn digwydd mewn geiriau sy'n terfynu gydag <ae>, <ai> ac <au> yng Nghymraeg y disgyblion. Bydd unrhyw amrywio rhwng yr amrywiolion a gyflwynwyd uchod yn taflu goleuni ar gyffyrddiad tafodieithol, trwy gynhyrchiad ffurfiau tafodieithol traddodiadol /ɛ/ ac /a/, a safoni, trwy gynhyrchiad ffurf safonol /ai/, nad yw'n gyffredin mewn amrywiadau Cymraeg llafar traddodiadol.

Ymhellach, mae'r ymchwil hwn yn mesur effaith gwahanol ffactorau ieithyddol a chymdeithasol ar ddefnydd disgyblion YUGC o (ai) yn y sillaf olaf ddiacen, a'u profi gyda dulliau ystadegol. Gwnaethpwyd hyn er mwyn canfod effaith ffactorau ar amrywio gan ddisgyblion YUGC fel sy'n gyffredin mewn gwaith amrywio ieithyddol gyfoes. Mae ymchwil blaenorol wedi ymchwilio i'r sain (ai) ond nid oes ymchwil wedi ei wneud yn edrych ar amrywio wrth ystyried ystod o ffactorau ieithyddol a chymdeithasol megis iaith aelwyd.

Dengys Ffigur 37 isod (Thomas a Thomas 1989, t. 41) ddsbarthiad yr amrywiolion traddodiadol sydd gan (ai) y soniwyd amdanynt uchod. Mae amrywio ffonolegol (ai) gan mwyaf wedi ei astudio ar gyfer terfyniadau lluosog (Ball, Griffiths a Jones 1988; Jones 1998; Cole Jones 2008). Yn draddodiadol mae'r terfyniad '-au' yn cael ei ynganu fel /ɛ/ yn ne-

orllewin a gogledd-ddwyrain Cymru, tra bo siaradwyr Cymraeg y gogledd-orllewin yn ei ynganu fel /a/ (Thomas 1984, t. 189). Yn hanesyddol roedd y de-ddwyrain yn defnyddio /a/ hefyd (gw. Ffigur 37; Jones 1998) ond nid yw'n glir erbyn hyn pa amrywiolyn sydd fwyaf cyffredin yno.



Ffigur 37 – Tiriogaeth -a (o'i chymharu ag -e) yn y sillaf olaf ddiacen yn y Gymraeg yng Nghymru (Thomas a Thomas 1989, t. 41)

Ceir hefyd ymchwil sy'n canolbwyntio ar amrywio tafodieithol rhwng yr amrywiolion /ε/ ac /a/ yn y sillaf olaf ddiacen mewn geiriau nad ydynt yn ffurfiau lluosog (Jones 1988; Morgan 1995; Awbery 2012). Mae'r rhain yn cynnwys ymchwil ar yr orgraffynnau dan sylw yn yr ymchwil hwn. Mae'r ffurfiau hyn o ddiddordeb gan fod effaith amrywio daearyddol i'w gweld. Yn y gogledd-orllewin, byddai'r ffurfiau [χwara] am 'chwarae' a [†indan] am 'Llundain' yn gyffredin, ond yn y De-orllewin, byddai [χwarE] a [†indEn] yn gyffredin. Yn ychwanegol mae Awbery (2012) a Jones (1984) wedi ystyried geiriau sy'n cynnwys <e> yn orgraffyddol, sy'n amrywio ag /a/ ar lafar gan siaradwyr gogleddol, e.e. 'amser', 'ateb'. Ni fydd yr ymchwil hwn yn ystyried y newidyn hwn, ac hynny am nad yw'r newidyn yn cynnwys yr un amrywiolion ag orgraffynnau <ae>, <ai> nag <au>.

Mae Jones (1998) yn adrodd cynnydd yn y defnydd o'r ôl-ddodiaid safonol ymysg pobl ifanc yn ardaloedd Rhosllannerchrugog a'r Rhymni, fel y soniwyd amdano yn 3.8.6. Cyflwynir ganddi'r cysyniad o safoni yn y Gymraeg. Nid oes ffurf lafar safonol o'r Gymraeg yn bodoli, ond fel y dywed Thomas (1987, t. 50):

there are tendencies toward a generally recognized spoken model which can be characterized in terms of the broadly phonological structure of the orthography, but not in terms of the phonetic values of its constituents

Felly, mae dehongliad Jones (1998) o ffurfiau safonol ar lafar yn y Gymraeg yn ymwneud â pherthynas glòs rhwng patrymau orgraffyddol (h.y. graffemau) a'r ffonemau sy'n cyfateb iddynt, gyda defnydd uchel o ffurfiau orgraffyddol yn dynodi Cymraeg llafar safonol. Byddwn yn defnyddio'r dehongliad hwn gan Jones (1998) ar gyfer ystyried y defnydd posibl o /ai/ fel safoni posibl.

Mae bylchau yng nghorff yr ymchwil ar gynhyrchiad (ai) yn y sillaf olaf ddiacen. Yn gyntaf, nid oes ymchwil flaenorol wedi canfod pa amrywiolion sy'n gyffredin yng Nghymraeg Caerdydd. Ymhellach, dyma fydd yr unig ymchwil ar amrywio ffonolegol (ai) yn y sillaf olaf ddiacen gydag egwyddor amrywio ieithyddol, yn dadansoddi gwahanol ffactorau ieithyddol a chymdeithasol ar (ai) yn y sillaf olaf ddiacen. Mae hyn yn wahanol i Jones (1998) sy'n

cofnodi amrywiadau o safbwynt darfordiad tafodieithol a safoni. O ganlyniad i'r bylchau hyn yn yr ymchwil blaenorol, byddaf yn cyflwyno dau gwestiwn ymchwil yn y bennod hon:

1. Pa amrywiolion y mae disgyblion YUGC yn eu cynhyrchu ar gyfer (ai) yn y sillaf olaf ddiacen?
2. Sut y mae ffactorau ieithyddol a chymdeithasol yn effeithio ar amrywio?

Felly, bydd y bennod hon yn gyntaf yn cyflwyno ymchwil blaenorol ar amrywio (ai) yn y sillaf olaf ddiacen cyn crynhoi casgliadau'r ymchwil blaenorol a'u perthnasedd i'r ymchwil hwn. Cafwyd eu trefnu o safbwynt perthnasedd yr astudiaethau hyn i'r ymchwil hwn. Wedyn, ceir is-adran yn cyflwyno'r fethodoleg a ddefnyddir ar gyfer dadansoddi'r nodwedd hon. Yn dilyn hynny, dangosir y canlyniadau ar gyfer pob orgraffyn dan sylw a chyfraddau'r gwahanol amrywiolion a gynhyrchir gan y disgyblion. Wedi hynny ceir is-adrannau yn cyflwyno gwahanol ddadansoddiadau ystadegol: dadansoddiadau archwiliadol, dadansoddiadau pellach a dadansoddiadau effeithiau cymysg. Yn olaf ceir trafodaeth ar ddadansoddiadau a chanlyniadau'r bennod cyn y casgliad i gloi.

6.2 Ymchwil blaenorol

6.2.1 Mari C Jones (1998) – *Language Obsolescence and Revitalization*

Yn ei hastudiaeth o ddarfordiad ac adfywio ieithyddol ar y Gymraeg, edrycha Jones (1998) ar ddefnydd o'r ôl-ddodiaid lluosog yn nhafodieithoedd Cymraeg Cwm Rhymni a Rhosllannerchrugog. Cynhaliwyd dadansoddiad o amrywiolion yr ôl-ddodiad lluosog '-au' er mwyn mesur defnydd yr amrywiolyn safonol /ai/, y ffurfiau tafodieithol lleol, sef [a] yng Nghwm Rhymni ac [ɛ] yn Rhosllannerchrugog, yn ogystal ag unrhyw ffurfiau tafodieithol o ardaloedd nad oeddent yn wreiddiol yn perthyn i'r ardal honno, o ganlyniad i gyffyrddiad tafodieithol (Jones 1998, t. 59) fel y nodwyd yn 3.8.6.

Darganfuwyd yng Nghwm Rhymni fod yr ôl-ddodiad [a] traddodiadol yn lleihau trwy'r grwpiau oedrannau tan ei warediad llwyr yn y grŵp ieuengaf (Jones 1998, t. 96). Nodwyd cynnydd yn nefnydd yr ôl-ddodiad safonol wrth fynd trwy'r grwpiau oedrannau o'r

hynaf i'r ieuengaf. Felly, yn gyffredinol, roedd siaradwyr o'r grŵp 40–59 ac iau yng Nghwm Rhymni yn fwy tueddol o ddefnyddio'r ffurf safonol, na'r ffurf lafar draddodiadol. Dengys Tabl 28 ganrannau defnydd yr ôl-ddodiaid lluosog ar gyfer <au> yng Nghwm Rhymni fesul oed ac amrywiolyn (Jones 1998, t. 96).

Tabl 28 – Defnydd o ôl-ddodiaid lluosog fesul oedran yng Nghwm Rhymni yn ôl Jones (1998, t. 96).

	[a] %	[ɛ] %	[ai] %
7–19	0	32	68
20–39	0	33	67
40–59	30	22	48
60–74	46	39	16
75+	58	32	11

Edrycha Jones (1998) ar gymuned Rhosllannerchrugog, tref yng Ngogledd-ddwyrain Cymru. Sylwir hefyd fod y ffurf leol draddodiadol, y tro hwn yr ôl-ddodiad [ɛ], yn lleihau ymysg y grwpiau ieuengaf (Jones 1998, t. 19). Ac fel yng Nghwm Rhymni, yr ôl-ddodiad safonol [ai] sy'n cael ei ddefnyddio fwyaf gan blant ysgol, ond nid yw'n ymddangos y tu allan i'r grwpiau hynny (Jones 1998, t. 192). Dengys Tabl 29 ddisbarthiad defnydd yr ôl-ddodiaid lluosog ar gyfer <au> yn y Rhosllannerchrugog (Jones 1998, t. 193). ε

Tabl 29 – Defnydd o ôl-ddodiaid lluosog fesul oedran yn Rhosllannerchrugog yn ôl Jones (1998, t. 193)

	[ɛ] %	[a] %	[aɪ] %
Addysg Cyfrwng Saesneg ¹⁰	58	0	42
7–19	56	9	35
20–39	95	2	3
40–59	97	0	3
60–74	98	0	2
75+	99	0	1

Gwelir yn Tabl 28 fod defnydd cyson o ôl-ddodiad [ɛ] nad yw'n frodorol yng Nghwm Rhymni, ac felly enghraifft o gymysgu tafodieithol. Nid oedd amrywio mawr rhwng gwahanol oedrannau chwaith felly gellid dweud bod hyn yn dystiolaeth o gymysgu tafodieithol hirdymor yn Nghwm Rhymni. Yn Tabl 29, gwelir bod defnydd is o'r ôl-ddodiad [a] nad yw'n frodorol yn achos Rhosllannerchrugog, o'i gymharu â Chwm Rhymni. Ceir gwahaniaeth rhwng sefyllfa Cwm Rhymni, sef bod defnydd o'r ôl-ddodiad nad yw'n frodorol yn cynyddu ymysg siaradwyr iau, ac felly ffenomen newydd yw cyffyrddiad tafodieithol, sy'n sefydlu ymysg y siaradwyr iau. Er hynny, dim ond yng Nghymraeg pobl ifanc sy'n mynychu addysg cyfrwng Cymraeg y mae'n ymddangos, a gellid honni bod hynny oherwydd defnydd neu brofiad helaethach o'r Gymraeg mewn addysg cyfrwng Cymraeg, ac felly hefyd brofiad uwch o wahanol amrywiadau o'r Gymraeg gan ddisgyblion cyfrwng Cymraeg.

Gwelir yn Tabl 28 a Tabl 29 mai'r amrywiolyn safonol [ai] sy'n cael ei ddefnyddio'n ehangaf yn y ddwy ardal dan sylw gan y grwpiau ieuengaf. Yn ôl Jones (1998, t. 192):

as the suffix found most commonly in written Welsh, [ai] is being encountered on a daily basis by these informants and accordingly, it is having an effect on their Welsh

¹⁰ Yn Rhosllannerchrugog, roedd carfan o siaradwyr Cymraeg a oedd yn mynychu ysgol uwchradd addysg cyfrwng Saesneg wedi'u cynnwys yn y data.

Mae'n debygol iawn felly fod addysg wrth wraidd twf y ffurf safonol hon a welir yn Rhosllannerchrugog a Chwm Rhymni. Yn ôl Jones (1998, t. 153) 'by default, the pupils' spoken Welsh becomes derived from this book-Welsh variety, with its lack of regional features'. Disgrifiwyd hyn yn ogystal gan Thomas (1991, t. 46) yng nghyd-destun y de-ddwyrain: 'the Welsh spoken by the new speakers is stereotypically marked by features which are not characteristic of other, traditional varieties'. Gellid hefyd lunio cymhariaeth gyda Nance (2013, t. 156; Nance et al. 2016) yma, a ddywed nad oedd Gaeleg pobl ifanc Glasgow yn cynnwys yr un strwythurau nodweddiadol ag a geir mewn amrywiadau mwy traddodiadol ar Aeleg yr Alban.

Trafoda Jones (1998, t. 2) oblygiadau safoni yn y Gymraeg:

it will be shown that dialect death in Wales may involve the divesting of regional features and an approximation to a commonly accepted uniform variety, which is being poliferated throughout a speech community: in other words, it forms part of the phenomenon of standardization.

Noda Jones (1994, 1998) ganfyddiadau tebyg am yr Wyddeleg a'r Llydaweg a drafodir yn is-adran 2.4. Felly cysyllta Jones (1998) y lefelu tafodieithol hwn, lle y defnyddir ffurfiau safonol yn hytrach na'r amrywiolion tafodieithol traddodiadol, fel arwydd posibl o ddarfodiad tafodieithol o safbwynt y tafodieithoedd traddodiadol, gydag amrywiadau'r ysgolion hyn yn cymryd eu lle. Ni fydd yr astudiaeth hon yn ystyried goblygiadau darfodiad tafodieithol fel y mae astudiaeth Jones (1998).

6.2.2 Ball, Griffiths a Jones (1988) – 'Broadcast Welsh'

Yn Ball, Griffiths a Jones (1988) dadansoddwyd y math o Gymraeg a ddefnyddiwyd yn y cyfryngau Cymraeg. Ystyriwyd Cymraeg ar raglenni Radio BBC Radio Cymru yn ogystal â rhaglenni teledu S4C. Yn benodol i'r ymchwil hwn, mae Ball, Griffiths a Jones (1988) yn ystyried y defnydd o'r ôl-ddodiad lluosog '-au' ar raglenni S4C a BBC Radio Cymru.

Canfu Ball, Griffiths a Jones (1988, t. 193) ffenomen cymysgu tafodieithol yn eu hymchwil ar Gymraeg gohebu fel y nodwyd uchod yng nghyd-destun astudiaeth Jones (1998) uchod:

Interestingly, though, newscasters and commentators with a N[orth] W[est] accent are showing a tendency to adopt the [ɛ] variant which suggests that it may come to be regarded as more appropriate than the [a] variant, and its adoption by speakers of NW will neutralize its impact as a marker of regional speech

Felly roedd cymysgu tafodieithol ymysg gohebwy newyddion Cymraeg o ogledd-orllewin Cymru wrth iddynt ddefnyddio'r ôl-ddodiad [ɛ], sy'n ffurf lafar yn perthyn i'r de neu'r gogledd-ddwyrain, wrth ddarlledu, yn hytrach na'r [a] sy'n draddodiadol gan siaradwyr o'r gogledd-orllewin.

Ymddengys felly fod elfen o fri ieithyddol yn perthyn i'r ôl-ddodiad llafar [ɛ] o'i gymharu â'r ôl-ddodiad llafar [a] yng nghyd-destun darlledu Cymraeg. Gellir awgrymu yma y gall fod a wnelo hyn yn rhannol â'r [ɛ] orgraffyddol mewn ffurfiau fel 'ateb' a 'carreg'. Mae'n bosibiliad hefyd bod [ai] yn orffurfiol, neu'n rhy debyg i iaith lyfr ar gyfer gohebwy. Nid oes gwaith canfyddiadol yn bodoli sy'n ymchwilio i werthusiad y ffurfiau gwahanol hyn.

6.2.3 Morgan (1995) – *Iaith Newyddion BBC Cymru*

Yn debyg i Ball, Griffiths a Jones (1988), dadansoddwyd Cymraeg cyflwynwyr newyddion teledu BBC Cymru ym Morgan (1995). Dadansoddwyd defnydd o dri newidyn, gan gynnwys ynganiad '-aeth' yn y sillaf olaf ddiacen, a chynhyrchiad yr ôl-ddodiad lluosog '-au', yn lleferydd dau gyflwynydd rhaglen '*Newyddion*' BBC Cymru. Dengys canlyniadau Morgan (1995) fod y cyflwynydd benywaidd o dde-orllewin Cymru yn defnyddio ffurf dafodieithol [ɛθ] yn unig ar gyfer '-aeth', a ffurf dafodieithol [ɛ] ar gyfer '-au' 98.5% o weithiau. O ganlyniad ni chafwyd amrywio sylweddol yn lleferydd y cyflwynydd o dde-orllewin Cymru.

Ar y llaw arall, cafwyd amrywio yn nefnydd y cyflwynydd o ogledd-orllewin Cymru o ffurfiau safonol a thafodieithol. Cynhyrchwyd y ffurf safonol [aiθ] ar gyfer '-aeth' 93.5% o

weithiau; yng ngweddill yr achosion defnyddiwyd [ɛθ], yn hytrach nag [aθ]. Ar gyfer ‘-au’ lluosog, cynhyrchwyd y ffurf safonol [ai] 61.5% o weithiau, a ffurfiau tafodieithol 37.7% o weithiau, gyda 7.7% o’r gyfradd hon yn cynrychioli’r ffurf [ɛ] nad yw’n frodorol i’r siaradwr gogledd-orllewinol. O ganlyniad felly, gwelir tystiolaeth o gymysgu tafodieithol yn sgwrs y cyflwynydd gogledd-orllewinol, yn ogystal â defnydd sylweddol o ffurfiau safonol.

Yn yr un modd, dadansoddwyd rhaglen *ffeil* gan Morgan (1995) sef rhaglen newyddion a grëwyd gan y BBC wedi’i llunio ar gyfer pobl ifanc. Adlewyrcha dadansoddiad Morgan (1995) o’r rhaglen hon ddefnydd y tri amrywiolyn posibl o ‘-aeth’, a hynny’n aml gan wahanol gyflwynwyr. Ar gyfer yr ôl-ddodiaid lluosog ‘-au’, cynhyrchwyd y tri amrywiolyn yn ogystal, ond y tro hwn cynhyrchwyd y ffurf [ɛ] yn llawer amlach na’r ffurf [a]. Awgryma hyn fod gohebwyd y BBC eto yn ffafrio’r ffurf [ɛ] dros y ffurf [a].

6.2.4 Jones (2006) – ‘Datblygiad y Gymraeg fel cyfrwng i gyflwyno ac i drafod y newyddion’

Yn N.C. Jones (2006) dadansoddwyd terfyniadau lluosog ‘-au’ yn rhaglen deledu *Newyddion* S4C, a rhaglen radio *Post Prynhawn* BBC Radio Cymru. Dengys Jones (2006, t. 262) y cynhyrchwyd y ffurfiau tafodieithol ‘-e/a’ 94.2% o weithiau yn y rhaglenni hyn,¹¹ a chynhyrchwyd y ffurf safonol ‘-au’ 5.8% o weithiau. Dengys hyn felly fod amrywiolion tafodieithol y ffurf luosog ‘-au’ yn llawer mwy cyffredin ar y rhaglenni hyn, ac felly fod defnyddio’r ffurfiau tafodieithol hyn yn rhan o’r lleferydd sy’n cael ei ddefnyddio wrth ohebu yn y Gymraeg, fel y dengys is-adrannau 6.2.2 ac 6.2.3 hefyd.

Yn ôl Jones (2006, t. 263) ‘mae’r ynganiadau hyn yn cyd-fynd eto â chanllawiau *Cymraeg Byw* 2 lle yr argymhellir ynganu ai/au/ae yn y sillaf olaf ddiacen fel -e neu’r amrywiad llafar priodol’. Er hynny, yn *Cymraeg Byw* 1, argymhellir defnyddio ffurfiau safonol ‘fel na chrëir anawsterau i astudio’r iaith yn ei ffurf lenyddol wedi dysgu ei siarad hi’ (1964, t. 7). Ffurfiwyd y cysyniad o *Gymraeg Byw* fel amrywiad llafar safonol o’r Gymraeg ac yn bont rhwng Cymraeg safonol ac amrywiadau Cymraeg llafar traddodiadol. Diben *Cymraeg Byw* oedd cynnig patrwm i ddysgwyr ac ysgolion o iaith lafar dderbyniol a chenedlaethol.

¹¹ Nid yw Cole Jones (2006) yn manylu ar gyfraddau y defnydd o -e ac -a ar wahân.

6.2.5 R.O. Jones (1988) – ‘Language variation and social stratification: Linguistic change in progress’

Mae Jones (1988) yn archwilio amrywio ieithyddol mewn cymuned ddwyieithog Cymraeg-Sbaeneg yn y Gaiman, Patagonia. Ymdrinia Jones (1988) â'r gwaith o dan ddylanwad agweddau amrywio ieithyddol cyfoes y cyfnod dan sylw gan sosioieithyddion y cyfnod megis Chambers a Trudgill (1980). Cyferbynna hyn â gwaith ieithyddol y cyfnod hwn a dueddai i ddadansoddi iaith lafar mewn perthynas â'r iaith ffurfiol neu amrywiadau breintiedig. Diffiniwyd y math hwn o waith tafodieithol sy'n pwysleisio agwedd heterogenaidd cymunedau o siaradwyr fel 'the study of language in human context' gan Jones (1988, t. 290).

Yn berthnasol i'r ymchwil hwn, ymchwiliwyd i'r defnydd o /a/ ac /e/ yn y sillaf olaf ddiacen yng Nghymraeg y Gaiman yn yr orgraffynnau <ae>, <ai> ac <au> yn ogystal ag yn yr orgraffyn <e>. Yn gyntaf, nodwyd nad yw siaradwyr y Gaiman yn cynhyrchu'r ffurf [ai] safonol fel amrywiolyn llafar (Jones 1988, t. 294). Yn hytrach dim ond /a/ ac /e/ sy'n codi mewn iaith lafar.

Esbonia Jones (1988, t. 293) y cafwyd patrwm gwahanol yn y Gaiman o'i gymharu ag yn nhafodieithoedd Cymraeg traddodiadol Cymru lle ceir naill ai /a/ yn unig neu /e/ yn unig mewn gwahanol gyd-destunau geirfaol. Er hynny, dadleua Jones mai nid achos o gymysgu tafodieithol a geir yn y Gaiman, ond yn hytrach, tystiolaeth o newid ar waith oherwydd bod siaradwyr hŷn yn cynhyrchu un patrwm, a siaradwyr iau yn cynhyrchu patrwm gwahanol. Ymysg siaradwyr hŷn yn y Gaiman, cynhyrchiwyd /e/ yn y sillaf olaf ddiacen ar gyfer <ae>, <ai> ac <au> mewn enwau unigol, berfenwau ac ansoddeiriau, ond /a/ ym nherfyniad enwau lluosog 'au'. Nid yw'r patrwm hwn yn ymddangos yn iaith siaradwyr iau; yn hytrach, cynhyrcha'r siaradwyr iau /a/ yn y cyd-destunau lle y cynhyrcha'r siaradwyr hŷn /e/ (Jones 1988, t. 295).

Er hynny, nid yw'r newid hwn cyn symled â newid ar sail oedran yn unig. Yn hytrach, mae siaradwyr ieuengaf sy'n rhan o rwydweithiau clòs y capel, ac felly ddiwylliant Cymreig Patagonia, yn dal i gynhyrchu /e/ ym mwyafrif yr achosion, er yn llai aml na'r siaradwyr hŷn.

I'r gwrthwyneb, mae siaradwyr ieuengaf nad oeddent yn rhan o rwydweithiau clòs y capel a'r diwylliant Cymreig oedd ynghlwm â hynny yn dilyn y patrwm a amlinellwyd uchod o gynhyrchu /a/ yn hytrach nag /e/ (Jones 1988, t. 297).

Ychwanega Jones (1988, t. 305) hefyd nad yw'r rhwydweithiau mwy Cymreig hyn yn bodoli i'r un graddau ymhlith y siaradwyr ieuengaf ag yr oeddent i'r cenedlaethau blaenorol:

the decline of the Welsh chapel and the closure of Yr Ysgol Ganolradd which at one time set the linguistic norms, has meant that there is no longer a recognizable 'standard' nor are there institutions which can uphold this standard.

Felly gellid dehongli bod lleihad neu ddiflaniad y sefydliadau hyn a oedd yn allweddol wrth gynnal rhwydweithiau Cymreig wedi arwain at leihad yn y defnydd o /e/ gan y siaradwyr ieuengaf. Ymhellach, mae'n arwyddocaol fod Jones (1988, t. 105) yn cysylltu'r newid o /e/ i /a/ ag anallu i safoni. O ganlyniad, mae dehongliad Jones (1988) ychydig yn wahanol i ymchwil eraill sy'n ystyried /e/ ac /a/ fel amrywiolion tafodieithol ansafonol fel ei gilydd.

6.2.6 Awbery (2012) – 'Welsh language wills and inventories: exploring dialect variation in the past'

Yn Awbery (2012) dadansoddwyd amrywio ffonolegol hanesyddol yn y sillaf olaf ddiacen mewn ewyllysiau a rhestrau eiddo o'r 18^{fed} a'r 19^{eg} ganrif yng ngogledd Cymru. Yn benodol, mae Awbery (2012) yn ystyried colli cyferbyniad yn y sillaf olaf ddiacen. Hynny yw, yn amlwg mae cyferbyniad amlwg yn yr orgraff rhwng 'amser' ac 'araf', ond yn y gogledd-orllewin, cynhyrchir [amsar] ac [arav], ac felly colliwyd y cyferbyniad neu niwtraleiddir y gwahaniaeth rhwng [ɛ] ac [a] yn y sillaf olaf ddiacen (Awbery 2012, tt. 137–138). Ystyriwyd hefyd y cyferbyniad yn yr orgraffynnau <ae>, <ai> ac <au>, lle y cynhyrchir [ɛ] yng ngogledd-ddwyrain Cymru ac [a] yng ngogledd-orllewin Cymru.

Defnyddiwyd tystiolaeth hanesyddol, o ewyllysiau a rhestrau eiddo o'r 18^{fed} a'r 19^{eg} ganrif er mwyn ceisio canfod darlun o sut y dechreuodd y nodwedd ffonolegol hon o golli cyferbyniad. Yn neunydd Awbery (2012, t. 161), nid oes tystiolaeth o golli cyferbyniad gydag

[a] cyn y 18^{fed} ganrif, ond ar y llaw arall mae tystiolaeth o golli cyferbyniad gydag [e], yng ngogledd-ddwyrain a gogledd-orllewin Cymru. Yn ôl Awbery felly (2012, tt. 161–162) cyn y 18^{fed} ganrif cafwyd [ɛ] ar hyd gogledd Cymru. Wedi hynny, newidiwyd ansawdd [ɛ] yn y sillaf olaf ddiacen i [a], a hynny mewn llafariad syml a deuseiniaid.

O ran y gwahanol fathau o ffynonellau hanesyddol a'u cynnwys, cynhyrchwyd ffurfiau tafodieithol yn fwy cyffredin mewn rhestrau eiddo, o'u cymharu ag ewyllysiau, sy'n cynnwys ffurfiau mwy ffurfiol (Awbery 2012, t. 156) ar gyfer llafariad syml a deuseiniaid orgraffyddol. Nodwyd amrywio ar waith mewn ewyllysiau a rhestrau eiddo mewn llafariad syml a deuseiniaid rhwng y 18^{fed} ganrif a'r 19^{eg} ganrif. Lleihawyd y defnydd o ffurfiau tafodieithol a oedd yn berthnasol i'r ardaloedd penodol a chafwyd cyfradd '-a' is yn Sir Fôn a Sir Gaernarfon, a chyfradd '-e' is yn Sir Feirionnydd, Sir Ddinbych a Sir y Fflint rhwng dogfennau 18^{fed} ganrif a dogfennau'r 19^{eg} ganrif.

6.2.7 Thomas (1984) – 'Linguistic and non-linguistic boundaries in north-east Wales'

Archwiliodd Thomas (1984) yr ardal drawsnewid rhwng y gogledd-orllewin a'r gogledd-ddwyrain, rhwng Dyffryn Conwy a Dyffryn Clwyd, gan holi a oes cydberthynas rhwng ffin ieithyddol y nodwedd hon a ffiniau unedau gweinyddol yr oesoedd canol, megis cantrefi a chymydau. Unwaith yn rhagor, edrychir ar yr orgraffynnau <ae>, <ai> ac <au> gan ganolbwyntio ar yr amrywio rhwng [a] ac [ɛ] mewn gwahanol ardaloedd o fewn yr ardal drawsnewid hon.

Cafwyd siaradwyr o bentrefi gwahanol rhwng Dyffryn Conwy a Dyffryn Clwyd, a chofnodwyd defnydd o [a] ac [ɛ] gan siaradwyr ym mhob pentref. Un canfyddiad o ymchwil Thomas (1984, tt. 192–3) yw diffyg ardaloedd trawsnewid â llawer o amrywio, gyda phentrefi Llanefydd a Llansannan, lle y cynhyrchwyd [a] 18% o weithiau neu lai, chwe milltir yn unig i ffwrdd o bentrefi Llangernyw a Phandy Tudur, lle ceir [a] dros 90% o weithiau.

Adlewyrchwyd y newid sydyn rhwng ardaloedd wrth archwilio cantrefi canoloesol hefyd. Cymherir y ddau gantref canoloesol, Rhos a Rhufoniog, a gwelir ar y cyfan nad oedd cydberthynas glir rhwng y defnydd [ɛ] ac [a] yn y sillaf olaf ddiacen a ffiniau unedau

gweinyddol yr oesoedd canol (Thomas 1984, t. 198). Ymhellach, edrychodd Thomas (1984, tt. 200–202) ar effaith trefi marchnad ar ffin [a]-[ε]. Nid oedd unrhyw batrwm clir chwaith, er enghraifft, o'r ddau bentref cyfagos i Lanrwst, roedd [ε] fwyaf cyffredin ym mhentref Gwytherin ac [a] fwyaf cyffredin ym Mhandy Tudur. Ystyriwyd hefyd y syniad o deyrngarwch i'r llan yn ogystal fel ffordd o egluro gwahaniaeth rhwng pentrefi cyfagos.

6.2.8 Casgliadau o'r ymchwil blaenorol a'u perthnasedd i'r ymchwil hwn

Cyn symud ymlaen i drafod y fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer y nodwedd hon, yn gyntaf byddwn yn ystyried prif ganfyddiadau a chasgliadau'r ymchwil a drafodwyd uchod yn 6.2. Wedi trafod canfyddiadau'r ymchwil, adnabyddir bylchau'r ymchwil blaenorol a sut y bydd yr ymchwil hwn yn ceisio llenwi'r bylchau hynny.

Yn Jones (1998) nodwyd mai [ai] yw'r ffurf sy'n dod yn fwyfwy cyffredin ymysg siaradwyr iau. [ai] yw'r ffurf sy'n cael ei defnyddio fwyaf gan siaradwyr iau y Rhymni, ac er nad [ai] yw'r ffurf fwyaf cyffredin yn Rhosllannerchrugog, gwelwyd twf sylweddol ymysg y ddwy garfan o siaradwyr iau, o'u cymharu â'r siaradwyr hŷn nad oeddent yn ei ddefnyddio. Mae Jones (1998) yn dehongli mai safoni yw'r rheswm y tu ôl i'r cynnydd hwn yn nefnydd y ffurf safonol [ai] ymysg pobl ifanc. Fel y dywed yn 6.2.1, mae'n debyg bod y math o iaith y mae'r disgyblion yn ei brofi yn yr ystafell ddosbarth o natur ffurfiol. Yn ychwanegol at hyn, gyda thwf y Saesneg a shifftiau ieithyddol yng Nghymru, gellid honni nad oes cymaint o sefyllfaoedd lle y defnyddir eu Cymraeg mewn cyd-destunau llai ffurfiol, ac felly o ganlyniad, Cymraeg yr ystafell ddosbarth yw'r math o Gymraeg y mae'r bobl ifanc hyn yn ei siarad gan fwyaf. Mae dehongliad Jones (1998) o safoni yn yr iaith lafar felly yn ymwneud â defnydd uwch o batrymau orgraffyddol yn yr iaith lafar fel y nodwyd yn 6.2.1.

Cyferbynna ganfyddiadau Jones (1998) â chanfyddiadau ymchwil ar ddefnydd y Gymraeg ym myd gohebu. Edrydd Ball, Griffiths a Jones (1988), Morgan (1995) a Cole Jones (2008) fod gohebwy'r Cymraeg yn ffafrio defnyddio ffurfiau llafar tafodieithol dros y ffurf safonol /ai/ ac nad yw /ai/ felly yn cael ei ddefnyddio ym myd gohebu Cymraeg. Yn Ball, Griffiths a Jones (1988) a Morgan (1995) dangoswyd bod y ffurf dafodieithol /ε/ yn cael ei defnyddio ar draul y ffurf dafodieithol /a/. Dengys fod hyn hefyd yn ganlyniad i gymysgu

tafodieithol ym myd gohebu Cymraeg, gyda gohebwy'r nad oeddent o ardaloedd lle y defnyddir y ffurf dafodieithol /ɛ/ yn defnyddio'r ffurf dros y ffurf gynhenid /a/. Gellid casglu felly fod bri ieithyddol ynghlwm â'r ffurf /ɛ/ a oedd yn ei gwneud yn fwy addas i'w defnyddio o'i chymharu â'r ffurfiau /a/ ac /ai/.

Mae gwahaniaeth rhwng y newidynnau sy'n cael eu mesur yn yr astudiaethau hyn a'r ymchwil hwn er hynny. Yn gyntaf, mae Ball, Griffiths a Jones (1988) a Cole Jones (2008) yn mesur defnydd o'r amrywiolion tafodieithol [ɛ] ac [a] yn achos yr ôl-ddodiaid lluosog '-au'. Mae Morgan (1995) yn mesur defnydd o'r amrywiolion tafodieithol perthnasol [ɛθ] ac [aθ] yn achos terfyniad '-aeth' yn ogystal. Mae'r ymchwil hwn yn mynd y tu hwnt i derfyniadau yn unig, ac yn ystyried unrhyw amrywio ffonolegol yng nghynhyrchiad (ai), felly yn cynnwys y ddau derfyniad uchod ac unrhyw air arall sy'n cynnwys (ai) yn y sillaf olaf ddiacen e.e. 'dechrau', 'chwarae' ac 'effaith'.

Yn Awbery (2012) cafwyd darlun hanesyddol o ddefnydd o'r ffurfiau tafodieithol traddodiadol /ɛ/ ac /a/ yn y sillaf olaf ddiacen yng ngogledd Cymru. Mae Awbery (2012, t. 138) yn ystyried y tri chyd-destun orgraffyddol sy'n cael eu dadansoddi yn yr ymchwil hwn sef <ae>, <ai> ac <au> ond yn canolbwyntio ar y ffurfiau tafodieithol [ɛ] ac [a] yn unig. Mae'r ymchwil hwn hefyd yn mesur y defnydd o'r ffurf safonol /ai/.

Dengys Jones (1988) y cynhyrchwyd /ɛ/ ac /a/ mewn gwahanol gyd-destunau ieithyddol a chymdeithasol yng Nghymraeg y Gaiman, Patagonia. Cyferbynna hyn â'r defnydd o /ɛ/ ac /a/ yn y sillaf olaf ddiacen yn nhafodieithoedd Cymraeg traddodiadol Cymru, lle y defnyddiwyd un o'r rhain yn unig mewn geiriau sydd ag <e> <ae>, <ai> ac <au>, yn ddibynnol ar ddaearyddiaeth fel y dengys Ffigur 37. Mae Jones (1988) felly yn ymchwilio i amrywio a newid ieithyddol fel mae'r ymchwil hwn, ac yn yr un modd yn ystyried effaith ffactorau ieithyddol, megis cyd-destun geirfaol, a ffactorau cymdeithasol megis rhwydweithiau cymdeithasol fel mae'r ymchwil hwn. Felly, mae Jones (1988) yn bendant yn enghraifft o waith cynnar ar amrywio a newid ieithyddol yn y Gymraeg. Mae'r ymchwil hwn ar y llaw arall yn mynd ymhellach yn unol â datblygiad y maes hwn trwy ddadansoddi amrywio (ai) yn y sillaf olaf ddiacen gyda dadansoddiadau meintiol a phroffion ystadegol, yn ogystal â chyflwyno ystod ehangach o ffactorau ieithyddol a chymdeithasol.

Yn Thomas (1984) cafwyd astudiaeth arall sy'n ceisio archwilio gwahanol ffactorau cymdeithasol sy'n effeithio ar ddefnydd o [e] ac [a] yn achos yr orgraffynnau <ae>, <ai> ac <au>. Er hynny, yn yr un modd â'r drafodaeth ar Jones (1988) uchod, nid yw Thomas (1984) yn cyflwyno dadansoddiadau ystadegol meintiol ar sail y ffactorau hyn fel y mae'r ymchwil hwn.

Felly i grynhoi, mae'r ymchwil hwn yn edrych ar amrywio (ai) yn y sillaf olaf ddiacen ac yn cynnig darlun ehangach nag astudiaethau blaenorol trwy archwilio orgraffynnau <ae>, <ai> ac <au>. Dyma'r ymchwil cyntaf i ddefnyddio dulliau ystadegol er mwyn profi effaith ystod o ffactorau ieithyddol a chymdeithasol ar amrywio (ai) yn y sillaf olaf ddiacen. Bydd yr ymchwil hwn yn ystyried yr amrywiolion tafodieithol traddodiadol /ɛ/ ac /a/, yn ogystal â'r amrywiolyn safonol traddodiadol /ai/ sy'n ymddangos yn fwyfwy ymysg siaradwyr ifanc o ysgolion Cymraeg (Jones 1998) petaent yn bresennol yn y gymysgedd dafodieithol. Trafodir y canlyniadau gydag agwedd amrywio ieithyddol, hynny yw, trwy ddadansoddi perthnasedd gwahanol ffactorau ieithyddol a chymdeithasol i'r nodwedd hon, heb drafod oblygiadau darfodiad ieithyddol ar y iaith dan sylw fel yn Jones (1998).


6.3 Methodoleg

Nesaf, trafodir y fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer ymdrin â'r data a gasglwyd, a sut yr euthum ati i ddadansoddi'r canlyniadau dan sylw.

6.3.1 Codio

Trawsgrifiwyd data'r cyfweliadau sosioieithyddol trwy feddalwedd ELAN (Sloetjes a Winberg, 2008). Yn gyntaf, er mwyn trawsgrifio, gwrandawyd ar y cyfweliadau a chreu segmentau newydd i'r siaradwr a'r cyfwelydd bob tro roedd saib naturiol yn y sgwrs. Fe godiwyd pob orgraffyn <ae>, <ai> ac <au> trwy ychwanegu rhesi ar y trawsgrifiad yn ELAN, a chynnwys yr amrywiolyn a'r tocyn perthnasol. Gwnaethpwyd hyn yn glywedol a chyda llaw er mwyn dethol yr amrywiolyn ar gyfer pob nodwedd ar sail beth a glywir yn y recordiad o'r cyfweliad. Dengys Ffigur 38 isod y rhesi a ddisgrifiwyd. Mae'r nodwedd yn cynrychioli pa orgraffyn sydd dan sylw, y tocyn yn cynrychioli'r gair sy'n perthyn i'r orgraffyn, a'r

amrywiolyn yn cynrychioli'r ffurf ffonolegol y gellid ei adnabod yn glywedol o'r ffeil sain sydd ynghlwm i'r cyfweiliad. Wedi codio, allforiwyd y data ar ffurf .txt i daenlen excel er mwyn dadansoddi'r data.



Ffigur 38 – Ciplun o drawsgrifiad ELAN wedi'i godio ar gyfer dadansoddi nodwedd (ai) disgybl o YUGC

6.3.2 Capio tocynnau

Yn dilyn codio penderfynwyd capio nifer y tocynnau fesul siaradwr. Gwnaethpwyd hyn gan fod y data'n anghybwys oherwydd bod rhai geiriau'n fwy cyffredin nag eraill. O ganlyniad, penderfynwyd gosod uchafswm o ddeg tocyn i bob gair fesul siaradwr. Golyga hyn nad oedd nifer eithafol o docynnau ar gyfer rhai geiriau, ac un enghraifft o rai tocynnau llai cyffredin. Ymhellach, petai tocyn mwy cyffredin yn fwy tueddol o gynhyrchu amrywiolyn penodol, byddai cyfran cynhyrchiant yr amrywiolyn hwnnw yn fwy na'r gwir gynhyrchiant cymedrol. Er enghraifft, roedd 'chwarae' yn un o'r tocynnau mwyaf cyffredin ar gyfer orgraffyn <ae>, a chynhyrchwyd niferoedd sylweddol o'r tocyn hwn gan rai siaradwyr. Ar gyfer fersiynau o'r un gair wedi'u treiglo a heb eu treiglo, ystyriwn y ddau fel yr un gair, felly ceir deg tocyn ar gyfer 'bysai', 'fysai' er enghraifft.

Fe gynhwyswyd $n=419$ o docynnau ar gyfer orgraffyn <ae>, $n=678$ o docynnau ar gyfer orgraffyn <ai> ac $n=1596$ o docynnau ar gyfer orgraffyn <au>. Felly, mae cyfanswm o $n=2693$ o docynnau ar gyfer y dadansoddiad (ai) yn y sillaf olaf ddiacen. Mae'r tocynnau hyn wedi eu cyfansoddi o docynnau llafar digymell ($n=1641$) a llafar gofalus ($n=1052$) gan y disgyblion.

6.3.3 Dadansoddi'r data

Cynhaliwyd dadansoddiad clybodol ar gyfer y nodwedd hon, gan nad oedd angen dadansoddiad acwstig gan fod gwahaniaeth rhwng y tri amrywiolyn posibl, /ai/ /a/ ac /ε/ yn rhwydd ei glywed gyda'r glust. O ganlyniad, cynhelir y dadansoddiad yn ELAN y tro hwn, gyda rhes ychwanegol ar gyfer pob amrywiolyn o dan bob orgraffyn. Roedd /ai/ /a/ ac /ε/ yn bosibl ar gyfer pob orgraffyn <ae>, <ai> ac <au>¹² a gynrychiola (ai) yn y sillaf olaf ddiacen. Er fod pob orgraffyn wedi eu codio yn unigol, wedi gwranddo ar bob tocyn, penderfynwyd y byddai dadansoddiad o (ai) yn cael ei chynnal, yn hytrach na dadansoddiad o bob orgraffyn unigol, oherwydd cyfyngiadau hyd y bennod. Er hynny, er mwyn canfod a yw orgraffyn yn effeithio ar gynhyrchiant amrywiolion (ai), bydd orgraffyn yn cael ei ystyried fel ffactor ieithyddol yn y dadansoddiadau ystadegol.

Dyma'r ymchwil cyntaf i ddefnyddio dadansoddiadau ystadegol er mwyn profi effaith ffactorau ieithyddol a chymdeithasol ar (ai) yn y sillaf olaf ddiacen. Cyflwynir dau ddadansoddiad ystadegol. Yn gyntaf ceir dadansoddiad archwiliadol (6.5), gan ddefnyddio profion *chi*-sgŵar er mwyn dadansoddi pob ffactor yn unigol a phrofi arwyddocâd ystadegol. Yn ail ceir dadansoddiad effeithiau cymysg (6.6), gan ddefnyddio model effeithiau cymysg er mwyn dadansoddi y ffactorau oll gyda'i gilydd a phrofi arwyddocâd ystadegol.

6.4 Canlyniadau

Yn yr is-adran hon, cyflwynir canlyniadau'r dadansoddiad archwiliadol a'r dadansoddiad effeithiau cymysg. Yn y dadansoddiad archwiliadol, dadansoddir pob ffactor ieithyddol a chymdeithasol er mwyn canfod arwyddocâd ystadegol pob ffactor ar gynhyrchiant amrywiolion (ai) yn y sillaf olaf ddiacen. Penderfynwyd peidio â dadansoddi effaith gwahanol ffactorau ar bob orgraffyn unigol felly, gan yn hytrach ystyried orgraffyn fel ffactor ieithyddol er mwyn profi arwyddocâd ystadegol. Wedi'r dadansoddiad archwiliadol,

¹² Hepgorir unrhyw enghreifftiau o ffurfiau nad oeddent yn cynhyrchu amrywiolion /ai/, /a/, /ε/ yn unig, megis 'eisiau' sy'n gallu cynhyrchu /o/ ar gyfer ffurf lafar [ɪjo] sy'n amrywiad tafodieithol traddodiadol drwy'r gogledd.

cynhaliwyd dadansoddiad modelau effeithiau cymysg. Hepgorwyd unrhyw ffactorau o'r model effeithiau cymysg lle roedd amrywio rhwng amrywiolion y gwahanol orgraffynnau.

Tabl 30 – Nifer a chanran tocynnau amrywiolion (ai) yn y sillaf olaf ddiacen

Amrywiolion (ai)	Nifer y Tocynnau	Canran y Tocynnau
a	100	3.71%
ai	1786	66.32%
ε	807	29.97%
Cyfanswm	2693	100.00%

Dengys Tabl 30 y nifer a chanran tocynnau amrywiolion (ai) yn y sillaf olaf ddiacen gan ddisgyblion YUGC. Gwelir felly mai'r amrywiolyn /ai/ sydd fwyaf cyffredin ar gyfer (ai). Nid yw ffurf /ai/ yn ffurf lafar draddodiadol, yn hytrach ffurf safonol ydyw. Yn dilyn hynny, yr ail ffurf fwyaf cyffredin yw /ε/, sydd yn ffurf dafodieithol a oedd yn draddodiadol yn lleferydd siaradwyr o'r de-orllewin a'r gogledd-ddwyrain (Thomas a Thomas 1989). Yn olaf, mae'r amrywiolyn /a/ yn bresennol yng nghymysgedd tafodieithol disgyblion YUGC, ond nid oes defnydd sylweddol ohono ar gyfer (ai) yn y sillaf olaf ddiacen yn y cyfweiliadau hyn. Fel y nodwyd uchod, mae /a/ yn ffurf dafodieithol lafar a oedd yn draddodiadol yn lleferydd siaradwyr o'r de-ddwyrain a'r gogledd-orllewin (Thomas a Thomas 1989).

Ceir dwy is-adran isod yn cyflwyno dadansoddiadau ystadegol o'r data. Fel y nodwyd uchod yn 6.4, yn gyntaf, cynhelir dadansoddiad archwiliadol o bob ffactor ieithyddol a chymdeithasol dan sylw ar gyfer data (ai). Y ffactorau dan sylw yn y dadansoddiadau yw: orgraffyn, y math o air, nifer sillafau, cyd-destun seinegol rhagflaenol, cyd-destun seinegol olynol, rhywedd, iaith yr aelwyd, tasg a chlwstwr arfer. Penderfynwyd cynnal dadansoddiad archwiliadol er mwyn mesur pob ffactor o ddiddordeb i'r bennod hon yn unigol. Yn ail, cynhelir dadansoddiad effeithiau cymysg ar y data. Cynhelir dadansoddiad effeithiau cymysg er mwyn ymdrin ag arwyddocâd y gwahanol ffactorau dan sylw mewn perthynas â'i gilydd.

6.5 Dadansoddiad archwiliadol


Yn yr is-adran hon, ceir dadansoddiad o bob ffactor ieithyddol a chymdeithasol perthnasol i ddata (ai). Cynhelir dadansoddiadau unigol ar gyfer pob ffactor unigol. Yn y dadansoddiad archwiliadol, defnyddir profion ystadegol *chi*-sgwâr er mwyn profi arwyddocâd ystadegol y ffactorau ar (ai). Hepgorir unrhyw amrywiolion lle nad yw'r tocynnau yn cynrychioli o leiaf 5% o gyfanswm tocynnau ar gyfer y ffactor sy'n cael ei ddadansoddi o'r profion *chi*-sgwâr. Cyflwynir cyfraddau pob amrywiolyn dan sylw ar gyfer pob ffactor er mwyn cyflwyno darlun llawn o gynhyrchiad amrywiolion (ai) yn y sillaf olaf ddiacen. Er mwyn profi arwyddocâd ystadegol gyda phrawf *chi*-sgwâr, hepgorir yr amrywiolyn /a/ ar gyfer pob nodwedd, gan nad oedd digon o docynnau er mwyn cynnal dadansoddiad ystadegol cywir. Yn yr un modd, mewn manau eraill, hepgorwyd rhai mathau penodol o ffactorau oherwydd nad oedd nifer digonol o'r tocynnau hyn.

6.5.1 Ffactorau ieithyddol

Nesaf, cynhelir dadansoddiad o'r ffactorau ieithyddol dan sylw a'u heffaith ar (ai) yn y sillaf olaf ddiacen.

6.5.1.1 Orgraffyn

Dengys Ffigur 39 ganrannau amrywiolion (ai) yn y sillaf olaf ddiacen yn ôl orgraffyn. Cynhyrchwyd tocynnau /ai/ 70.50% ($n=478$) o weithiau gan orgraffyn <ai>, 68.26% ($n=286$) o weithiau gan orgraffyn <ae>, a 64.04% ($n=1022$) o weithiau gan orgraffyn <au>. Cynhyrchwyd tocynnau /ε/ 30.70% ($n=490$) o weithiau gan orgraffyn <au>, 29.83% ($n=125$) o weithiau gan orgraffyn <ae>, 28.32% ($n=192$) o weithiau gan orgraffyn <ai>. Cynhyrchwyd tocynnau /a/ 5.26% ($n=84$) o weithiau gan orgraffyn <au>, 1.91% ($n=8$) o weithiau gan orgraffyn <ae>, ac 1.18% ($n=8$) o weithiau gan orgraffyn <ai>. Fe gynhaliwyd prawf annibyniaeth *chi*-sgwâr ar y data (heb gynnwys tocynnau /a/, oherwydd nifer gyfyngedig y tocynnau). Dangosodd y prawf nad oedd cysylltiad arwyddocaol rhwng amrywio (ai) a'r orgraffyn, $X^2(2, N = 2594) = 3.1612, p = 0.2058$.




Ffigur 39 – Canran amrywiolion (ai) fesul orgraffyn

Felly nid yw orgraffyn yn ffactor ystadegol arwyddocaol sy'n effeithio ar amrywio (ai) a gwelir nad oes amrywio sylweddol rhwng yr amrywiolion a gynhrychir gan bob orgraffyn. O ganlyniad ceir cyfiawnhad pellach yma ynghylch peidio â chynnal dadansoddiadau fesul orgraffyn ar gyfer pob ffactor yn y dadansoddiadau archwiliadol (6.5). Nesaf ceir dadansoddiad o effaith y math o air ar (ai) yn y sillaf olaf ddiacen

6.5.1.2 Y math o air

Dengys Ffigur 40 ganrannau amrywiolion (ai) yn y sillaf olaf ddiacen yn ôl math o air. Cynhrychwyd tocynnau /ai/ 79.27% ($n=65$) o weithiau mewn ansoddeiriau, 76.59% ($n=1377$) o weithiau mewn enwau, 54.59% ($n=214$) o weithiau mewn berfenwau, 40.74% ($n=55$) mewn berfau a 26.22% ($n=75$) o weithiau mewn adferfau. Cynhrychwyd tocynnau /ε/ 66.43% ($n=190$) o weithiau mewn adferfau, 57.04% ($n=77$) o weithiau mewn berfau, 41.84% ($n=164$) o weithiau mewn berfenwau, 20.02% ($n=360$) mewn enwau ac 19.51% ($n=16$) mewn ansoddeiriau. Cynhrychwyd tocynnau /a/ 7.34% ($n=21$) o weithiau mewn adferfau, 3.57% o weithiau mewn berfenwau ($n=14$), 3.39% ($n=61$) o weithiau mewn enwau, 2.22% ($n=3$) mewn berfau ac 1.22% ($n=1$) o weithiau mewn ansoddeiriau. Fe gynhaliwyd prawf annibyniaeth *chi*-sgwâr ar y data (heb gynnwys tocynnau /a/, oherwydd nifer gyfyngedig y

tocynnau). Dangosodd y prawf fod cysylltiad arwyddocaol rhwng amrywio (ai) a'r math o air, $\chi^2(4, N = 2594) = 368.12, p < 0.001$.




Ffigur 40 – Canran amrywiolion (ai) fesul math o air

Felly canfuwyd bod math o air yn ffactor sy'n ystadegol arwyddocaol. Ceir trefn hierarchol o'r gyfradd uchaf i'r isaf ar gyfer amrywiolyn /ai/, sef ansoddair > enw > berfenw > berf > adferf. Sylwir felly bod ansoddeiriau, enwau a berfenwau yn cynhyrchu cyfraddau uwch o amrywiolyn /ai/, ac adferfau a berfau yn cynhyrchu cyfraddau uwch o amrywiolyn /e/. Cynhyrchir cyfraddau isel o amrywiolyn /a/ ym mhob math o air dan sylw, gydag adferfau yn cynhyrchu'r gyfradd uchaf. Nesaf ceir dadansoddiad o effaith nifer sillafau ar (ai) yn y sillaf olaf ddiacen

6.5.1.3 Nifer sillafau

Dengys Ffigur 41 ganrannau amrywiolion (ai) yn y sillaf olaf ddiacen yn ôl nifer sillafau. Cynhyrchwyd tocynnau /ai/ 87.92% ($n=364$) o weithiau mewn cyd-destunau teirsillafog, 84.68% ($n=105$) o weithiau mewn cyd-destunau pedairsillafog, a 61.11% ($n=1317$) o weithiau mewn cyd-destunau deusillafog. Cynhyrchwyd tocynnau /e/ 34.80% ($n=750$) o weithiau mewn cyd-destunau deusillafog, 12.10% ($n=15$) o weithiau mewn cyd-destunau

pedairsillafog, a 10.14% ($n=42$) o weithiau mewn cyd-destunau teirsillafog. Cynhyrchwyd tocynnau /a/ 4.08% ($n=88$) o weithiau mewn cyd-destunau deusillafog, 3.23% ($n=4$) o weithiau mewn cyd-destunau pedairsillafog, a 1.93% ($n=8$) o weithiau mewn cyd-destunau teirsillafog. Fe gynhaliwyd prawf annibyniaeth *chi*-sgwâr ar y data (heb gynnwys tocynnau /a/, oherwydd nifer gyfyngedig y tocynnau). Dangosodd y prawf fod cysylltiad arwyddocaol rhwng amrywio (ai) a nifer sillafau, $\chi^2(2, N = 2594) = 126.87, p < 0.001$.




Ffigur 41 – Canran amrywiolion (ai) fesul nifer sillafodd

Felly, canfuwyd bod effaith nifer sillafau fel ffactor yn ystadegol arwyddocaol. Cynhyrchir trefn cyfraddau /ai/ > /ε/ > /a/ ym mhob cyd-destun sillafog. Cynhyrchir cyfradd uwch o’r amrywiolion tafodieithol /ε/ ac /a/ mewn cyd-destun deusillafog, yn enwedig ar gyfer yr amrywiolyn tafodieithol mwyaf cyffredin, /ε/, lle y ceir cyfradd sylweddol uwch yn y cyd-destun sillafog hwn. Nesaf ceir dadansoddiad o effaith cyd-destun seinegol rhagflaenol ar (ai) yn y sillaf olaf ddiacen.

6.5.1.4 Cyd-destun seinegol rhagflaenol

Dengys Ffigur 42 ganrannau amrywiolion (ai) yn y sillaf olaf ddiacen yn ôl cyd-destun

seinegol rhagflaenol. Cynhyrchwyd tocynnau /ai/ 92.28% ($n=251$) o weithiau wedi trwynolion, 87.80% ($n=36$) o weithiau wedi llafariad, 81.36% ($n=336$) o weithiau wedi ffrwydrolion, 68.43% ($n=349$) o weithiau wedi triliau, 56.18% ($n=418$) o weithiau wedi dynesolion, a 55.54% ($n=396$) o weithiau wedi ffrithiolion. Cynhyrchwyd tocynnau /ε/ 40.39% ($n=288$) o weithiau wedi ffrithiolion, 38.31% ($n=285$) o weithiau wedi dynesolion, 29.02% ($n=148$) o weithiau wedi triliau, 16.22% ($n=67$) o weithiau wedi ffrwydrolion, 12.20% ($n=5$) o weithiau wedi llafariad, a 5.15% ($n=14$) o weithiau wedi trwynolion. Cynhyrchwyd /a/ 5.51% ($n=41$) o weithiau wedi dynesolion, 4.07% ($n=29$) o weithiau wedi ffrithiolion, 2.57% ($n=7$) o weithiau wedi trwynolion, 2.55% ($n=13$) o weithiau wedi tril, 2.42% ($n=10$) o weithiau wedi ffrwydrolion, ni chynhyrchir tocynnau /a/ wedi llafariad. Fe gynhaliwyd prawf annibyniaeth *chi*-sgwâr ar y data (heb gynnwys tocynnau /a/ na llafariad oherwydd nifer gyfyngedig y tocynnau). Dangosodd y prawf fod cysylltiad arwyddocaol rhwng amrywio (ai) a chyd-destun seinegol rhagflaenol, $X^2(4, N = 2552) = 188.93, p < 0.001$.




Ffigur 42 – Canran amrywiolion (ai) fesul cyd-destun rhagflaenol

Felly, canfuwyd bod effaith cyd-destun seinegol rhagflaenol fel ffactor yn ystadegol arwyddocaol. Cynhyrchir y gyfradd uchaf ar gyfer amrywiolyn /ai/ mewn trefn hierarchol: cyd-destun rhagflaenol, trwynolyn > llafariad > ffrwydrolyn > tril > dynesolyn > ffrithiolyn.

Ceir trefn hierarchol /ai/ > /ε/ > /a/ gan bob cyd-destun rhagflaenol yn ogystal, gyda phob cyd-destun seinegol rhagflaenol yn cynhyrchu /ai/ uchaf, cyfraddau eithaf amrywiol ar gyfer /ε/ a chyfraddau cyson isel ar gyfer /a/. Nesaf ceir dadansoddiad o effaith cyd-destun seinegol olynol ar (ai) yn y sillaf olaf ddiacen.

6.5.1.5 *Cyd-destun seinegol olynol*

Dengys Ffigur 43 ganrannau amrywiolion (ai) yn y sillaf olaf ddiacen yn ôl cyd-destun seinegol olynol. Cynhyrchwyd tocynnau /ai/ 96.88% ($n=248$) o weithiau cyn trwynolion, 93.62% ($n=308$) o weithiau cyn ffrithiolion, 90.00% ($n=27$) o weithiau cyn ffrwydrolion, 89.61% ($n=69$) o weithiau cyn tril, 57.67% ($n=1128$) o weithiau cyn dim sain, 13.33% ($n=6$) o weithiau cyn dynesolion ochrol. Cynhyrchwyd tocynnau /ε/ 80.00% ($n=36$) o weithiau cyn dynesolion ochrol, 37.53% ($n=734$) o weithiau cyn dim sain, 10.00% ($n=3$) o weithiau cyn ffrwydrolion, 9.09% ($n=7$) o weithiau cyn triliau, 6.08% ($n=20$) o weithiau cyn ffrithiolion, a 2.73% ($n=7$) o weithiau cyn trwynolion. Cynhyrchwyd tocynnau /a/ 6.67% ($n=3$) o weithiau cyn dynesolion ochrol, 4.81% ($n=94$) o weithiau cyn dim sain, 1.30% ($n=1$) o weithiau cyn tril, 0.39% ($n=1$) o weithiau cyn trwynolion, 0.30% ($n=1$) o weithiau cyn ffrithiolion, ni chynhyrchir tocynnau /a/ cyn ffrwydrolion. Fe gynhaliwyd prawf annibyniaeth *chi*-sgwâr ar y data (heb gynnwys tocynnau /a/ na llafariadaid oherwydd nifer gyfyngedig y tocynnau). Dangosodd y prawf fod cysylltiad arwyddocaol rhwng amrywio (ai) a chyd-destun seinegol olynol, $\chi^2(2, N = 2594) = 251.41, p < 0.001$



Ffigur 43 – Canran amrywiolion (ai) fesul cyd-destun olynol


Felly, canfuwyd bod effaith cyd-destun seinegol olynol fel ffactor yn ystadegol arwyddocaol. Cynhyrchir y gyfradd uchaf ar gyfer amrywiolyn /ai/ mewn trefn hierarchol: cyd-destun olynol trwynolyn > ffrithiolyn > tril > ffrwydrolyn > dim sain > dynesolyn ochrol. Ceir cyfraddau /ai/ uwch gan bob cyd-destun olynol ac eithrio dynesolion ochrol. Er y ceir cyfraddau /ai/ uwch ar gyfer cyd-destunau olynol dim sain, ceir hefyd cyfradd /ε/ sylweddol uwch o'i gymharu â'r cyd-destunau eraill sydd ag /ai/ uwch.

6.5.2 Ffactorau cymdeithasol

Nesaf, cyflwynir dadansoddiad o'r ffactorau cymdeithasol dan sylw a'u heffaith ar (ai) yn y sillaf olaf ddiacen, gan ddechrau gyda dadansoddiad o rhywedd fel ffactor cymdeithasol.

6.5.2.1 Rhywedd

Dengys Ffigur 44 ganrannau (ai) yn y sillaf olaf ddiacen yn ôl rhywedd. Cynhyrchwyd tocynnau /ai/ 68.89% ($n=981$) o weithiau gan y bechgyn, a 63.44% ($n=805$) o weithiau gan y merched. Cynhyrchwyd tocynnau /ε/ 33.49% ($n=425$) o weithiau gan y merched, a 26.83% ($n=382$) o weithiau gan y bechgyn. Cynhyrchwyd tocynnau /a/ 4.28% ($n=61$) o weithiau gan y bechgyn a 3.07% ($n=39$) o weithiau gan y merched. Fe gynhaliwyd prawf annibyniaeth *chi-sgwâr* ar y data (heb gynnwys tocynnau /a/ na llafariaid oherwydd nifer gyfyngedig y tocynnau). Dangosodd y prawf fod cysylltiad arwyddocaol rhwng amrywio (ai) a rhywedd, $X^2(1, N = 2594) = 11.873, p < 0.001$.




Ffigur 44 – Canran amrywiolion (ai) fesul rhywedd

Felly, canfuwyd bod effaith rhywedd fel ffactor yn ystadegol arwyddocaol. Ceir trefn hierarchaidd /ai/ > /ε/ > /a/ gan fechgyn a merched ar gyfer (ai). Cynhyrchir cyfradd uwch o amrywiolyn tafodieithol /ε/ gan y merched o'u cymharu â'r bechgyn sy'n cynhyrchu cyfradd

uwch o amrywiolyn safonol /ai/. Cynhyrchir cyfraddau isel o amrywiolyn tafodieithol /a/ gan y ddau rywedd, ond cynhyrchir cyfradd ychydig yn uwch gan y bechgyn. Nesaf ceir dadansoddiad o effaith iaith yr aelwyd ar (ai) yn y sillaf olaf ddiacen.

6.5.2.2 Iaith yr aelwyd

Dengys Ffigur 45 ganrannau (ai) yn y sillaf olaf ddiacen yn ôl iaith yr aelwyd. Cynhyrchwyd tocynnau /ai/ 72.61% ($n=1132$) o weithiau gan ddisgyblion o aelwydydd di-Gymraeg, a 57.67% ($n=654$) o weithiau gan ddisgyblion o aelwydydd Cymraeg. Cynhyrchwyd tocynnau /ε/ 38.54% ($n=437$) o weithiau gan ddisgyblion o aelwydydd Cymraeg, a 23.73% ($n=370$) o weithiau gan ddisgyblion o aelwydydd di-Gymraeg. Cynhyrchwyd tocynnau /a/ 3.79% ($n=43$) o weithiau gan ddisgyblion o aelwydydd Cymraeg, a 3.66% ($n=57$) o weithiau gan ddisgyblion o aelwydydd di-Gymraeg. Fe gynhaliwyd prawf annibyniaeth *chi*-sgwâr ar y data (heb gynnwys tocynnau /a/ na llafariaid oherwydd nifer gyfyngedig y tocynnau). Dangosodd y prawf fod cysylltiad arwyddocaol rhwng amrywio (ai) a iaith yr aelwyd, $\chi^2(1, N = 2594) = 69.022, p < 0.001$




Ffigur 45 – Canran amrywiolion (ai) fesul iaith yr aelwyd

Felly, canfuwyd bod cyd-destun effaith iaith yr aelwyd fel ffactor yn ystadegol arwyddocaol. Cynhyrchir /ai/ > /ε/ > /a/ gan ddisgyblion o aelwydydd Cymraeg eu hiaith a rhai o aelwydydd di-Gymraeg eu hiaith. Er hynny, ceir gwahaniaeth rhwng iaith aelwyd yng nghynhyrchiant /ai/ ac /ε/. Cynhyrchir cyfradd is o amrywiolyn /ai/ a chyfradd uwch o amrywiolyn /ε/ gan ddisgyblion o aelwydydd Cymraeg o'u cymharu â disgyblion o aelwydydd di-Gymraeg. Ceir cyfraddau tebyg iawn ar gyfer amrywiolyn /a/ gan ddisgyblion o aelwydydd Cymraeg a rhai di-Gymraeg. Nesaf, ceir dadansoddiad o effaith tasg ar (ai) yn y sillaf olaf ddiacen.

6.5.2.3 Tasg

Dengys Ffigur 46 ganrannau (ai) yn y sillaf olaf ddiacen yn ôl tasg. Cynhyrchwyd tocynnau /ai/ 99.24% ($n=1044$) o weithiau yn y rhestr geiriau, a 45.22% ($n=742$) o weithiau yn y cyfweliad. Cynhyrchwyd tocynnau /ε/ 48.75% ($n=800$) yn y cyfweliad, a 0.67% ($n=7$) o weithiau yn y rhestr geiriau. Cynhyrchwyd tocynnau /a/ 6.03% ($n=99$) o weithiau yn y cyfweliad, a 0.10% ($n=1$) o weithiau yn y rhestr geiriau. Fe gynhaliwyd prawf annibyniaeth *chi*-sgwâr ar y data (heb gynnwys tocynnau /a/ na llafariad oherwydd nifer gyfyngedig y tocynnau). Dangosodd y prawf fod cysylltiad arwyddocaol rhwng amrywio (ai) a iaith yr aelwyd, $\chi^2(1, N = 2594) = 762.37, p < 0.001$.




Ffigur 46 – Canran amrywiolion (ai) fesul tasg

Felly, canfuwyd bod cyd-destun effaith tasg fel ffactor yn ystadegol arwyddocaol. Yn gyntaf, sylwir bod mwy o docynnau yn bodoli yn y cyfweliad ($n=1641$) na'r rhestr geiriau ($n=1052$). Cynhyrchir dros 99% o docynnau /ai/ a llai na 1% o amrywiolion tafodieithol /ε/ ac /a/ yn y dasg rhestr geiriau, sef y tasg a luniwyd er mwyn ennyn cyd-destun ac arddull ffurfiol gan y disgyblion. Ar y llaw arall, cynhyrchir cyfradd /ε/ uwch yn y cyfweliad, o'i gymharu â chyfradd /ai/ sydd ychydig yn llai, a chyfradd /a/ sy'n isel. Lluniwyd y cyfweliad fel tasg er mwyn ennyn iaith ddigymell gan y disgyblion. O ganlyniad gellid dweud bod /ε/ yn llawer mwy cyffredin mewn iaith ddigymell nag mewn iaith ffurfiol gan ddisgyblion YUGC. Yn yr un modd, gellid dweud y cynhyrchir mwy o amrywiolyn /a/ mewn iaith ddigymell nag mewn iaith ffurfiol, er nad yw'n gyffredin iawn mewn iaith ddigymell chwaith. Mae amrywiolyn /ai/ safonol yn gyffredin yn y ddwy dasg dan sylw, y cyfweliad a'r rhestr geiriau, ond yn llawer mwy cyffredin yn y dasg rhestr geiriau. Nesaf, ceir dadansoddiad o effaith clystyrau arfer ar (ai) yn y sillaf olaf ddiacen.

6.5.2.4 Clwstwr Arfer

Dengys Ffigur 47 ganrannau (ai) yn y sillaf olaf ddiacen yn ôl clwstwr arfer. Cynhyrchwyd tocynnau /ai/ 77.37% ($n=277$) o weithiau gan 'Cassie_Geeks', 70.13% ($n=378$) o weithiau gan

'Rhun_Normal', 68.40% ($n=381$) o weithiau gan y 'Sbarteiniaid', 65.13% ($n=396$) o weithiau gan y 'Bechgyn Meme Chat', 60.39% ($n=186$) o weithiau gan 'Cymraeg_Chwaraeon', a 52.01% ($n=168$) o weithiau gan y 'Merched Poblogaidd'. Cynhyrchwyd tocynnau /ε/ 45.20% ($n=146$) o weithiau gan y 'Merched Poblogaidd', 38.31% ($n=118$) o weithiau gan 'Cymraeg_Chwaraeon', 29.11% ($n=177$) o weithiau gan y 'Bechgyn Meme Chat', 28.73% ($n=160$) o weithiau gan y 'Sbarteiniaid', 26.53% ($n=143$) o weithiau gan 'Rhun_Normal', a 17.60% ($n=63$) o weithiau gan 'Cassie_Geeks'. Cynhyrchwyd tocynnau /a/ 5.76% ($n=35$) o weithiau gan y 'Bechgyn Meme Chat', 5.03% ($n=18$) o weithiau gan 'Cassie_Geeks', 3.34% ($n=18$) o weithiau gan 'Rhun_Normal', 2.87% ($n=16$) o weithiau gan y 'Sbarteiniaid', 2.79% ($n=9$) o weithiau gan y 'Merched_Poblogaidd', 1.30% ($n=4$) o weithiau gan 'Cymraeg_Chwaraeon'. Fe gynhaliwyd prawf annibyniaeth *chi*-sgwâr ar y data (heb gynnwys tocynnau /a/ na llafariad oherwydd nifer gyfyngedig y tocynnau). Dangosodd y prawf fod cysylltiad arwyddocaol rhwng amrywio (ai) a chwstwr arfer, $X^2(5, N = 2594) = 72.072, p < 0.001$



Ffigur 47 – Canran amrywiolion (ai) fesul clwstwr arfer

Felly, canfuwyd bod cyd-destun effaith clwstwr arfer fel ffactor yn ystadegol arwyddocaol. Cynhyrchir trefn hierarchaidd /ai/ > /ε/ > /a/ gan bob cymuned arfer ar gyfer

(ai). Cynhyrchir y cyfraddau / ϵ / uchaf ac /ai/ isaf gan y 'Merched Poblogaidd' a 'Cymraeg_Chwaraeon', yn dilyn hynny, ceir cyfraddau / ϵ / ac /ai/ canolig gan y 'Bechgyn Meme Chat', y 'Sbarteiniaid' a 'Rhun_Normal', a ceir y cyfraddau / ϵ / isaf ac /ai/ uchaf gan 'Cassie_Geeks'. Nesaf, trown at y dadansoddiadau effeithiau cymysg sy'n ystyried y ffactorau a gyflwynwyd uchod mewn un model er mwyn dethol y ffactorau sydd â'r effeithiau mwyaf arwyddocaol ar (ai).

6.6 Dadansoddiad effeithiau cymysg

Crëwyd model effeithiau cymysg ar gyfer amrywiolion (ai) gan ddefnyddio Rbrul (Johnson 2009). Cynhaliwyd dadansoddiad effeithiau cymysg gydag amrywiolyn /ai/ fel yr amrywiolyn dibynnol, sy'n golygu bod y model yn dangos tebygolrwydd cynhyrchu /ai/ (yn erbyn cynhyrchu / ϵ /). Cynhwyswyd ffactorau rhywedd, iaith yr aelwyd, tasg, cymuned arfer, math o air, nifer sillafau, cyd-destun seinegol rhagflaenol, cyd-destun seinegol olynol ac orgraffyn fel amrywiolion annibynnol sefydlog. Cynhwyswyd gair a siaradwr fel hapeffeithiau nas mesurwyd yn y model. Cafodd tocynnau /a/ eu hepgor unwaith eto oherwydd diffyg tocynnau, yn ogystal â chyd-destun rhagflaenol llafariad, a chyd-destunau olynol ffrwydrolion, tril a dynesolion ochrol er mwyn cynnal cysondeb â'r dadansoddiadau archwiliadol yn 6.5

Tabl 31 – Dadansoddiad effeithiau cymysg (ai) yn y sillaf olaf ddiacen

Ffactor	Amrywiolyn	Logodds	Tocynnau	ai/ai+ε	centered
Iaith_Aelwyd (0.014)	di-Gymraeg	1.06	1409	0.755	0.743
	Cymraeg	-1.06	1017	0.596	0.257
Tasg (<0.001)	Rhestr Geiriau	3.412	961	0.995	0.968
	Cyfweliad	-3.412	1465	0.487	0.032
Orgraffyn (<0.001)	au	2.61	1500	0.675	0.931
	ae	-1.134	365	0.756	0.243
	ai	-1.476	561	0.679	0.186
Nifer_Sillafau (0.002)	tri	1.031	377	0.894	0.737
	dau	-0.438	1935	0.637	0.392
	pedwar	-0.593	114	0.877	0.356
Cyd_Destun_Rhagflaenol (0.020)	trwynolyn	0.785	264	0.947	0.687
	tril	0.256	474	0.688	0.564
	ffrwydrolyn	0.167	330	0.93	0.542
	ffrithiolyn	-0.133	661	0.564	0.467
	dynesolyn	-1.076	697	0.594	0.254
Cyd_Destun_Olynol (<0.001)	trwynolyn	2.58	253	0.98	0.93
	ffrithiolyn	1.297	323	0.938	0.785
	dim	-3.878	1850	0.605	0.02

Dengys Tabl 31 y dadansoddiad model effeithiau cymysg a gynhaliwyd a gasglodd fod tasg, cyd-destun olynol, orgraffyn, nifer sillafau, iaith yr aelwyd a chyd-destun rhagflaenol yn ystadegol arwyddocaol yn y model *step-down* gorau. Felly, hepgorir rhywedd, clwstwr arfer a'r math o air yn ffactorau o'r dadansoddiad *step-down* mwyaf effeithiol, gan nad oeddent yn ystadegol arwyddocaol.

Felly, y ffactor mwyaf ystadegol arwyddocaol yw tasg, gyda thasg rhestr geiriau yn llawer mwy tebygol o gynhyrchu amrywiolyn /ai/ na thasg y cyfweliad. Mae cyd-destun olynol yn ystadegol arwyddocaol yn ogystal, gyda chyd-destun heb sain olynol yn llawer llai tebygol na chyd-destunau olynol trwynol a ffrithiol o gynhyrchu /ai/. Mae orgraffyn yn ystadegol arwyddocaol, gydag <ae> yn cynhyrchu cyfradd uwch o amrywiolyn /ai/. Mae nifer sillafau hefyd yn ystadegol arwyddocaol, gyda chyd-destunau deusillafog yn llai tebygol na'r cyd-destunau eraill o gynhyrchu tocynnau /ai/. Canfuwyd hefyd fod iaith yr aelwyd yn ystadegol arwyddocaol, gyda disgyblion o aelwydydd di-Gymraeg yn fwy tebygol o

gynhyrchu amrywiolyn /ai/ safonol na disgyblion o aelwydydd Cymraeg. Yn olaf, roedd cydestun rhagflaenol hefyd yn ystadegol arwyddocaol, gyda thrwynolion a ffrwydrolion yn fwy tebygol o gynhyrchu amrywiolyn safonol /ai/ na thril, dynesolion a ffrithiolion. Nesaf, ceir trafodaeth o ganlyniadau'r dadansoddiadau yn is-adrannau 6.5 ac 6.6.

6.7 Trafodaeth

Nesaf, ceir trafodaeth o'r canlyniadau a gyflwynwyd yn y dadansoddiadau, a'u perthynas i'r cwestiynau ymchwil a gyflwynwyd ar ddechrau'r bennod (6.1). Ceir trafodaeth o ganfyddiadau'r ymchwil ar y nodweddion dan sylw yn berthnasol i'r cwestiynau ymchwil unigol dan sylw. Yn gyntaf, atebir y cwestiwn ymchwil cyntaf sef pa amrywiolion y mae'r disgyblion yn eu cynhyrchu ar gyfer (ai). Felly, trafodwn pa amrywiolion sy'n gyffredin gan ddisgyblion YUGC, ac i ba raddau y ceir amrywio rhwng gwahanol amrywiolion (ai). Yn dilyn hynny, atebir yr ail gwestiwn ymchwil sef i ba raddau mae ffactorau cymdeithasol ac ieithyddol yn effeithio ar amrywio (ai). Gwneir hyn yn gyntaf trwy grynhoi ffactorau arwyddocaol dadansoddiadau 6.5 ac 6.6, ac yn dilyn hynny, ceir trafodaeth ehangach ynghylch ffactorau arwyddocaol y dadansoddiad effeithiau cymysg. Trafodir hefyd unrhyw batrymau pellach gwerth eu trafod gan ffactorau nad oeddent yn arwyddocaol yn y dadansoddiadau effeithiau cymysg.

6.7.1 Pa amrywiolion y mae'r disgyblion yn eu cynhyrchu ar gyfer (ai)?

Nod gyntaf y bennod felly oedd sefydlu pa amrywiolion y mae'r disgyblion yn eu cynhyrchu ar gyfer (ai). Gwelir bod amrywio rhwng y tri amrywiolyn a geir ar gyfer (ai). Nid yw'r sefyllfa felly yn unffurf gan fod y disgyblion yn cynhyrchu tri amrywiolyn posibl yn y gymysgedd dafodieithol. Gwelir yn 6.5.1.1 mai /ai/ yw'r amrywiolyn mwyaf cyffredin, yr amrywiolyn /ε/ yw'r ail fwyaf cyffredin, ac /a/ yw'r amrywiolyn lleiaf cyffredin. Golyga hyn mai ffurf sy'n draddodiadol yn ffurf safonol, nad oedd yn gyffredin mewn llafar digymell mewn amrywiadau traddodiadol, yw'r ffurf fwyaf cyffredin ar lafar gan ddisgyblion YUGC. O ganlyniad gellid dweud bod safoni ar waith yng Nghymraeg YUGC yn unol â dehongliad Thomas (1987; gw. Jones 1998) bod defnydd uchel o ffurfiau orgraffyddol yn dynodi Cymraeg llafar safonol. Ceir felly debygrwydd gyda siaradwyr ifanc Cwm Rhymni a

Rhosllannerchrugog yn Jones (1998; gw. Tabl 28 a Tabl 29) yn eu defnydd o'r amrywiolyn safonol /ai/. Felly, gellid dweud bod y defnydd hwn o'r ffurf safonol yn nodwedd gyffredin o iaith pobl ifanc mewn ysgolion Cymraeg.

Mae'n debygol fod natur ffurfiol yr iaith sy'n cael ei dysgu mewn ysgolion Cymraeg, gyda'r diben o greu siaradwyr Cymraeg newydd trwy addysg, ynghlwm â'r lleihad yn nefnydd cymdeithasol o'r Gymraeg, yn gyfrifol am hyn. Yn ôl Jones (1998, tt. 282–284),

the lack of opportunity to use Welsh in many communities means that an increasing number of people from English-speaking backgrounds who are learning the language seldom have contact with anything but this 'classroom' Welsh.

Cafwyd honiadau o fodolaeth y math hwn o Gymraeg ystafell ddosbarth yn Enghraifft 27, sef dyfyniadau o'r cyfweiliadau gan Ibrahim,

Enghraifft 27 – Ibrahim

Cyf.: so os fysai gen ti job interview fory, oce

Ibrahim: *okay*

Cyf.: fyset ti yn siarad yn wahanol um, i'r ffordd ti'n siarad gyda ffrindiau ti?

Ibrahim: oh ie, *hundred percent*

- - -

Cyf.: um, so os fysai'r interview yn Gymraeg

fyset ti'n siarad yr un ffordd â ti'n siarad gyda- Cymraeg yn yr ysgol?

Ibrahim: ie, *well*

dwi ddim *really* hefo dau neu tri- -- dwi ddim yn meddwl am Cymraeg fel peth dwi'n siarad mewn dau ffordd, 'cause dwi ddim *really* -- dwi'm yn siarad Cymraeg anffurfiol lot 'cause pan dwi yn siarad yn anffurfiol, dwi'n siarad Saesneg

Gellid honni bod natur ffurfiol yr ystafell ddosbarth, sef yr unig lle y mae'r Gymraeg yn hollol orfodol iddynt siarad, yn naturiol yn arwain at dwf ffurfiau safonol yn eu hiaith.

Gyda thwf y Gymraeg yng Nghaerdydd trwy gynnydd mewn nifer a chanran siaradwyr, a'r cynnydd yn y cyfleoedd sydd ar gael y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth i

ddefnyddio'r Gymraeg trwy gyrff megis Menter Caerdydd a'r Urdd, nid yw holl agweddau dyfyniad Jones (1998) yn adlewyrchiad hollol gywir o sefyllfa'r Gymraeg yn gymdeithasol ar gyfer disgyblion YUGC bellach. Er hynny, ar gyfer disgyblion fel Ibrahim, nad ydynt yn siarad Cymraeg yn aml mewn cyd-destunau anffurfiol, mae'n anochel bod natur ffurfiol i'w Cymraeg, rhywbeth y mae disgyblion megis Ibrahim yn ymwybodol ohono.

Ymhellach, dengys ymchwil blaenorol ar amrywiadau newydd mewn addysg cyfrwng iaith leiafrifol o ganlyniad i ymdrechion adfywio ieithyddol fod pobl ifanc yn aml yn dargyfeirio o amrywiadau traddodiadol, fel y nodwyd yn 6.2.1 ynglŷn â Gaeleg disgyblion amrywiad newydd Glasgow (Nance 2013, t. 156). Nodwyd yn Nance et al. (2016, t. 185): 'speakers preferred an ideal self that was more oriented towards a new-speaker model and considered a native-speaker target as inauthentic'. Cyniga Jaffe (2015, t. 25) resymeg tu ôl i ddargyfeiriad amrywiadau siaradwyr newydd oddi wrth amrywiadau traddodiadol fel a ganlyn: '[new speakers] acquire a socially and communicatively consequential level of competence and practice in the minority language' (2015: 25). Felly, gellid cynnig bod twf /ai/ yn rhan o'r model siaradwr newydd yng Nghymraeg YUGC, ac yn ganlyniad i'w profiad cymdeithasol o'r Gymraeg.

Mewn amrywiadau traddodiadol ar y Gymraeg, amrywiolion /ɛ/ ac /a/ sy'n gyffredin yn yr iaith lafar fel y nodwyd yn is-adran 6.1. Mae eu presenoldeb fel amrywiolion yng Nghymraeg YUGC felly yn enghraifft o gyffyrddiad tafodieithol yng Nghymraeg YUGC, gan fod /ɛ/ yn ffurf gyffredin yn ne Cymru a gogledd-ddwyrain Cymru, ac /a/ yn ffurf gyffredin yng ngogledd-orllewin Cymru. Er presenoldeb y ddau, mae statws /ɛ/ yn y gymysgedd dafodieithol yn llawer mwy sefydlog na statws /a/. Byddai ymchwil pellach yn medru archwilio i ba raddau y mae presenoldeb /a/ ac /ɛ/ yn amrywio mewn cyd-destunau tu hwnt i'r ysgol ymhlith siaradwyr o aelwydydd Cymraeg â rhieni o ardaloedd traddodiadol y Gymraeg. Ceir mwy o fanylder am hyn yn 7.2.

Felly, /ɛ/ yw'r ffurf dafodieithol gyffredin gan ddisgyblion YUGC. Yn ôl Thomas a Thomas (1989), ffurf sy'n gynhenid i dde-orllewin a gogledd-ddwyrain Cymru yw /ɛ/, ac yn hanesyddol, /a/ yw'r ffurf gynhenid yn ne-ddwyrain Cymru yn hen dafodiaith y Wenhwysseg.

Gellid cynnig amryw o resymau dros statws /ɛ/ fel y ffurf dafodieithol draddodiadol sydd fwyaf cyffredin yng Nghymraeg YUGC. Awgrymwyd yn 6.2 fod bri ieithyddol ynghlwm â ffurf /ɛ/ o'i gymharu â'r ffurf /a/ ym myd y cyfryngau a gohebu Cymraeg (Ball, Griffiths a Jones 1988; Morgan 1995; Cole Jones 2008) ac yn y gymdeithas yn gyffredinol (Jones 1984). O ystyried felly fod ymgymhwysu yn gyffredin o /a/ i /ɛ/, mae'n bosibl hefyd y ceir hynny gan rieni o'r gogledd-orllewin sydd ag /a/ yn eu tafodiaith wreiddiol.

Yn ychwanegol, gellid honni bod disgyblion YUGC yn adnabod /ɛ/ fel ffurf ddeheuol, a bod /a/ yn bendant â statws fel amrywiolyn gogledd-orllewinol gan ddisgyblion. Er mai dyma'r ffurf wreiddiol yn y Wenhwyseg (Thomas a Thomas 1989, t. 41), sef tafodiaith draddodiadol de-ddwyrain Cymru, nid yw patrymau'r Wenhwyseg yn gyfarwydd i siaradwyr YUGC, nac felly'n berthnasol yng nghyd-destun cyffyrddiad tafodieithol. Sonia Maya am un athrawes yn yr ysgol:

Enghraifft 28 – Maya

Maya: ma' hi bach, ma' hi just yn, weithiau ma hi efo fel acen
ar rhai pethau ma' hi'n dweud

Cyf.: acen be'?

- - -

Maya: sai'n gw'bo' ond, weithiau ma' hi'n dweud pethau, a mae ddim, by' fi fel, fi ddim yn
dweud e fel hynna

Cyf.: ah *okay*

Maya: fel chwatar a pethau fel hynna

Cyf.: *really? okay*, fel mwy Gogleddol

Maya: ie, ie.

Felly, dengys Enghraifft 28 fod tueddiad i ystyried amrywiolyn /a/ fel nodwedd sy'n gysylltiedig â'r gogledd cyfan mewn modd amhenodol. Felly, er bod disgyblion YUGC fel Maya yn amlwg yn profi amrywiolion gogleddol fel dengys dyfyniad Maya, nid yw hynny i'w weld yn dylanwadu'n fawr iawn eu defnydd o'r amrywiolion tafodieithol, ymhellach na chanran fechan o docynnau /a/ yn y cyfweliadau.

Mewn ymchwil ar amrywiadau Cymraeg traddodiadol, adlewyrchwyd un ffurf lafar gyffredin sy'n perthyn i ardal benodol fel y dengys Thomas a Thomas (1989). Dengys yr ymchwil hwn amrywio rhwng dau amrywiolyn cyffredin ar gyfer (ai). Ceir tebygrwydd rhwng yr ymchwil hwn felly ac ymchwil Jones (1988) ar Gymraeg y Gaiman, Patagonia, a Jones (1998) yng Nghwm Rhymni a Rhosllannerchrugog lle y gwelir amrywio rhwng amrywiolion ar gyfer (ai) yn ogystal. Er hynny, yn Jones (1988) gwelir bod newid rhwng gwahanol oedrannau, ac felly oed sydd wrth wraidd gwahaniaeth rhwng cynhyrchiad amrywiolion (ai) fel y nodwyd yn 6.2.5. Yn yr ymchwil hwn, mae'r ddau amrywiolyn yn gyffredin gan ddisgyblion YUGC o'r un oed, fel y gwelir yng Nghwm Rhymni a Rhosllannerchrugog yn Tabl 28 a Tabl 29 (Jones 1998).

6.7.2 Sut y mae ffactorau cymdeithasol ac ieithyddol yn effeithio ar amrywio (ai)?

Ail nod y bennod oedd canfod sut y mae ffactorau cymdeithasol ac ieithyddol yn effeithio ar amrywio (ai). Yn gyntaf, gwelwn fod y dadansoddiad archwiliadol yn canfod bod y math o air, nifer sillafau, cyd-destun rhagflaenol, cyd-destun olynol, rhywedd, iaith yr aelwyd, tasg a chlwstwr arfer yn ystadegol arwyddocaol. Fel y nodwyd yn 6.5, cynhaliwyd y dadansoddiad archwiliadol er mwyn canfod effaith y ffactorau hyn yn neilltuol. Orgraffyn oedd yr unig ffactor nad oedd yn ystadegol arwyddocaol, ac roedd diffyg arwyddocâd orgraffyn fel ffactor yn gyfiawnhad pellach i beidio â chynnal dadansoddiad unigol fesul orgraffyn o effaith y ffactorau cymdeithasol ac ieithyddol.

Yn y dadansoddiadau effeithiau cymysg, fel y nodwyd yn 6.6, gwelwyd bod tasg, cyd-destun olynol, orgraffyn, nifer sillafau, iaith yr aelwyd a chyd-destun rhagflaenol yn ystadegol arwyddocaol yn y model *step-down* mwyaf effeithiol. Nid oedd math o air, rhywedd na chlwstwr arfer yn ystadegol arwyddocaol yn y dadansoddiad effeithiau cymysg yn 6.6. Nesaf, ceir trafodaeth ynghylch goblygiadau'r ffactorau arwyddocaol yn y dadansoddiad effeithiau cymysg, ac unrhyw batrymau gwerth eu nodi gan ffactorau nad oeddent yn arwyddocaol yn y dadansoddiad effeithiau cymysg yn ogystal.

Roedd effaith tasg yn ystadegol arwyddocaol yn y dadansoddiad effeithiau cymysg. Dengys canlyniadau dadansoddiad tasg fod cynhyrchiad ffurf safonol /ai/ yn llawer is, a

chynhyrchiant ffurf dafodieithol /ɛ/ yn llawer uwch yn y dasg cyfweld – wedi'i llunio er mwyn ennyn llafar digymell gan y disgyblion – nag yn y dasg rhestr geiriau – wedi'i llunio er mwyn ennyn llafar mwy gofalus gan y disgyblion. Mewn gwirionedd, disgwylir i ffurf safonol /ai/ fod yn gyffredin mewn tasg rhestr geiriau gan siaradwyr Cymraeg gan mai dyma'r ffurf safonol sy'n gyffredin mewn sgwrs ffurfiol fel y nodwyd eisoes. Dengys arwyddocâd tasg fel ffactor sy'n arwain at amrywio (ai) fod amrywio ar sail arddull yn amlwg ymysg disgyblion YUGC.

Cyferbynna hyn ag Enghraifft 27 uchod a barn rhai disgyblion, yn ogystal ag awgrym bod safoni yn arwain at ddiffyg cyweiriau neu arddulliau gan ddisgyblion, a allai fod yn arwydd o dranc tafodiaith ac iaith yn y pen draw (Jones 1998; Thomas 1991). Mae arwyddocâd tasg a chanfyddiad yr astudiaeth hon bod amrywio arddull yn gyffredin gan siaradwyr YUGC yn ymdebygu ag awgrym Thomas (1991, t. 46) ynglŷn â gallu siaradwyr o amrywiadau Cymraeg newydd y de-ddwyrain i amrywio arddull:

we do however, have many first hand and anecdotal accounts of style-shifting which testify that at least some children shift in the direction of (a) a new variety when they are in the company of their peers, and (b) a more (non-south-eastern) regionally-based variety in the company of adults, particularly members of their immediate family.

Er hyn, cyferbynna canfyddiadau'r ymchwil hwn gyda dyfyniad Thomas (1991) uchod, gan mai amrywio ar sail ffurfioldeb a geir yma, yn hytrach nag amrywio arddull rhwng cyfoedion ac aelodau o'u teulu, sydd ond yn berthnasol ar gyfer siaradwyr o aelwydydd Cymraeg. Mae disgyblion o aelwydydd Cymraeg ac aelwydydd di-Gymraeg yn amrywio ar sail ffurfioldeb yn yr ymchwil hwn.

Ymhellach, mae'r ffurf dafodieithol /ɛ/ yn fwy cyffredin na'r ffurf safonol /ai/ yn y dasg cyfweliad, ac felly mewn llafar digymell disgyblion YUGC. Felly, yn wahanol i ymchwil blaenorol ar amrywiolion (ai) mewn amrywiadau Cymraeg y de-ddwyrain (Jones 1998, t. 96), amrywiolyn tafodieithol sydd fwyaf cyffredin gan ddisgyblion YUGC mewn llafar ddigymell. Er hyn, mae'n bwysig pwysleisio bod yr ymchwil hwn yn ystyried mwy na llafar digymell yn unig. Ceir dwy dasg sy'n amrywio mewn ffurfioldeb er mwyn arddangos amrywio ar sail

ffurfioldeb fel y nodwyd uchod. Nid yw amrywio ar sail ffurfioldeb yn cael ei gyfleu mewn ymchwil blaenorol ar (ai) yn y sillaf olaf ddiacen.

Ystyriwn eto fod ymchwil hanesyddol gan Jones (1998) a Thomas (1991) yn ystyried y feirniadaeth hanesyddol ynglŷn â natur or-safonol amrywiadau newydd Cymraeg y de-ddwyrain neu ysgolion uwchradd Cymraeg. Ar yr un llaw gellid dweud bod amrywio ar sail tasg yn cyfleu amrywio ar sail arddull, ac felly bod disgyblion yn meddu ar wahanol arddulliau yn ddibynnol ar y cyd-destun. Ar y llaw arall, gellid dweud bod cyfradd uchel o'r ffurf safonol mewn iaith ddigymell hefyd yn cadarnhau eu hamheuron bod natur safonol i'r amrywiadau Cymraeg hyn. Er hyn, os cymherir data'r cyfweiliad â data siaradwyr ifanc Cwm Rhymni a Rhosllannerchrugog yn Jones (1998)¹³ gwelir gwahaniaethau a pharalelau rhwng ei data a data'r ymchwil hwn.

Ceir paralelau rhwng cyfraddau'r ymchwil hwn â siaradwyr ifanc Rhosllannerchrugog. Mae siaradwyr ifanc Rhosllannerchrugog ac YUGC yn cynhyrchu'r ffurf dafodieithol /ɛ/ fwyaf, yn ogystal â chanran sylweddol o'r ffurf safonol /ai/. Mae siaradwyr ifanc mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn Rhosllannerchrugog hefyd yn cynhyrchu cyfradd debyg o ffurf dafodieithol /a/ o'u cymharu â disgyblion YUGC, ond nid yw siaradwyr o addysg cyfrwng Saesneg Rhosllannerchrugog yn cynhyrchu ffurf dafodieithol /a/. Yng Nghwm Rhymni, sef ardal yn ne-ddwyrain Cymru, ceir cyfradd uwch o ffurf safonol /ai/ a chyfradd is o ffurf dafodieithol /ɛ/ nag yn YUGC. Ni chynhyrchir ffurf dafodieithol /a/ sy'n gynhenid i'r de-ddwyrain o gwbl gan siaradwyr ifanc yn nata Jones (1998, t. 96). O ganlyniad, ceir tebygrwydd i'r ddwy ardal yma, gyda phobl ifanc yn defnyddio cyfraddau uwch o /ɛ/ ac /ai/ a chyfraddau is o /a/, ond ceir tebygrwydd agosach at ddisgyblion cyfrwng Cymraeg Rhosllannerchrugog.

Felly, mae'r dasg cyfweld, sydd wedi'i llunio ar gyfer ennyn llafar digymell gan ddisgyblion YUGC, yn cynhyrchu cyfraddau tebyg iawn o'r amrywiolyn tafodieithol traddodiadol /ɛ/ – sydd wedi ymddangos yn y gymysgedd dafodieithol trwy gyffyrddiad

¹³ Dim ond tasg cyfweiliad a ddefnyddiodd Jones (1998) ar gyfer casglu data gan ddisgyblion ysgol.

tafodieithol – a’r amrywiolyn safonol /ai/ – sydd wedi ymddangos yn y gymysgedd dafodieithol trwy safoni. O safbwynt damcaniaeth ffurfiant tafodiaith newydd, dengys cyfraddau tebyg y ddau amrywiolyn yn y dasg cyfweld nad oes un amrywiolyn yn ffocysu, ac o ganlyniad nid yw’r amrywiad hwn o’r Gymraeg wedi ei ffurfio mewn modd cwbl sefydlog.

Roedd effaith cyd-destun seinegol olynol yn ystadegol arwyddocaol yn y dadansoddiad effeithiau cymysg. Cafwyd trefn hierarchol, o’r gyfradd uchaf i’r isaf ar gyfer amrywiolyn /ai/: trwynolyn > ffrithiolyn > tril > ffrwydrolyn > dim sain > dynesolyn ochrol fel y nodwyd yn 6.5.1.5. Ceir cyfraddau /ai/ fwyafrifol gan bob cyd-destun olynol ac eithrio dynesolion ochrol, a oedd yn ennyn /ε/ yn y mwyafrif o achosion. Golyga arwyddocâd cyd-destun seinegol olynol yn y dadansoddiad effeithiau cymysg yn 6.6 bod cyfyngiad ieithyddol yn effeithio ar gynhyrchiad (ai) yn y sillaf olaf ddiacen gan ddisgyblion YUGC. Nid oes unrhyw ymchwil blaenorol a gyflwynwyd yn 6.2 yn ystyried cyd-destun seinegol olynol felly nid oes ymchwil cymharol yn bodoli ar gyfer y ffactor hwn.

Roedd effaith orgraffyn yn ystadegol arwyddocaol yn y dadansoddiad effeithiau cymysg yn 6.6. Gwelir y cynhyrchir trefn hierarchol, o’r gyfradd uchaf i’r isaf ar gyfer amrywiolyn /ai/ gan orgraffyn <ae> > <ai> > <au>, ond ceir cyfraddau tebyg iawn gan orgraffynnau <ai> ac <au>. Felly, mae’r gwahaniaeth arwyddocaol rhwng orgraffyn <ae> a’r ddau orgraffyn <ai> ac <au>, gydag orgraffyn <ae> yn cynhyrchu cyfradd uwch o amrywiolyn safonol /ai/. Byddai ymchwil pellach ar yr orgraffyn hwn yn medru taflu goleuni dros y patrymu amrywiol hwn ar gyfer <ae>.

Gwelir yn y dadansoddiad effeithiau cymysg fod effaith nifer sillafau fel ffactor yn ystadegol arwyddocaol. Gwelir canlyniadau cymharol rhwng y ddwy nodwedd. Cynhyrchir cyfraddau uwch o’r amrywiolyn safonol /ai/ mewn geiriau tairsillafog a phedairsillafog, a chynhyrchir cyfraddau is o’r amrywiolyn safonol /ai/ mewn geiriau deusillafog. Felly, ceir defnydd uwch o amrywiolyn tafodieithol /ε/ mewn cyd-destun deusillafog o’i gymharu â’r cyd-destunau sy’n cynnwys mwy o sillafau. Mae’n bosibl bod y geiriau deusillafog yn fwy cyfarwydd i’r disgyblion na’r geiriau hwy, gan fod eu hamlder yn uwch. Felly cynhyrchir mwy o’r amrywiolyn llafar /ε/ yno, gan fod y disgyblion yn gyfarwydd â phresenoldeb yr amrywiolyn yn y geiriau hyn. O ganlyniad gellid dweud nad yw amrywio /ai/ - /ε/ yn fater o

ddefnydd mewn cyd-destun ffurfiol a chyd-destun anffurfiol yn unig, fel y dasg rhestr geiriau a'r dasg cyfweiliad. Mae'n bosibl ei fod hefyd yn ddangosydd o ba mor gyfarwydd neu gyffredin yw'r gair i'r disgybl.

Roedd effaith iaith yr aelwyd hefyd yn ystadegol arwyddocaol yn y dadansoddiad effeithiau cymysg yn 6.6. Ceir canfyddiadau tebyg ynglŷn ag effaith iaith aelwyd yn effeithio ar amrywio mewn ymchwil ar ieithoedd lleiafrifol eraill (Paradis 2001; Fowler et al. 2008; Simonet 2010, 2014; Simonet ac Amengual 2020), er bod ymchwil ar y Gymraeg wedi tueddu i beidio ag arddangos gwahaniaethau ar sail iaith yr aelwyd (Morris 2013; 2017; Mayr et al. 2017). Er hynny, gwelir gwahaniaethu ar sail iaith yr aelwyd yn astudiaeth Morris (2021) ar amrywio seinegol /r/ yng Nghaernarfon. Dengys Morris (2013; 2021, t. 15) fod iaith yr aelwyd yn dynodi hunaniaeth ymysg siaradwyr Caernarfon, ond nid yw hynny'n wir ymysg disgyblion YUGC fel y dengys iaith aelwydydd y cymunedau arfer yn 4.3.

Eto, y ffurf safonol /ai/ yw'r ffurf fwyaf cyffredin gan ddisgyblion o aelwydydd Cymraeg ac aelwydydd di-Gymraeg, ond mae eu cyfraddau yn amrywio. Mae disgyblion o aelwydydd Cymraeg yn cynhyrchu cyfraddau sylweddol uwch o amrywiolyn /ɛ/, a disgyblion o aelwydydd di-Gymraeg yn cynhyrchu cyfraddau sylweddol uwch o amrywiolyn /ai/. Golyga hyn felly fod disgyblion o aelwydydd Cymraeg yn fwy tueddol o gynhyrchu amrywiolyn tafodieithol /ɛ/ na disgyblion o aelwydydd di-Gymraeg, sy'n fwy tueddol o gynhyrchu amrywiolyn safonol /ai/. Golyga hyn fod disgyblion o aelwydydd Cymraeg yn cydffurfio â phatrymau sosioieithyddol sy'n fwy unol â phatrymau amrywiadau traddodiadol y Gymraeg, na disgyblion o aelwydydd di-Gymraeg.

Y ffactor olaf i'w drafod a oedd yn ystadegol arwyddocaol yn y dadansoddiad effeithiau cymysg yw cyd-destun seinegol rhagflaenol. Fel y nodwyd yn 6.5.1.4, mae pob cyd-destun seinegol rhagflaenol yn cynhyrchu'r cyfradd /ai/ uchaf, a cheir cyfraddau amrywiol ar gyfer /ɛ/. Ceir trefn hierarchol, o'r gyfradd uchaf i'r isaf ar gyfer amrywiolyn /ai/ fel a ganlyn: trwynolyn > llafariad > ffrwydrolyn > tril > dynesolyn > ffrithiolyn. Yn yr un modd ag y cafwyd ar gyfer cyd-destun seinegol olynol, mae arwyddocâd cyd-destun seinegol rhagflaenol yn dangos effaith cyfyngiad ieithyddol ar amrywio (ai) yn y sillaf olaf ddiacen gan

ddisgyblion YUGC. Nid oes unrhyw ymchwil blaenorol a gyflwynwyd yn 6.2 yn ystyried cydestun seinegol olynol felly nid oes ymchwil cymharol ar gyfer y ffactor hwn.

Nesaf, ceir trafodaeth ynghylch unrhyw ffactorau pellach nad oeddent yn ystadegol arwyddocaol yn y dadansoddiadau effeithiau cymysg yn 6.6, sy'n ennyn sylw pellach oherwydd patrymau gwerth eu nodi, neu gymhariaeth gydag ymchwil blaenorol. Nodwyd eisoes nad oedd ffactorau clwstwr arfer, rhywedd na'r math o air yn ystadegol arwyddocaol yn y dadansoddiad effeithiau cymysg. Yn gyntaf, trafodwn glwstwr arfer fel ffactor sy'n effeithio ar amrywio (ai) yn y sillaf olaf ddiacen.

Fel y nodwyd, nid oedd clwstwr arfer yn ffactor ystadegol arwyddocaol yn y dadansoddiad effeithiau cymysg yn 6.6. Er nad yw clwstwr arfer yn ystadegol arwyddocaol, a phob clwstwr arfer yn cynhyrchu'r un drefn hierarchol o'r gyfradd uchaf i'r isaf o /ai/ > /ε/ > /a/, mae'n bosibl arsylwi patrymau o fewn cynhyrchiad amrywiolion (ai), yn bennaf yn berthnasol i ddefnydd yr amrywiolion tafodieithol yn erbyn yr amrywiolyn safonol. Clystyrau arfer y 'Merched Poblogaidd' a 'Cymraeg_Chwaraeon' sy'n cynhyrchu'r gyfradd uchaf o amrywiolyn tafodieithol /ε/ a'r gyfradd isaf o amrywiolyn safonol /ai/. Mae'r 'Bechgyn Meme Chat', 'Rhun_Normal' a'r 'Sbarteiniaid' yn cynhyrchu cyfradd is o amrywiolyn tafodieithol /ε/ a chyfradd uwch o amrywiolyn safonol /ai/. Mae clwstwr arfer 'Cassie_Geeks' yn cynhyrchu cyfradd is fyth o amrywiolyn tafodieithol /ε/ a chyfradd uwch fyth o amrywiolyn safonol /ai/.

Gan ystyried bod iaith yr aelwyd yn ystadegol arwyddocaol yn y dadansoddiad hwn, mae'n bosibl bod effaith iaith yr aelwyd yn cyfrannu at y patrymu hwn o ran y defnydd o'r amrywiolyn tafodieithol /ε/ vs. yr amrywiolyn safonol /ai/. Awgrymir ei bod hi'n bosibl oherwydd arwyddocâd effaith iaith yr aelwyd ar gyfer y nodwedd hon, bod clystyrau arfer 'Merched Poblogaidd' a 'Cymraeg_Chwaraeon', sy'n cynnwys disgyblion o aelwydydd Cymraeg (yn ogystal â disgyblion o aelwydydd di-Gymraeg) yn fwy cymwys yn sosioieithyddol yn y Gymraeg, neu'n fwy cyfarwydd ag amrywiadau Cymraeg traddodiadol, gyda defnydd /ε/ uwch ac /ai/ is yn yr achos hwn, fel y nodwyd uchod.

Mae'n bosibl bod cymhwysedd sosioieithyddol uwch y clystyrau arfer hyn i'w weld yn eu cynhyrchiad is o amrywiolyn tafodieithol /a/ yn ogystal. Sonnir yn Thomas (1991, t. 46) am feirniadaeth hanesyddol siaradwyr Cymraeg traddodiadol ynghylch cymhwysedd sosioieithyddol disgyblion o ysgolion Cymraeg sy'n siarad amrywiadau newydd o'r Gymraeg, yn benodol yn ne-ddwyrain Cymru. Er hynny, ni ellir dweud mai iaith yr aelwyd yn unig sy'n arwain at y patrymu hwn, gan fod, fel y nodwyd uchod, aelodau o aelwydydd di-Gymraeg yn rhan o'r 'Merched Poblogaidd'. Mae'n debyg bod rhesymau eraill, yn ymwneud ag hunaniaeth y clwstwr arfer yn arwain at gynhyrchiad amrywiolion (ai) gan y clystyrau arfer hyn, ac nid iaith yr aelwyd yn unig.

Rhannwyd y data ar sail y math o air hefyd, y mathau o eiriau dan sylw oedd ansoddeiriau, enwau, berfenwau, berfau ac adferfau. Nid oedd yr amrywio rhwng mathau o eiriau yn ystadegol arwyddocaol yn y dadansoddiad effeithiau cymysg yn 6.6. Edrycha Jones (1988) ar amrywio ar sail math o air yng Nghymraeg y Gaiman, a chenfydd fod dau amrywiolyn, /a/ ac /ε/, yn bosibl ar gyfer (ai) mewn mathau o eiriau gwahanol yno. Mae'r patrwm hwn yn gyffredin yn YUGC hefyd, gydag /ai/ ac /ε/ yn gyffredin mewn mathau o eiriau gwahanol. Cyferbynna hyn â Chymraeg traddodiadol, lle mae un amrywiolyn ar gyfer (ai) yn y sillaf olaf ddiacen mewn gwahanol mathau o eiriau.

Rhannwyd y data ar sail rhywedd yn ogystal, ac er nad oedd rhywedd yn ystadegol arwyddocaol yn nadansoddiad effeithiau cymysg 6.6, sylwir ar wahaniaethau yn nefnydd bechgyn a merched o amrywiolion (ai) yn y sillaf olaf ddiacen. Fel y nodwyd yn 6.5.2.1, cynhyrchir cyfradd uwch o amrywiolyn tafodieithol /ε/ gan y merched o'u cymharu â'r bechgyn sy'n cynhyrchu cyfradd uwch o amrywiolyn safonol /ai/. Mewn gwaith blaenorol ar y Gymraeg gan Mayr a Davies (2011) a Mayr et al. (2017) ni rannwyd y data ar sail rhywedd, gyda dim ond bechgyn dan sylw yn eu hymchwil. Yn Morris (2013, 2017) canfuwyd bod merched yn fwy tueddol o gynhyrchu'r amrywiolion safonol na bechgyn, felly mae'r ymchwil hwn yn canfod y gwrthwyneb i'r ymchwil hwnnw.

6.8 Crynodeb

I gloi, dengys y bennod hon fod amrywio yn achos (ai) yn y sillaf olaf ddiacen yn bresennol gan ddisgyblion YUGC. Gwelir mai'r /ai/ safonol yw'r amrywiolyn mwyaf cyffredin yn gyffredinol gan ddisgyblion YUGC (o ystyried y ddwy dasg). Mae'r canlyniad hwn yn cyd-fynd â chanlyniadau Jones (1998) yn Rhosllannerchrugog a'r Rhymni lle'r oedd defnydd o'r amrywiolyn safonol ar gynnydd ymysg pobl ifanc yno hefyd. Er hynny, tafla'r dadansoddiad tasg oleuni ar ddefnydd o'r amrywiolyn tafodieithol traddodiadol /ɛ/ mewn sgwrs ddigymell yn y dasg cyfweld, a oedd yn fwy cyffredin mewn sgwrs ddigymell na'r amrywiolyn safonol /ai/. Felly ceir amrywio seinegol ar sail arddull yn iaith disgyblion YUGC, a olyga fod disgyblion YUGC yn berchen ar wahanol arddulliau a chyweiriau yn y Gymraeg. Mae hyn i'r gwrthwyneb i honiadau rhai disgyblion, a barn lleygwyr a gyflëir mewn ymchwil blaenorol gan Jones (1998) a Thomas (1991) a rybuddiai y gall safoni arwain at ddiffyg cyweiriau a thranc iaith yn y pen draw.

Gellid dweud felly fod /ai/ safonol ac /ɛ/ fwy traddodiadol yn gyffredin iawn yng nghymysgedd dafodieithol y disgyblion. Yn ogystal, mae lefelau isel o /a/ yn bresennol hefyd, sy'n dangos tystiolaeth o gyffyrddiad tafodieithol gydag amrywiadau Cymraeg gogledd-orllewinol ymysg iaith disgyblion YUGC, er nad yw eu dylanwad yn sylweddol iawn. O safbwynt damcaniaeth ffurfiant tafodiaith newydd, mae presenoldeb amlwg y ddau amrywiolyn cyffredin /ai/ ac /ɛ/ yn awgrymu nad yw amrywiad Cymraeg Caerdydd wedi ffocysu o safbwynt amrywiolion (ai) yn y sillaf olaf ddiacen.

Dengys y drafodaeth uchod hefyd fod amryw o ffactorau cymdeithasol ac ieithyddol yn effeithio ar gynhyrchiad amrywiolion (ai) yn y sillaf olaf ddiacen gan ddisgyblion YUGC. Cafwyd tasg yn ystadegol arwyddocaol fel y nodwyd uchod, a dengys hyn amrywio ar sail arddull gan ddisgyblion YUGC. Roedd orgraffyn hefyd yn ystadegol arwyddocaol, gyda'r orgraffyn <ae> yn cynhyrchu cyfraddau amrywiolion gwahanol i orgraffynnau <ai> ac <au> yn y sillaf olaf ddiacen. Roedd iaith yr aelwyd yn ystadegol arwyddocaol, yn effeithio ar gynhyrchiad amrywiolion (ai), gyda disgyblion o aelwydydd Cymraeg yn fwy tebygol o gynhyrchu /ɛ/ ac yn llai tebygol o gynhyrchu /ai/ na disgyblion o aelwydydd di-Gymraeg. Roedd cyd-destunau seinegol olynol a rhagflaenol hefyd yn ystadegol arwyddocaol ac yn

dangos bod cyfyngiadau ffonolegol yn effeithio ar gynhyrchiad amrywiolion (ai) yn y sillaf olaf ddiacen.

7 Trafodaeth

7.1 Cyflwyniad

Diben y bennod hon yw trafod canfyddiadau'r penodau dadansoddol 5 a 6, ac ateb y cwestiynau ymchwil yng ngoleuni'r canlyniadau. Mae'r cwestiynau ymchwil a gyflwynwyd ym mhennod 1.4, fel a ganlyn:

1. I ba raddau y mae ffactorau cymdeithasol yn effeithio ar ansawdd llafariaid caeedig gefn ac ar amrywio (ai) yn lleferydd disgyblion YUGC?
2. I ba raddau y mae strwythurau cymdeithasol yn gallu taflu goleuni dros amrywio ieithyddol disgyblion YUGC?
3. O ystyried cyd-destun o adfywio ieithyddol yng Nghaerdydd, i ba raddau y gellir trafod y canlyniadau mewn perthynas ag a) effaith cyffyrddiad ieithyddol, a b) effaith cyffyrddiad tafodieithol yng nghyd-destun adfywio ieithyddol yng Nghaerdydd?

Trwy wneud hyn, bydd yr ymchwil hwn yn cyfrannu at ddarlun o amrywiad Cymraeg newydd yng Nghaerdydd am y tro cyntaf, trwy gyflwyno dwy nodwedd sydd yn perthyn iddo. Ym mhennod 5 dadansoddwyd ansawdd y ddwy lafariad gaeedig gefn, /u(:)/ ac /ɔ/, ac ym mhennod 6, dadansoddwyd amrywio yn achos y newidyn (ai) yn y sillaf olaf ddiacen. Gwnaethpwyd hynny gan adeiladu ar ymchwil blaenorol trwy ddefnyddio fframwaith amrywio ieithyddol. Nod yr ymchwil, gan hynny, yw archwilio amrywio yn lleferydd siaradwyr Cymraeg mewn ysgol uwchradd Gymraeg yng Nghaerdydd.

Dadleuir bod Caerdydd yn achos arbennig oherwydd y cyd-destun sosioieithyddol. Caerdydd yw un o'r unig ardaloedd yng Nghymru lle mae'r Gymraeg yn cynyddu mewn niferoedd a chanran siaradwyr (Llywodraeth Cymru 2011). Daw'r twf hwn mewn siaradwyr o ganlyniad i dwf addysg Gymraeg yn y ddinas o ganlyniad i ymdrechion adfywio ieithyddol, yn ogystal ag allfudo o ardaloedd tafodieithoedd traddodiadol y Gymraeg. O ganlyniad, ceir cyd-destun sosioieithyddol yn y ddinas lle mae canran sylweddol o siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf o ardaloedd tafodieithoedd traddodiadol y Gymraeg, yn ogystal â siaradwyr newydd sydd wedi mynychu addysg Gymraeg. Ymhellach, mae'r dafodiaith draddodiadol, y

Wenhwyseg a oedd yn cael ei siarad yn y de-ddwyrain, wedi diflannu ers degawdau bellach, felly nid oes tafodiaith draddodiadol hanesyddol yn cael ei siarad gan y cenedlaethau hynaf o siaradwyr Cymraeg yn y ddinas.

Mae'r ymchwil hwn yn adeiladu ar y corff cymharol fychan o ymchwil acwstig ar y Gymraeg (e.e. Mayr a Davies 2011; Morris 2013, 2017, 2021; Mayr et al. 2017; losad 2017; Mennen et al. 2020). Mae canfyddiadau mewn ymchwil blaenorol ar y Gymraeg yn awgrymu nad yw gwahaniaethau ar sail iaith aelwyd yn effeithio ar amrywio ieithyddol yn y Gymraeg gan mwyaf (Morris 2013, 2017, 2021; Mayr et al. 2017; Mennen et al. 2020) fel y nodwyd yn 3.4.2. Er hynny, ceir gwahaniaethau ar sail iaith aelwyd yng Nghaernarfon (Morris 2013, 2021) lle mae'r Gymraeg yn iaith gymunedol gref, a lle mae iaith aelwyd yn effeithio ar strwythurau cymdeithasol. Mae ymchwil rhyngwladol ar gymunedau dwyieithog megis Simonet (2010, 2014) a Simonet ac Amengual (2020) yn canfod bod iaith aelwyd hefyd yn effeithio ar amrywio mewn siaradwyr dwyieithog.

Mae ymchwil blaenorol ar y Gymraeg wedi canfod bod iaith aelwyd yn diffinio strwythurau cymdeithasol mewn lleoedd lle mae'r Gymraeg yn iaith gymunedol gref, ond nid lle nad yw'r Gymraeg yn iaith gymunedol gref (Morris 2013; Mayr et al. 2017). Mae'r ymchwil hwn yn cymhwyso fframwaith sosioieithyddol y drydedd don ar ymchwil acwstig ar y Gymraeg am y tro cyntaf er mwyn darganfod i ba raddau y mae strwythuro cymdeithasol yn effeithio ar amrywio, trwy ddadansoddi'r clystyrau arfer a gyflwynwyd yn 4.4. Mae'r ymchwil hwn felly yn cyfrannu at y corff o ymchwil ethnograffegol sy'n bodoli ar amrywio ieithyddol (Moore 2004; Lawson 2011; Sharma 2011; Kirkham 2013) ac amrywio ieithyddol mewn cyd-destun o adfywio ieithyddol (Nance 2013, 2015; Nance et al. 2016). Er bod Morris (2013, 2014) a Mayr et al. (2017) wedi ymchwilio i strwythurau cymdeithasol siaradwyr dwyieithog yng Nghymru, nid oes ymchwil sy'n defnyddio dulliau arsylwadol er mwyn asesu i ba raddau mae strwythurau cymdeithasol yn gallu effeithio ar amrywio yn y Gymraeg.

Yng nghyd-destun o adfywio ieithyddol, ceir corff o waith sy'n ymchwilio i amrywio ieithyddol mewn ieithoedd lleiafrifol, gan ganolbwyntio'n bennaf ar siaradwyr newydd. Dengys ymchwil ar Aeleg yr Alban gan Nance (2013, 2015; Nance et al. 2016) fod patrymau newydd yn datblygu sy'n dargyfeirio o ffurfiau traddodiadol o'r Aeleg, ac yn ymdebygu'n fwy

i batrymau o'r Saesneg. Gellid diffinio hyn fel astudiaeth amrywio teip 3, sy'n adeiladu ar waith ar amrywio teip 1 (Selinker 1969, 1972; Tarone 1985) ac amrywio teip 2 (Mougeon et al. 2004; Drummond 2012) fel y nodwyd yn 2.2. Yn wahanol i amrywio teip 1 a theip 2, mae amrywio teip 3 yn ystyried nad yw ymddangos fel siaradwr iaith gyntaf wastad yn addas i gaffaelwyr ail iaith yng nghyd-destun o adfywio ieithyddol.

Yn yr un modd, dengys ymchwil i'r Gymraeg gan Jones (1998) fod patrymau nad ydynt yn gyffredin mewn amrywiadau tafodieithol traddodiadol o'r Gymraeg yn ymddangos yn amrywiadau ysgolion uwchradd Cymraeg yn y Rhymni a Rhosllannerchrugog, er enghraifft, yr ôl-ddodiad '-au' mewn geiriau lluosog. Yn ôl Jaffe (2015, t. 25), '[new speakers] acquire a socially and communicatively consequential level of competence and practice in the minority language'. Felly, mae amrywio teip 3 yn ystyried nad yw siaradwyr ail iaith yng nghyd-destun o adfywio ieithyddol wastad yn ymddangos fel siaradwr iaith gyntaf, ac felly nid yw fframwaith teip 1 neu deip 2 yn hollol addas ar gyfer cyd-destun o adfywio ieithyddol (Nance et al. 2016, t. 185).

Mae gwahaniaeth er hynny rhwng y math o ieithoedd sy'n cael eu trafod yn y corff o waith ar amrywio ieithyddol siaradwyr newydd a'r ymchwil hwn. Mae'r ymchwil hwn ar y Gymraeg, yn ymchwil ar iaith sydd yn dal i fodoli fel iaith gymunedol mewn rhannau helaeth o ogledd a gorllewin Cymru. Yn ychwanegol, o ganlyniad i adfywio ieithyddol ac ymfudo o'r ardaloedd hyn i Gaerdydd, mae'n bendant yn bosibl i bobl fyw bywyd trwy'r Gymraeg yn bennaf yng Nghaerdydd hefyd. Mae hyn yn wahanol i'r darlun a geir yn achos ieithoedd lleiafrifol iawn a geir yn yr ymchwil a nodwyd yn 2.3, er enghraifft Gaeleg yr Alban (Nance 2013, 2015; Nance et al. 2016), Ocsitaneg (Mooney 2016, 2017) neu Francoprovençal (Kasstan 2010, 2015, 2017; Kasstan a Nagy 2018). Yn yr ieithoedd hynny, yn aml nid yw'r iaith yn cael ei throsglwyddo i'r genhedlaeth nesaf, neu nid yw siaradwyr traddodiadol a siaradwyr newydd yn cymysgu (Kasstan 2017, t. 10), neu nid oes ardaloedd traddodiadol lle mae'r ieithoedd hyn yn dal i fodoli fel iaith gymunedol bellach (Nance 2013). O ganlyniad, mae cyferbyniadau hefyd rhyngddynt a'r Gymraeg.

Dengys yr ymchwil hwn effaith cyffyrddiad ar y Gymraeg yn ogystal. Mae'r ymchwil hwn yn archwilio cyffyrddiad ieithyddol a newid ieithyddol trwy drosglwyddiad seinegol

mewn iaith leiafrifol yng nghyd-destun adfywio ieithyddol yn berthnasol i ansawdd y llafariaid caeedig cefn. Yn ail, mae cyffyrddiad tafodieithol yn arwain at newid ieithyddol a phosibilrwydd o ffurfiant tafodiaith newydd yn nodwedd (ai) yn y sillaf olaf ddiacen. Mae sefyllfa Caerdydd yn ymdebygu i agweddau o sefyllfa *tabula rasa* (Trudgill 1986, 2004) lle mae adfywio ieithyddol ac ymfudo o ardaloedd y tafodieithoedd traddodiadol wedi cyfuno mewn un lle i greu amrywiad newydd o'r Gymraeg.

Nid yw'n glir i ba raddau y mae tafodiaith newydd wedi sefydlu yng Nghaerdydd gan nad yw'r dafodiaith wedi cael ei hastudio, er i'r Gymraeg ddechrau ail-sefydlu yng Nghaerdydd yn y 1970au o ganlyniad i'r adfywio ieithyddol a'r ymfudo y nodwyd uchod. O ganlyniad, dyma'r ymgais gyntaf i gofnodi'r amrywiad hwn o'r Gymraeg, a hynny trwy ddefnyddio dulliau amrywio ieithyddol trydedd don, gan ddefnyddio dulliau ethnograffegol a chyfweliadau sosioieithyddol, a thrwy ddadansoddi effaith ffactorau ieithyddol a chymdeithasol ar seineg a ffonoleg y disgyblion.

Bydd yr is-adran hon yn mynd i'r afael ag ateb y cwestiynau ymchwil a gyflwynwyd uchod. Bydd is-adran 7.2 ateb y cwestiwn ymchwil cyntaf, sef i ba raddau y mae ffactorau cymdeithasol sydd wedi cael sylw mewn ymchwil blaenorol yn effeithio ar Gymraeg disgyblion YUGC. Yn ail, bydd is-adran 7.3 yn ateb yr ail gwestiwn ymchwil, sef i ba raddau y mae strwythurau cymdeithasol y dylanwadu ar amrywio ieithyddol disgyblion YUGC. Yn dilyn hynny, bydd is-adran 7.4 yn trafod y trydydd cwestiwn ymchwil yn ymwneud â chyffyrddiad yng nghyd-destun adfywio ieithyddol yng Nghaerdydd, gan hollti'n ddwy is-adran pellach, y cyntaf 7.4.1 lle y trafodir effaith cyffyrddiad ieithyddol yn ymwneud ag ansawdd y llafariaid caeedig cefn, a'r ail 7.4.2 lle y trafodir effaith cyffyrddiad tafodieithol yn ymwneud ag amrywio ffonolegol (ai) yn y sillaf olaf ddiacen. Yn olaf yn is-adran 7.5, trafodir unrhyw ymchwil pellach posibl y dylid ei gynnal yn deillio o'r ymchwil hwn.

7.2 I ba raddau y mae ffactorau cymdeithasol sydd wedi cael sylw mewn ymchwil blaenorol yn effeithio ar Gymraeg disgyblion YUGC?

Nod cyntaf y bennod hon yw canfod i ba raddau mae ffactorau cymdeithasol a sefydlwyd mewn ymchwil blaenorol fel ffactorau sy'n effeithio ar amrywio mewn amrywiadau Cymraeg yn effeithio ar amrywio yng Nghymraeg Caerdydd. Edrychwn ar ffactorau cymdeithasol rhywedd, iaith yr aelwyd ac arddull, tri ffactor sydd wedi derbyn sylw mewn ymchwil blaenorol fel rhai arwyddocaol ar gyfer amrywiadau Cymraeg, a'u perthnasedd i'r ymchwil hwn. Dadansoddwyd y ffactorau cymdeithasol hyn gyda dadansoddiadau effeithiau cymysg a dadansoddiadau archwiliadol. Yn gyntaf, ceir trafodaeth o effaith y ffactorau cymdeithasol ar y llafariad caeedig cefn, cyn symud ymlaen i drafod effaith y ffactorau cymdeithasol ar (ai) yn y sillaf olaf ddiacen.

Felly, yn gyntaf, roedd tasg yn ystadegol arwyddocaol ar gyfer y ddwy nodwedd dan sylw yn yr ymchwil hwn. Lluniwyd y ddwy dasg dan sylw er mwyn ennyn sgwrs sy'n amrywio mewn ffurfioldeb, gyda'r dasg cyfweliad yn ennyn llafar digymell, a'r dasg rhestr geiriau yn ennyn llafar ffurfiol. Trwy ddefnyddio dwy dasg er mwyn casglu data, mae'n bosibl archwilio a oes unrhyw amrywio ar sail ffurfioldeb yn bresennol, a chanfod yn union sut mae'r ffurfiau'n amrywio mewn cyd-destunau sy'n amrywio mewn ffurfioldeb.

Ceir beirniadaethau ynglŷn â defnyddio dwy dasg er mwyn cynrychioli gwahanol arddulliau o leferydd siaradwyr fel gor-symleiddio gan rhai megis Schilling-Estes (2002, t. 377) sy'n ffafrio defnyddio dulliau ethnograffeg eang er mwyn canfod cyd-destunau neu arddulliau naturiol o leferydd siaradwr. Nid oedd yn bosibl gwneud hynny yn y cyfnod arsylwi ethnograffegol hwn, felly penderfynwyd defnyddio dull llai uchelgeisiol, a mwy cyffredin ar gyfer canfod data cyson a chymharol rhwng gwahanol siaradwyr.

Roedd tasg yn ystadegol arwyddocaol ym model $F1 /u(:)/$, $F2 /u(:)/$ ac $F2 /\sigma/$ a thasg oedd yr unig ffactor cymdeithasol ystadegol arwyddocaol yn y modelau hyn (5.9). O ganlyniad, golyga hyn fod tasg yn ffactor sy'n effeithio ar flaenu ac uchder llafariad $/u(:)/$, gyda chymedr $F2$ sylweddol uwch ac felly $/u(:)/$ flaenach yn y dasg cyfweld na'r dasg rhestr geiriau, a chymedr $F1$ uwch ac felly $/u(:)/$ fwy agored yn y dasg cyfweld na'r dasg rhestr

geiriau. Ymhellach, mae tasg yn ffactor sy'n effeithio ar flaenu llafariad /ʊ/, gyda chymedr F2 yn uwch ac felly /ʊ/ yn flaenach yn y dasg cyfweld nag yn y dasg rhestr geiriau. Gellid dweud felly bod ansawdd /u(:)/ ac /ʊ/ flaenach, ac /u(:)/ fwy agored mewn iaith ddigymell disgyblion YUGC, gan fod y dasg cyfweld, sef y dasg wedi'i llunio ar gyfer ennyn iaith ddigymell gan y disgyblion, yn cynhyrchu F2 uwch ar gyfer llafariad /u(:)/ ac /ʊ/ ac F2 uwch ar gyfer llafariad /u(:)/ na thasg y rhestr geiriau. Golyga hyn fod amrywio ar sail arddull ar waith yng Nghymraeg Caerdydd ar gyfer y llafariad caeedig cefn.

Roedd tasg hefyd yn ffactor cymdeithasol ystadegol arwyddocaol yn nadansoddiad effeithiau cymysg (ai) yn y sillaf olaf ddiacen. Dengys arwyddocâd tasg fel ffactor fod disgyblion YUGC yn amrywio eu harddull a'u cynhyrchiad (ai) yn ôl ffurfioldeb. Cynhyrchir cyfraddau ffurf safonol /ai/ is, a ffurf dafodieithol /ɛ/ uwch yn y dasg cyfweliad o'i gymharu â'r dasg rhestr geiriau. Felly, dengys hyn fod ffurf dafodieithol /ɛ/ yn llawer mwy cyffredin mewn llafar digymell, ac er mai /ɛ/ yw'r ffurf fwyaf cyffredin yn y dasg cyfweliad, mae /ai/ dal yn gyffredin iawn mewn iaith ddigymell hefyd. Roedd yr amrywiolyn tafodieithol /a/ hefyd yn bresennol yn y gymysgedd dafodieithol, ond dim ond ar lefelau isel iawn.

Felly, yr hyn a welir trwy ganlyniadau dadansoddiadau ffactor tasg y ddwy nodwedd dan sylw yw bod siaradwyr yn berchen ar arddulliau gwahanol, a chaiff yr arddulliau eu harddangos yma trwy amrywio'r llafariad caeedig cefn mewn gwahanol gyd-destunau. Mae amrywio arddull (*style-shifting*) yn ddangosydd o amrywio *intraspeaker*, sef amrywio o fewn siaradwyr, sydd yn yr achos hwn yn cael ei reoli gan ffurfioldeb (Schilling-Estes 2002). Dengys yr amrywio hyn hefyd fod disgyblion YUGC yn meddu ar *repertoire* ieithyddol yn y Gymraeg sy'n cynnwys gwahanol ansodau seinegol a ffonolegol yn ddibynnol ar ffurfioldeb y sefyllfa. Mae disgyblion yn cynhyrchu ansawdd llafariad gaeedig gefn blaenach a mwy agored mewn cyd-destun anffurfiol o'i gymharu â chyd-destun ffurfiol, ac maent yn cynyddu eu cynhyrchiad o ffurf /ɛ/ a lleihau cynhyrchiad ffurf /ai/ mewn cyd-destun anffurfiol o'i gymharu â chyd-destun ffurfiol.

Mae'r canfyddiadau hyn felly yn groes i'r hyn a adroddir gan Jones (1998) ynglŷn â 'neutral, booked-based variety [of Welsh]' a ddysgir mewn ysgolion Cymraeg. Mae siaradwyr Cymraeg YUGC yn meddu ar *repertoires* yn eu Cymraeg mewn gwahanol gyd-

destunau ffurfioldeb. Yn amlwg, dengys disgyblion YUGC feddiant o wahanol arddulliau trwy gynnal dadansoddiad tasgau sy'n amrywio mewn ffurfioldeb. Nid yw Jones (1998) yn dadansoddi gwahanol dasgau sy'n amrywio mewn ffurfioldeb, ond mae ymchwil blaenorol ar y Gymraeg wedi gwneud hynny.

Nesaf, trown at ganlyniadau iaith yr aelwyd fel ffactor. Mewn ymchwil blaenorol ar effaith iaith yr aelwyd ar amrywiadau Cymraeg, mae iaith yr aelwyd yn aml yn ffactor cymdeithasol sydd o ddiddordeb wrth ystyried grwpiau cymdeithasol disgyblion, a'r amrywio a geir rhwng strwythurau cymdeithasol. Yn Morris (2013, 2021) diffiniwyd grwpiau cymdeithasol pobl ifanc yng Nghaernarfon ar sail iaith aelwyd, ac felly i raddau gwelir effaith iaith yr aelwyd ar amrywio, a sut y gall strwythurau cymdeithasol fapio ar iaith yr aelwyd. Mewn astudiaethau eraill ar y Gymraeg lle nad yw iaith yr aelwyd yn berthnasol ar gyfer aelodaeth o grwpiau cymdeithasol (Morris 2017; Mayr et al. 2017), yn benodol mewn ardaloedd lle nad yw'r Gymraeg yn iaith gymunedol gref, nid yw iaith yr aelwyd yn ffactor arwyddocaol. Dywed Mayr et al. (2017) fod aelodaeth grŵp cymdeithasol yn drech nag iaith yr aelwyd mewn ymchwil o'r fath. Ceir mwy o sylw i strwythurau cymdeithasol yn 7.3.

Ar un llaw, yn yr ymchwil hwn nid yw iaith yr aelwyd yn ffactor sy'n ystadegol arwyddocaol ar gyfer amrywio seinegol y llafariaid caeedig cefn. Ar y llaw arall, mae iaith yr aelwyd yn ffactor sy'n ystadegol arwyddocaol ar gyfer amrywio ffonolegol (ai) yn y sillaf olaf ddiacen. Felly mae (ai) yn y sillaf olaf yn gyson â chanfyddiadau a geir mewn ymchwil eraill ar ieithoedd lleiafrifol (Simonet 2010, 2014; Simonet ac Amengual 2020), lle mae iaith yr aelwyd yn effeithio ar amrywio, ond yn wahanol i'r corff o waith ar y Gymraeg, lle nad ydynt yn canfod gwahaniaethau ar sail iaith yr aelwyd (Morris 2013; 2017; Mayr et al. 2017). Mae'r llafariaid caeedig cefn yn gwneud y gwrthwyneb, ac yn dilyn canfyddiadau a geir mewn ymchwil ar y Gymraeg.

Ar gyfer (ai) yn y sillaf olaf ddiacen, mae disgyblion o aelwydydd Cymraeg yn cynhyrchu cyfraddau uwch o'r amrywiolyn /ε/ na disgyblion o aelwydydd di-Gymraeg, a disgyblion o aelwydydd di-Gymraeg yn cynhyrchu cyfraddau uwch o'r amrywiolyn /ai/ na disgyblion o aelwydydd Cymraeg. Fel y nodwyd yn 6.7.2, golyga hyn fod disgyblion o aelwydydd Cymraeg yn cydffurfio â phatrymau sosioieithyddol sy'n fwy unol â phatrymau

amrywiadau traddodiadol y Gymraeg na disgyblion o aelwydydd di-Gymraeg. Felly, mae disgyblion o aelwydydd Cymraeg yn meddu ar gymhwysedd sosioieithyddol uwch na disgyblion o aelwydydd di-Gymraeg yn berthnasol i batrymau amrywiadau traddodiadol y Gymraeg.

Felly er bod iaith yr aelwyd yn ffactor cymdeithasol sy'n effeithio (ai) yn y sillaf olaf ddiacen, nid yw iaith yr aelwyd yn ffactor cymdeithasol arwyddocaol sy'n effeithio'r llafariaid caeedig cefn. Gall lefelau ymwybyddiaeth y siaradwyr o'r ddwy nodwedd esbonio arwyddocâd effaith iaith yr aelwyd ar amrywio (ai) yn y sillaf olaf ddiacen, a diffyg effaith iaith yr aelwyd ar y llafariaid caeedig cefn. Mae'n bosibl mai nodwedd sy'n ymwneud â chymhwysedd sosioieithyddol siaradwyr yw (ai) yn y sillaf olaf ddiacen. Hynny yw, fel y nodwyd uchod, mae siaradwyr o aelwydydd Cymraeg, sydd â chymhwysedd sosioieithyddol uwch, yn adnabod ac felly'n ymwybodol o batrymau tafodieithoedd Cymraeg traddodiadol. O ganlyniad felly mae'r disgyblion yn cydffurfio – i raddau amrywiol – gyda'r ffurfiau hyn.

Felly, yn berthnasol i'r newidyn (ai) yn y sillaf olaf ddiacen, mae disgyblion o aelwydydd Cymraeg yn cynhyrchu cyfraddau uwch o'r ffurf /ε/ a defnydd is o'r ffurf /ai/ oherwydd eu cymhwysedd sosioieithyddol uwch. Ar gyfer y llafariaid caeedig cefn, nid yw'r siaradwyr yr un mor ymwybodol o ansawdd y llafariaid hyn, ac nid oes cysylltiad gyda'r nodwedd a chymhwysedd sosioieithyddol yn y Gymraeg. Felly, nid oes gwahaniaethu ar sail iaith yr aelwyd yma. Pwysleisir y ffaith fod blaenu-*GOOSE* y Saesneg yn newid sy'n digwydd o dan lefel ymwybyddiaeth y siaradwyr hefyd ddiffyg ymwybyddiaeth siaradwyr o'r ffenomen hon hefyd.

O safbwynt disgyblion aelwydydd Cymraeg, gwelir trawstoriad lleoliad magwraeth rhieni yn 3.7. Nodwyd eisoes fod o leiaf un rhiant gan wyth allan o ddeg o'r disgyblion sydd o aelwydydd Cymraeg, yn dod o ardaloedd tafodieithoedd traddodiadol y Gymraeg. Golyga hyn mai ffurfiau /ε/ ac /a/ fyddai'n gyffredin i'r rhieni hyn ar lafar. Mae pump o'r de-orllewin, pedwar o'r gogledd-orllewin, a thri o'r gogledd-ddwyrain¹⁴. Dengys hyn felly fod y

¹⁴ Mae'r gogledd-ddwyrain yn ardal lle gellir defnyddio /ε/ neu /a/. Yn benodol, mae dau riant o'r Bala, lle mae /ε/ yn gyffredin, ac un rhiant o Lanrwst, lle mae /a/ yn gyffredin.

mwyafrif o rieni o ardaloedd tafodieithoedd traddodiadol y Gymraeg, yn dod o ardaloedd lle y defnyddir /ɛ/ ac nid /a/ ar lafar. Gellid cynnig bod hynny, yn ogystal â bri ieithyddol /ɛ/ yn y cyfryngau, ac yn fwy perthnasol, canfyddiad o /a/ fel ffurf ogleddol-orllewinol (neu ogleddol) nad yw'n perthyn i'r de, ymysg disgyblion yn cynnig rheswm dros oruchafiaeth glir /ɛ/ yn hytrach nag /a/ fel y ffurf dafodieithol a ddefnyddir gan ddisgyblion YUGC¹⁵.

Er nad oes cyfradd uchel o /a/, profais rai disgyblion o aelwydydd Cymraeg yn defnyddio ffurfiau Gogleddol gyda mi. Profais hyn yn bennaf gan ddau ddisgybl oedd â dau riant o ogledd Cymru, Endaf ac Iwan. Yn gyntaf, gwelwn Endaf yn defnyddio ffurf ogleddol 'fo'/'o'/'efo' yn gyson yn Enghraifft 29 isod wrth drafod diwrnod pan gaeodd yr ysgol oherwydd yr eira:

Enghraifft 29 – Endaf

Endaf: ie

ac dyma ni'n gweld um, o' ni'n gweld- dyma fo'n dweud wrtho ni lle o'dd o,
o'dd o ar y ffôn yn tŷ fo, um
a o'dd rywun di cymryd o, o' ni'n gweld y plant o'dd efo fo, a o' nhw'n, o'
nhw'n blwyddyn ni-, um, ysgol ni
ond fel tair blynedd hŷn na ni
o'dd ni 'di gofyn i nhw, ond do' nhw'm yn rhoi nhw nôl i ni, so

Yn ail, gwelwn Iwan, na ddefnyddiodd lawer o ffurfiau gogleddol yn ystod prif ran y cyfweliad, yn defnyddio'r ffurfiau gogleddol, 'ella', 'rwan', ac 'efo' yn ogystal â'r ffurf ffonolegol [atab] yn Enghraifft 30 isod ym modiwl iaith terfynol y cyfweliad cyn y rhestr geiriau:

Enghraifft 30 – Iwan

Cyf.: so, os fyset ti mewn cyfweliad

¹⁵ Mae cyfradd sylweddol o athrawon sydd hefyd o ardaloedd y tafodieithoedd traddodiadol, ac er nad oes data ar leoliadau magwraeth athrawon YUGC, mae'n debygol bod iaith yr athrawon yn dylanwadu ar iaith y disgyblion yn ogystal.

fel, *job interview*, neu os fyset ti mewn ti'n gw'bo', pan ti'n hŷn, ti mewn swyddfa, ti efo *office job* neu rhywbeth

- - -

Cyf.: wyt ti'n meddwl fyset ti'n siarad yr un peth mewn cyd-destun fel 'na, na fyset ti gyda ffrindiau?

Ioan: yeah well,
ella fel, dweud rwan fi angen fel, atab *phone calls* neu rhywun efo-

O ganlyniad felly, mae'n glir bod y ddau ddisgybl hyn sydd â dau riant o ogledd Cymru, yn meddu ar arddull gogleddol o'r Gymraeg, ac yn defnyddio'r arddull hwn, ar adegau, i gyfathrebu gyda mi fel ymchwilydd gogleddol.

Er nad oedd modd archwilio dwydafoedieithrwydd posibl yn yr ymchwil hwn, dengys Enghraifft 29 ac Enghraifft 30 fod arddulliau a nodweddion gogleddol yn rhan o'u hiaith wrth siarad gyda mi, siaradwr gogleddol. Diffiniwyd dwydafoedieithrwydd fel 'the command of two regional or social dialects of a language, one of which is commonly the standard language' (Smith a Durham 2012, t. 3). Yr hyn sy'n gwahaniaethu rhwng dwydafoedieithrwydd ac amrywio arddull yw bod dewis o ddwy dafoediaith gan siaradwyr, a bod y siaradwyr yn medru defnyddio'r ddwy dafoediaith wahanol hynny yn neilltuol, heb orgyffwrdd tafodieithoedd (Hazen 2001, Anderson 2011, t. 241). Nid oes tystiolaeth yn yr ymchwil hwn o ddwydafoedieithrwydd felly, yn hytrach dim ond tystiolaeth o feddiant rhai disgyblion o aelwydydd Cymraeg o arddulliau tafodieithoedd eu rhieni. Byddai ymchwil pellach ar sgwrs disgyblion o aelwydydd Cymraeg yng Nghaerdydd gyda'u rhieni gogleddol yn medru taflu goleuni ar unrhyw ddwydafoedieithrwydd.

Nesaf, trown at effaith rhywedd ar Gymraeg disgyblion YUGC. Yn yr ymchwil hwn, nid oedd rhywedd yn ffactor ystadegol arwyddocaol mewn unrhyw fodel. Er hynny, cynhyrchir cyfraddau uwch o amrywiolyn tafodieithol /ɛ/ gan y merched o'u cymharu â'r bechgyn sy'n cynhyrchu cyfradd uwch o amrywiolyn safonol /ai/. Nid oes llawer o'r corff acwstig diweddar ar y Gymraeg megis Mayr a Davies (2011) na Mayr et al. (2017) wedi mesur effaith rhywedd, gan mai sampl o fechgyn y defnyddiwyd yn yr astudiaethau hynny. Mewn astudiaethau eraill ar y Gymraeg gan Morris (2013, 2017) canfuwyd bod merched yn

fwy tueddol o gynhyrchu'r amrywiolion safonol na bechgyn. O ganlyniad, cyferbynna'r ymchwil hwn â chanfyddiadau Morris (2013, 2017) o ran patrymu ar sail rhywedd.

Gwelir felly batrwm o ferched yn defnyddio llai o'r ffurf safonol /ai/ o'u cymharu â'r bechgyn ar gyfer (ai). Wrth ystyried newid ieithyddol, noda Labov (2001), 'women conform more closely than men to sociolinguistic norms that are overtly prescribed, but conform less than men when they are not' (Labov 2001, tt. 292–293). Nid yw'r canlyniad dan sylw yma felly yn cyd-fynd ag egwyddor Labov (2001) gan fod merched yn defnyddio llai o'r ffurf safonol yma. Byddai angen cynnal ymchwil pellach ar ferched a bechgyn o wahanol oedrannau er mwyn cadarnhau a oes newid ar y gweill ar sail y canlyniadau ar gyfer rhywedd yng Nghymraeg Caerdydd.

7.3 I ba raddau y mae strwythurau cymdeithasol yn dylanwadu ar amrywio ieithyddol disgyblion YUGC?

Yn yr adran hon, ceir trafodaeth ynghylch effaith y clystyrau arfer ar Gymraeg disgyblion YUGC. Penderfynwyd trafod y strwythurau cymdeithasol ar wahân hefyd gan mai dyma un agwedd wreiddiol o'r ymchwil hwn, sef mai dyma'r ymchwil cyntaf yn y Gymraeg sy'n dadansoddi clystyrau arfer wedi cyfnod o arsylwi ethnograffegol. Nid oedd clwstwr arfer yn ffactor a gafwyd yn ystadegol arwyddocaol mewn dadansoddiadau effeithiau cymysg yn 5.9 nag yn 6.6. Er nad oedd clwstwr arfer yn ffactor cymdeithasol yn y dadansoddiadau effeithiau cymysg, arsylwyd patrymu ar sail arferion cymdeithasol y clystyrau arfer ar gyfer y llafariaid caeedig cefn, ac ar sail iaith yr aelwyd ar gyfer (ai) yn y sillaf olaf ddiacen.

Ar gyfer y nodwedd gyntaf dan sylw, y llafariad /u(:)/, sy'n un elfen o'r llafariad caeedig cefn ym mhennod 5, nodwyd amrywio ar sail symudoledd clystyrau arfer yn effeithio ar gynhyrchiad F1 ac F2 /u(:)/. Roedd rhai clystyrau arfer a oedd yn treulio eu hamser rhydd yng nghanol y ddinas, a chlystyrau arfer eraill a oedd yn treulio eu hamser rhydd yn eu maestrefi lleol lle roeddent yn byw. Arsylwir bod clystyrau arfer canol y ddinas, 'Cymraeg_Chwaraeon', 'Sbarteiniaid' a'r 'Merched Poblogaidd' yn dueddol o gynhyrchu F1 ac F2 uwch na chlystyrau arfer y maestrefi, 'Rhun_Normal', 'Cassie_Geeks', a'r 'Bechgyn Meme Chat'.

Fel y nodwyd yn 5.10, ceir tebygrwydd yma gyda'r *burnouts* a'r *jocks* yn Eckert (1991) lle'r oedd y *burnouts* yn treulio mwy o'u hamser yng nghanol y dref na'r *jocks* ac felly'n arddangos iaith fwy nodweddiadol iawn o'r ardal¹⁶. Byddai hynny'n awgrymu y gall F1 ac F2 uwch, ac felly ansawdd /u(:)/ mwy agored a blaenach fod yn nodweddiadol o Saesneg Caerdydd yn yr achos hwn. Ceir canfyddiad tebyg i hyn yn Nance (2013, t. 157) lle mae strwythurau mwy gwrthryfelgar Glasgow yn cynhyrchu /u/ flaenach yn eu Gaeleg, sy'n ffurf nodweddiadol o siaradwyr Saesneg Glasgow (Stuart-Smith 1999, t. 208). Yng nghyd-destun iaith leiafrifol felly, mae'n bosibl y byddai iaith fwy nodweddiadol yn golygu perthynas uwch gyda ffurfiau sydd wedi eu trosglwyddo o'r Saesneg trwy gyffyrddiad ieithyddol.

Ar gyfer yr ail nodwedd dan sylw, (ai) yn y sillaf olaf ddiacen, arsylwir patrymu ar sail iaith yr aelwyd gan y clystyrau arfer. Nodir yn 6.6 fod iaith yr aelwyd yn ffactor sy'n ystadegol arwyddocaol yn nadansoddiad ystadegol (ai). Mae'r ddau glwstwr arfer 'Merched Poblogaidd' a 'Cymraeg_Chwaraeon', sy'n cynnwys disgyblion o aelwydydd Cymraeg (yn ogystal â disgyblion o aelwydydd di-Gymraeg) yn cynhyrchu'r cyfraddau isaf o /ai/ a chyfraddau uchaf o /ε/. Awgryma hynny felly fod dylanwad Cymraeg fel iaith gyntaf ar y clystyrau arfer hyn yn amlwg wrth gynhyrchu amrywiolion (ai).

Er hynny, mae clystyrau arfer fel 'Cassie_Geeks' a 'Rhun_Normal', sy'n defnyddio cyfraddau uchaf o /ai/ a chyfraddau isaf o /ε/ hefyd yn glystyrau arfer cymysg eu hiaith sy'n cynnwys disgyblion o aelwydydd Cymraeg a Saesneg. Felly, mae rhai clystyrau arfer cymysg eu hiaith megis y 'Merched Poblogaidd' yn cynhyrchu patrymau (ai) siaradwyr o dan ddylanwad siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf. I'r gwrthwyneb, mae rhai clystyrau arfer cymysg eu hiaith megis 'Cassie_Geeks' sy'n glwstwr cymysg, yn cynhyrchu patrymau (ai) o dan ddylanwad siaradwyr Cymraeg ail iaith. Awgryma hyn felly fod rhesymau eraill tu hwnt i iaith yr aelwyd, yn ymwneud â hunaniaeth y clwstwr arfer yn arwain at gynhyrchiad

¹⁶ Er hynny, lleoliad ymarfer cymdeithasol yw'r unig debygrwydd rhwng hunaniaethau'r strwythurau cymdeithasol hyn. Er enghraifft, roedd lleoliad ymarfer cymdeithasol 'Cymraeg_Chwaraeon' yn debyg i'r *burnouts*, ond roedd eu llwyddiant mewn addysg a chwaraeon yn debycach i'r *jocks*.

amrywiolion (ai) gan y clystyrau arfer hyn, ac nad iaith yr aelwyd yn unig sydd wrth wraidd hyn, er ei fod yn ffactor.

Mewn gwaith blaenorol ar y Gymraeg, dadansoddir strwythurau cymdeithasol yng Nghaernarfon a'r Wyddgrug gan Morris (2013). Fel y nodwyd yn 7.2, canfu Morris (2013, 2021) fod strwythurau cymdeithasol wedi eu diffinio gan iaith yr aelwyd yng Nghaernarfon, lle'r oedd y mwyafrif o ddisgyblion o aelwydydd Cymraeg. Nid oedd strwythurau cymdeithasol wedi eu diffinio gan iaith yr aelwyd yn yr Wyddgrug, lle nad oedd y mwyafrif o ddisgyblion o aelwydydd Cymraeg. Ceir canfyddiad tebyg yn ymchwil Mayr et al. (2017) i siaradwyr dwyieithog Caerfyrddin yn ogystal, lle nad oedd y mwyafrif o'r siaradwyr yno o aelwydydd Cymraeg a lle nad oedd y strwythurau cymdeithasol yno chwaith wedi eu diffinio ar sail iaith yr aelwyd. O ganlyniad, gwelir bod YUGC – lle nad yw mwyafrif y sampl o aelwydydd Cymraeg – yn ymdebygu i'r patrymau a welir yn yr Wyddgrug a Chaerfyrddin, lle nad yw strwythurau cymdeithasol yn ffactorau ystadegol arwyddocaol, gan nad yw'r clystyrau arfer yn cael eu diffinio ar sail iaith yr aelwyd.

Mewn ymchwil blaenorol ar effaith rhwydweithiau ac ymarfer cymdeithasol ar amrywio a newid ieithyddol megis Kirkham (2013) a Nance (2013), mae'r cymunedau arfer yn cael eu diffinio gan rywedd yn ogystal â hunaniaethau'r cymunedau arfer. Adlewyrchir hyn yng nghymunedau arfer benywaidd Nance (2013, t. 90) yn benodol. Mae '*Vicky's group*' a '*Beth's group*' yn cynrychioli hunaniaethau ac ymarfer cymdeithasol cyferbyniol, ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn eu cynhyrchiad o /u/. Roedd grŵp Vicky yn fwy gwrthryfelgar ac yn cynhyrchu ansawdd /u/ flaenach sy'n nodweddiadol o siaradwyr Saesneg dosbarth gweithiol Glasgow, a grŵp Beth yn ddisgyblion cydwybodol ac yn cynhyrchu ansawdd /u/ cefnach (Nance 2013, t. 157). Nid oedd gwahaniaethau cymunedau arfer y bechgyn yn ystadegol arwyddocaol. Yn Kirkham (2013) mae'r merched a'r bechgyn eto'n bodoli ar wahân i'w gilydd fel yn Nance (2013). Dengys Kirkham (2013, tt. 156–157) batrymu rhwng cymunedau arfer ac ethnigrwydd siaradwyr.

Er bod rhywedd yn diffinio rhai o'r clystyrau arfer, gyda phedwar clwstwr arfer yn glystyrau arfer sy'n cynnwys bechgyn yn unig neu ferched yn unig, dengys y dadansoddiad nad oedd patrymu ar sail rhywedd yn digwydd. Hynny yw, ni welir y clystyrau arfer

benywaidd yn cynhyrchu un patrwm a'r clystyrau gwrywaidd yn cynhyrchu patrwm arall ar gyfer y naill nodwedd na'r llall.

7.4 I ba raddau mae'r canlyniadau yn gallu taflu goleuni ar oblygiadau a) effaith cyffyrddiad ieithyddol, a b) effaith cyffyrddiad tafodieithol yn datblygu yng nghyd-destun adfywio ieithyddol yng Nghaerdydd?

Yn yr adran hon byddaf yn archwilio effaith cyffyrddiad ieithyddol a thafodieithol ar amrywiad newydd Caerdydd yn datblygu yng nghyd-destun adfywio ieithyddol. Byddwn yn trafod prosesau damcaniaethol posibl o ganlyniad i'r ffurfiau sydd wedi cael eu cofnodi yng Nghymraeg Caerdydd yn yr ymchwil hwn. Yn gyntaf, trafodwn berthnasedd cyffyrddiad ieithyddol i ansawdd y llafariaid caeedig cefn, ac unrhyw drosglwyddo ffonolegol neu seinegol posibl o'r Saesneg i'r Gymraeg sydd wrth wraidd yr ansoddau hyn yng Nghymraeg Caerdydd. Yn dilyn hynny, trafodwn berthnasedd cyffyrddiad tafodieithol i amrywio ffonolegol (ai) yn y sillaf olaf, a lle mae Cymraeg Caerdydd felly yn ymddangos yn berthnasol i ddamcaniaeth ffurfiant tafodiaith newydd yng nghyd-destun adfywio ieithyddol.

7.4.1 Effaith cyffyrddiad ieithyddol a'r llafariaid caeedig cefn

Felly, ar gyfer y llafariaid caeedig cefn, nid yw'n glir a yw blaenu neu gynyrchiadau agored yn gyffredin ar gyfer y ddwy lafariad tu allan i Gaerdydd, ond mae'r data o'r ymchwil hwn yn awgrymu bod ansawdd llafariaid caeedig cefn Caerdydd yn flaenach a mwy agored o'u cymharu â data o ymchwil ar amrywiadau'r tafodieithoedd traddodiadol (Mayr a Davies 2011; Mayr et al. 2017). Fel y nodwyd uchod, mae llafariaid caeedig cefn /u(:)/ ac /ʊ/ disgyblion YUGC yn blaenu, y naill i safle eithaf blaen, a'r llall i safle ganol yn ôl graddfa Mesthrie (2010). Nodir yn is-adran 5.10 fod posibilrwydd mai cyffyrddiad ieithyddol â'r Saesneg, ac felly trosglwyddo seinegol o'r Saesneg i'r Gymraeg, sy'n gyfrifol am y blaenu hwn, gan ystyried nad yw blaenu'n gyffredin mewn amrywiadau traddodiadol o'r Gymraeg. O ganlyniad felly, trafodir y llafariaid caeedig cefn yn nhermau cyffyrddiad ieithyddol gan fod llafariaid caeedig cefn Caerdydd yn ymddangos fel eu bod nhw'n ymdebygu i llafariaid caeedig cefn o'r Saesneg yn hytrach nag o'r Gymraeg.

Mewn ymchwil ar Saesneg Caerdydd, disgrifia Coupland (1988, t. 26) lafariad /u(:)/ Caerdydd fel, 'noteworthy for their lack of diphthongization and centralization when realized phonetically', a dywed Collins a Mees (1990, t. 94) fod '*GOOSE* is also closer, somewhat advanced from back'. Felly, yn ôl ymchwil hanesyddol ar lafariad Saesneg Caerdydd, roedd llafariad /u(:)/ Saesneg Caerdydd yn blaenu i safle ganol 30 mlynedd yn ôl, cyn i flaenu-*GOOSE* sefydlu fel nodwedd uwchleol gyffredin mewn amrywiadau Saesneg ar hyd a lled y byd.

Ni cheir sylwadau yn y corff o ymchwil ar Saesneg Caerdydd ynglŷn ag ansawdd /ʊ/ neu *FOOT* flaen neu fel un sy'n blaenu, felly gellid honni bod *FOOT* yn llafariad gefn yn y cyfnod hwn yn Saesneg Caerdydd. Dengys ymchwil blaenorol bod *FOOT* yn dueddol i flaenu ar ôl *GOOSE*, a bod *GOOSE* yn blaenu yn gynt na *FOOT* (Harrington et al. 2011, t. 152). Gall y patrwm hwn fod wedi ymddangos yn Saesneg Caerdydd ers cyfnod yr ymchwil blaenorol felly gan ystyried nad oedd cofnod o flaenu /ʊ/, ond bod /u(:)/ yn blaenu i safle ganol. Yn ogystal, gall fod y ddwy lafariad gaeedig gefn fod wedi eu blaenu yn Saesneg Caerdydd erbyn heddiw.

Felly, er bod cryn dipyn o amser ers cyfnod y corff o ymchwil ar Saesneg Caerdydd, cofnodir llafariad gaeedig gefn blaen yn yr ymchwil, ac yn unol â phatrymau mewn ymchwil blaenorol (Harrington et al. 2011) mae'n bosibl bod y ddwy lafariad wedi blaenu erbyn hyn. Ystyriwn mai trosglwyddiad seinegol trwy gyffyrddiad ieithyddol â Saesneg Caerdydd felly sydd wrth wraidd ansoddau'r llafariad caeedig cefn yng Nghymraeg Caerdydd. Mae ymchwil blaenorol ar newid ieithyddol yng nghyd-destun adfywio ieithyddol yn cadarnhau bod newid ieithyddol yn aml yn adlewyrchu patrymau ieithyddol yn yr iaith fwyafrifol yn y gymuned dan sylw (King, Watson, Keegan et al. 2009, t. 94). Byddai angen diweddarau'r ymchwil ar lafariad caeedig cefn Caerdydd er mwyn cadarnhau'r hypothesis hwn.

O safbwynt uchder y llafariad caeedig cefn, mae llafariad caeedig cefn /u(:)/ ac /ʊ/ disgyblion YUGC yn fwy agored o'i gymharu ag amrywiadau Cymraeg cyfoes (Mayr a Davies 2011; Mayr et al. 2017; Iosad 2017) a llawer o amrywiadau Saesneg y Deyrnas Gyfunol (Ferragne a Pellegrino 2010). Noda Mees (1977) lafariad /ʊ/ fwy agored yng Nghaerdydd, felly ceir hanes o ansawdd agored i un o lafariad caeedig cefn Saesneg Caerdydd, ond nid

oes sylw ynglŷn ag ansawdd /u(:)/ agored mewn ymchwil blaenorol ar Saesneg Caerdydd. O ganlyniad, mae'n dra thebygol mai trwy gyffyrddiad ieithyddol eto y daw'r ansawdd agored hwn. Byddai angen cynnal ymchwil pellach er mwyn canfod a yw llafariaid caeedig cefn Saesneg Caerdydd o natur agored er mwyn cadarnhau'r ddamcaniaeth hon.

O ganlyniad felly, honnir yma fod cyffyrddiad ieithyddol o Saesneg Caerdydd yn arwain at batrymau amrywio o'r Saesneg yn trosglwyddo i'r Gymraeg. Mae enghreifftiau o drosglwyddo patrymau amrywio sy'n digwydd mewn un iaith i'r ail iaith yn gyffredin (e.e. Nadasdi et al. 2003; Blondeau a Nagy 2008; Meyerhoff 2009; Buchstaller a D'arcy 2009). Gwelir yn rhai o'r enghreifftiau hyn batrymau o'r Saesneg yn ymddangos mewn iaith arall (Nadasdi et al. 2003; Blondeau a Nagy 2008; Meyerhoff 2009).

Gelwir y broses hon lle mae cyffyrddiad ieithyddol yn arwain at batrymau o un iaith yn ymddangos mewn iaith arall yn drosglwyddiad. Yn yr achos hwn, trosglwyddiad seinegol sydd dan sylw, lle mae ansawdd seinegol o'r '*source language*' yn cael ei drosglwyddo i'r '*receptant language*' (Van Coetsem 1988; Sankoff 2004, t. 644). Mae gwaith blaenorol megis Flege (1995) yn cymharu gwahaniaethau rhwng iaith gyntaf ac ail iaith siaradwr, ac mae'n debygol bod siaradwyr ail iaith yn trosglwyddo patrymau ffonolegol neu seinegol o'i iaith gyntaf i'r ail iaith. Gan ystyried nad oes amrywio arwyddocaol rhwng disgyblion o aelwydydd Cymraeg ac aelwydydd di-Gymraeg ar gyfer nodwedd y llafariaid caeedig cefn fel y nodwyd yn 7.2. Mae posibilrwydd felly fod disgyblion o aelwydydd di-Gymraeg yn dylanwadu ar ddisgyblion o aelwydydd Cymraeg, gyda gwahaniaethau rhyngddynt yn diflannu ac o ganlyniad ceir nodwedd newydd yn ffurfio yma o safbwynt ansawdd y llafariaid caeedig cefn.

7.4.2 Effaith cyffyrddiad tafodieithol ar (ai) yn y sillaf olaf ddiacen

Ar gyfer y nodwedd (ai) yn y sillaf olaf ddiacen, y ffurf /ai/ yw'r ffurf fwyaf cyffredin ar gyfartaledd, ond mae dau amrywiolyn yn gyffredin mewn llafar digymell yn ôl y dasg cyfweld, sef amrywiolyn safonol /ai/ ac amrywiolyn tafodieithol traddodiadol /ε/. Felly mae (ai) yn y sillaf olaf ddiacen yn nodwedd sy'n ymwneud â chyffyrddiad tafodieithol gydag amrywiadau Cymraeg tafodieithol traddodiadol, yn ogystal â safoni. Mae'r cyffyrddiad

tafodieithol hwn yn arwain at ddefnydd tebyg o ddau amrywiolyn ar gyfer (ai) yn y sillaf olaf ddiacen mewn llafar digymell, rhywbeth sy'n ennyn sylw o safbwynt damcaniaeth ffurfiant tafodiaith newydd, gan fod lefelu gan amlaf yn arwain at un amrywiolyn yn goruchafu ar gyfer pob nodwedd pan fydd tafodiaith newydd wedi ffocysu (6.7.2).

Yn ôl damcaniaeth ffurfiant tafodiaith newydd, mae presenoldeb tri amrywiolyn, gyda dau amrywiolyn mwy cyffredin ar gyfer un nodwedd ieithyddol yn arwyddocaol. Mewn rhai achosion, gall hyn fod o ganlyniad i ailddosbarthiad (*reallocation*) lle mae'r ddau amrywiolyn yn goroesi ac yn cael eu defnyddio mewn cyd-destunau gwahanol:

variants originally from different regional dialects will in the new dialect become social class variants, stylistic variants, or in the case of phonology, allophonic variants (Trudgill 2004, t. 88)

Y gwahaniaeth yn YUGC yw nad yw'r amrywiolyn /ai/ yn gyffredin mewn llafar digymell yn nhafodieithoedd traddodiadol y Gymraeg; yn hytrach, ffurf safonol sydd nawr yn cael ei ddefnyddio ar lafar ydyw.

Ceir tri chyfnod i broses ffurfiant tafodiaith newydd yn ôl Trudgill (2004), fel y esboniwyd yn 2.8 sef:

- (1) lefelu elfennol sy'n ymwneud â siaradwyr yn sefydlu cyffyrddiad wyneb-yn-wyneb, ac yn ymgymhwyso tuag at sgwrs ei gilydd;
- (2) cyfnod sy'n cael ei rannu'n ddwy sef, amrywio eithafol a lefelu pellach. Mae'r cyfnod hwn yn berthnasol i'r ail genhedlaeth o siaradwyr, pobl ifanc, sydd fel arfer yn dueddol o ymdebygu i'w cyfoedion, ond yn hytrach maent yn amrywio'n sylweddol gan nad oes amrywiad yn bodoli iddynt ymdebygu iddo. Yn ail ran yr ail gyfnod, mae lefelu ar waith lle mae amrywiolion lleiafrifol yn cael eu hepgor o'r gymysgedd dafodieithol;
- (3) ffocysu, lle mae un amrywiolyn yn goruchafu ar gyfer ffurf benodol, wedi i'r amrywiolion eraill gael eu hepgor.

Diffiniwyd camau tebyg gan Britain (2010, t. 231) ac fe'u nodwyd yn 2.8 hefyd.

Mewn sefyllfaoedd eraill o ffurfiant tafodiaith newydd felly, byddai presenoldeb dau amrywiolyn cyffredin yn awgrymu nad yw'r ffurf wedi ffocysu, ac nid yw'r dafodiaith wedi ei ffurfio yn gyfan gwbl (Trudgill 2004, t. 84)¹⁷. Yn achos (ai) yn y sillaf olaf ddiacen felly, mae amrywio rhwng yr amrywiolyn safonol /ai/ a'r amrywiolyn tafodieithol /ε/, sy'n bodoli ochr-yn-ochr yng Nghymraeg Caerdydd mewn llafar digymell, yn awgrymu bod cymysgu ac amrywio ar waith yng Nghaerdydd sy'n nodweddiadol o ail gyfnod ffurfiant tafodiaith newydd (Trudgill 2004, t. 101). Mae'r amrywiolyn /a/ hefyd yn bodoli ar lefelau isel iawn. Mae presenoldeb /a/ felly yn neilltuol, a gellid dweud bod /a/ wedi ei hepgor neu'n agos at gael ei hepgor. Ar sail yr hyn a welir ar gyfer nodwedd (ai) felly, mae'n bosibl bod Cymraeg Caerdydd ar ail gam ffurfiant tafodiaith newydd (Trudgill 2004, 2008; Britain 2010) lle mae lefelu ar waith, ond mae amrywio yn bresennol ac nid oes ffocysu. Byddai ymchwil pellach ar newid ieithyddol rhwng cenedlaethau iau o ddisgyblion YUGC, neu gyn-ddisgyblion hŷn yn medru mesur cadarnhau hynny.

Er hynny, a yw'n bosibl oherwydd cyd-destun Cymraeg Caerdydd y gallai'r ddau amrywiolyn /ai/ ac /ε/ gyd-fodoli yng Nghymraeg Caerdydd heb gael eu hailddosbarthu, ac y gall hyn daflu goleuni dros fodolaeth parau eraill o amrywiolion sy'n cyd-fodoli yng Nghymraeg Caerdydd? Nodwyd eisoes yn 2.8 bod dau amrywiolyn yn gyffredin yn y Gaiman ym Mhatagonia (Jones 1988), lle mae amrywio yn ôl oedran siaradwyr yn effeithio ar ddefnydd o'r amrywiolion.

Gofynnir a yw'n bosibl cael dau (neu ragor) o amrywiolyn yn cyd-fodoli oherwydd bod cyd-destun o adfywio ieithyddol unigryw yn perthyn i ffurfiant y dafodiaith hon nad yw'n berthnasol i'r rhan fwyaf o'r ymchwil blaenorol ar ffurfiant tafodiaith newydd neu *koiné*-eiddio (e.e Trudgill 2004; Gordon et al. 2004; Kerswill a Williams 2005). Soniwyd am gyd-destun tebyg yng ngwaith Nance (2013, tt. 214–216) ac mae paralelau amlwg rhwng dau amrywiad newydd mewn ieithoedd Celtaidd lleiafrifol sy'n sefydlu ym mhrifddinasoedd Cymru a'r Alban. Er enghraifft, mae ymfudo o ardaloedd tafodieithoedd traddodiadol Gaeleg yr Alban neu'r Gymraeg yn cynrychioli cyfradd sylweddol o'r siaradwyr dan sylw yng

¹⁷ Gall ailddosbarthu arwain at ddau amrywiolyn yn cyd-fodoli mewn gwahanol gyd-destunau, ond dengys canlyniadau'r dasg cyfweld bod defnydd tebyg iawn o'r ddwy nodwedd mewn llafar digymell.

nghymuned yr amrywiad newydd. Trwy athrawon, neu rieni, mae'r disgyblion yn adnabod yr amrywiadau traddodiadol hyn fel rhai gwahanol i'w hiaith nhw eu hunain. Hefyd, mae Saesneg yr ardaloedd hyn yn dylanwadu ar amrywiadau newydd dan sylw a gwelir hynny trwy oslef siaradwyr Gaeleg yr Alban ac ansawdd llafariaid caeedig cefn Caerdydd. Er hynny, mae gwahaniaethau yng nghyd-destun ieithyddol y ddau amrywiad gan ystyried bod siaradwyr Cymraeg yn llawer mwy niferus, ac mae'r Gymraeg yn iaith gymunedol llawer cryfach yng Nghymru nag yw Gaeleg yn yr Alban.

O safbwynt cyd-destun Cymraeg Caerdydd, fe'i sefydlwyd hi wrth i siaradwyr Cymraeg allfudo o ardaloedd tafodieithoedd traddodiadol y Gymraeg i Gaerdydd, a sefydlu addysg Gymraeg yn y ddinas ers y 1970au fel y nodwyd yn 1.2 (Aitchison a Carter 1987). Mae'r sampl dan sylw yn yr ymchwil hwn yn gynrychioliadol o hynny, gyda'r disgyblion o aelwydydd Cymraeg ac eithrio dau ohonynt yn blant i ymfudwyr o ardaloedd y tafodieithoedd traddodiadol, a'r disgyblion o aelwydydd di-Gymraeg yn mynychu'r ysgol o ganlyniad i dwf addysg Gymraeg i geisio adfer iaith yn y ddinas trwy greu siaradwyr Cymraeg o deuluoedd nad ydynt yn medru'r Gymraeg gan amlaf. Er ei bod hi'n gyffredin i dafodieithoedd newydd cyffredin gymryd dros hanner can mlynedd neu fwy i ffurfio a ffocysu (Trudgill 2004, t. 160) nid yw'r dafodiaith i'w gweld yn ffocysu ar sail cynhyrchiad (ai) disgyblion YUGC mewn lleferydd digymell.¹⁸

Felly, os ystyrir bod y Gymraeg wedi ymsefydlu yng Nghaerdydd trwy ymfudo siaradwyr tafodieithoedd traddodiadol y Gymraeg ynghlwm â sefydlu addysg Gymraeg yn y 1970au (Aitchison a Carter 1987), mae amrywiad Cymraeg Caerdydd bellach wedi bodoli ers cyfnod cyn hwyed â'r cyfnod rhwng sefydlu a ffocysu tafodiaith newydd Saesneg Seland Newydd (Trudgill et al. 2002, t. 300) ond nid yw'n ymddangos fel petai'n ffocysu. Ceir felly wahaniaeth yma rhwng enghraifft o ffurfiant tafodiaith newydd *tabula rasa* a geir yn

¹⁸ Roedd hyn hefyd i'w weld yn nefnydd geirfaol disgyblion YUGC, gyda siaradwyr yn ymglyfnwid rhwng amrywiolion deheuol a gogleddol yn gyson, e.e. 'allan' a 'mas', 'fyny' a 'lan', 'efo' a 'gyda'. Gwelir amrywio geirfaol tebyg yng ngeirfa Cymraeg Patagonia, wedi dros 100 mlynedd mewn cyd-destun *tabula rasa* yn Jones (1973) a chadarnhawyd bod yr amrywio hyn dal yn berthnasol hyd heddiw gan Rees (2021).

Saesneg Seland Newydd (Trudgill et al. 2002; Trudgill 2004) a sefyllfa o ffurfiant tafodiaith newydd iaith leiafrifol a geir yng Nghymraeg Caerdydd.

Mae'n bosibl y gall cyd-destun o ffurfiant tafodiaith newydd mewn iaith leiafrifol felly ei gwneud hi'n anos i amrywiolion ffocysu, neu gymryd yn hwy i'r amrywiolion ffocysu. Efallai felly nad proses sy'n dod i derfyn neu a gwblheir gydag unfurfiaeth ieithyddol a geir yng nghyd-destun ffurfiant tafodiaith newydd iaith leiafrifol yng Nghaerdydd, fel a geir mewn sefyllfaoedd cyffredin o ffurfiant tafodiaith newydd megis *tabula rasa* yn Saesneg Seland Newydd.

Yng nghyd-destun ffurfiant tafodiaith Cymraeg Caerdydd felly, mae sawl ffactor a all gyfrannu at ddiffyg ffocysu amrywiolion Cymraeg Caerdydd. Yn gyntaf, mae heriau cyffredin sy'n wynebu ieithoedd lleiafrifol sy'n golygu nad yw defnydd neu barhad yr iaith honno yn sefydlog fel y mae yn Saesneg Seland Newydd. Mae diffyg trosglwyddiad yn her sy'n wynebu'r Gymraeg ym mhob ardal o Gymru, gan gynnwys Caerdydd, ac o ganlyniad i ddiffyg trosglwyddiad ceir lleihad yn nifer yr aelwydydd Cymraeg eu hiaith, a gan mwyaf, lleihad mewn defnydd o'r Gymraeg gan bobl ifanc yn sgil hynny. Mae defnydd o'r Gymraeg yn uchel mewn ysgolion Cymraeg, ond mewn sefyllfaoedd cymdeithasol, fel y nodwyd yn Enghraifft 27 gan Ibrahim, mae disgyblion o aelwydydd di-Gymraeg a Chymraeg yn gyffredinol yn tueddu i siarad Saesneg. Ceir canfyddiadau tebyg yn Nance (2013, t. 214.)

Mae symudoledd siaradwyr tafodieithoedd traddodiadol y Gymraeg yn golygu bod cymysgedd tafodieithol weddol eang ymysg disgyblion aelwydydd Cymraeg YUGC. Gwelir hynny yn Tabl 5 a Tabl 6 lle y dangosir lleoliadau magwraeth rhieni disgyblion¹⁹. O ganlyniad, gellid disgwyl amrywio sylweddol rhwng y tafodieithoedd Cymraeg traddodiadol gan rieni disgyblion o aelwydydd Cymraeg yn YUGC. Gall hyn felly fod yn rheswm dros yr amrywio rhwng amrywiolion deheuol a gogleddol a nodwyd uchod, ac yn rheswm dros y diffyg ffocysu. Felly mae symudoledd, yn ogystal â heriau sy'n wynebu iaith leiafrifol, yn arwain at gyd-destun gwahanol i gyd-destun ffurfiant tafodiaith newydd arferol, megis *tabula rasa*, lle

¹⁹ Er nad oes data ar yr athrawon, mae'n debygol y ceir sefyllfa debyg ymysg yr athrawon yn YUGC. O'm profiad yn arsylwi, roedd cryn dipyn o'r athrawon yn dod o ardaloedd tafodieithoedd traddodiadol y Gymraeg.

nad yw'r amrywiolion wedi ffocysu ar ôl cyfnod o amser sylweddol, ac nid yw'n glir a fydd yr amrywiolion ffocysu byth.

Byddai ymchwil pellach yn medru dadansoddi ymhellach ddatblygiad Cymraeg Caerdydd fel ffurfiant tafodiaith newydd. Byddai cynnal ymchwil ar ddisgyblion YUGC y dyfodol er mwyn canfod a oes newid ar waith tuag at un amrywiolyn neu'r llall yn bresennol. Yn olaf, byddai ymchwil pellach hefyd yn medru archwilio'r awgrym uchod ynghylch cyd-destun nad yw'n ffafriol er mwyn ffocysu amrywiolion nac er mwyn datblygu ffurfiant tafodiaith newydd y tu hwnt i'r ail gyfnod o amrywio a lefelu. Mae cyd-destun sosioieithyddol Cymru yn cyson newid, ac mae ansicrwydd ynghylch parhad y Gymraeg yn ardaloedd y tafodieithoedd traddodiadol, yn ogystal ag union swmp a sylwedd adfywio ieithyddol y dyfodol yn ne-ddwyrain Cymru yn berthnasol i strategaethau presennol y llywodraeth. Yng nghyd-destun iaith leiafrifol fel y Gymraeg felly, mae'n debygol bod ansefydlogrwydd y sefyllfa sosioieithyddol a hinsawdd ieithyddol sy'n parhau i newid yn gyson o ganlyniad i symudoledd cynyddol y boblogaeth Gymraeg yn ychwanegu at gymhlethdodau ffurfiant tafodiaith newydd yng Nghaerdydd.

7.5 Ymchwil pellach

Bydd yr is-adran hon yn cynnig cyfeiriadau ar gyfer ymchwil pellach i'w gynnal ar sail rhai o'r cwestiynau sy'n deillio o'r ymchwil hwn fel y nodwyd yn y penodau dadansoddol (5 a 6) yn ogystal ag yn y bennod hon.

Yn gyntaf, mae casgliadau ar y ddwy nodwedd dan sylw na ellir eu cadarnhau heb gynnal ymchwil pellach. Nid yw'n glir beth yw goblygiadau cyffyrddiad ieithyddol â'r Saesneg ar y llafariaid caeedig cefn. Byddai cynnal ymchwil ar Saesneg Caerdydd, neu Saesneg disgyblion YUGC, yn medru awgrymu i ba raddau y mae ansoddau'r llafariaid caeedig cefn wedi eu dylanwadu gan Saesneg Caerdydd, fel sy'n gyffredin mewn astudiaethau blaenorol ar amrywiadau siaradwyr newydd (King et al. 2009; Nance 2013). Fel y nodwyd eisoes yn 7.4.1 nid yw ansoddau llafariaid caeedig cefn YUGC yn gyffredin gan amrywiadau Cymraeg eraill, ac nid oes ymchwil cyfredol ar Saesneg Caerdydd yn bodoli er mwyn archwilio unrhyw gyffyrddiad ieithyddol a throsglwyddiad seinegol posibl.

Byddai ymchwil pellach ar Saesneg disgyblion hefyd yn medru taflu goleuni dros wahaniaethau patrymu gwahanol ffactorau cymdeithasol megis clystyrau arfer. Mewn sefyllfa o gyffyrddiad ieithyddol o safbwynt iaith leiafrifol fel y Gymraeg, nid yw wastad yn glir beth yw'r ystyr cymdeithasol y tu ôl i gynhyrchiant gwahanol glystyrau arfer heb wybod beth yw'r darlun llawn yn eu Saesneg, sef yr iaith fwyafrifol. Er enghraifft, roedd clystyrau arfer canol y ddinas yn cynhyrchu /u(:)/ mwy agored a mwy blaen na chlystyrau arfer y maestrefi. Byddai canfod data am Saesneg Caerdydd neu Saesneg disgyblion YUGC yn medru awgrymu ystyr cymdeithasol i gynhyrchiad ansawdd /u(:)/ y disgyblion yn y Gymraeg, fel a geir yng ngwaith Nance (2013) lle'r oedd y grwpiau mwy gwrthryfelgar yn cynhyrchu ansoddau llafariad a oedd yn fwy cynrychioliadol o siaradwyr Saesneg dosbarth gweithiol Glasgow.

Ar gyfer yr ail nodwedd dan sylw, amrywio (ai) yn y sillaf olaf ddiacen, byddai ymchwil pellach ar gynhyrchiant (ai) siaradwyr o aelwydydd Cymraeg yn medru archwilio dwydfodieithrwydd posibl gan ddisgyblion sydd â rhieni o ardaloedd tafodieithoedd traddodiadol y Gymraeg. Byddai angen recordio'r siaradwyr yn siarad gyda gwahanol bobl, yn benodol i'r achosion dan sylw yn Enghraifft 29 ac Enghraifft 30, eu rhieni. Y mae'r disgyblion yn amrywio ar sail arddull yn eu cyfweiliadau, gan ddefnyddio geirfa sydd dan ddylanwad tafodieithoedd gogleddol eu rhieni. Byddai recordio'r siaradwyr hyn yn siarad gyda'u rhieni yn medru archwilio ai dwydfodieithrwydd sydd ar waith yma, ynteu ai amrywio arddull ydyw. Byddai dwydfodieithrwydd yn bresennol petai'r disgybl yn defnyddio systemau neilltuol gyda gwahanol bobl, heb orgyffwrdd rhwng arddulliau.

Mae'r ddwy nodwedd dan sylw yn cyfrannu ffurf newydd i'r corff hwn o ymchwil. Mae ymddangosiad /ai/ fel y ffurf gyffredin yn YUGC, er nad yw'n newydd yn ei hanfod, yn cyfrannu at dueddiad newydd lle mae siaradwyr Cymraeg ifanc yn defnyddio'r ffurf safonol /ai/ ar lafar yn hytrach na'r ffurfiau tafodieithol traddodiadol /ε/ ac /a/ (Jones 1998). Mae ansawdd flaenach a mwy agored ar y ddwy lafariad gaeedig gefn na'r hyn sy'n gyffredin mewn amrywiadau Cymraeg traddodiadol neu amrywiadau Saesneg Cymraeg eraill yn ogystal. Felly, mae'r ddwy nodwedd dan sylw yn dangos patrymau arloesol newydd, a byddai'n bosibl i ymchwil pellach ar wahanol nodweddion ganfod patrymau newydd pellach.

Mae'r ffurfiau hyn felly yn rhan o dafodiaith newydd Caerdydd. Soniwyd uchod ynglŷn â'r cyd-destun arbennig y mae amrywiad Cymraeg Caerdydd yn perthyn iddi. Mae'r Gymraeg yn iaith leiafrifol sy'n wynebu'r un heriau ag ieithoedd lleiafrifol eraill ynghylch parhad, trosglwyddiad a defnydd y Gymraeg. Mae'r corff o siaradwyr yn cynnwys siaradwyr newydd sydd wedi eu creu trwy'r system addysg fel mewn enghreifftiau eraill o amrywiadau newydd mewn ieithoedd lleiafrifol (Nance 2013) ond mae corff eang o siaradwyr sy'n ymfudo i Gaerdydd o ardaloedd y tafodieithoedd traddodiadol hefyd yn cyfrannu i'r gymysgedd dafodieithol, yn wahanol i waith Nance (2013). Mae'n bosibl bod cyd-destun o ffurfiant tafodiaith newydd mewn iaith leiafrifol fel y gwelir yng Nghaerdydd yn arwain at ganlyniadau sy'n wahanol i ffurfiant tafodiaith newydd cyffredin, megis cydfodolaeth amrywiolion, a diffyg ffocysu.

Byddai cynnal ymchwil ar ddisgyblion YUGC y dyfodol hefyd yn ffordd o fesur i ba raddau y mae tafodiaith newydd Caerdydd yn datblygu y tu hwnt i ail gyfnod o amrywio a lefelu (Trudgill 2004). Byddai cynnal ymchwil o'r fath hefyd o ddiddordeb er mwyn canfod a oes newid ar waith tuag at un amrywiolyn neu'r llall yn bresennol. Yn yr un modd, gellid cynnal ymchwil ar genhedlaeth hŷn o gyn-ddisgyblion yn ogystal. Mae'r math hwn o fesur newid yn medru bod yn broblematig yng nghyd-destun iaith leiafrifol (e.e Nance 2013) gan nad oes siaradwyr yn bodoli, yn aml iawn; ond mae cenedlaeth hŷn o bobl sydd wedi mynychu ysgolion uwchradd Cymraeg yng Nghaerdydd ers 1978. Byddai cynnal ymchwil o'r fath yn galluogi i fesur unrhyw newid, neu lefelu a ffocysu posibl a allai fod wedi digwydd.

Yn ogystal, byddai ymchwil ar blant iau nag oed ysgol uwchradd o ddefnydd wrth gynnal ymchwil pellach. Byddai ymchwil ar blant iau yn gallu archwilio dechrau'r broses lefelu yng Nghymraeg Caerdydd, gyda disgyblion o aelwydydd di-Gymraeg yn dysgu'r Gymraeg trwy drochi, a disgyblion o aelwydydd Cymraeg yn profi cyffyrddiad tafodieithol. Mae'n debygol y byddai'r disgyblion o aelwydydd Cymraeg yn defnyddio mwy o amrywiolion eu rhieni yn yr ysgol gynradd, ac felly byddai modd archwilio presenoldeb amrywiolyn megis yr '-a' ogleddol, nad yw'n gyffredin iawn yn YUGC, a'i gymharu â chynhyrchiad disgyblion ysgolion cynradd o'r amrywiolyn hwnnw.

8 Casgliad

Nod yr ymchwil hwn oedd cyfrannu at ddarlun o amrywiad Cymraeg newydd yng Nghaerdydd am y tro cyntaf gan ddefnyddio dulliau sosioieithyddol trydedd don. Cyflwynwyd ymchwil ar amrywio ieithyddol Cymraeg disgyblion YUGC ar ddwy nodwedd seinegol a ffonolegol yn iaith y disgyblion. Yn benodol, mae'r ddwy nodwedd yn ymwneud ag effaith cyffyrddiad ieithyddol a thafodieithol ar amrywio ieithyddol yng nghyd-destun adfywio ieithyddol, yn ogystal ag unrhyw effaith ffactorau ieithyddol a chymdeithasol ar y nodweddion hyn. Bydd y bennod hon yn dod i ganfyddiad o safbwynt amrywio ieithyddol yng nghyd-destun adfywio ieithyddol yng Nghaerdydd.

Yn gyntaf, dengys dadansoddiad o lafariaid caeedig cefn disgyblion YUGC, ei bod hi'n debygol bod llafariaid caeedig cefn disgyblion YUGC yn flaenach ac yn fwy agored nag ansoddau amrywiadau Cymraeg eraill sydd wedi eu hymchwilio (Mayr a Davies 2011; Mayr et al. 2017; Iosad 2017). Dengys hynny felly y ceir ansawdd unigryw i lafariaid caeedig cefn Caerdydd, sy'n debygol o fod wedi datblygu drwy gyffyrddiad ieithyddol a throsglwyddo seinegol o'r Saesneg. Er na allwn fod yn sicr, mae'n debygol mai o Saesneg Caerdydd y daw'r trosglwyddo seinegol hwn, gan ei bod hi'n gyffredin i ieithoedd lleiafrifol yng nghyd-destun adfywio ieithyddol adlewyrchu patrymau'r iaith fwyafrifol yn y gymuned dan sylw (King, Watson, Keegan et al. 2009; Nance 2013).

Yn ail, dengys dadansoddiad o amrywio yn achos y newidyn (ai) yn y sillaf olaf ddiacen bod amrywiolion /ai/ ac /ε/ yn gyffredin iawn yng nghymysgedd dafodieithol disgyblion YUGC. Mae lefelau isel o /a/ yn bresennol hefyd, sy'n dangos tystiolaeth o gyffyrddiad tafodieithol gydag amrywiadau Cymraeg gogledd-orllewinol ymysg iaith disgyblion YUGC, er nad yw eu dylanwad yn sylweddol iawn. Gwelir mai'r amrywiolyn /ai/ safonol yw'r amrywiolyn mwyaf cyffredin gan ddisgyblion YUGC. Mae'r canlyniad hwn yn cyd-fynd â chanlyniadau Jones (1998) yn Rhosllannerchrugog a'r Rhymni lle'r oedd defnydd o'r amrywiolyn safonol ar gynnydd ymysg pobl ifanc yno.

Yn ôl effaith tasg ar ansawdd y llafariaid caeedig cefn, gwelir amrywio ar sail arddull ar waith, gyda llafariaid caeedig cefn blaenach a mwy agored yn y dasg cyfweld, o'i gymharu â'r dasg rhestr geiriau. Yn yr un modd, gwelir amrywio ar sail arddull ar gyfer amrywio (ai) hefyd. Cynhyrchir ffurf /ai/ yn amlach, a ffurf /ε/ yn llai aml yn y dasg cyfweliad o'i gymharu â'r dasg rhestr geiriau. Fel y nodwyd, mae goblygiadau arwyddocaol i'r canfyddiad hwn gan fod ymchwil blaenorol wedi adrodd ar 'book-based variety [of Welsh]' (Jones 1998). Dengys y canlyniad hwn bod siaradwyr yn meddu ar arddulliau gwahanol o Gymraeg ar gyfer gwahanol raddau o ffurfioldeb.

Nid oedd clwstwr arfer na rhywedd yn effeithio ar y naill nodwedd dan sylw yn yr ymchwil hwn. Golyga hyn nad oedd y ddwy ffactor a welir mewn ymchwil blaenorol sy'n ymwneud â rhwydweithiau cymdeithasol yn ffactorau arwyddocaol yn yr ymchwil hwn. O ganlyniad, nid oedd effaith rhwydweithiau cymdeithasol yn yr ymchwil hwn yn effeithio ar amrywio ieithyddol y disgyblion fel mewn ymchwil ethnograffegol trydedd don eraill (Kirkham 2013). Er hynny, arsylwir ar wahaniaethau rhwng clystyrau arfer canol y ddinas a gynhyrchai lafariaid caeedig cefn blaenach a mwy agored na chlystyrau arfer y maestrefi.

Nid oedd iaith yr aelwyd yn effeithio ar y llafariaid caeedig cefn, ac mae hynny'n cyd-fynd â chanfyddiadau ymchwil diweddar ar y Gymraeg (Morris 2013, 2017; Mayr et al. 2017). Er hynny, cyferbynna hynny â chanfyddiadau ymchwil rhyngwladol ar gymunedau dwyieithog (Simonet 2010, 2014; Simonet ac Amengual 2020) a ddengys bod effaith iaith yr aelwyd yn arwyddocaol. I'r gwrthwyneb, gwelir bod iaith yr aelwyd yn ffactor sy'n effeithio ar amrywio (ai) yn y sillaf olaf ddiacen, ac felly mae'n cyd-fynd â phatrymau mewn ymchwil ar gymunedau dwyieithog rhyngwladol, yn ogystal â chanfyddiadau Morris (2013, 2021) yng Nghaernarfon.

Yn olaf, gwelir gwahanol oblygiadau ar gyfer damcaniaeth ffurfiant tafodiaith newydd yng nghyd-destun adfywio ieithyddol yn yr ymchwil hwn. Nid ymddengys bod Cymraeg Caerdydd yn ffocysu, gan fod cyfraddau tebyg o'r ddau amrywiolyn nodwedd (ai) yn y sillaf olaf ddiacen yn cael eu defnyddio. Mae'n debygol nad yw cyd-destun o adfywio ieithyddol felly'n gyd-destun lle y mae ffurfiant tafodiaith newydd yn ymddwyn fel y mae yng nghyd-destun ffurfiant tafodiaith newydd arferol. Cymerodd Saesneg Seland Newydd

dros hanner can mlynedd neu fwy i ffurfio a ffocysu (Trudgill 2004, t. 160). Sefydlwyd Cymraeg Caerdydd yn y 1970au, felly tua'r un hyd a gymerodd hi i Saesneg Seland Newydd ffocysu, ond nid yw Cymraeg Caerdydd i'w weld yn ffocysu ar sail cynhyrchiad (ai) disgyblion YUGC. Cynigir mai heriau cyffredin sy'n wynebu ieithoedd lleiafrifol megis diffyg cysondeb defnydd a throsglwyddiad rhwng cenedlaethau, yn ogystal â symudoledd siaradwyr Cymraeg Caerdydd sy'n diffinio ffurfiant tafodiaith newydd yng nghyd-destun adfywio ieithyddol yn yr achos hwn, ac sy'n gyfrifol dros ganlyniadau ieithyddol gwahanol o safbwynt ffocysu o'i gymharu â ffurfiant tafodiaith newydd mwy arferol megis mewn sefyllfaoedd *tabula rasa*.

Llyfryddiaeth

- Aitchison, J. a Carter, H. 1987. The Welsh Language in Cardiff – a Quiet Revolution. *Transactions of the Institute of British Geographers*, 12, tt. 482–492.
- Aitchison, J. a Carter, H. 2000. The Welsh Language 1921–1991. A Geolinguistic Perspective. Yn: Jenkins, G.H. a Williams, Mari A. (goln) *Let's do our best for the Ancient Tongue: The Welsh Language in the Twentieth Century*. Cardiff: University of Wales Press, tt. 29–107.
- Albrini, A. a Chakrani, B. 2017. Switching codes and registers: An analysis of heritage Arabic speakers' sociolinguistic competence. *International Journal of Bilingualism*, 21, tt. 317–339.
- Altendorf, U. 2003. *Estuary English: levelling at the interface of RP and South-Eastern British English*. Tübingen: Gunter Narr Verlag.
- Altendorf, U. a Watt, D. 2008. The dialects in the south of England: Phonology. *Varieties of English*, 1, tt. 194–222.
- Anderson, V. M. 2011. *Bidialectalism in intense language variety contact: An "unexpected" development in the death of Pennsylvania Dutchified English*. Traethawd PhD, Indiana University.
- Ash, S. 1996. Freedom of movement: /uw/-fronting in the Midwest. Yn: Arnold, J., Blake, R., Davidson, B., Schwenter, S. a Solomon, J. (goln) *Sociolinguistic variation: Data, theory, and analysis: Selected papers from NWAV 12 at Stanford*. Stanford: CA: CSLI, tt. 3–23.
- Ash, S. 2004. Social Class. Yn: Chambers, J. K., Trudgill, P. a Schilling-Estes, N. (goln) *Handbook of Language Variation and Change*. Oxford: Blackwell, tt. 402–422.

- Awbery, G. M. 1984. Phonotactic constraints in Welsh. Yn: Ball, M. J. a Jones, G. E. (goln) *Welsh Phonology: Selected Readings*. Cardiff: University of Wales Press, tt. 65–104.
- Awbery, G. M. 2009. Welsh. Yn: Ball, M. J. a Müller, N. (goln) *The Celtic Languages*. Abingdon: Routledge, tt. 359–426.
- Awbery, G. M. 2012. Welsh language wills and inventories: Exploring dialect variation in the past. *Studia Celtica*, 46, tt. 137–164.
- Baayen, H. 2009. *Analyzing Linguistic Data: A Practical Introduction to Statistics*. Cambridge: Cambridge University Press.
- Backus, A. 2004. Convergence as a mechanism of language change. *Bilingualism: Language and Cognition*, 7(2), tt. 179–181.
- Ball, M. J., Griffiths, T. a Jones, G. E. 1988. Broadcast Welsh. Yn: Ball, M. J. (gol.) *The Use of Welsh*. Clevedon: Multilingual Matters, tt. 182–199.
- Ball, M. J. a Williams, B. J. 2001. *Welsh Phonetics*. New York: Edwin Mellen Press.
- Balsom, D. 1985. The Three-Wales Model: The Political Sociology of Welsh Identity. Recent Electoral Trends, Pressures for Change. Yn: Osmond, J. (gol.) *The National Question Again: Welsh Political Identity in the 1980s*. Llandysul: Gomer, tt. 1–17.
- Banerjee, P. A. 2016. A systematic review of factors linked to poor academic performance of disadvantaged students in science and maths in schools. *Cogent Education*, 3, tt. 1–17.
- Baranowski, M. 2008. The fronting of the back upgliding vowels in Charleston, South Carolina. *Language Variation and Change*, 20, tt. 527–551.
- Baranowski, M. 2017. Class matters: the sociolinguistics of GOOSE and GOAT in Manchester English. *Language Variation and Change*, 29, tt. 307–339.

- Baranowski, M. a Turton, D. 2015. Manchester English. Yn: Hickey, R. (gol.) *Researching Northern Englishes*. Amsterdam: John Benjamins, tt. 293–316.
- Bigot, D. 2018. Two dialects, two kids at home: a story from a sociolinguistic dad. *BILD Research Group Blog* [ar-lein]. Ar gael: <http://bild-lida.ca/blog/uncategorized/two-dialects-two-kids-at-home-a-story-from-a-sociolinguist-dad-by-dr-davy-bigot/>. [Cyrchwyd 10 Ionawr 2019]
- Birdsong, D. 1999. *Second language acquisition and the critical period hypothesis*. London: Routledge.
- Blom, J. P. a Gumperz, J. J. 1972. Social meaning in linguistic structure: Code-switching in Norway. Yn: Gumperz, J.J. a Hymes, D. (goln) *Directions in Sociolinguistics*. New York: Routledge, tt. 111–136.
- Blondeau, H. a Nagy, N. 2008. Subordinate clause marking in Montreal Anglophone French and English. Yn: Meyerhoff, M. a Nagy, N. (goln) *Social Lives in Language – Sociolinguistics and multilingual speech communities. Celebrating the life of Gillian Sankoff*. Amsterdam and Philadelphia: Benjamins, tt. 273–313.
- Boersma, P. a Weenink, D. 2008. *Praat, a system for doing phonetics by computer* (Version 5.0. 34) [meddalwedd cyfrifiadurol].
- Bogetic, K. 2014. Be like and the quotative system of Jamaican English: Linguistic trajectories of globalization and localization: How global linguistic innovations are spread into and adopted by local speech communities. *English Today*, 30(3), tt. 5–12.
- Branford, W. 1994. English in South Africa. Yn: Burchfield, R. (gol.) *The Cambridge History of the English Language, vol. 5*. Cambridge: Cambridge University Press, tt. 430–496.

- Breatnach, R. A. 1984. The Irish revival reconsidered. *Studies: an Irish Quarterly Review*, 53, tt. 18–30.
- Britain, D. 2010. Dialect Contact, Focusing and Phonological Complexity: The Koineisation of Fenland English. Yn: Meyerhoff, M. a Schlee, E. (goln) *The Routledge Sociolinguistics Reader*. Abingdon: Routledge, tt. 231–260.
- Britain, D. a Trudgill, P. 2005. New dialect formation and Contact-induced Reallocation: Three Case Studies from the English Fens. *International Journal of English Studies*, 5(1), tt. 183–209.
- Bucholtz, M. 1999. “Why be normal?”: Language and identity practices in a community of nerd girls. *Language in Society*, 28, tt. 203–223.
- Buchstaller, I. a D’arcy, A. 2009. Localized globalization: A multi-local, multivariate investigation of quotative *be like*. *Journal of Sociolinguistics*, 13, tt. 291–331.
- Bullock, B. E. a Toribio, A. J. 2004. Introduction: Convergence as an emergent property in bilingual speech. *Bilingualism: Language and Cognition*, 7(2), tt. 91–93.
- Chambers, J. K. 1990. The Canada-US border as a vanishing isogloss: the evidence of Chesterfield. *Journal of English Linguistics*, 23(1–2), tt. 155–166.
- Chambers, J. K. 1992. Dialect Acquisition. *Language*, 68(4), tt. 673–705.
- Chambers, J. K. 1993. “Lawless and vulgar innovations”: Victorian views on Canadian English. Yn: Clarke, S. (gol) *Focus on Canada, Varieties of English Around the World, General Series*, 11. Amsterdam: Benjamins, tt. 1–26.
- Chambers, J. K. 2002. Dynamics of dialect convergence. *Journal of Sociolinguistics*, 6(1), tt. 117–130.

- Chambers, J. K. 2009. *Sociolinguistic theory: linguistic variation and its social significance*. Chichester: Wiley-Blackwell.
- Cheshire, J. 1982. *Variation in an English Dialect: a sociolinguistic study*, Cambridge Studies in Linguistics. Cambridge: Cambridge University Press.
- Cheshire, J., Kerswill, P., Fox, S. & Torgersen, E. 2011. Contact, the feature pool and the speech community: The emergence of Multicultural London English. *Journal of Sociolinguistics*, 15, tt. 151–196.
- Chisari-Strater, E. 1996. Turning in upon ourselves: Positionality, subjectivity and reflexivity in case study and ethnographic research. In: Mortensen, P. & Kirsch, G. E. (eds) *Ethics and representation in qualitative studies of literacy*. Urbana, Illinois: National, tt. 115–132.
- Collins, B. M. & Mees, I. 1990. The Phonetics of Cardiff English. In: Coupland, N. (ed.) *English in Wales*. Clevedon: Multilingual Matters, tt. 87–103.
- Cornips, L., Jaspers, J. & de Rooij, V. 2015. The politics of labelling youth vernaculars in the Netherlands and Belgium. In: Nortier, J. & Svendsen, B. V. (eds) *Language, youth and identity in the 21st century. Linguistic practices across urban spaces*. Cambridge: Cambridge University Press, tt. 45–70.
- Coupland, N. 1988. *Dialect in Use: Sociolinguistic Variation in Cardiff English*. Cardiff: University of Wales Press.
- Coupland, N. 2008. The delicate constitution of identity in face-to-face accommodation: A response to Trudgill. *Language in Society*, 37(2), tt. 267–270.
- Coupland, N., & Martin, J. 1989. Welsh and English in Contemporary Wales: Sociolinguistic Issues. *Contemporary Wales*, 3, tt. 7–40.

- Coupland, N., Bishop, H., Evans, B. a Garrett P. 2006. Imagining Wales and the Welsh language: Ethnolinguistic subjectivities and demographic flow. *Journal of Language and Social Psychology*, 25(4), tt. 351–376.
- Cox, F. 1999. Vowel change in Australian English. *Phonetica*, 56, tt. 1–27.
- Croft, W. 2000. *Explaining language change: An evolutionary approach*. London: Longman.
- Daleszynska-Slater, A. a Meyerhoff, M. 2020. The voice of Polan [t]: The acquisition of English (t, d) variation by Polish migrants in Edinburgh. *Sociolinguistic Studies*, 14, tt. 111–134.
- Davies, P. 2016. Age variation and language change in Welsh: auxiliary deletion and possessive constructions. Yn: Durham, M. a Morris, J. (goln) *Sociolinguistics in Wales*. Basingstoke: Palgrave Macmillan, tt. 31–59.
- Diekmann, A. 2007. *Empirische Sozialforschung. Grundlagen, Methoden, Anwendungen*. Hamburg: Rowohlt Taschenbuch.
- Drager, K. 2009. *A Sociophonetic Ethnography of Selwyn Girls' High*. Traethawd PhD. University of Canterbury.
- Drummond, R. 2011. Glottal variation in/t/in non-native English speech: Patterns of acquisition. *English World-Wide*, 32(3), tt. 280–308.
- Drummond, R. 2012. Aspects of identity in a second language: ING variation in the speech of Polish migrants living in Manchester, UK. *Language variation and change*, 24(1), tt. 107–133.
- Drummond, R. 2013. The Manchester Polish STRUT: Dialect acquisition in a second language. *Journal of English linguistics*, 41(1), tt. 65–93.

- Easton, A. a Bauer, L. 2000. An acoustic study of the vowels of New Zealand English. *Australian Journal of Linguistics*, 20, tt. 93–117.
- Eckert, P. 1988. Adolescent social structure and the spread of linguistic change. *Language in Society*, 17(2), tt. 183–207.
- Eckert, P. 1989. The whole woman: sex and gender differences in variation. *Language Variation and Change*, 1, tt. 245–267.
- Eckert, P. 1997. Age as a sociolinguistic variable. Yn: Coulmas, F. (gol.) *Handbook of Sociolinguistics*. Oxford: Blackwell, tt. 151–167.
- Eckert, P. 2000. *Linguistic variation as a social practice: the linguistic construction of identity in Belten High*. Oxford: Blackwell.
- Eckert, P. 2006. Communities of practice. *Encyclopedia of language and linguistics*, 2, tt. 683–685.
- Eckert, P. 2008. Variation and the indexical field. *Journal of Sociolinguistics*, 12(4), tt. 453–476.
- Eckert, P. 2012. Three Waves of Variation Study: The Emergence of Meaning in the Study of Sociolinguistic Variation. *Annual Review of Anthropology*, 41, tt. 87–100.
- Eckert, P. a McConnell-Ginet, S. 1992. Think practically and look locally: language and gender as community-based practice. *Annual Review of Anthropology*, 21, tt. 461–488.
- Evas, J., Morris J., a Whitmarsh L. 2017. *Welsh Language Transmission and Use in Families*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
- Fabricius, A. 2007. Vowel formants and angle measurements in diachronic sociophonetic studies: FOOT-fronting in RP. Yn: Trouvain, J. a Barry, W. J. (goln) *Proceedings of the*

16th International Congress of Phonetic Sciences. Saarbücken: Universität des Saarlandes, tt. 1477–1480.

Feagin, C. 1979. *Variation and Change in Alabama English: A Sociolinguistic Study of the White Community*. Washington DC: Georgetown University Press.

Ferragne, E. a Pellegrino, F. 2010. Formant frequencies of vowels in 13 accents of the British Isles. *Journal of the International Phonetic Association*, 40(1) tt. 1–34.

Fishman, J. A. 2001. *Can threatened languages be saved?* Clevedon: Multilingual Matters.

Flege, J. E. 1995. Second language speech learning: Theory, findings, and problems. *Speech perception and linguistic experience: Issues in cross-language research*, 92, tt. 233–277.

Flege, J. E. 2007. Language contact in bilingualism: Phonetic system interactions. *Laboratory Phonology*, 9, tt. 353–382.

Flege, J. E. 2008. Give Input a Chance! Yn: Pirske, T. a Young-Scholten, M. (goln) *Input matters in SLA*. Clevedon: Multilingual Matters, tt. 175–190

Flemming, E. 2003. The relationship between coronal place and vowel backness. *Phonology*, 20(3), tt. 335–373.

Flynn, N. 2012. *A sociophonetic study of Nottingham speakers*. Traethawd PhD, University of York.

Foote, M. Q. a Bartell, T. G. 2011. Pathways to equity in mathematics education: how life experiences impact researcher positionality. *Educational Studies in Maths*, 78, tt. 45–58.

- Foster Evans, D. 2018. Lleisiau Coll Cymraeg Caerdydd. *Amgueddfa Cymru* [ar-lein]. Ar gael: <https://museum.wales/blog/1953/Lleisiau-coll-Cymraeg-Caerdydd/>. [Cyrchwyd 2 Rhagfyr 2021]
- Fought, C. 1999. A majority sound change in a minority community: /u/-fronting in Chicano English. *Journal of Sociolinguistics* 3(1), tt. 5–23.
- Fought, C. 2004. Ethnicity. Yn: Chambers, J.K., Trudgill P., a Schilling-Estes N. (goln) *The Handbook of Language Variation and Change*. Oxford: Blackwell, tt. 444–472.
- Fowler, C. A., Sramko, V., Ostry, D. J., Rowland, S. A. a Hallé P. 2008. Cross language phonetic influences on the speech of French–English bilinguals. *Journal of Phonetics*, 36(4), tt. 649–663.
- Freywald, U., Mayr, K., Özçelik, T. a Wiese, H. 2011. Kiezdeutsch as a multiethnolect. Yn: Kern, F. a Selting, M. (goln) *Ethnic Styles of Speaking in European Metropolitan Areas*. Amsterdam/Philadelphia: John Benjamins, tt. 45–73.
- Fridland, V. 2008. Patterns of /uw/, /ʊ/, and /ow/ fronting in Reno, Nevada. *American Speech*, 83, tt. 432–454.
- Fridland, V. a Bartlett, K. 2006. The social and linguistic conditioning of back vowel fronting across ethnic groups in Memphis, Tennessee. *English Language and Linguistics*, 10, tt. 1–22.
- Fynes-Clinton, O. H. 1913. *The Welsh vocabulary of the Bangor district*. Oxford: Oxford University Press.
- Gathercole, V. C. M. a Thomas, E. M. 2005. Minority language survival: Input factors influencing the acquisition of Welsh. Yn: Cohen, J., McAlister, K. T., Rolstad, K. a McSwan (goln) *Proceedings of the 4th International Symposium on Bilingualism*. Somerville, Massachusetts: Cascadilla Press, tt. 852–874.

- Gathercole, V. C. M. a Thomas, E. M. 2009. Bilingual first-language development: Dominant language takeover, threatened minority language take-up. *Bilingualism: Language and Cognition*, 12(2), tt. 213–237.
- Giles, H. 1973. Accent mobility: a model and some data. *Anthropological Linguistics*, 15, tt. 87–105.
- Giles, H. 1977. Social psychology and applied linguistics. *ITL: Review of Applied Linguistics*, 33, tt. 27–42.
- Giles, H. ac Ogay, T. 2007. Communication Theory. Yn: Whaley, B. B. a Samter, W. (goln) *Explaining communication: Contemporary theories and exemplars*. Manwah, New Jersey: Lawrence Erlbaum, tt. 293–310.
- Gordon, E., Campbell, L., Hay, J., MacLagan, M., Sudbury, A. a Trudgill, P. 2004. *New Zealand English: its origins and evolution*. Cambridge: Cambridge University Press.
- Griffith, A. I. 1998. Insider/outsider: epistemological privilege and mothering work. *Human Studies*, 21, tt. 361–376.
- Haeri, N. 1997. *The Sociolinguistic Market of Cairo: Gender, Class, and Education*. Abingdon: Routledge.
- Hall-Lew, L. 2005. One shift, two groups: When fronting alone is not enough. *University of Pennsylvania Working Papers in Linguistics*, 10(2), tt. 105–116.
- Hall-Lew, L. 2009. Ethnicity and Sound Change in San Francisco English. *Proceedings of the Annual Meeting of the Berkeley Linguistics Society*, 35, tt. 111–122.
- Hall-Lew, L. 2010. Ethnicity and Sociolinguistic Variation in San Francisco. *Language and Linguistics Compass* 4(7), tt. 458–472.

- Hall-Lew, L. 2011. The completion of a sound change in California English. *Proceedings of the International Congress of Phonetic Sciences*, 17, tt. 807–810.
- Hannahs, S. J. 2013. *The Phonology of Welsh*. Oxford: Oxford University Press.
- Harrington, J., Kleber, F. a Reubold, U. 2008. Compensation for coarticulation, /u/-fronting, and sound change in standard southern British: An acoustic and perceptual study. *The Journal of the Acoustical Society of America*, 123, tt. 2825–2835.
- Harrington, J., Kleber, F. a Reubold, U. 2011. The contributions of the lips and the tongue to the diachronic fronting of high back vowels in Standard Southern British English. *Journal of the International Phonetic Association*, 41(2), tt. 137–156.
- Hawkins, S. a Midgley, J. 2005. Formant frequencies of RP monophthongs in four age groups of speakers. *Journal of the International Phonetic Association*, 35(2), tt. 183–199.
- Hay, J., MacLagan, M. a Gordon, E. 2008. *New Zealand English*. Edinburgh: Edinburgh University Press.
- Hazen, K. 2001. An introductory investigation into bidialectalism. *University of Pennsylvania Working Papers in Linguistics*, 7(3), tt. 85–99.
- Herod, A. 1999. Reflections on interviewing foreign elites: praxis, positionality, validity, and the cult of the insider. *Geoforum*, 30(4), tt. 313–327.
- Holmes, P. 2014. Researching Chinese Students' Intercultural communication Experiences in Higher Education: Researcher and participant reflexivity. Yn: Byrd Clark, J. & Dervin, F. (goln) *Reflexivity in language and intercultural education*. Abingdon: Routledge, tt. 110–128.

- Holmes-Elliott, S. E. M. 2015. *London calling: Assessing the spread of metropolitan features in the southeast*. Traethawd PhD, University of Glasgow.
- Horvath, B. M. 1985. *Variations in Australian English: The Sociolects of Sydney*. Cambridge: Cambridge University Press.
- Howley, G. 2015. *The acquisition of Manchester dialect variants by adolescent Roma migrants*. Traethawd PhD, University of Salford.
- Hughes, V., Foulkes, P., Haddican, B. a Richards, H. 2013. Vowel variation in Manchester: a dynamic approach. *Paper presented at 8th UK Conference on Language Variation and Change*. Edge Hill University, 12–14 September.
- Hughes, V., Haddican, B. a Foulkes, P. 2013. The dynamics of variation and change in northern British English back vowels. *Paper presented at NWAV 41 Conference*. Indiana University, Bloomington, 25–28 October.
- Iosad, P. 2017. The phonologisation of redundancy: length and quality in Welsh vowels. *Phonology*, 34, tt. 121–162.
- Jaffe, A. 2015. Defining the new speaker: Theoretical perspectives and learner trajectories. *International Journal of the Sociology of Language*, 231, tt. 21–44.
- Jansen, S. 2019. Change and stability in GOOSE, GOAT and FOOT: Back vowel dynamics in Carlisle English. *English Language and Linguistics*, 23(1), tt. 1–29.
- Johnson, D. E. 2009. Getting off the GoldVarb standard: introducing Rbrul for mixed-effects variable rule analysis. *Language and Linguistics Compass* 3, tt. 359–383
- Johnson, J. S. a Newport, E. L. 1989. Critical period effects in second language learning: The influence of maturational state on the acquisition of English as a second language. *Cognitive Psychology*, 21(1), tt. 60–99.

- Jones, D. 1932. *An outline of English phonetics*. New York: E. P. Dutton.
- Jones, G. E. 1984. The distinctive vowels and consonants of Welsh. Yn: Ball, M. J. a Jones, G. E (goln) *Welsh phonology: Selected readings*. Cardiff: University of Wales Press, tt. 40–64.
- Jones, M. C. 1994. A Tale of Two Dialects: standardization in modern spoken Welsh. YnL Parry, M, Davies, W. a Temple, R. (goln) *The Changing Voices of Europe: Social and Political Change and Their Linguistic Repercussions, Past, Present and Future*. Cardiff: University of Wales Press, tt. 242–264.
- Jones, M. C. 1998. *Language Obsolescence and Revitalization*. Oxford: Clarendon Press.
- Jones, N. C. 2006. *Datblygiad y Gymraeg fel cyfrwng i gyflwyno ac i drafod y newyddion*. Traethawd PhD, Prifysgol Cymru Aberystwyth.
- Jones, R. O. 1973–74. Amrywiadau geirfaol yn nhafodieithoedd Cymraeg y Wladfa. *Studia Celtica*, 8–9, tt. 287–298.
- Jones, R. O. 1976. Cydberthynas amrywiadau iaith a nodweddion cymdeithasol yn y Gaiman Chubut – sylwadau rhagarweiniol. *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd* 17(1), tt. 51–64.
- Jones, R. O. 1988. Language variation and social stratification: Linguistic change in progress. Yn: Ball, M. J. (gol.) *The Use of Welsh: a contribution to sociolinguistics*. Clevedon: Multilingual Matters, tt. 289–306.
- Kasstan, J. R. 2010. *Language obsolescence in the Lyonnais area*. Traethawd MPhil, University of Cambridge.

- Kasstan, J. R. 2015. *Variation and change in Francoprovençal: A study of an emerging linguistic norm*. Traethawd PhD, University of Kent.
- Kasstan, J. R. 2017. New speakers: challenges and opportunities for variationist sociolinguistics. *Language and Linguistic Compass* 11(8), tt. 1–16.
- Kasstan, J. R. a Nagy, N. 2018. Francoprovençal: documenting a contact variety in Europe and North America. *International Journal of the Sociology of Language*, 249, tt. 1–9.
- Kerswill, P. 2003. *Dialect levelling and geographical diffusion in British English*. Amsterdam: Benjamins.
- Kerswill, P. 2013. Identity, ethnicity and place: the construction of youth language in London. *Space in language and linguistics: Geographical, interactional, and cognitive perspectives*, 24, tt. 128–164.
- Kerswill, P. 2014. The objectification of ‘Jafaican’: the discorsal embedding of Multicultural London English in the British media. Yn: Androutsopoulos, J. (gol.) *The Media and Sociolinguistic Change*. Berlin: De Gruyter, tt. 428–455.
- Kerswill, P. a Williams, A. 2000. Creating a new town koine: children and language change in Milton Keynes. *Language in Society*, 29, tt. 65–115.
- Kerswill, P. a Williams, A. 2005. New towns and koineization: linguistic and social correlates. *Linguistics*, 43(5), tt. 1023–1048.
- King, K. A. 2001. *Language revitalization processes and prospects*. Clevedon: Multilingual Matters.
- Kirkham, S. 2013. *Ethnicity, social practice and phonetic variation in a Sheffield secondary school*. Traethawd PhD, University of Sheffield.

- MacLagan, M., Watson, C. I., Harlow, R., King, J. a Keegan, P. 2009. /u/-fronting and /t/-aspiration in Māori and New Zealand English. *Language Variation and Change*, 21, tt. 175–192.
- Kleber, F., Harrington, J. a Reubold, U. 2012. The relationship between the perception and production of coarticulation during a sound change in progress. *Language and Speech*, 55, tt. 383–405.
- Kondo, D. K. 1986. Dissolution and reconstitution of self: Implications for anthropological epistemology. *Cultural Anthropology*, 1, tt. 74–88.
- Kotsinas, U. B. 1988. Immigrant children’s Swedish – a new variety? *Journal of Multilingual and Multicultural Development*, 9(1–2), tt. 129–140.
- Krug, M. a Sell, K. 2013. Designing and conducting interviews and questionnaires. Yn: Krug, M. a Schlueter, J. (goln) *Research Methods in Language Variation and Change*. Cambridge: Cambridge University Press, tt. 69–98.
- Labov, W. 1966. *The Social Stratification of English in New York City*. Washington, DC: Center for Applied Linguistics.
- Labov, W. 1972. *Sociolinguistic Patterns*. Philadelphia: University of Pennsylvania.
- Labov, W. 1981. Field methods of the project on linguistic change and variation. *Sociolinguistic Working Paper*, 81, tt. 1–43.
- Labov, W. 1984. Field Methods of the Project on Linguistic Change and Variation. Yn: Baugh, J. a Sherzer, J. (goln) *Language in Use*. Englewood Cliffs: Prentice Hall, tt. 28–53.
- Labov, W. 1994. *Principles of language change: Internal factors*. Oxford: Blackwell.
- Labov, W. 2001. *Principles of linguistic change: Social factors*. Oxford: Blackwell.

Labov, W. 2007. Transmission and diffusion. *Language*, 83(2), tt. 344–387.

Labov, W., Ash, S., a Boberg, C. 2006. *Atlas of North American English: Phonetics*. Berlin: Mouton de Gruyer.

Lave, J. a Wenger, E. 1991. *Situated learning: Legitimate peripheral participation*. Cambridge: Cambridge University Press.

Lawson, R. 2011. Patterns of linguistic variation among Glaswegian adolescent males. *Journal of Sociolinguistics*, 15, tt. 226–255.

Le Page, R. a Tabouret-Keller, A. 1985. *Acts of Identity: Creole-based approaches to Language and Ethnicity*. Cambridge: Cambridge University.

Lenneberg, E. H. 1967. The biological foundations of language. *Hospital Practice* 2(12), tt. 59–67.

Lindblom, B. 1963. Spectrographic study of vowel reduction. *The Journal of the Acoustical Society of America*, 35, tt. 1773–1781.

Llywodraeth Cymru. 2001. *Siaradwyr Cymraeg fesul awdurdod lleol a grwpiau oedran ehangach, Cyfrifiad 1991 a 2001*. StatsCymru: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru. 2011. *Siaradwyr Cymraeg fesul awdurdod lleol a grwpiau oedran ehangach, Cyfrifiad 2001 a 2011*. StatsCymru: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru. 2019. *Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru*.

Llywodraeth Cymru. 2020. *Ethnigrwydd yn ôl ardal a grŵp ethnig*. StatsCymru: Llywodraeth Cymru.

- Louden, M. L. a Page, B. R. 2005. Stable bilingualism and phonological (non) convergence in Pennsylvania German. Yn: Rolstad, K, Cohen, J., McAlister, K. T. a McSwan, J (goln) *Proceedings of the 4th International Symposium on Bilingualism* Somerville, Massachusetts: Cascadilla.
- MacLagan, M., Watson, C. I., Harlow, R., King, J. & Keegan, P. 2009. /u/fronting and /t/aspiration in Māori and New Zealand English. *Language Variation and Change*, 21, tt. 175–192.
- Mani, L. 1990. Multiple mediations: feminist scholarship in the age of multinational reception. *Feminist Review*, 35, tt. 25–41.
- Matthews, T. 2005. *Discourses of intergroup distinctiveness among adolescent girls*. Traethawd PhD, Cornell University.
- Mayr, R. a Davies, H. 2011. A cross-dialectal acoustic study of the monophthongs and diphthongs of Welsh. *Journal of the International Phonetic Association*, 41, tt. 1–25.
- Mayr, R., Morris, J., Mennen, I., a Williams D. 2017. Disentangling the effects of long-term bilingualism: The case of monophthongs in Welsh and English. *International Journal of Bilingualism* 21(3), tt. 245–267.
- Mees, I. M. 1977. *Language and social class in Cardiff: A survey of the speech habits of schoolchildren*. Traethawd MA, University of Leiden.
- Mees, I. M., a Collins, B. 1999. Cardiff: a real-time study of glottalisation. Yn: Foulkes, P. a Docherty G. (goln) *Urban Voices: Accent studies in the British Isles*. Oxford: Oxford University Press, tt. 185–202.
- Mehan, H. 1989. Microcomputers in classrooms: Educational technology or social practice? *Anthropology and Education Quarterly*, 20, tt. 4–22.

- Mendoza-Denton, N. 2008. *Homegirls: Language and Cultural Practice among Latina Youth Gangs*. Oxford, Blackwell Publishing.
- Mennen, I., Kelly, N., Mayr, R. a Morris, J. 2020. The Effects of Home Language and Bilingualism on the Realization of Lexical Stress in Welsh and Welsh English. *Frontiers in Psychology*, 10, tt. 1–17.
- Mercer, J. 2007. The challenges of insider research in educational institutions: wielding a double-edged sword and resolving delicate dilemmas. *Oxford Review of Education*, 33, tt. 1–17.
- Merton, R. K. 1972. Insiders and Outsiders: A Chapter in the Sociology of Knowledge. *American Journal of Sociology*, 77, 9–47.
- Mesthrie, R. 2001. Koinés. Yn: Mesthrie, R. (gol.) *Concise Encyclopaedia of Sociolinguistics*. Oxford: Elsevier, tt. 485–489.
- Mesthrie, R. 2010. Socio-phonetics and social change: Deracialisation of the GOOSE vowel in South African English. *Journal of Sociolinguistics*, 14, tt. 3–33.
- Meyerhoff, M. 2009. Replication, transfer, and calquing: Using variation as a tool in the study of language contact. *Language Variation and Change* 21(3), tt. 297–317.
- Meyerhoff, M. a Schlee, E. 2012. Variation, contact and social indexicality in the acquisition of (ing) by teenage migrants. *Journal of Sociolinguistics*, 16(3), tt. 398–416.
- Meyerhoff, M. a Schlee, E. 2013. Hitting the target: Constraints on variation in native- and foreign-born teens in Edinburgh. Yn: Lawson, R. (gol.) *Sociolinguistic Perspectives on Scotland*. London: Palgrave, tt. 103–128.
- Milroy, L. 1987. *Language and Social Networks*. Oxford: Blackwell.

- Miura, H. 2015. Phonemic Variations in South Wales English Vowels. *Studies in the Humanities*, 97, tt. 141–160.
- Moelders, A.-M. 2021. Investigating language change across the life span: a real-time panel study of hyper-s and first-person singular possessive in north-eastern English. *United Kingdom Language Variation and Change Conference (UKLVC)*, University of Glasgow, Online.
- Mooney, D. 2016. Southern Regional French: A Linguistic Analysis of Language and Dialect Contact. *Journal of French Language Studies*, 26(3), tt. 327–352.
- Mooney, D. 2019. Phonetic transfer in language contact: Evidence for equivalence classification in the mid-vowels of Occitan-French bilinguals. *Journal of the International Phonetic Association*, 49(1), tt. 53–85.
- Moore, E. 2003. *Learning style and identity: a sociolinguistic analysis of a Bolton high school*. Traethawd PhD. University of Manchester.
- Moore, E. 2004. Sociolinguistic style: A multidimensional resource for shared identity creation. *Canadian Journal of Linguistics*, 49, tt. 375–396.
- Mordaunt, O. G. 2011. Bidialectalism in the classroom: the case of African-American English. *Language, Culture and Curriculum* 24(1), tt. 77–87.
- Morgan, S. 1995. *Iaith Newyddion BBC Cymru*. Traethawd israddedig, Caerdydd: Prifysgol Cymru.
- Morris, J. 2013. *Sociolinguistic variation and regional minority language bilingualism: an investigation of Welsh-English bilinguals in North Wales*. Traethawd PhD, University of Manchester.

- Morris, J. 2017. Sociophonetic variation in a long-term language contact situation: /l/-darkening in Welsh-English bilingual speech. *Journal of Sociolinguistics*, 21, tt. 183–207.
- Morris, J. 2021. Social Influences on Phonological Transfer:/r/Variation in the Repertoire of Welsh-English Bilinguals. *Languages*, 6(2), tt. 1–18.
- Morris, J., Mayr R., a Mennen, I. 2016. The role of linguistic background on sound variation in Welsh and Welsh English. Yn: Durham, M. a Morris, J. (goln) *Sociolinguistics in Wales*. Basingstoke: Palgrave Macmillan, tt. 241–271.
- Mougeon, R. a Beniak, É. 1991. *Linguistic consequences of language contact and restriction: The case of French in Ontario, Canada*. Oxford: Oxford University Press.
- Mougeon, R., Nadasdi, T. a Rehner, K. 2010. *The sociolinguistic competence of immersion students*. Clevedon: Multilingual Matters.
- Mougeon, R., Rehner, K. a Nadasdi, T. 2004. The learning of spoken French variation by immersion students from Toronto, Canada. *Journal of Sociolinguistics*, 8, tt. 408–432.
- Mühlhäusler, P. 1980. Structural expansion and the process of creolization Yn: Highfield, A.R. a Valdman, A. (goln) *Theoretical Orientations in Creole Studies*. New York: Academic, tt. 19–55.
- Nadasdi, T., Mougeon, R. a Rehner, K. 2003. Emploi du ‘futur’ dans le français parlé des élèves d'immersion française. *Journal of French Language Studies*, 13, tt. 195–219.
- Nagy, N., Blondeau, H., a Auger, J. 2003. Second language acquisition and “real” French: An investigation of subject doubling in the French of Montreal Anglophones. *Language variation and change*, 15(1), tt. 73–103.

- Nance, C. 2013. *Phonetic variation, sound change, and identity in Scottish Gaelic*. Traethawd PhD, University of Glasgow.
- Nance, C. 2015. Intonational variation and change in Scottish Gaelic. *Lingua*, 160, tt. 1–19.
- Nance, C. 2015. ‘New’ Scottish Gaelic speakers in Glasgow: a phonetic study of language revitalisation *Language in Society*, 44(4), tt. 553–579.
- Nance, C., McLeod, W., O’Rourke, B., a Dunmore, S. 2016. Identity, accent aim, and motivation in second language users: new Scottish Gaelic speakers’ use of phonetic variation. *Journal of Sociolinguistics*, 20(2), tt. 164–191.
- Narayan, K. 1993. How native is a “native” anthropologist? *American Anthropologist*, 95, tt. 671–686.
- Nassif, L. 2021. Codeswitching between Modern Standard and Colloquial Arabic as L2 sociolinguistic competence: A cross-sectional study from an integrated approach curriculum. *Applied Pragmatics*, 3, tt. 26–50.
- O’Rourke, B., Pujolar, J., Ramallo F. 2015. New speakers of minority languages: The challenging opportunity – foreword. Yn: Hogan-Brun G. ac O’Rourke B. (goln) *The Palgrave Handbook of Minority Languages and Communities*. Berlin: De Gruyter Mouton, tt. 1–20.
- Oftedal, M. 1969. *A new approach to North Welsh vowels*. Oslo: Universitetsforlaget.
- Ohala, J. J. 1981. The listener as a source of sound change. Yn: Masek, C. S., Hendrick, R. A. a Miller, M. F. (goln) *Papers from the parassession on Language and Behaviour*. Chicago: Chicago Linguistic Society. tt. 178–203.
- Orwig, S. 2015. *Cyfnewid cod mewn llenyddiaeth n ofelau Cymraeg a Ffrangeg-Canadaidd: datblygu methodoleg newydd*. Traethawd MPhil, Prifysgol Caerdydd.

- Paradis, J. 2001. Do bilingual two-year-olds have separate phonological systems? *International journal of bilingualism*, 5(1), tt. 19–38.
- Paradis, J. a Genesee, F. 1996. Syntactic acquisition in bilingual children: Autonomous or interdependent? *Studies in second language acquisition*, 18(1), tt. 1–25.
- Poplack, S. 1978. Dialect acquisition among Puerto Rican bilinguals. *Language in Society*, 7(1), tt. 89–103.
- Poplack, S. Zents, L., a Dion, N. 2012. Phrase-final prepositions in Quebec French: An empirical study of contact, code-switching and resistance to convergence. *Bilingualism: Language and Cognition*, 15(2), tt. 247–254.
- Prys, M. 2016. *Style in the vernacular and on the radio: Code-switching and mutation as stylistic and social markers in Welsh*. Traethawd PhD, Prifysgol Bangor University.
- R Team, 2020. *RStudio: Integrated Development for R*. RStudio, PBC, Boston, MA [ar-lein]. Ar gael: <http://www.rstudio.com/> .[Cyrchwyd 2 Ebrill 2019].
- R Core Team. 2011. *R: A Language and Environment for Statistical Computing*. Vienna: R Foundation for Statistical Computing [ar-lein]. Ar gael: www.R-project.org [Cyrchwyd 2 Ebrill 2019].
- Rampton, B. 1995. *Crossing: Language and ethnicity among adolescents*. Essex: Longman.
- Rampton, B. 2006. *Language in late modernity: Interaction in an urban school*. Cambridge: Cambridge University Press
- Rees, I. W. 2018. Length and quality in Welsh mid vowels: New evidence from Mid-Wales. *Journal of Celtic Linguistics*, 19, tt. 157–208.

- Rees, I. W. 2021. *Y Wladfa: Un o “fethiannau godidocaf” puryddiaeth ieithyddol?* Seminar Ymchwil ar-lein, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd.
- Rhys, M. a Thomas, E. M. 2013. Bilingual Welsh–English children's acquisition of vocabulary and reading: implications for bilingual education. *International Journal of Bilingual Education and Bilingualism*, 16(6), tt. 633–656.
- Rickford, J. R. a McNair-Knox, F. 1994. Addressee-and topic-influenced style shift: A quantitative sociolinguistic study. Yn: Biber, D. a Finegan, E. (goln) *Sociolinguistic Perspectives on Register*. Oxford: Oxford University Press, tt. 235–276.
- Robert, E. 2009. Accommodating “new” speakers? An attitudinal investigation of L2 speakers of Welsh in south-east Wales. *International Journal of the Sociology of Language* 2009 (195), tt. 93–115.
- Roberts, J. 2006. Limits to Communities of Practice. *Journal of Management Studies*, 43, tt. 623–639.
- Romaine, S. 1984. *The Language of Children and Adolescents: The Acquisition of Communicative Competence*. Oxford: Blackwell.
- Sánchez, L. 2003. *Quechua-Spanish bilingualism: Interference and convergence in functional categories*. Amsterdam: John Benjamins.
- Sánchez, L. 2004. Functional convergence in the tense, evidentiality and aspectual systems of Quechua Spanish bilinguals. *Bilingualism: language and cognition* 7(2), tt. 147–162.
- Sankoff, G. a Thibault, P. 1980. The alternation between the auxiliaries avoir and être in Montréal French. Yn: Sankoff, G. (gol.) *The Social Life of Language*. Pennsylvania: University of Pennsylvania Press, tt. 311–345.

- Sankoff, G., Thibault, P., Nagy, N., Blondeau, H., Fonollosa, M. O. a Gagnon, L. 1997. Variation in the use of discourse markers in a language contact situation. *Language variation and change*, 9(2), tt. 191–217.
- Savin-Baden, M. a Howell-Major, C. 2013. *Qualitative Research: The essential guide to theory and practice*. Abingdon: Routledge.
- Schilling-Estes, N. 1998. Investigating “self-conscious” speech: The performance register in Ocracoke English. *Language in Society*, 27, tt. 53–83.
- Schilling-Estes, N. 2002. Investigating Stylistic Variation. Yn: Chambers, J. K. a Schilling-Estes, N. (goln) *The Handbook of Language Variation and Change*. Oxford: Blackwell, tt. 375–401.
- Schilling-Estes, N. 2007. Sociolinguistic Fieldwork. Yn: Bayley, R. a Lucas, C. (goln) *Sociolinguistic Variation: theories, methods and applications*. Cambridge: Cambridge University Press, tt. 165–189
- Schleef, E. 2013. Migrant teenagers’ acquisition of sociolinguistic variation: The variables (ing) and (t). Yn: Auer, P., Reina, J. C. a Kaufmann, G. (goln) *Language variation – European perspectives IV*. Amsterdam: John Benjamins, tt. 201–213.
- Schleef, E., Meyerhoff, M. a Clark, L. 2011. Teenagers’ acquisition of variation: A comparison of locally-born and migrant teens’ realisation of English (ing) in Edinburgh and London. *English world-wide*, 32, tt. 206–236.
- Schneider, E. W. 2008. Accomodation versus Identity? A Response to Trudgill. *Language in Society*, 37(2), tt. 262–267.
- Scobbie, J. M., Lawson, E. a Stuart-Smith, J. 2012. Back to front: a socially-stratified ultrasound tongue imaging study of Scottish English /u/. *Rivista di Linguistica/Italian*

- Journal of Linguistics, Special Issue: Articulatory techniques for sociophonetic research*, 24(1), tt. 103–148.
- Selinker, L. 1969. Language transfer. *General linguistics*, 9(2), tt. 1–26.
- Selinker, L. 1972. Interlanguage. *IRAL-International Review of Applied Linguistics in Language Teaching*, 10, tt. 209–232.
- Sharma, D. 2011. Style repertoire and social change in British Asian English. *Journal of Sociolinguistics*, 15(4), tt. 464–492.
- Sharma, D. a Sankaran, L. 2011. Cognitive and social forces in dialect shift: Gradual change in London Asian speech. *Language variation and Change*, 23(3), tt. 399–428.
- Siegel, J. 1985. Koines and koineization. *Language in Society*, 14(3), tt. 357–378.
- Siegel, J. 2001. Pidgins, creoles and minority dialects in education. Yn: Mesthrie, R. (gol.) *Concise Encyclopaedia of Sociolinguistics*. Oxford: Elsevier Science, tt. 747–750.
- Simonet, M. 2010. Dark and clear laterals in Catalan and Spanish: Interaction of phonetic categories in early bilinguals. *Journal of Phonetics*, 38, tt. 663–678.
- Simonet, M. 2014. Phonetic consequences of dynamic cross-linguistic interference in proficient bilinguals. *Journal of Phonetics*, 43, tt. 26–37.
- Simonet, M. a Amengual, M. 2020. Increased language co-activation leads to enhanced cross-linguistic phonetic convergence. *International Journal of Bilingualism*, 24, tt. 208–221.
- Sloetjes, H. a Wittenburg, P. 2008. Annotation by category-ELAN and ISO DCR. *6th international Conference on Language Resources and Evaluation (LREC 2008)*.

- Marrakech, Morocco [ar-lein]. Ar gael: http://www.lrec-conf.org/proceedings/lrec2008/pdf/208_paper.pdf [Cyrchwyd 20 Tachwedd 2019]
- Smith, J. a Durham, M. 2012. Bidialectalism or dialect death? Explaining generational change in the Shetland Islands, Scotland. *American Speech*, 87(1), tt. 57–88.
- Stanley, J. 2017. A Tutorial in Extracting Formants in PRAAT [ar-lein]. Ar gael: <https://joestanley.com/blog/a-tutorial-on-extracting-formants-in-praat> [Cyrchwyd Tachwedd 20 2019]
- Strycharczuk, P. a Scobbie, J. M. 2017. Fronting of Southern British English high-back vowels in articulation and acoustics. *The Journal of the Acoustical Society of America*, 142, tt. 322–331.
- Stuart-Smith, J. 1999. Glasgow: Accent and voice quality. Yn: Foulkes, P. a Docherty, G. (goln) *Urban voices: Accent studies in the British Isles*. Abingdon: Routledge.
- Sweet, H. 1884. Spoken North Welsh. *Transactions of the Philological Society*, 19(1), tt. 409–484.
- Tagliamonte, S. A. 1998. Was/were variation across the generations: View from the city of York. *Language Variation and Change*, 10, tt. 153–191.
- Tagliamonte, S. A. 2006. *Analysing Sociolinguistic Variation*. Cambridge: Cambridge University Press.
- Tagliamonte, S. A. a D’Arcy, A. 2009. Peaks beyond phonology: Adolescence, incrementation, and language change. *Language*, 85(1), tt. 58–108.
- Tarone, E. E. 1985. Variability in interlanguage use: A study of style-shifting in morphology and syntax. *Language Learning*, 35(3), tt. 373–403.

- Teale, A. 2008. *Local Elections Archive Project* [ar-lein]. Ar gael:
<https://www.andrewteale.me.uk/leap/map/2008/406/> [Cyrchwyd: 18 Hydref 2018].
- Thibault, P. a Sankoff, G. 1993. Diverses facettes de l'insécurité linguistique. Vers une analyse comparative des attitudes et du français parlé par les Franco-et des Anglo-Montréalais. *Cahiers de l'Institut de linguistique de Louvain*, 19(3–4), tt. 209–218.
- Thomas, A. R. 1987. A spoken standard for Welsh: description and pedagogy. *International Journal of the Sociology of Language*, 66, tt. 99–114.
- Thomas, B. T. 1981. Linguistic and nonlinguistic boundaries in Clwyd. *Cardiff Working Papers in Welsh Linguistics*, 1, tt. 60–71.
- Thomas, B. T. 1984. Linguistic and non-linguistic boundaries in north-east Wales. Yn: Ball, M. J. a Jones, G. E. (goln) *Welsh Phonology*. Cardiff: University of Wales Press, tt. 189–207.
- Thomas, B. T. 1989. Differences of sex and sects: linguistic variation and social networks in a Welsh mining village. Yn: Coates, J. a Cameron, D. (goln) *Women in their speech communities: New perspectives on language and sex*. London: Longman, tt. 51–60.
- Thomas, B. T. 1990. Amrywio Sosioieithyddol yn Nhafodiaith Pont-rhyd-y-fen. Yn: Ball, M. J., Fife, J., Poppe, E., a Rowland, J. (goln) *Celtic Linguistics: Readings in the Brythonic Languages*. Amsterdam: John Benjamins, tt. 41–53.
- Thomas, B. T. a Thomas P. W. 1989. *Cymraeg, Cymrâg, Cymrêg ... Cyflwyno'r Tafodieithoedd*. Caerdydd: Gwasg Taf.
- Thomas, E. M. a Davies, P. W. 2017. *Agweddau ar Ddwyieithrwydd*. Caerfyrddin: Coleg Cymraeg Cenedlaethol.
- Thomas, O. J. 2020. *The Welsh Language in Cardiff: a history of survival*. Talybont: Y Lolfa.

- Thomas, P. W. 1991. Children in Welsh-medium education: Semilinguals or innovators? *Journal of Multilingual and Multicultural Development*, 12(1–2), tt. 45–53.
- Thomas, E. R. a Kendall, T. 2007. *NORM: The vowel normalization and plotting suite* [ar-lein].
Ar gael: <http://lingtools.uoregon.edu/norm/norm1.php> [Cyrchwyd Mai 23 2020]
- Thomason, S. G. 2001. *Language contact: An introduction*. Edinburgh: Edinburgh University Press.
- Thomson, S. 2018. Achievement at school and socioeconomic background – and educational perspective. *Science of Learning*, 3(1), tt. 1–2.
- Torgersen, E. a Kerswill, P. 2004. Internal and external motivation in phonetic change: Dialect levelling outcomes for an English vowel shift. *Journal of Sociolinguistics*, 8, tt. 23–53.
- Torgersen, E., Kerswill, P. a Fox, S. 2006. Ethnicity as a source of changes in the London vowel system. Language variation–European perspectives. *Selected papers from the third international conference on language variation in Europe (ICLaVE3)*. Amsterdam: Benjamins, tt. 249–263.
- Trudgill, P. 1983. *On dialect: Social and geographical perspectives*. Oxford: Blackwell.
- Trudgill, P. 1974. Linguistic change and diffusion: Description and explanation in sociolinguistic dialect geography. *Language in Society* 3(2), tt. 215–246.
- Trudgill, P. 1986. *Dialects in Contact*. Oxford: Blackwell.
- Trudgill, P. 2004. *New-dialect formation: The inevitability of colonial Englishes*. Oxford: Oxford University Press.

- Trudgill, P. 2008. Colonial dialect contact in the history of European languages: On the irrelevance of identity to new-dialect formation. *Language in Society*, 37, tt. 241–254.
- Trudgill, P., Gordon, E., Lewis, G. a MacLagan, M. 2002. Determinism in New-Dialect Formation and the Genesis of New Zealand English *Journal of Linguistics*, 36(2), tt. 299–318.
- Turner, G. W. 1994. English in Australia. Yn: Burchfield, R. (gol.) *The Cambridge History of the English Language*, vol. 5. Cambridge: Cambridge University Press, tt. 277–327.
- Turton, D. 2021. Gradient change from below or categorical change from above? The decline of rhoticity in Blackburn, Lancashire. *United Kingdom Language Variation and Change Conference (UKLVC)*. University of Glasgow, Online.
- Tuten, D. N. 2003. *Koineization in Medieval Spanish*. Berlin: De Gruyter.
- Van Coetsem, F. 1988. *Loan phonology and the two transfer types in language contact*. Berlin: De Gruyter.
- Watson, C. I., MacLagan, M. a Harrington, J. 2000. Acoustic evidence for vowel change in New Zealand English. *Language Variation and Change*, 12, tt. 51–68.
- Watt, D. a Fabricius, A. 2002. Evaluation of a technique for improving the mapping of multiple speakers' vowel spaces in the F1~F2 plane. *Leeds working papers in linguistics and phonetics*, 9, tt. 159–173.
- Wells, J. C. 1984. English accents in England. Yn: Trudgill, P. (gol.) *Language in the British Isles*. Cambridge: Cambridge University Press. tt. 55–69.
- Wenger, E. 1998. *Communities of Practice: Learning, meaning and identity*. Cambridge: Cambridge University Press.

- Wenger, E. a Snyder, W. 2002. *Cultivating Communities of Practice: A Guide to Managing Knowledge*. Boston, Massachusetts: Harvard Business Press.
- Wiese, H. 2009. Grammatical innovation in multiethnic urban Europe: New linguistics practices among adolescents. *Lingua*, 119(5), tt. 782–806.
- Williams, A. a Kerswill, P. 1999. Dialect levelling: change and continuity in Milton Keynes, Reading and Hull. Yn: Foulkes, P.D. a Gerard J. (goln) *Urban Voices*. Abingdon: Routledge, tt. 141–162.
- Wmffre, I. 2003. *Language and place-names in Wales: The evidence of toponymy in Cardiganshire*. Cardiff: University of Wales Press.
- Wolfram, W. 1993. Identifying and interpreting variables. Yn: Preston, D. R. (gol.) *American dialect research: Celebrating the 100th anniversary of the American Dialect Society, 1889–1989*. Amsterdam and Philadelphia: Benjamins, tt. 193–221.
- Wolfson, N. 1978. A feature of performed narrative: the conversational historical present. *Language in Society*, 7, tt. 215–237.
- Wong, A. W.-M. 2014. GOOSE-fronting among Chinese Americans in New York City. *University of Pennsylvania Working Papers in Linguistics*, 20(2), tt. 209–218.
- Zentella, A. C. 1997. *Growing up bilingual: Puerto Rican children in New York*. Oxford: Blackwell.
- Zhang, Q. 2001. *Changing economy, changing market: A sociolinguistic study of Chinese Yuppies*. Traethawd PhD, Stanford University.
- Zhang, Q. 2005. A Chinese yuppie in Beijing: Phonological variation and the construction of a new professional identity. *Language in Society*, 34(3), tt. 431–466.

Zhang, Q. 2008. Rhotacization and the 'Beijing Smooth Operator': The social meaning of a linguistic variable. *Journal of Sociolinguistics*, 12(2), tt. 201–222.

Županović Filipin, N. 2015. Language acquisition in a bidialectal child: speech development, influences and outcomes. *Jezikoslovlje*, 16, tt. 275–305.

Atodiad A: Ffurflen gwybodaeth am ymchwil i rieni

Beth yw'r ymchwil? / What is the research?

Mae'r prosiect hwn yn ymchwilio i'r Gymraeg a phobl ifanc yng Nghaerdydd gan ddisgyblion ym mlwyddyn 10 yn Ysgol Uwchradd Gymraeg Caerdydd. Byddaf yn arsylwi ar ddosbarth o ddigysblion gan gynnwys eich plentyn, am gyfnod estynedig, ac yn cyfweld â nhw ar bynciau cyffredinol.

This project is interested in researching Welsh and young people through the pupils of Ysgol Uwchradd Gymraeg Caerdydd, Cardiff. I will be observing a class of pupils in year 10, including your child, for an extended period of time, as well as conducting an interview with them asking about general topics of interest .

Pwy sy'n cynnal yr ymchwil? / Who's conducting the research?

Mae'r ymchwil yn cael ei gynnal gan Ianto Gruffydd, myfyriwr Ph.D yn Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd. Mae'r ymchwil wedi ei ariannu'n rhannol gan yr Ysgol a'r Brifysgol honno, a hefyd gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Os dymunwch ddarganfod mwy o wybodaeth mae croeso ichi gysylltu â Ianto Gruffydd sy'n cynnal yr ymchwil, neu Swyddog Moeseg Ymchwil Ysgol y Gymraeg:

The research is being conducted by Ianto Gruffydd, a Ph.D student at the School of Welsh, Cardiff University. The research is being funded partly by the School and the University, and partly by the Coleg Cymraeg Cenedlaethol. If you wish to find out more about the nature of the research, you're welcome to contact the researcher, Ianto Gruffydd, or the Research Ethics Officer at the School of Welsh whose details are listed below:

Ffôn: 0292087726

e-bost: gruffyddiw@caerdydd.ac.uk

e-bost: morrisj17@caerdydd.ac.uk

Cyfeiriad:

Ysgol y Gymraeg,

Adeilad John Percival,

Rhodfa Colum,

Caerdydd,

Caniatâd / Permission

Mae'r ymchwil hwn wedi cael ei gymeradwyo gan adran Foeseg Ymchwil prifysgol Caerdydd wedi cyflwyno cais a gwiriad DBS. Os nad ydych chi fel rhiant neu warcheidwad eisiau i'ch plentyn gymryd rhan yn yr ymchwil hwn, gallwch lenwi'r ffurflen isod ar gyfer tynnu eich plentyn allan o'r ymchwil. Gofynnir i'ch plentyn arwyddo ffurflen ganiatâd. Mae gennych chi a'ch plentyn yr hawl i dynnu'ch plentyn allan o'r ymchwil ar unrhyw adeg.

This research project has been approved by the Research Ethics department at Cardiff University, after I had presented an application and had received a DBS (formerly CRB) check. As the parent of a pupil potentially involved with this research, if you do not wish for your child, or if they do not wish to be a part of the research, you can fill out the form below and withdraw your child from the research. Your child will also have to sign the opt-out form below. You and your child reserve the right to pull out of the research at any time.

Defnydd data a chyfrinachedd / Data use and confidentiality

Ni fydd enw eich plentyn yn cael eu datgelu yn yr astudiaeth, yn ogystal ni fydd yr ysgol yn cael eu henwi. Yn hytrach, bydd eich plentyn yn derbyn ffugenw ar hap. Bydd y canlyniadau yn ymddangos yng fy nhraethawd Ph.D terfynol a fydd ar gael yn gyhoeddus. Bydd y data o'r ymchwil yn cael ei gasglu trwy wahanol gyfryngau er enghraifft, holiadur a chyfweliad. Bydd rhannau o'r holiaduron a'r cyfweliad yn cael eu defnyddio yn y traethawd. Ni fydd manylion personol y disgybl yn cael eu rhyddhau, ac ni fydd canlyniadau'r holiadur na recordiad o'r cyfweliad ar gael yn gyhoeddus.

Bydd y data oll, gan gynnwys, recordiadau, trawsgrifiadau ac ati yn cael ei gadw ar fewnwyd ddiogel y Brifysgol. Bydd y data a chaiff ei gasglu yn cael ei gadw ar gyfer diben ymchwil yn unig, ac yn cyd-fynd â gofynion ac egwyddorion y Ddeddf Gwarchod Data 2018 a'r Rheoliad Gwarchod Data Cyffredinol. Wedi trawsgrifio'r data ar gyfer fy ymchwil, bydd y data oll gan gynnwys enwau plant ac ysgolion yn aros yn anhysbys, ac yn cael eu cadw dan gyfrinair ar gyfer diogelu'r data.

Neither your child's name, nor the schools' will be disclosed at any time during the research. Your child will receive a fictitious nickname at random. My final Ph.D thesis, containing the results of the research will be available publicly. The data from the research will be elicited through different mediums such as questionnaires and interviews. Parts of such mediums, containing information of use to my research

questions will be used in the essay. This does not include personal information regarding your child or any of the pupils, and the data obtained through these mediums won't be available publicly.

All of the data, including recordings, transcriptions and so on will be kept on the University's secure intranet. The data obtained will be kept for research purposes only, and will comply to the requirements and principles of the Data Protection Act 2017, and the General Data Protection Regulation. After transcribing the data, all information, including pupil names and so on, will be kept totally anonymous, and password protected in order to keep the data secure.

Ffurflen ganiatad rhieni

Cwblhewch y ffurflen hon os **NAD YDYCH** eisiau i'ch plentyn gymryd rhan yn yr ymchwil hwn. Gyrrwch y ffurflen yn ôl, wedi'i gwblhau erbyn _____. Os nad ydych yn dychweld y ffurflen erbyn y dyddiad hwn bydd eich plentyn yn cymryd rhan yn yr astudiaeth. Er hyn, mae gennych yr hawl i dynnu eich plentyn allan o'r astudiaeth ar unrhyw adeg.

*Please fill this form in if you **DO NOT** want your child taking part in this research. Please return this form, completed, before _____. If this form is not returned before this date, your child will take part in the study. Having said this, you and your child reserve the right to pull out of the study at any time.*

Rhieni neu Warcheidwaid / Parent or Guardian:

Dymunaf i'm mhentyn beidio a chymryd rhan yn yr ymchwil sy'n cael ei gynnal gan Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd ar amrywio ieithyddol yng Nghymraeg disgyblion Ysgol Uwchradd Gymraeg Caerdydd.

I do not wish for my child to take part in the research being undertaken by the Cardiff University School of Welsh on language variation in the Welsh of Ysgol Uwchradd Gymraeg Caerdydd pupils.

Llofnod / Signature : _____

Dyddiad / Date: _____

Enw'r Disgybl / Name of Pupil:

Enw'r Rhiant neu Warcheidwaid / Name of Parent or Guardian:

Atodiad B: Ffurflen cydsynio disgyblion

Ysgol y Gymraeg
Pennaeth yr Ysgol Yr Athro Sioned Davies BA DPhil
School of Welsh
Head of School Professor Sioned Davies BA DPhil



Prifysgol Caerdydd
Adelard John Percival
Rhodfa Colum
Caerdydd, CF10 3EU
Cymru, Y Deyrnas Gyfunol

Ffôn: +44 (0)29 2087 4000
Ffôn Ffacs: +44 (0)29 2087 4604

www.cardiff.ac.uk

Cardiff University
John Percival Building
Colum Drive
Cardiff CF10 3EU
Wales UK

CYDSYNIAD I GYMRYD RHAN MEWN YMCHWIL CONSENT TO PARTICIPATE IN RESEARCH

(DRWY GYFWELIAD/BY INTERVIEW)

Teitl y Prosiect/

Project Title: Astudiaeth o amrywio leithyddol yng nghyd-destun adfywio leithyddol yng Nghymraeg Caerdydd

Gwybodaeth gefndirol am y prosiect/

Background information about the project: Mae'r prosiect hwn yn ymchwilio'r Gymraeg a phobl ifanc yng Ysgol [redacted] Caerdydd. Yn gyntaf, byddwch yn llenwi holiadur er mwyn i'r ymchwilwyr dod i ddeall mwy am eich cefndir cymdeithasol. Wedi hyn bydddech yn cael eich cyfweid, cyn cynnal cyfnod o arsylwi ar eich dosbarth. Bydd y cyfnod arsylwi yn parhau hyd at wyliau'r Nadolig gyda'r bwriad i ddysgu mwy am eich iaith yn gyffredinol a natur yr ystafell ddosbarth, nid oes unrhyw ddiddordeb ynglŷn â chywirdeb eich iaith.

Os bydd gennych gwestiynau ynghylch y prosiect, cysylltwch â [Ianto Gruffydd](mailto:ianto.gruffydd@cardiff.ac.uk), Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, Adelard John Percival, Rhodfa Colum, Caerdydd, CF10 3EU. E-bost: ggruffydd@caerdydd.ac.uk

Os bydd gennych unrhyw bryderon am yr ymchwil neu sut mae'n cael ei gynnal, cysylltwch â Dr Jonathan Morris, Swyddog Moeseg Ymchwil Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd drwy e-bost (morrisj17@caerdydd.ac.uk) neu dros y ffôn (029 208 75394).

Should you have any questions regarding this project, please contact [Ianto Gruffydd](mailto:ianto.gruffydd@cardiff.ac.uk), School of Welsh, Cardiff University, John Percival Building, Colum Drive, Cardiff, CF10 3EU. E-bost: ggruffydd@cardiff.ac.uk

If you have any concerns about the research or how it is being conducted, please contact Dr Jonathan Morris, School of Welsh Research Ethics Officer, Cardiff University, by email (Morrisj17@cardiff.ac.uk) or phone (029 208 75394).

**Adran 1: Gwybodaeth am y cyfranogwr
Section 1: Information about the participant**

Eich enw
Your Name _____

Y sefydliad yr ydych yn ei gynrychioli (os yw'n berthnasol)
Name of the organisation you represent (if applicable) _____

Adran 2: Datganiad

Rwyf dros 14 oed, a chydysynaf i gymryd rhan yn y cyfweiliad sy'n rhan o'r prosiect uchod ar [Dyddiad cynnal y cyfweiliad __/__/____].

1. Rwyf wedi darllen y wybodaeth yn y ddogfen hon.
2. Mae manylion unrhyw weithdrefnau a risgiau wedi eu hesbonio i mi i'm boddhad.
3. Cytunaf i'm cyfranogiad yn y cyfweiliad gael ei recordio ac i'r recordiad / nodiadau / trawsgrifiad a'r ffurflen gydysnio hon gael eu cadw ar gyfrifiadur o dan amodau Deddf Gwarchod Data (1998) ac o dan gyfrinair. Cedwir copi caled o dan glo.
4. Rwyf yn ymwybodol y dylwn gadw copi o'r ddogfen hon at ddibenion cyfeirio.

Deallaf:

- Na chaf fudd uniongyrchol o gymryd rhan yn y prosiect hwn.
- Fy mod yn rhydd i dynnu'n ôl o'r prosiect ar unrhyw adeg ac i beidio â darparu ateb i gwestiynau penodol.
- P'un a dynnaf yn ôl ai peidio, ni fydd hyn yn effeithio ar unrhyw wasanaeth a ddarperir i mi gan Brifysgol Caerdydd.
- Y caf ofyn i'r recordio gael ei stopio ar unrhyw adeg, ac y caf dynnu'n ôl ar unrhyw adeg o'r cyfweiliad heb anfantaes i mi.

Cytunaf/Ni chytunaf* i'w recordiad/nodiadau neu drawsgrifiad o'r recordiad gael ei ddefnyddio gan ymchwilyr eraill nad ydynt yn aelodau o'r tîm ymchwil, ond sy'n gwneud ymchwil gysylltiedig.*
*dileer fel y bo'n briodol

PWYSIG: Ni ryddheir unrhyw fanylion personol a all arwain at ddatgelu fy enw ac ni fydd y recordiad o'm cyfranogiad ar gael yn gyhoeddus.

Adran 3: Llofnodion Section 3: Signatures

Llofnod y cyfranogwr
Signature of participant.....

Dyddiad
Date.....

Section 2: Statement

I am over 14 years of age and consent to take part in this interview which is part of the above project [Date the interview was held __/__/____]

1. I have read the information in this document
2. Information regarding procedures and risks have been explained to me to my satisfaction
3. I also agree for my participation in the interview to be recorded and for the recording / notes / transcription and this consent form to be kept on a computer under the conditions of the Data Protection Act (1998) and under a password. A physical copy will be kept in locked storage.
4. I am aware that I should retain a copy of this document for reference purposes

I understand:

- I may not receive direct benefit by participating in this project
- I am free to withdraw from the project at any time and not to provide answers to certain questions
- Whether I withdraw or not, this will not affect any service provided to me by Cardiff University.
- I may request that the recording be stopped at any time and I may withdraw from the interview at any time without any personal disadvantage.

I agree/I do not agree* for the recording/notes or transcription of the recording to be used by other researchers who are not members of the research team, but who are carrying out linked research
*delete as appropriate

IMPORTANT: Any personal details that may lead to the disclosure of my name will not be released and the recording of my participation will not be made publicly available.

Ysgol y Gymraeg

Pennaeth yr Ysgol Yr Athro Sioned Davies BA DPhil

School of Welsh

Head of School Professor Sioned Davies BA DPhil

Tystiaf fy mod wedi esbonio'r ymchwil i'r cyfranogwr ac ystyriaaf ei fod e/hi bod hi'n deall yr hyn sydd ynghlwm wrtho ac yn rhoi cydsyniad rhydd i gymryd rhan.

I certify that I have explained the research to the participant and I consider he/she understands its implications and freely gives consent to participate.

Enw'r Ymchwilydd

Name of Researcher: Ianto Gruffydd

Llofnod yr Ymchwilydd

Signature of Researcher.....

Dyddiad

Date.....

Atodiad C: Holiadur cefndirol

Mae'r holiadur hwn yn fy helpu i ddarganfod mwy amdanoch chi cyn arsylwi arnoch a'ch cyfweld chi. Gofynnwch i'r ymchwilydd os nad ydych chi'n siŵr am unrhyw beth. Os nad oes llinell ar gyfer ysgrifennu ateb, cylchwch yr opsiynau perthnasol.

1. Enw: _____

2. Rhywedd: Bachgen Merch Arall Ddim eisiau dweud

3. Oed: _____

4. Lle cawsoch chi eich geni? _____

5. Lle yng Nghaerdydd (neu du hwnt) ydych chi'n byw? _____

6. Ydych chi erioed wedi byw yn rhywle arall yng Nghaerdydd (neu du hwnt)?

Do Naddo

Os cylchoch chi 'do', ewch i'r cwestiwn nesaf.

7. Rhestrwch le arall:

Lle	O	Tan

8. I ba ysgol gynradd aethoch chi? _____

9. Beth yw eich iaith gyntaf? Cymraeg Saesneg Arall

Os cylchoch 'arall', manylwch: _____

10. Disgrifiwch eich hunaniaeth genedlaethol: Cymreig Prydeinig
Cymreig a Phrydeinig Arall

Os cylchoch 'arall', manylwch: _____

11. Llenwch y tabl yma ynglŷn â'ch rhieni/gofalwyr:

Rhiant (e.e Mam, Dad)	O le?	Iaith siarad gyda chi	Swydd

12. Pa mor aml ydych chi'n siarad Cymraeg tu allan i'r ysgol?

Bob Dydd Bob Wythnos Bob Mis Byth

13. Gyda phwy ydych chi'n siarad Cymraeg tu allan i'r ysgol?

Rhieni Mam-gu/Tad-cu Brawd/Chwaer Ffrindiau
Cyd-weithwyr Cymdogion Neb Arall

Os cylchoch arall, manylwch: _____

Atodiad Ch: Modiwlau a chwestiynau cyfweliad

1. Teulu (Demograffeg – ar sail yr holiadur cyn y cyfweliad)

- Yn gyntaf, ers pryd wyt ti'n nabod dy ffrind gorau (o'r holiadur)?
 - Sut ddaethoch chi'n ffrindiau?
 - Wyt ti'n nabod ei deulu/theulu? Dweda wrtha i amdanyn nhw.
 - Beth wyt ti'n hoffi amdanyn nhw?
- Yw eich rhieni'n dod o Gaerdydd?
 - Pam symudon nhw i Gaerdydd?
 - Oes rhywun arall yn y dosbarth wedi symyd i Gaerdydd?

2. Cymuned

- Sut beth oedd tyfu fyny'n Gaerdydd/Rhywle arall _____?
 - Oes gen ti hoff atgof fel plentyn? (penblwydd neu ddiwrnod dolig?)
 - Sut mae'n cymharu â Chaerdydd heddiw / Sut mae _____ yn cymharu efo Caerdydd)
 - Sut mae lle dyfaist di fyny _____ yn wahanol i le ti'n byw nawr?
 - Wyt ti erioed wedi symyd ty? Sut brofiad oedd e?
- Oes gen ti gymdogion drws nesa i ti?
 - Beth wyt ti'n wybod amdanyn nhw?
- Ti'n byw yn _____ (e.e. Eglwys Newydd, Canton, Llanisien, Rhiwbeina, Grangetown, Gog Llandaf), beth wyt ti'n hoffi am y pentref?
 - Beth wyt ti ddim yn hoffi am _____?
 - Wyt ti'n mynd i _____ (Caeau Llandaf, Powerleague, Victoria Park, Thompsons Park, Parc Eglwys Newydd, Canolfan Hamdden Llanisien, Llanisien Skate Park, Rampworld)
 - Beth wyt ti'n wneud yno? (neu ddisgrifio rhywbeth typical sydd yn y lle, e.e. "pwll nofio Victoria Park")

3. Diwylliant

- Yn dy farn di, oes rhywbeth sy'n gwahanu Caerdydd o weddill Cymru neu dde Cymru?
 - Lle yw dy hoff le i fynd yng Nghaerdydd?

- Beth wyt ti'n wneud yno?
- Wyt ti neu unrhyw un o aelodau dy deulu yn cefnogi unrhyw dîm chwaraeon yn y ddinas?
 - Pryd oedd y tro dwytha i ti fod i weld nhw?
 - Beth ddigwyddodd yn y gêm?
 - Wyt ti'n cofio unrhyw gemau cyfarwydd?
 - Beth wyt ti'n feddwl o'u chances nhw tymor yma?

5. Grŵpiau Cymdeithasol

- Wyt ti'n sylwi ar unrhyw grŵpiau neu sects o bobl yn yr ysgol?
- Oes mwy?
- Lle ti'n gweld yr unigolion hyn?
- Oes is-grŵpiau o ffrindiau yn dy ddsbarth?
- Be sy'n gwahaniaethu'r grwpiau / Beth yw nodweddion y grŵpiau?
- Wyt ti neu dy ffrindiau'n perthyn i un o'r grwpiau hyn?

6. Ysgol

- Oes unrhyw fath o grŵpiau yn yr ysgol?
- Yn y dosbarth neu tu allan i'r dosbarth?
- Sut fyse ti'n disgrifio rhai o'r grŵpiau yma?
- Beth yw'r peth gorau am fynd i'r Ysgol?
- Beth yw'r peth gwaethaf?
 - Mae lot yn cwyno am ginio ysgol, beth ti'n meddwl amdano?
 - Pan o'n i'n yr ysgol oedd lot o'n ffrindiau yn casau arholiadau, beth wyt ti'n meddwl amdany'n nhw?
- Pa wersi ti'n hoffi fwyaf a pam?
- Pa wersi ti'n hoffi lleiaf a pam?
- Wyt ti wedi cael bai ar gam yn o'r blaen? (dim rhaid iddo fod yn yr ysgol)
- Oes gen ti hoff/gas athro/athrawes? Pam bo ti'n hoffi, neu ddim yn hoffi nhw?
- Wyt ti wedi gwneud cymhwyster Duke of Edinburgh?
 - Beth ddigwyddodd?
- Oes gen ti atgof o ddigwyddiad cofiadwy (doniol, erchyll) o'r ysgol (cynradd neu uwchradd)?

- Be ti'n gofio am dy ddiwrnod cyntaf yn Ysgol Uwchradd Gymraeg Caerdydd?

7. Ffrindiau a Pherthnasau

Wyt ti dal yn ffrindiau nawr gyda rhai o'r pobl a oeddet ti gyda ar dy ddiwrnod cynta?

- Os ddim, pam?

- Wyt ti wedi nabod dy ffrindiau presennol ers ysgol gynradd?

- Oes gwahaniaeth rhwng pobl a aeth i Ysgol X ac Ysgol Y?

- Beth am Ysgol Uwchradd Gymraeg Caerdydd ac Ysgol Uwchradd Z?

8. Ymladd

- Oes dipyn o ymladd yn yr Ysgol?

- Pwy sy'n ymladd?

- Dros beth mae'n nhw'n ymladd?

- Beth yw'r ffeit mwyaf crazy ti di weld?

- Oes mwy o ymladd yn yr ysgol neu yn lle ti'n byw?

- Wyt ti wedi clywed am rhai o'r bobl sy'n ymladd?

9. Ofn (a Danger of Death)

- Wyt ti byth yn ofn wrth wyllo'r fights? Pam?

- Pryd oedd y tro dwythfa i ti fod ofn?

- Pam?

- Wyt ti erioed wedi bod mewn sefyllfa lle oeddet ti'n poeni am dy fywyd?

- Wyt ti erioed wedi bod mewn sefyllfa lle oeddet ti'n poeni am fywyd rhywun arall?

- Beth yw'r gosb/punishment gwaethaf ti wedi gael, gan athro neu gan riant falle?

- Be wnest di?

10. Diddordebau (a Gemau)

- Beth ti'n ei wneud yn dy amser rhydd tu allan i'r Ysgol?

- Ti'n aelod o rhyw fath o glwb?

- Meddylia am benwythnos, neu wyliau, neu inset diweddar, be nes di a dy ffrindiau?

- Os ewch chi i'r dre, beth wyt ti a dy ffrindiau yn ei wneud yno?

- Ti'n cofio beth ddigwyddodd tro dwythfa i ti fynd i'r dre?

- Meddylia yn ôl, pa wahaniaeth sydd rhwng dy ddiddordebau di nawr a dy ddiddordebau di 5 mlynedd yn ôl?
 - Pam nes di stopio gwneud be oeddet ti'n ei wneud?
 - Pam nes di ddechrau gwneud be ti'n wneud nawr?
- Pan oeddet ti'n iau pa fath o bethau fyddde ti'n neud gyda dy ffrindiau?
 - Tria feddwl am rai o'r gemau oeddech chi'n chwarae
- Oes gen ti Xbox neu PS4?
 - Pa gemau ti'n chwarae? (Fortnite, Fifa, Rocket League)
 - Mae rhieni'n aml yn cwyno am faint mae eu plant yn chwarae ar consoles tebyg? ---
 - Be ti'n feddwl am hynny? (hen ffasiwn, ddim yn wir, etc)
- Wyt ti'n defnyddio 'social media'? Pa rai ti'n ddefnyddio?
 - Be wyt ti'n rhoi ar X? (Insta, Snap, Twitter)
 - Wyt ti'n meddwl bod social media yn dda?
 - Wyt ti erioed wedi clywed am blant yn cael trafferth ar social media? Oes na unrhyw hanes o hynny yn yr ysgol?
- Pan ti'n treulio amser efo ffrindiau (enwi) beth ydych chi'n neud?
 - Yn lle?
- Wyt ti erioed wedi gwneud escape room? Dw i erioed wedi gwneud un, disgrifia beth sy'n digwydd mewn un.
 - Be' ddigwyddod, wnaethoch chi'r escape room?
 - Oedd unrhyw ffrindiau yna'n well na i gilydd?
 - Beth sy'n gwneud rhywun yn dda?
- Pa fath o deledu a ffilm ti'n wyllo?
 - Wyt ti'n mynd i'r sinema i wyllo films?
 - Disgrifia'r tro dwytha fues di i'r sinema?
 - Oes gen ti netflix?
 - Pa gyfresi ti'n gwyllo arno?
 - Beth yw'r gyfres?
- Wyt ti'n subscribed i unrhyw channels youtube?
 - Pa fath o channels ydyn nhw?
 - Beth yw'r un ti'n ei wyllo fwyaf?
 - Dweud wrtha i beth sy'n digwydd mewn episode?

- Wyt ti erioed di bod i gig neu gyngerdd?
 - Wyt ti'n mynd yn rheolaidd?
 - Beth yw'r gig gorau ti erioed wedi weld a pham?
 - Pa fath o bobl yn yr ysgol sy'n mynd i gigs?
 - Pwy ydi dy hoff artist di a pam?
- Oes gwahaniaeth yn beth wyt ti'n ei wneud gyda ffrindiau o'r ysgol a ffrindiau o du allan i'r ysgol?
 - Pam?

12. Breuddwydion

- Pan oeddet ti'n ifanc, beth oeddet ti eisiau bod?
- Beth wyt ti eisiau wneud ar ôl Ysgol?
- Beth yw 'dream job' ti?

13. Gwaith

- Oes gen ti swydd, neu wyt ti erioed wedi cael swydd rhan amser?
 - Disgrifia be fyddai'n digwydd mewn shift arferol, dy ddyletswyddau.
 - Sut ges di'r swydd?
 - Pa mor aml fyse ti'n gweithio?

14. Iaith

- Wyt ti'n siarad Cymraeg yn y gwaith?
 - Oes wyt ti, wyt ti'n siarad Cymraeg yn wahanol yn y gwaith i beth fyse ti gyda dy ffrindiau?
 - Fyse ti'n gyfforddus yn siarad Cymraeg fel wyt ti gyda dy ffrindiau yn y gwaith?
 - Wyt ti'n teimlo dy fod ti'n siarad yn wahanol yn Gymraeg yn dibynnu ar pwy ti'n siarad gyda? Esbonia:
 - Beth am yn Saesneg?
 - Pa mor aml wyt ti'n siarad Cymraeg?
 - Gyda phwy?
 - Beth am yn Saesneg?
- Sut fath o Gymraeg mae'r athro _____ yn siarad?

- Ydy e'n wahanol i dy un di?

- Sut?

- I fynd nol at grwpiau ysgol, wyt ti'n meddwl bod grŵpiau gwahanol yn y dosbarth yn siarad yn wahanol?

- Rhowch enghraifft o'r math o bethau mae grŵp X yn ei wneud o'i gymharu â grwp Y

- Oes unrhyw beth rydych chi'n ddweud sy'n wahanol i rai o bobl eraill yn dosbarth?

- Oes unrhyw beth arall unigryw am eich iaith chi – unai'n Gymraeg neu Saesneg? Geiriau, neu pronounciations er enghraifft?

Atodiad D: Rhestr o eiriau

Darllenwch y geiriau, os gwelwch yn dda. Dechreuwch o'r cyntaf ar y chwith, ac ewch i lawr.

Dadlau	Cwpan	Rhifau	Yr Almaen	Troed	Llysaen
Atsain	Dinas	Eisiau	Cyfraith	Rydw i	Car
Dewis	Geraint Thomas	Ar sail	Llau Pen	Edrych lan	Sain
Tad	Tôn	Cloch	Stôl	Weithiau	Yn y bôn
Na	Rhŵd	Paned	Caerdydd	Adain	Cymylau
Maes	Moch	Pob lwc	Saethau	Aur	Barf
Cŵn	Ar ôl	Paent	Draw	Gwaed	Blaidd
Carreg	Papur	Aur	Prydain	Ffôn	Cae
Urddas	Ofnadwy	Dilyn	Pob lwc	Caniatâd	Iau
Patrwm	Gwasanaeth	Coed	Ebychiadau	Mab	Pwll glo
Gŵr	Pan	Dwyrain	Côd	Trawiadau	Cath
Paid	Mae'n iawn	Traeth	Llw	Parchu	Safwn
Mantais	Meddai Dafydd	Lleihad	Bod	Afal	Gorau
Drysau	Roced	Siŵr	Gafr	Gwau	Barn
Canfod	Ofnadwy	Llo	Adain	Dinasoedd	Talaith
Haul	Gronynnau	Caethwas	Tatws	Adeiladaeth	Adran
Mis Mai	Aeth	Dechrau	Caergrawnt	Llysiau	Pôs
Ffaith	Tai bach	Dwyrain	Llais	Cerddais i	Cau
Darn	Cwm	Cadair	Ufuddhau	Ar draul	Cwmni
Mam	Sbaen	Glanhau	Coed	Sgerbwd	Brain
Pwdin	Ffwrdd	Drych	Delfrydol	Cwrdd	Aeth
Aer	Cymdeithasu	Rhaid	Cnau	Gwahaniaeth	Cwbl
Parhad	Glantaf	Llyfrau	Tâp	Perffaith	Caled
Gwag	Dŵr	Sŵn	Siôn	Cloch	Angau
Nhw	Clo	Tôn	Cael	Gŵn	Pabi
Sôs coch	Cywair	Addasu	Parhau	Rôl	Wythnosau
Herwgipto	Sibrwd	Bag	Ebychiadau	Mwynha	Dal
Paced	Cais	Cwblhau	Adain	Asyn	Taith
Cadw	Dau	Taranau	Cacennau	Ael	Haidd
Sarhau	Llandaf	Lleihad	Sŵ	Dail	Addas

Boch	Côr	Cŵd	Ffôs	Blaenoriaeth	Cart
Rhyddhad	Dewis	Chwarae	Ansoddair	Drewi	Bro
Pam	Dod	Môr	Drysau	Adain	Amau
Dal	Gwaith cartref	Nôd	Ymlaen	Llywodraeth	Côl